# Adolygiadau Digartrefedd Gwent 2018





CRYNODEB............................................................................................................................2

CYFLWYNIAD .......... 6
DULLIAU YMCHWIL .......... 8
DIFFINIADAU: DIGARTREFEDD .......... 10
1. Y CYD-DESTUN EHANGACH: THEMÂU A PHOLISÏAU .......... 11
2. Y CYD-DESTUN EHANGACH: CYSYLLTIADAU STRATEGOL ALLWEDDOL .......... 25
3. DADANSODDIAD EHANGACH: POBLOGAETH, IECHYD, TLODI AC INCWM .......... 34
4. DADANSODDIAD LLEOL: LLETY .......... 44
5. DADANSODDIAD LLEOL: Y DEFNYDD AR WASANAETHAU DIGARTREFEDD STATUDOL – ACHOSION A GRWPIAU CLEIENTIAID .......... 60
6. DADANSODDIAD LLEOL: ADNODDAU A GWELLIANNAU .......... 103
7. DADANSODDIAD LLEOL: DEFNYDD AWDURDODAU LLEOL O GYLLID STATUDOL .......... 177

## Crynodeb

Mae'r pwyntiau a amlygir yn y crynodeb hwn yn adlewyrchu ffocws Strategaeth Digartrefedd Ranbarthol Gwent 2018-22 ac yn crynhoi'r prif bwyntiau a dynnir o'r adolygiadau digartrefedd. Mae'r adolygiadau'n ystyried nifer o themâu sy'n ymwneud â digartrefedd – mae hyn yn hanfodol ar gyfer cynllunio strategol gan fod y materion mor gymhleth.

- Trwy ymdrin ag achosion gwreiddiol digartrefedd, caiff ystod eang o broblemau cymdeithasol eraill ei lleihau. Mae'n seiliedig ar bolisïau llwyddiannus Llywodraeth Cymru (LlC) a Llywodraeth San Steffan mewn meysydd megis yr economi, tai, diwygio lles, cyllid cyhoeddus, Cefnogi Pobl (CP), tlodi, cydraddoldeb ac iechyd.
- Darparu llety priodol gyda'r math cywir o gymorth; cyflwyno'r gwasanaethau gorau posib wrth nodi pobl sydd yn y perygl mwyaf o fod yn ddigartref cyn gynted â phosib. Dyma'r egwyddorion hanfodol sy'n sail i'r strategaeth digartrefedd newydd.
- Gwaith partneriaeth a chydgynllunio: mae comisiynu a darparu gwasanaethau (gan adrannau mewnol a phartneriaid allanol) yn hollol hanfodol.
- Mae sawl thema gyffredin i ddigartrefedd y gellir eu defnyddio i feithrin gwaith partneriaeth a sicrhau canlyniadau sydd o fudd i wahanol randdeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth (ledled Gwent ac yn yr awdurdod lleol).
- Mae'n bwysig i awdurdodau lleol a'u partneriaid nodi sut byddant yn gweithio gyda'i gilydd i leihau digartrefedd, gan adolygu cytundebau a pherfformiad o bryd i'w gilydd (yn benodol gyda phartneriaid yr oedd yn fwy anodd ymgysylltu â nhw yn y gorffennol). Mae'n hanfodol sicrhau bod prosesau ymyrryd yn gynnar ac atgyfeirio effeithiol ar waith i bartneriaid gydweithio â'i gilydd.
- Mae cyfle pellach i gynghorau Gwent leihau nifer y strategaethau a chydlynu fwy yn rhanbarthol.
- Gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn gyfryngau addas i helpu i integreiddio Strategaeth Digartrefedd newydd Gwent a chyflwyno cynlluniau gweithredu digartrefedd.
- O ystyried y pwysau cyson ar gyllidebau a gwasanaethau a'r setiau sgiliau amrywiol y mae eu hangen i helpu pobl ddigartref, ni ddylai awdurdodau lleol a'u partneriaid anghofio pwysigrwydd hyfforddiant i staff.
- Yn ôl Asesiad Anghenion y Boblogaeth Adran Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent, mae Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen yn ardaloedd difreintiedig gyda lefelau uchel o dlodi plant, afiechyd a diweithdra. Disgrifiwyd Sir Fynwy yn gefnog ac yn wledig ond gyda phoblogaeth gynyddol oedrannus, ac mae gan Gasnewydd ardaloedd difreintiedig, nifer uchel o ddinasyddion amlddiwylliannol a galw uchel ar wasanaethau cyhoeddus.
- Yn fras, mae'r gwahaniaeth o ran demograffeg boblogaeth ar draws Gwent yn sylweddol mewn rhai carfannau, ond yn weddol gyson yn gyffredinol – gweler Tabl 3.4.1 am fwy o fanylder.
- Dylai gwasanaethau digartrefedd barhau i weithredu o fewn yr amgylchedd hwn dros oes y strategaeth. Mae'r prif beryglon all effeithio ar ddigartrefedd yn ymwneud ag ansefydlogrwydd economaidd posib ac ansicrwydd ynglŷn â sefyllfa fasnachu'r DU yn y dyfodol (h.y. BREXIT), toriadau cyllid cyhoeddus, diwygio lles, costau byw cynyddol, cynnydd yn anghydraddoldeb incwm aelwydydd, tlodi, iechyd a diffyg digon o dai fforddiadwy. Cafodd yr holl faterion hyn eu nodi sawl gwaith yn ystod yr ymgynghoriad.

- Mae'r angen am dai yn newid trwy'r amser ac ar draws Gwent, mae'n debygol y bydd y galw am dai yn gyffredinol uwch na'r nifer sydd ar gael dros gyfnod y strategaeth digartrefedd (oni bai bod mwy o dai fforddiadwy'n cael eu creu/hailddefnyddio yn gyflymach). Yn gyffredinol, mae'r broblem hon yn debygol o fod yn fwy amlwg yn Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.
- Mae'n hollbwysig gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol a phreifat ar draws Gwent er mwyn atal digartrefedd.
- Am gartrefi bach (1 neu 2 ystafell wely) mae'r angen ar draws Gwent gan mwyaf. Disgwylir i'r duedd hon barhau dros gyfnod y strategaeth fel y nodir gan yr Asesiadau o Farchnad Dai Leol Gwent.
- Mae nifer posib o aelwydydd cudd ac efallai o bobl 'ddigartref gudd' yn sylweddol a heb ei fesur i raddau helaeth.
- Byddai mesurau sy'n gwneud defnydd o dai cymdeithasol gwag hirdymor, yn enwedig ym Mlaenau Gwent a Chaerffili, yn cael eu croesawu.
- Yn gyffredinol, nid yw'n debygol iawn y bydd modd darparu tai fforddiadwy'n gyson i ateb y galw dros gyfnod y strategaeth gan mai ychydig iawn o gartrefi gwag sy'n cael eu hadfer i ddefnydd bob blwyddyn.
- Yn y sector rhent preifat ar draws Gwent, mae cartrefi mwy o faint yn debygol o fod yn fwy fforddiadwy i'w rhentu ym Mlaenau Gwent a Chaerffili, o'u cymharu ag awdurdodau eraill Gwent.
- Mae'r gwahaniaeth o ran rhent rhwng cyfradd yr ystafelloedd a rennir a rhenti'r farchnad yn dangos yn glir pam mae angen i dai fforddiadwy ar gyfer aelwydydd dan 35 oed fod yn brif ffocws.
- Mae rhai o awdurdodau lleol Gwent yn well wrth wario eu cyllideb Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn nag eraill – mae Blaenau Gwent wedi gwneud gwelliannau yn hyn o beth dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Mae ôl-ddyledion yn parhau i fod yn broblem sylweddol i denantiaid tai cymdeithasol.
- Mae gan Sir Fynwy y tai preifat drutaf o'i chymharu â gweddill Gwent, sy'n awgrymu y bydd cynlluniau perchentyaeth rad yn arbennig o bwysig yn Sir Fynwy.
- Mae'r sector preifat a'r trydydd sector (ar wahân i lety dros dro awdurdodau lleol unigol) yn hanfodol ar draws Gwent er mwyn lleihau digartrefedd.
- Er bydd yr angen am lety dros dro yn parhau, mae cynghorau Gwent yn gweithio i leihau'r amser y mae aelwydydd yn ei dreulio mewn llety dros dro cymaint â phosib. Dylid nodi y gallai unrhyw newidiadau i'r statws angen blaenoriaethol yng Nghymru yn y dyfodol wneud hynny'n llawer anos i awdurdodau ei gyflawni.
- Y cyngor lle mae'r galw mwyaf am ei wasanaeth digartrefedd yw Casnewydd, yna Caerffili, Torfaen, Blaenau Gwent a Sir Fynwy. Ni ddisgwylir i'r duedd hon newid dros gyfnod y strategaeth.
- Ymddengys fod nifer yr achosion llwyddiannus o atal digartrefedd (Adran 66) ar draws Gwent wedi lleihau'n gyffredinol dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf. Mae canlyniadau Adran 73 llwyddiannus hefyd wedi lleihau bron blwyddyn ar flwyddyn ar draws Gwent - sy'n duedd y bydd rhaid i'r strategaeth newydd ganolbwyntio ar fynd i'r afael â hi.
- Bydd gweithredu systemau 'brysbennu' effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau digartrefedd a sicrhau cynifer o ganlyniadau Adran 66 llwyddiannus â phosib i atal uwchgyfeirio i ddyletswyddau adrannau 72 a 75 yn fwyfwy hanfodol.
- Yn gyffredinol ni ellir bodloni disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth bob tro ac mae angen i awdurdodau lleol wella cyfathrebu yn hyn o beth.

- Bydd yn hanfodol i awdurdodau lleol Gwent ganolbwyntio ar gydlynu mynediad i fwy o lety dros dro yn y rhanbarth. Mae angen enbyd am lety dros dro priodol yng Ngwent (a hefyd llety fforddiadwy i bobl sengl). Byddai'n hawdd i'r angen am lety dros dro droi hyd yn oed yn fwy difrifol pan na ddefnyddir y prawf bwriad mwyach ar gyfer aelwydydd â phlant erbyn 2019.
- Dylai gwella systemau a chymorth i aelwydydd sy'n symud o lety dros dro a thai cymorth fod yn ffocws allweddol.
- Dylai awdurdodau lleol Gwent gydweithio er mwyn sicrhau y caiff ystadegau digartrefedd eu cofnodi mor gyson â phosib. Yn ogystal â hyn, byddai hefyd yn fuddiol i Lywodraeth Cymru adolygu a diweddaru gofynion cofnodi WHO12, gyda mwy o sylw ar ansawdd y gwasanaethau digartrefedd statudol a ddarperir, yn ogystal â llwyddiant ymyriadau, a allai nodi cyfleoedd i'w gwella ymhellach.
- Dylai pob cyngor ganolbwyntio ar weithgareddau sy'n rhwystro ac, yn ddelfrydol, atal perthnasoedd rhag chwalu, ôl-ddyledion rhent a cholli llety a rentir/llety clwm, gan y gall y ffactorau hyn yn aml arwain at ddigartrefedd.
- Ar gyfartaledd pobl ifanc 16-24 oed, aelwydydd pobl sengl a gwrywod sydd amlycaf ymhlith y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd ac mae'n debygol y bydd angen mwy o gymorth arnynt yn y dyfodol. Petai canlyniadau atal llwyddiannus yn cael eu cyflawni gyda'r grwpiau hyn, byddai'n arbed adnoddau y gellir eu defnyddio wedyn i gynorthwyo aelwydydd mewn demograffeg eraill e.e. Gallai Sir Fynwy a Thorfaen roi mwy o sylw ar y rhai dros 25 oed, a gallai Casnewydd ganolbwyntio ar bobl Asiaidd/Asiaidd Prydeinig a phobl sydd wedi'u categoreiddio fel 'ethnigrwydd arall'.
- Dylai awdurdodau lleol Gwent a'u partneriaid weithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni'r nod cyffredinol o leihau pob achos o ddefnyddio gwely a brecwast i ddim o hyn ymlaen.
- Dylai gweithgareddau sy'n lliniaru cam-drin domestig fod yn ffocws allweddol – yn benodol mewn aelwydydd lle mae plant dibynnol.
- Mae'r rhai sy'n gadael y carchar a'r rhai sy'n gadael sefydliadau neu ofal mewn perygl trwy'r amser o fynd yn ddigartref, gyda'r rhai sy'n gadael y carchar yn benodol mewn perygl o gysgu ar y stryd. Gall ystyried rhaglenni ymadfer ac adsefydlu arbenigol fod yn ymagwedd effeithiol.
- Mae aelwydydd sengl yn fwy tebygol o brofi aflonyddu oherwydd nodwedd a ddiogelir yn achosi problem ddigartrefedd (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Dylai cynghorau Gwent geisio gweithio'n fwy ar rwystro hyn.
- Mae fforddiadwyedd tai yn parhau'n broblem allweddol – mae aelwydydd gyda phlant dibynnol yn fwy tebygol o gronni ôl-ddyledion rhent yn y sectorau tai preifat a chymdeithasol.
- Mae cyngor ar ddyled, taliadau ariannol, datrys problemau gyda budd-daliadau, ac ôl-ddyledion rhent a thaliadau gwasanaethau'n cael yr effaith fwyaf wrth geisio helpu aelwydydd i aros yn eu cartrefi ac atal digartrefedd, felly dylid ehangu'r ffocws yn y meysydd hyn os bo modd.
- Gallai cyfryngu fod yn llai effeithiol gyda phobl ifanc a dylid ystyried dewisiadau eraill yn y dyfodol.
- Rhaid i bob awdurdod lleol ymgysylltu â landlordiaid preifat a gweithio gyda nhw i fodloni eu disgwyliadau. Mae'n anochel y bydd amrywio ym mhob awdurdod lleol gan fod marchnadoedd yn amrywio ac nad yw cynnig ysgogiadau'r unig ffactorau i'w hystyried er mwyn ymgysylltu'n llwyddiannus. Mae angen i ddarganfod ffyrdd newydd o ddatblygu perthnasoedd cydfuddiol rhwng cynghorau a landlordiaid

preifat fod yn ffocws allweddol (yn benodol yn Sir Fynwy).

- Mae'n mynd yn fwy anodd cael cynnig tai cymdeithasol yn Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen, sy'n arwain at ddibyniaeth gynyddol ar fathau eraill o dai, megis y sector rhent preifat. Dylai cynghorau weithio gyda landlordiaid cymdeithasol i wrthdroi'r duedd hon.
- Mae defnyddwyr gwasanaeth yng Ngwent sy'n mynd yn ddigartref dro ar ôl tro yn llawer llai tebygol o fyw mewn cartref sefydlog hirdymor.
- Dylai cynghorau ystyried sut gallant gofnodi a rhoi tystiolaeth o'r gwaith ataliol a wneir i atal digartrefedd (gan gynnwys mewn perthynas â gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau cysylltiedig, megis gwasanaethau a ariennir trwy Cefnogi Pobl.
- Dylai cynghorau weithio i ddeall y rhesymau am yr adegau pan fod defnyddwyr gwasanaeth yn colli diddordeb ac yna dylid gweithio i fynd i'r afael â'r achosion.
- Mae sawl tuedd wahanol mewn perthynas â chysgwyr ar y stryd yn awdurdodau Gwent e.e. mae cysgwyr ar y stryd yn fwy cyffredin yng Nghasnewydd, mwy na thebyg oherwydd ei bod yn ddinas, ond mae cysgu ar y stryd yn broblem enbyd ar draws Gwent – mae 76% o bob ymatebydd sy'n cysgu ar y stryd wedi cysgu allan sawl tro.
- Yn achos cysgwyr ar y stryd yng Ngwent, perthnasoedd yn chwalu a cholli tai yn sbardunau pwysig iawn sy'n gallu arwain at gysgu ar y stryd yng Nghymru.. Mae camddefnyddio sylweddau hefyd yn ffactor allweddol, felly hefyd y posibilrwydd o golli rhwydweithiau cymorth/cymdeithasol. Mae mynd i'r ddalfa neu'n cael ei ryddhau o'r ddalfa hefyd yn sbardun pwysig iawn.
- Nododd yr arolwg defnyddwyr gwasanaeth nifer o achosion sy'n gysylltiedig â digartrefedd: camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, iechyd meddwl, hanes o droseddu, rhyddhau o'r ddalfa, perthnasoedd yn chwalu, dyled a diffyg tai fforddiadwy, diwedd tenantiaeth, gwahardd o'r ysgol, diweithdra, cam-drin domestig, mynediad gwael i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gadael gofal a cham-drin rhywiol a/neu gorfforol, byw mewn tai anaddas oherwydd nam corfforol neu synhwyraidd. Byddai hyn yn atgyfnerthu'r hyn a ddywedwyd gan staff yr awdurdodau lleol yn ystod yr ymgynghoriad; hynny yw bod cymorth dwys pwrpasol ar y cyd â Housing First yn hanfodol. Mae hyn dangos pam mae'n rhaid i gynghorau gael gwybod y datblygiadau diweddaraf trwy'r amser am y gwasanaethau a weithredir gan bartneriaid a pham mae angen darparu dewis eang o gymorth (sy'n seiliedig ar y person) i fynd i'r afael â digartrefedd.
- Roedd yr arolwg defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn awgrymu bod nodweddion rhai defnyddwyr gwasanaeth yn llawer mwy cyffredin nag eraill o ran y rhai sy'n troi dro ar ôl tro at wasanaethau digartrefedd h.y. maent yn debygol iawn o fod yn sengl ac yn wryw ac o feddu ar broblemau cymdeithasol neu feddygol cronig a/neu anabledd.
- Maes arall i'w ystyried ymhellach yw sut mae aelwydydd sy'n 'gymwys ond nad oes angen blaenoriaethol arnynt' yn cael eu cynorthwyo a sut rhoddir tystiolaeth o hyn.
- Wrth gynllunio gwasanaethau i'r dyfodol, mae angen ystyried lleisiau'r rhai sydd wedi profi digartrefedd; cyfeiriwyd at ymchwil sydd eisoes wedi'i gwneud (Project Daliwch Sylw Shelter Cymru ac adroddiad Cymorth Cymru – Arbenigwyr wrth brofiad: Gwrando ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau CP yng Nghymru – 2017). Hefyd bydd cynlluniau gweithredu'n ymdrin â chyfleoedd dysgu yn y dyfodol gan gyn-ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r adolygiadau wedi ceisio ychwanegu at yr

agenda hon.
- Yn olaf, ceir monitro canlyniadau a gwerthuso perfformiad yn y pum cynllun sy'n deillio o'r strategaeth digartrefedd newydd.

## Cyflwyniad

Mae atal a datrys digartrefedd yn parhau'n flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal adolygiad digartrefedd a chan ddefnyddio'r canlyniadau a geir drwy hynny, lunio strategaeth digartrefedd pedair blynedd i fod ar waith erbyn 31 Rhagfyr 2018 (gweler adrannau 50-52 y Ddeddf). Mae'r ddogfen hon yn adolygu digartrefedd yn ardaloedd pum awdurdod lleol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae pob un o'r pum awdurdod wedi cydweithio i gymryd ymagwedd ranbarthol a lleol at y gwaith hwn. Yn ogystal â gwneud gwell defnydd o adnoddau, disgwylir i olwg ehangach greu rhagor o gyfleoedd i gydweithio yn y dyfodol, gan gefnogi cysondeb a safon wrth ddarparu gwasanaethau digartrefedd ar draws y rhanbarth.

Mae'r adolygiadau'n dadansoddi natur a maint digartrefedd yng Ngwent, gan gynnwys yn benodol:

- Yr amgylchedd ehangach y mae gwasanaethau digartrefedd yn gweithredu ynddo
- Y llety sydd ar gael i atal a lliniaru digartrefedd
- Y galw am wasanaethau a thueddiadau digartrefedd – lefelau digartrefedd yn y gorffennol, ar hyn o bryd a'r rhai a amcangyfrifir i'r dyfodol
- Prif achosion digartrefedd
- Yr adnoddau sydd ar waith ar hyn o bryd i atal digartrefedd, cefnogi'r rhai sy'n ddigartref a nodi bylchau posib
- Meysydd posib i'w gwella
- Yr adnoddau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau digartrefedd statudol

Mae pob un o'r pum awdurdod wedi ymrwymo i strategaeth digartrefedd pedair blynedd ar gyfer Gwent gyfan. Caiff y ddogfen hon a'r strategaeth sy'n cyd-fynd â hi eu cyhoeddi a'u cyflwyno i'r cyhoedd erbyn diwedd 2018. Disgwylir i'r strategaeth fod ar waith ar yr un pryd.

Mae'r pum awdurdod yn bwriadu i'r strategaeth beidio â bod yn fwy nag un dudalen ac iddi fod yn ddogfen y cyfeirir ati'n eang o hynny ymlaen; iddi gael ei defnyddio fel rhan annatod o gynllunio a chydlynu gwasanaethau digartrefedd a chysylltiedig gan dimau'r awdurdodau lleol a'u partneriaid allanol. Er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd ac, yn benodol, ei atal, mae angen i randdeiliaid weithio gyda'i gilydd yn gynhyrchiol ac roedd hyn yn egwyddor sylfaenol wrth lunio'r strategaeth.

Wrth ddefnyddio'r adolygiadau a'r strategaeth, bydd pob awdurdod lleol yn cynhyrchu ei gynlluniau pwrpasol ei hun i gyflawni camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â digartrefedd yn ei ardal, gan barhau i ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid fel sy'n briodol, ac yn seiliedig ar yr adolygiadau a'r strategaeth. I sicrhau cynaliadwyedd a safon gorau posib ffactorau bywyd, mae asesiad lles wedi'i gynnal, trwy'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Caiff y cynlluniau gweithredu eu hadolygu o dro i dro yn ystod cyfnod y strategaeth (felly hefyd y strategaeth digartrefedd ei hun) gan bob awdurdod lleol, fel y bydd yn parhau i ymateb i anghenion a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg a'r amgylchedd sy'n fythol newid.

## Dulliau Ymchwil

Mae’r wybodaeth a gasglwyd ac a ddadansoddwyd i gwblhau’r adolygiadau yn eang ei chwmpas. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd bod digartrefedd yn gymaint o broblem barhaus a chymhleth; mae dealltwriaeth eang yn hanfodol.

Cyfeirir at ddogfennau polisi, ymchwil ac ystadegau allweddol trwy gydol y ddogfen hon – er mwyn rhoi trosolwg o’r amgylchedd ehangach y mae gwasanaethau digartrefedd yn gweithredu ynddo ar draws Gwent ac i ategu’r adolygiadau.

Mae’r adolygiadau hefyd yn dibynnu ar wybodaeth werthfawr a gasglwyd yn ystod adborth o ymarferion ymgynghori. Defnyddiwyd y mewnwelediad cyfredol hwn yn benodol i ddatblygu’r gwelliannau a amlinellir yng nghynlluniau gweithredu strategol pob awdurdod lleol.

Dyma’r dulliau a ddefnyddiwyd i gyfeirio’r adolygiadau:

- Adolygiad bwrdd gwaith o ddogfennaeth allweddol, data ystadegol ac enghreifftiau o achosion digartrefedd o bob un o’r pum cyngor.
- Grwpiau ffocws a thrafodaethau grŵp â staff allweddol yn y pum cyngor (o adrannau sy’n berthnasol i baratoi a gweithredu cynlluniau digartrefedd). Defnyddiwyd dadansoddiadau cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) a gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technoleg a deddfwriaeth (PESTL) a chyfweliadau lled-strwythuredig.
- Grwpiau ffocws gyda darparwyr Cefnogi Pobl yn defnyddio dadansoddiadau SWOT a PESTL a thrafodaethau grŵp ar thema.
- Digwyddiad rhanbarthol i gasglu adborth gan ddarparwyr gwasanaethau, partneriaid a rhanddeiliaid eraill. (Gwahoddwyd dros 400 o unigolion o sefydliadau cynrychioliadol o bob rhan o Went a daeth 140 o bobl i’r digwyddiad, gyda chynrychiolwyr yn ymdrin â phob un o’r 25 thema a nodir yn Adran 6 y ddogfen hon.)
- Arolygon gyda phobl sydd wedi cael profiad personol o wasanaethau digartrefedd a chysylltiedig ar draws Gwent – gan ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth, risgiau o gael newid ac anghenion cymorth amrywiol (cafwyd 165 o ymatebwyr).
- Ymgysylltu’n uniongyrchol â grwpiau defnyddwyr gwasanaeth gwahanol.

Darperir gwasanaethau digartrefedd gan asiantaethau statudol a gwirfoddol ac mae’n rhaid iddynt gael eu dylunio ar sail anghenion a dewisiadau defnyddwyr gwasanaeth cymaint â bod hynny’n ymarferol bosib. Felly mae ymgynghori a gwaith partneriaeth wedi bod wrth wraidd datblygu’r adolygiadau a’r strategaeth ynglŷn â digartrefedd. Bydd hyn yn parhau i fod yn elfen bwysig iawn, wrth i gynlluniau

gweithredu digartrefedd ddatblygu ym mhob un o'r pum awdurdod lleol dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r data a gasglwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth wedi cael eu gwneud yn anhysbys. Gofynnwyd i'r asiantaethau statudol a gwirfoddol (sydd wedi helpu i gynnal yr arolygon hyn) helpu i sicrhau bod caniatâd defnyddwyr gwasanaeth wedi'i roi gyda gwybodaeth lawn a bod pawb wedi cyfranogi'n gydsyniol.
Ystyrir y pum awdurdod lleol mewn cysylltiad â'i gilydd trwy gydol y ddogfen hon a'u cymharu â Chymru gyfan lle bo'n briodol.

Mae'r holl wybodaeth a gasglwyd wedi cael ei dadansoddi gan dynnu elfennau sylfaenol ohoni er mwyn strwythuro'r adolygiadau (a'r cynlluniau gweithredu strategol) ac ymateb i'r pwyntiau a amlinellwyd yn y cyflwyniad. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei grynhoi'n themâu a geir yn y strategaeth digartrefedd ar ffurf gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd ac amcanion strategol, gyda mwy o fanylder penodol yn y cynlluniau gweithredu.

## Diffiniadau: Digartrefedd

Fel trosolwg cyffredinol, o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Adran 55), ystyrir bod person yn ddigartref yn yr amgylchiadau canlynol:

- Nid oes ganddo lety yn y DU neu yn rhywle arall lle gall fyw ynddo*.
- Mae llety ganddo ond ni all gael mynediad iddo.
- Mae'r llety'n adeiledd symudol (e.e. carafán) ond nid oes gan y person le i'w osod i fyw ynddo.

* Os nad ystyrir ei bod yn rhesymol i rywun barhau i fyw mewn llety, byddai hefyd yn cael ei ystyried yn ddigartref.

Ystyrir bod rhywun mewn perygl o fod yn ddigartref yn yr amgylchiadau canlynol:

- Mae'n debygol o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod.

Ceir cryn fanylder yn Neddf Tai (Cymru) 2014 a Chod Canllawiau Dyrannu Llety a Digartrefedd Llywodraeth Cymru, gyda'r ddau yn cynnwys nifer o ddiffiniadau o ddigartrefedd. Ceir diffiniadau eraill hefyd sy'n ymwneud â'r data digartrefedd y mae awdurdodau lleol yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru bob tri mis. Hefyd ceir rhagor o ddiffiniadau yn y Polisïau a'r Gweithdrefnau Dyrannu Tai Cyffredin a weithredir gan bob un o'r pum cyngor yng Ngwent.

Mae diffiniad eang o ddigartrefedd wedi cael ei ddefnyddio i strwythuro'r adolygiadau sy'n ymwneud â phobl:

- Y mae dyletswyddau digartrefedd statudol yn ddyledus iddynt o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (h.y. adrannau 66, 63, 73 a 75).
- Sy'n cysgu ar y stryd
- Sy'n byw mewn llety anniogel/dros dro – ac eithrio tenantiaethau sicr/byrddaliad sicr (e.e. eiddo sector preifat a brydlesir gan gyngor)
- Sy'n byw mewn llety tymor byr (e.e. gwely a brecwast neu hostel mynediad uniongyrchol)
- Sy'n ddigartref guddiedig (e.e. rhywun yn cysgu ar soffa ffrindiau neu berthnasau neu rywun sy'n sgwatio)
- Nad ydynt yn gallu aros yn eu cartref neu ddychwelyd iddo (e.e. perthynas wedi chwalu neu gam-drin domestig)
- Sy'n byw mewn sefydliad heb gartref i fynd iddo (e.e. ysbyty neu garchar)

# 1. Y Cyd-destun Ehangach: Themâu a Pholisïau

1.1. Mae digartrefedd yn fater cymhleth. Ni ellir atgynhyrchu cwmpas llawn y ddeddfwriaeth, y polisïau a'r ymchwil sy'n gysylltiedig â digartrefedd yma. Fodd bynnag, caiff nifer o elfennau allweddol sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol eu trafod isod ac mae'r rhain wedi cael eu defnyddio i fframio'r adolygiadau:

| | |
|---|---|
| **1.1.1 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 nodau eang eu cwmpas: sicrhau gwelliannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd hirdymor/cynaliadwy yng Nghymru, gan leihau goblygiadau negyddol i genedlaethau'r dyfodol. Ceir cysylltiadau clir rhwng y Ddeddf a digartrefedd. Er enghraifft, mae atal digartrefedd yn un o'r 46 'dangosydd cenedlaethol' sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf. I bob pwrpas mae'r Ddeddf yn sail i strategaeth digartrefedd Gwent a'r cynlluniau sy'n deillio ohoni. |
| **1.1.2 Polisi Digartrefedd** | Yn 2009 cyflwynodd LlC ei Chynllun Digartrefedd 10 Mlynedd. Ei phum egwyddor oedd atal digartrefedd; gweithio cydlynol; rhoi'r defnyddiwr gwasanaeth wrth wraidd darpariaeth gwasanaethau; cynhwysiant a chydraddoldeb mynediad; a gwerth am arian. Mae'r fath elfennau'n amlygu'r themâu ailadroddus sy'n gysylltiedig â pholisi digartrefedd - mae'r pum egwyddor hyn yn parhau i fod yn hynod berthnasol a chawsant eu hymgorffori yn y strategaeth newydd . Ers hynny mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi gwneud newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth ynghylch digartrefedd yng Nghymru. Un enghraifft allweddol yw'r gallu i ryddhau dyletswyddau digartrefedd gan ddefnyddio'r sector preifat. Mae tystiolaeth gref bod mesurau'r Ddeddf wedi arwain at waith ataliol mwy effeithiol yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar y person ac ar ganlyniadau (gweler The Homelessness Monitor: Wales 2017 gan Crisis). Fel gyda pholisi LlC, bydd atal digartrefedd ac ymyrryd yn gynnar yn ei gylch (gweler Cod Canllawiau 2016 ar gyfer Awdurdodau Lleol o ran Dyrannu Llety a Digartrefedd) yn parhau i fod yn brif nod strategaeth Gwent. |
| **1.1.3 Cyllid yr Awdurdodau Lleol – Gwasanaethau Digartrefedd** | Mae newidiadau i gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y gwaith tymor hwy i gynllunio a datblygu gwasanaethau digartrefedd statudol. Soniwyd am y mater hwn sawl gwaith gan staff y Cyngor a rhanddeiliaid eraill yn ystod yr ymgynghoriad. Ers cael gwared ar y ffi rheoli llety dros dro ym mis Ebrill 2017, symudodd cyllid cyfatebol i'r Grant Cynnal Refeniw (GCR) sydd bellach yn gallu cael ei ddefnyddio'n ehangach i atal digartrefedd. Ond, yn bwysig iawn, gallai rhoi'r arian yn y GCR hefyd beryglu'r cyllid a ddarperir gan gynghorau i helpu i ariannu costau llety dros dro a/neu atal digartrefedd. Yn yr un modd, soniwyd sawl gwaith am natur anrhagweladwy ac amser rhagarweiniol byr y broses o ariannu |

| | |
|---|---|
| | gwasanaethau digartrefedd yn ystod yr ymgynghoriad. Ym mis Chwefror 2018, rhyddhaodd LlC £2.8 miliwn ychwanegol ar gyfer 2018/19 i wreiddio arfer gorau atal digartrefedd. Er bod y buddsoddiad hwn wedi'i groesawu a'i werthfawrogi, roedd ei hwyrni yn y flwyddyn ariannol yn achosi llawer o heriau a chyfyngiadau i awdurdodau lleol. Bydd unrhyw daliadau ariannu'n parhau i gael eu hystyried wrth iddynt godi a allai gael goblygiadau i strategaeth Gwent a'r cynlluniau sy'n deillio ohoni – sy'n pwysleisio pam dylid adolygu camau gweithredu strategaethau o bryd i'w gilydd a'u diweddaru fel sy'n briodol yn ystod cyfnod y strategaeth. |
| **1.1.4 Gwasanaethau Cefnogi Pobl** | Mae gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cynorthwyo pobl sy'n wynebu neu'n profi digartrefedd yng Ngwent. Er enghraifft, yn Nhorfaen cafodd 5346 o bobl eu cynorthwyo trwy Cefnogi Pobl yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18. Mae LlC yn parhau i feithrin ffordd gysylltiedig o feddwl am wasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl. Mae hyn i'w weld yn ei hargymhelliad i gomisiynu gwasanaethau Cefnogi Pobl sy'n seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd darbodus, yn ogystal ag atal (gweler strategaeth ddrafft Comisiynu Cefnogi Pobl newydd LlC ar gyfer 2018) neu, yn gynyddol, i geisio cysylltu gwasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl ag atal digartrefedd (gweler Adroddiad Cefnogi Pobl 2017 Swyddfa Archwilio Cymru). Yn yr un modd mae Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gwent yn canolbwyntio ar waith partneriaeth – ar draws sawl llinyn cymorth gan gynnwys Cefnogi Pobl, digartrefedd, tai, prawf, iechyd a gofal cymdeithasol Bydd y cyswllt rhwng Cefnogi Pobl (a themâu trawsbynciol eraill a dadansoddir yn yr adran hon) yn gydrannau hanfodol o strategaeth newydd Gwent. Bydd gweithio gyda phartneriaid (rhai mewnol ac allanol) a rhannu arfer gorau i fynd i'r afael â digartrefedd yn cael eu gwreiddio yn y strategaeth newydd. |
| **1.1.5 Ariannu Cefnogi Pobl** | Yn y gorffennol mae cronfeydd Cefnogi Pobl wedi cael eu diogelu yng Nghymru i raddau helaeth. Er y bu peth addasu i'r polisi clustnodi hwn ar gyfer 2018/19 (gweler y cynllun peilot Ariannu Hyblyg/Hyblygrwydd Estynedig) gyda Grant Rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei gynnwys mewn Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth cyfunol newydd. Fodd bynnag, mae LlC wedi nodi bod rhaid cynnal safon y gwasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl – o bosib trwy ddiogelu gwasanaethau i raddau yn ystod 2018/19.<br>Fodd bynnag, dengys dyraniadau cyllideb Hydref 2018 LlC y bydd dwy ffrwd gyllido ar wahân newydd o 2019/20: Grant Plant a Chymunedau a Grant Cymorth Tai. Bydd Grant Cymorth Tai yn cynnwys Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Rhentu Doeth Cymru (gorfodi). Mae LlC hefyd wedi awgrymu y bydd hyn yn parhau am weddill cyfnod y llywodraeth, a bod arian ychwanegol wedi'i glustnodi i leddfu ar ostyngiadau blaenorol i gyllideb 2019/20.<br>Soniwyd yn aml am ansicrwydd parhaus o ran cyllid Cefnogi Pobl gan staff y Cyngor a darparwyr yn ystod yr ymgynghoriad a phwysleisiwyd yng nghyfarfod Rhwydwaith Digartrefedd Awdurdodau Lleol Cymru a gynhaliwyd ar 16.01.18 bod cynnal |

| | |
|---|---|
| | cyllideb/gwasanaethau Cefnogi Pobl yn flaenoriaeth bwysig iawn. Ni waeth sut bydd trefniadau ariannu Cefnogi Pobl yn newid yn y dyfodol, bydd cynllunio, comisiynu a darparu ar y cyd rhwng gwasanaethau digartrefedd a Cefnogi Pobl a gwasanaethau eraill (gan gefnogi gwerth am arian) yn parhau'n gydrannau cwbl hanfodol o'r strategaeth newydd. |
| **1.1.6 Cynlluniau Peilot Ariannu Hyblyg/Hyblygrwydd Estynedig** | Mae cynllun peilot Project Braenaru Ariannu Hyblyg LlC yn cyfuno 10 grant eang eu cwmpas sy'n cefnogi teuluoedd a phobl yng Nghymru sy'n agored i niwed (gan gynnwys y Grant Atal Digartrefedd a'r Grant Cefnogi Pobl), ar sail hyblygrwydd 100%. Mae Casnewydd a Thorfaen yn gweithredu Cynlluniau Braenaru Ariannu Hyblyg yn 2018/19. Mae gan yr awdurdodau lleol eraill yng Ngwent (Blaenau Gwent, Caerffili a Sir Fynwy) Hyblygrwydd Estynedig o 15% ar draws 5 rhaglen grant, gan gynnwys y Grant Cefnogi Pobl, ond nid y Grant Atal Digartrefedd yn ystod yr un cyfnod. Yn ei hanfod nod pob Cynllun Braenaru yw atal neu liniaru anfantais, hwyluso ymyrraeth gynnar, rhoi cymorth a datblygu gwydnwch ymhlith defnyddwyr gwasanaeth (gweler Cylchlythyr Ariannu Hyblyg LlC ar gyfer Mawrth 2018).<br>Heb eglurder gan LlC am barhau â'r cynlluniau peilot Ariannu Hyblyg ac arweiniad am sut bydd y grantiau newydd eu creu yn gweithredu yn 2019/20, bydd ansicrwydd yn parhau o ran sut caiff buddsoddiad mewn atal digartrefedd yn cael ei gynnal a'i glustnodi. O ganlyniad ceir risgiau a gall y rhain gynyddu ar ôl y cyfnod llywodraethu hwn, felly bydd angen monitro trwyadl ac ystyriaeth fanwl ar gyfer llunio'r adolygiad digartrefedd a'r strategaeth digartrefedd nesaf.<br>Mae natur newidiol cyllid LlC a thueddiad i annog ail-ddylunio yn cael goblygiadau sylweddol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd. Mae eto'n pwysleisio angen am gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau ar y cyd (ar sail gwerth am arian) fel elfennau allweddol strategaeth Gwent. |
| **1.1.7 Tai Cymdeithasol** | Mae tai cymdeithasol yn hollbwysig wrth ddarparu cartrefi i aelwydydd sy'n profi digartrefedd yng Ngwent. Yn wir, yn ôl yr arolwg defnyddio gwasanaethau, roedd 40.0% o bob ymatebwr yn ystyried mai tai cymdeithasol oedd yr ateb uniongyrchol i'w ddigartrefedd, ac roedd 76% yn gobeithio y gallai tai cymdeithasol fod yn opsiwn. Roedd 77% o bob ymatebwr yn ystyried mai tai cymdeithasol oedd yr ateb hirdymor i'w ddigartrefedd. Mae cymorth LlC ar gyfer y sector tai cymdeithasol yng Nghymru'n parhau'n gryf a gellir gweld hyn yn Neddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2017 newydd ei sefydlu. Bydd hyn yn cael goblygiadau cadarnhaol uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd dros y blynyddoedd nesaf. Er enghraifft, gallu dileu un parti mewn cyd-denantiaeth o denantiaeth, heb i'r denantiaeth o anghenraid yn dod i ben i aelod yr aelwyd sydd ar ôl. Ond gallai'r Ddeddf gael goblygiadau eraill hefyd - yn un o gyfarfodydd Grŵp Ffocws Staff Cyngor Caerffili a gynhaliwyd ar 24.01.18, awgrymwyd y gallai'r Ddeddf "arafu darparu tai cymdeithasol (trwy) olyniaeth neu (drwy) ragor o gyd- |

| | |
|---|---|
| | denantiaethau'n troi'n denantiaethau un person". Bydd hollbwysigrwydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a thimau awdurdod lleol yn cydweithio'n llwyddiannus yn parhau i gael ei adlewyrchu yn strategaeth digartrefedd newydd Gwent (DS: Cyngor Caerffili yw'r unig gyngor yng Ngwent i gadw ei stoc tai cymdeithasol). Soniwyd sawl gwaith am bwysigrwydd tai cymdeithasol yn ystod yr ymgynghoriad. |
| **1.1.8**<br>**Tai Rhent Preifat** | Fel yn achos tai cymdeithasol, bydd y sector preifat yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu cartrefi newydd i aelwydydd sy'n profi digartrefedd yng Ngwent. Rhwng 2001 a 2013 tyfodd y sector rhent preifat fwy na dwywaith ei faint ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru (gweler adroddiad y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru: The Potential Role of the Private Rented Sector in Wales). Dros y blynyddoedd diwethaf mae LlC wedi ceisio'n fwyfwy i ddatblygu'r sector rhent preifat a gellir gweld hyn trwy Rhentu Doeth Cymru neu fesurau mwy diweddar yn Neddf Rhentu Tai (Cymru) 2016 megis y rhai ar gyfer lleihau nifer y tenantiaid sy'n cael eu troi allan er mwyn dial neu bwysleisio'r angen i gartrefi a rentir fod yn addas i bobl fyw ynddynt. Soniwyd am bwysigrwydd gweithio gyda landlordiaid preifat yn aml gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch adolygiadau digartrefedd Gwent. Fel yn achos landlordiaid cymdeithasol, bydd gweithio ar atgyfnerthu partneriaethau â landlordiaid preifat (yn benodol wrth barhau i gyflwyno Credyd Cynhwysol ledled Gwent) yn parhau'n hollbwysig. |
| **1.1.9**<br>**Llety Dros Dro/Brys** | Bydd cynghorau Gwent yn parhau i ddefnyddio llety dros dro fel sy'n briodol, wrth i'r Timau Atebion Tai yn gweithio gydag aelwydydd i ddod o hyd i ateb mwy parhaol. Yn unol â Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015, bydd angen i Went gyfan barhau i weithio i leihau'r amser mae pobl yn ei dreulio mewn llety dros dro anaddas – yn benodol y defnydd o lety a rennir/gwely a brecwast. Yn aml mae defnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn llety brys yn poeni am ddiogelwch personol; gall hyn fod yn "arbennig o ddwys i bobl ifanc, pobl drawsryweddol a menywod" (gweler hefyd adrannau 1.1.26 ac 1.1.31). Mae hefyd yn annhebygol y bydd amgylchedd hosteli a thai lloches safonol yn addas i wella lles pobl ag anghenion cymhleth (gweler Ending Rough Sleeping – What Works? An International Evidence Review report 2017 gan Crisis). Oherwydd yr angen parhaus am y fath lety, o ganlyniad i'r amgylchiadau brys y gall pobl eu hwynebu neu'r pwysau o ran nifer y cartrefi addas tymor hwy sydd ar gael, mae gan lety dros dro/brys rôl allweddol yn y strategaeth newydd. |
| **1.1.10**<br>**Tai a Chyllid** | Bydd cynlluniau llywodraeth y DU i ddatganoli peth cyllid tai cymorth i LlC (y bwriedir ei roi ar waith ym mis Ebrill 2020) yn cael goblygiadau ar gyfer llety cymorth tymor byr (megis llochesi cam-drin domestig a hosteli i bobl ddigartref). Bydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 hefyd yn effeithio ar reoli tai cymorth; er enghraifft, trwy'r pŵer eithrio dros dro ar gyfer llety cymorth. Unwaith eto gallai newidiadau i gyllid ddylanwadu/effeithio ar y |

| | |
|---|---|
| | cynlluniau sy'n deillio o'r strategaeth newydd, yn benodol os oes newidiadau yn lefelau'r tai cymorth tymor byr o ganlyniad i ostyngiadau neu gymhlethdodau o ran cyllid. |
| **1.1.11 Cysgu ar y Stryd** | Mae lleihau/cael gwared ar gysgu ar y stryd yn faes polisi pwysig i Gynulliad Cymru (yn benodol o ran y model Tai yn Gyntaf). Ymhlith yr egwyddorion allweddol yng Nghynllun Gweithredu Cysgu ar y Stryd newydd LlC ar gyfer 2018 mae atal; gwaith partneriaeth (megis o ran tai, gofal iechyd, cyflogaeth a darparwyr gwasanaethau cymorth); rhannu arfer gorau; gwasanaethau allgymorth, galw heibio a llety; gwasanaethau hyblyg, rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar y person ac yn hawdd eu defnyddio; darparu ar gyfer anghenion y rhai sy'n cysgu ar y stryd; ymagwedd 'gweithwyr allweddol'; ymagwedd dim ail noson ar y stryd; llety brys; Tai yn Gyntaf; a cheisio lleihau profiadau plentyndod andwyol. Sylwer hefyd ar argymhelliad 1 yn adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - Byw ar y Stryd: Atal a Mynd i Afael â Chysgu ar y Stryd yng Nghymru, Ebrill 2018, sy'n annog rhoi blaenoriaeth i bobl sy'n cysgu ar y stryd. Gweler hefyd Ending Rough Sleeping - What Works? An International Evidence Review report 2017. Mae cysgu ar y stryd a'r themâu cysylltiedig wedi'u gwreiddio yn y strategaeth newydd. Bydd yn hanfodol i ddarparwyr gwasanaethau a sefydliadau gwahanol gydweithio er mwyn mynd i afael â chysgu ar y stryd. |
| **1.1.12 Tai yn Gyntaf** | Mae Tai yn gyntaf yn bolisi digartrefedd pwysig arall gan LlC. Mae egwyddorion allweddol yn ei dogfen Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Tai yn Gyntaf 2018 yn cynnwys helpu'r rhai ag anghenion cronig a chymhleth; cefnogi diogelu deiliadaeth; cefnogi gwasanaeth hyblyg, rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar y person ac yn hawdd eu defnyddio; darparu pecynnau cymorth dwys/seicolegol/trawma; rheoli risgiau; ymagwedd 'gweithwyr allweddol'; ysgogi pobl sy'n cysgu ar y stryd; a rhannu arfer gorau. Gall landlordiaid cymdeithasol a phreifat chwarae rhannau allweddol wrth ehangu darpariaeth Tai yn Gyntaf yng Ngwent. Fel yn achos y Cynllun Gweithredu Cysgu ar y Stryd, mae Tai yn Gyntaf wedi'i ymgorffori yn y strategaeth. |
| **1.1.13 Perchen-feddiannaeth** | Mae cefnogaeth y llywodraeth am y sector perchen-feddiannaeth yn y DU yn parhau'n gryf. Caiff hon ei hadlewyrchu yn yr ystod o gynlluniau perchentyaeth fforddiadwy sydd ar waith yng Nghymru, gan gynnwys Cymorth i Brynu, Cymorth Prynu a'r rhaglenni Rhentu i Brynu a Rhanberchnogaeth. Bydd cynlluniau perchentyaeth fforddiadwy a chynlluniau adfywio a gwella tai yn parhau i helpu i wneud perchentyaeth a chynnal a chadw cartrefi yn fwy fforddiadwy yng Ngwent, gan effeithio'n gadarnhaol ar atal digartrefedd a chreu marchnad dai fwy bywiog ar draws Gwent. Mae perchen-feddiannaeth a safon tai'r sector preifat hefyd wedi'u hymgorffori i'r strategaeth. |
| **1.1.14 Cynllunio a Datblygu Tai** | Caiff nod LlC i ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol erbyn diwedd tymor presennol y cynulliad ei ategu gan nifer o ddyraniadau cyllidebol a'r cytundebau cyflenwi tai gyda'r sectorau cymdeithasol a phreifat (gweler Cyllideb 2018-19 LlC). Mae nod |

| | |
|---|---|
| | hefyd i adfer 5,000 o gartrefi gwag presennol i'w hailddefnyddio. Mae manteision amlwg i ddigartrefedd trwy ddarparu rhagor o dai fforddiadwy. Fodd bynnag, mae pwysau parhaus sylweddol sy'n gwrthweithio datblygu tai newydd yn benodol. Yn ddiweddar nododd Comisiwn y Gyfraith (yn yr adroddiad Simplify New Planning Laws in Wales to Create New Homes yn 2017) fod "*complex and overlapping planning laws - slow down the development process, confuse applicants for planning permission and generate unnecessary bureaucracy and cost".* Yn ogystal â hyn, mae peth tir (sy'n amrywio) ar gael i ddatblygiadau tai hyfyw yng Ngwent (gweler Astudiaethau Argaeledd Tir cyfredol yr awdurdodau lleol am fwy o wybodaeth). Hefyd gall datblygwyr nodi safleoedd addas nad ydynt yn ariannol hyfyw iddynt oherwydd amodau cynllunio o ran tai fforddiadwy – ffactor y soniwyd amdano yn ystod yr ymgynghoriad ynghyd â'r anhawster cyffredinol wrth sicrhau cyflenwad cyson o gartrefi fforddiadwy (gweler hefyd Adran 4 isod am ragor o ddata am y mater hwn). Mae angen ystyried materion eraill sy'n cysylltu cynllunio a datblygu â rhai o risgiau digartrefedd, megis sicrhau tai newydd o safon dda sy'n addas a'r maint/model iawn ond sydd hefyd yn haws eu haddasu yn y dyfodol wrth i ofynion aelwydydd newid. Mae'n hollbwysig gweithio mewn partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a datblygwyr preifat i ddarparu'r math cywir o gartrefi fforddiadwy newydd trwy Grant Tai Cymdeithasol/Grant Cyllid Tai a chytundebau cynllunio adran 106 yng Ngwent (gweler pum Asesiad Marchnad Dai Leol Gwent am fwy o wybodaeth). Fodd bynnag, mae'n werth nodi eto y gallai newidiadau anrhagweladwy i gyllid/bolisi'r llywodraeth yn y dyfodol effeithio ar ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol yng Ngwent ac felly effeithio ar ddigartrefedd. Dylid rhoi mwy o ystyriaeth yn y dyfodol i fodeli darparu penodol ar gyfer aelwydydd digartref neu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Bydd cysylltu cynllunio digartrefedd â chynllunio tai/datblygu tai yng Ngwent yn y dyfodol yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'r strategaeth newydd. |
| **1.1.15 Credyd Cynhwysol** | Soniwyd sawl gwaith am effaith barhaus Credyd Cynhwysol yn ystod yr ymgynghoriad. Disgwylir i broses gyflwyno'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol 'llawn' ledled Gwent gael ei chwblhau erbyn mis Rhagfyr 2018 – gyda'r broses yn cael ei chynnal ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Sir Fynwy yn ystod haf a hydref 2018. Ceir pryder cyffredin y gallai landlordiaid preifat gael eu perswadio ymhellach i beidio â rhentu i rywun sy'n derbyn elfen dai Credyd Cynhwysol, beth bynnag yw ei hanes credyd. Ceir tystiolaeth gynyddol sy'n dangos bod oedi wrth dalu a chosbau talu yn gallu effeithio'n andwyol ar sefyllfa tai, iechyd a lles rhywun (gweler er enghraifft Benefit Sanctions and Homelessness – A Scoping Report gan Crisis, Mawrth 2015). Wrth i fwyfwy o bobl dderbyn costau tai a budd-daliadau gwaith trwy Gredyd Cynhwysol yng Ngwent, rhagwelir y bydd hyn yn cael effaith gynyddol ar yr angen am wasanaethau cymorth, sydd wedi'i amlygu gan amgylchiadau |

| | |
|---|---|
| | rhai achosion o ddigartrefedd ac adborth gan staff awdurdodau lleol mewn rhannau o Went lle mae'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn eisoes ar waith. Mae'n dra phosibl y gallai cyflwyno'r gwasanaeth yn llawn gynyddu lefelau digartrefedd yng Ngwent yn sylweddol. Bydd lliniaru effaith Credyd Cynhwysol (ymhlith diwygiadau lles eraill) yn parhau i fod yn elfen bwysig iawn o'r strategaeth newydd – bydd y ddarpariaeth a'r mynediad i gyngor a chymorth priodol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn hollbwysig. Bydd gweithio mewn partneriaeth â landlordiaid i ddatrys ôl-ddyledion rhent er mwyn atal troi pobl allan o'u cartrefi yn parhau'n rhan annatod o'r strategaeth newydd. |
| **1.1.16 Diwygiadau Lles Eraill** | Ers 2010, cafwyd nifer o ddiwygiadau lles sydd wedi lleihau'r cymorth tai a'r incwm arall bod aelwydydd incwm isel yn eu derbyn. Credir yn eang bod y diwygiadau hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar ddigartrefedd yng Nghymru (gweler The Homelessness Monitor: Wales 2017 gan Crisis). Mae adroddiad The Homelessness Monitor 2017 gan Crisis yn nodi y bydd diwygiadau'n parhau i "*gymryd dros £1 biliwn bob blwyddyn o bocedi aelwydydd incwm isel yng Nghymru erbyn 2020/21. Yn gyffredinol mae toriadau'n cael yr effaith waethaf mewn ardaloedd sydd wedi dioddef dirywiad diwydiannol hirdymor ac sydd eisoes yn wynebu lefelau uchel o dlodi ac anfantais ddi-syfl*" - sy'n debygol o gategoreiddio sawl ardal yng Ngwent. Fel yn achos Credyd Cynhwysol, bydd lliniaru effaith diwygiadau lles eraill hefyd yn bwysig iawn mewn perthynas â'r strategaeth newydd. Unwaith eto, bydd gweithio mewn partneriaeth, yn benodol i atal troi tenantiaid allan, yn hanfodol. |
| **1.1.17 Tlodi** | Mae LIC yn ystyried bod tlodi yn broblem sy'n berthnasol i bob adran o'r llywodraeth. Ceir nifer o strategaethau sy'n ymwneud â thlodi (e.e. Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi 2012-16; Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru 2016 a Strategaeth Plant a Phobl Ifanc sy'n Byw mewn Tlodi 2015 LIC). Ceir gwybodaeth gryno am y materion sylfaenol sy'n ymwneud â thlodi yng Nghymru yn adroddiad diweddar Sefydliad Joseph Rowntree a Sefydliad Bevan, Ffyniant heb Dlodi: Fframwaith Gweithredu yng Nghymru 2016, sy'n ymdrin â'r economi a swyddi, teuluoedd a chymunedau, toriadau a mynd i afael ag anghenion cymhleth. Codwyd y mater o 'dlodi yn y gwaith' hefyd yn ystod yr ymgynghoriad (e.e. Grŵp Ffocws Staff Cyngor Sir Fynwy 13.02.18) – dylid cyfeirio hefyd at y canrannau sylweddol o bobl oedran gweithio sy'n ennill llai na'r cyflog byw yng Ngwent yng Ngraff 3.14.1, yn Adran 3 y ddogfen hon. Fel y nodwyd yn adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree, The Link Between Housing and Poverty 2013, *"Poverty and low incomes prevent people from accessing potential housing options, and make others hard to sustain. In-turn housing can mitigate or exacerbate the impact of poverty on people's lives"*.<br>Mae'r cyswllt rhwng lleihau tlodi a digartrefedd yn cael ei ymgorffori yn y strategaeth newydd. |
| **1.1.18** | Yn ystod yr ymgynghoriad, nodwyd bod dyled, caledi ariannol yn |

| | |
|---|---|
| **Dyled a Rheoli Arian** | broblemau pwysig iawn sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd tai a digartrefedd. Yn benodol daeth i'r amlwg bod dyled yn gallu rhwystro ymdrechion i sicrhau tai rhent preifat/tai cymdeithasol oherwydd gwiriadau fforddiadwyedd dyled. Yn achos digartrefedd, gwelir effaith caledi ariannol a dyled mewn data gan LlC yn Nhabl 5.3.1 yn Adran 5. Yn yr un modd nodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Ffocws Staff a gynhaliwyd yng Nghasnewydd ar 08.03.18 fod problemau ariannol yn fwy cyffredin ac mai nhw, yn aml, yw prif achos digartrefedd. Cafodd materion eraill sy'n ymwneud â'r thema hon, megis gamblo, eu trafod hefyd. Er enghraifft, yng nghyfarfod Grŵp Ffocws Staff Cyngor Sir Fynwy 20.12.17, awgrymwyd "nad oes gennym ddealltwriaeth dda o gamblo a'i effaith yn Sir Fynwy". Mae'r cyswllt rhwng dyled a rheoli arian wedi cael ei ymgorffori yn y strategaeth newydd. |
| **1.1.19 Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant** | Fel y nodir yng Nghynllun Digartrefedd 10 Mlynedd LlC ar gyfer 2009-19, mae'n parhau'n bwysig i gynyddu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth cymaint â phosib i bobl agored i niwed, oherwydd bod "*cyfranogi mewn hyfforddiant a chyflogaeth yn creu'r sylfaen ar gyfer tenantiaethau sefydlog*". Mae Cynllun Cyflogadwyedd newydd LlC, a lansiwyd ym mis Mawrth 2018, yn nodi pedwar cam gweithredu wedi'u diweddaru ar gyfer gwella cyflogadwyedd yng Nghymru. Wrth reswm, mae Cynllun Gweithredu Cysgu ar y Stryd 2018 ac Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Tai yn Gyntaf 2018 LlC yn creu cysylltiadau cryf â chyflogaeth, addysg a hyfforddiant ac mae'r holl themâu hyn yn gysylltiedig â'r strategaeth digartrefedd newydd. |
| **1.1.20 Economi** | Mae LlC am sicrhau twf economaidd cytbwys a chynaliadwy, denu mewnfuddsoddiad a chynyddu cyflogaeth yng Nghymru (e.e. gweler Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd 2017, Strategaeth Genedlaethol Ffyniant i Bawb Cymru 2017, Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Banc Datblygu Cymru). Gallai newidiadau i'r economi, er enghraifft goblygiadau posib yn sgil Brexit, lefelau diweithdra, cynnydd yn y costau byw a chwyddiant (nid rhestr hollgynhwysfawr yw hon), gael effaith ar y themâu niferus sy'n gysylltiedig â digartrefedd, sy'n pwysleisio unwaith eto pam mae angen adolygu camau gweithredu strategaethau o dro i dro a'u diweddaru fel sy'n briodol. |
| **1.1.21 Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn faes polisi pwysig dros ben i LlC. Fel y nodwyd yn y Canllawiau i'r Safonau Gwella Iechyd a Lles Pobl Ddigartref a Grwpiau Agored i Niwed Penodol, 2013), "Mae pobl sy'n ddigartref, mewn perygl o fod yn ddigartref neu mewn perygl o symud yn fynych, yn profi'n aml iechyd gwaeth na grwpiau eraill yn y gymdeithas. *Os na chaiff pobl ddigartref gymorth na mynediad i driniaeth feddygol effeithiol, gall y gost ddynol ac economaidd (yn benodol i'r GIG) fod yn sylweddol".* Bydd y strategaeth yn integreiddio'r gwaith parhaus o gydlynu a meithrin perthnasoedd rhwng gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a digartrefedd - rhywbeth y soniwyd amdano sawl gwaith yn ystod yr ymgynghoriad gan staff y cyngor (gan gynnwys anhawster wrth gyflawni hyn), er y dylid nodi bod enghreifftiau o |

| | |
|---|---|
| | waith partneriaeth arfer da eisoes yng Ngwent e.e. y rhaglen In One. Unwaith eto, mae'n werth nodi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n cynorthwyo gwaith partneriaeth a gwasanaethau ataliol i ddarparu gofal cymdeithasol a chefnogi lles a diogelu. Mae hefyd yn integreiddio datblygiad gwasanaethau ar sail mewnbwn/anghenion unigol y rhai sy'n eu derbyn. Yn yr un modd mae'r holl themâu hyn yn rhan annatod o fynd i'r afael â phroblemau digartrefedd a chânt eu hadlewyrchu yn y strategaeth newydd. Ceir cysylltiadau amlwg hefyd rhwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a digartrefedd. Er enghraifft, fel y nodwyd yng Nghod Canllawiau 2016, "*rhaid i gynghorau ystyried atal/oedi anghenion gofal/cymorth wrth ymgymryd â'u swyddogaethau digartrefedd. Dylai fod cysylltiad agos rhwng cynllunio gwasanaethau i atal digartrefedd a chynllunio ar gyfer dyletswydd Adran 15 y Ddeddf i ddarparu neu drefnu amrywiaeth o wasanaethau ataliol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth. Gellir integreiddio'r ddyletswydd o dan Adran 60 Deddf Tai (Cymru) 201* â gofynion Adran 17 Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol." Mae cysylltiadau rhwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) *2014* a digartrefedd wedi'u hintegreiddio i'r strategaeth digartrefedd. |
| **1.1.22 Rhyddhau o'r Ysbyty neu o Driniaeth/Ofal Preswyl** | Noda adroddiad Homeless Link, Improving Hospital Admission and Discharge 2012, fod *"arferion rhyddhau cydlynol yn helpu i leihau costau i'r GIG yn ogystal â gwella iechyd a chanlyniadau ehangach pobl ddigartref".* Soniwyd sawl gwaith yn ystod yr ymgynghoriad â staff y cyngor am y rhybudd byr iawn a roddir i gynghorau weithiau cyn bod person digartref yn cael ei ryddhau o'r ysbyty. Caiff pwysigrwydd y thema hon yn y strategaeth digartrefedd newydd ac mae'n pwysleisio ymhellach pam mae datblygu perthnasoedd rhwng gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a digartrefedd yn hanfodol (gweler y Protocol Rhyddhau Pobl Ddigartref o Ysbytai yng Nghymru 2014). |
| **1.1.23 Iechyd meddwl** | Mae iechyd meddwl yn faes polisi allweddol arall i LlC (gweler Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, strategaeth/adroddiad Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2012 neu'r ymgyrch Amser i Newid). O ran iechyd, yn gyffredinol mae pobl ddigartref yng Nghymru yn tueddu i ddioddef yn bennaf o orbryder/iselder (yn ogystal â phoen/diffyg cysur corfforol). (Gweler adroddiad Health Matters 2017 Cymorth Cymru.) Mae ymchwil yn awgrymu y gall problemau iechyd meddwl gynyddu'n sylweddol pan fo pobl yn ddigartref (gweler Safonau Gwella Iechyd a Lles Pobl Ddigartref a Grwpiau Agored i Niwed Penodol 2013 LlC). Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn cyfrannu'n sylweddol at gynorthwyo pobl â phroblemau iechyd meddwl yng Ngwent (gweler Strategaeth Cefnogi Pobl 2018 RCC Gwent). Nodir pwysigrwydd mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl yn y strategaeth newydd. |

| | |
|---|---|
| **1.1.24 Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol** | Mae'r perygl o ddechrau camddefnyddio alcohol a sylweddau hefyd yn cynyddu'n fawr pan fo pobl yn ddigartref ac yn aml gall hyn fod yn gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl (gweler Safonau Gwella Iechyd a Lles Pobl Ddigartref a Grwpiau Agored i Niwed 2013 LlC). Mae adroddiad Health Matters 2017 Cymorth Cymru yn awgrymu bod angen rhagor o fynediad neu well mynediad i wasanaethau gofal iechyd ar bobl ddigartref sydd â phroblemau cyffuriau neu alcohol. Yn nodedig, ym mis Mawrth 2018, dechreuodd Cymorth Cymru adolygu Fframwaith Arfer Da LlC ar gyfer Darparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau i Bobl Ddigartref a'r rhai â Phroblemau Llety. Yn ogystal, mae Tabl 5.18 yn Adran 5 yn awgrymu'n gryf bod camddefnyddio sylweddau'n un o brif achosion cysgu ar y stryd yng Nghymru. Fel yn achos iechyd meddwl, caiff pwysigrwydd mynd i afael â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol ei adlewyrchu yn y strategaeth newydd. |
| **1.1.25 Cam-drin Domestig** | Fel gyda'r uchod, mae cam-drin domestig yn faes polisi pwysig arall i LlC. Mae cam-drin domestig yn cyfrannu'n sylweddol at ddigartrefedd yng Ngwent, fel y gellir ei weld yn Nhabl 5.3.1 yn Adran 5 (DS: Mae Tabl 5.4.1 hefyd yn dangos tystiolaeth gref bod aelwydydd â phlant dibynnol lle mae cam-drin domestig mewn perygl mwy o fod yn ddigartref yng Ngwent). Mewn cysylltiad â phrofiadau plentyndod andwyol a diogelu, mae lleihau cam-drin domestig yn flaenoriaeth i LlC. Wrth weithio mewn partneriaeth, mae angen i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lunio strategaethau lleol sy'n cefnogi themâu Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 – sef, yn eu hanfod, atal, diogelu a chefnogi. Mae'r rhain yn debyg iawn i nodau craidd strategaethau digartrefedd a nodir yn Adran 50 Deddf Tai (Cymru) 2014. Mewn perthynas â Deddf 2015, mae Canllawiau Gofyn a Gweithredu LlC yn cefnogi ymyrraeth benodol a chafodd y broses ei chyflwyno ar ddiwedd 2017 i gynghorau, byrddau iechyd ac awdurdodau tân ac achub. Mae hefyd yn bosibl y bydd mwyfwy o landlordiaid cymdeithasol yn ceisio i droi'r rhai sy'n gyfrifol am gam-drin domestig allan o'u cartrefi o dan Ddeddf Rhentu Tai (Cymru) 2016. Mae'r cysylltiad rhwng cam-drin domestig a digartrefedd wedi'i ymgorffori yn y strategaeth newydd. |
| **1.1.26 Pobl Ifanc Ddigartref a Phobl sy'n Gadael Gofal** | Mae LlC yn ystyried bod plant a phobl ifanc yn grŵp â blaenoriaeth benodol o uchel. Wrth ystyried Tabl 3.4.1 a Thabl 5.13.1 (gweler isod) gyda'i gilydd, gwelir bod canran y bobl ifanc sy'n ddigartref neu mewn perygl mwy o fod yn ddigartref yng Ngwent yn rhy uchel o'i chymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Mewn perthynas â'r mater hwn, cydnabyddir yn eang bod ymyrraeth gynharach (h.y. atal profiadau plentyndod andwyol) yn helpu i atal tai ansefydlog a/neu ffyrdd o fyw sy'n niweidiol i iechyd rhag cael eu sefydlu'n ddiweddarach mewn bywyd, gan leihau'r perygl o fod yn ddigartref (gweler Cynllun Digartrefedd 10 mlynedd LlC). Ym mis Rhagfyr 2017 ymrwymodd y Cynulliad i wario £10 miliwn ychwanegol i gael gwared ar ddigartrefedd |

| | |
|---|---|
| | ymhlith pobl ifanc erbyn 2027 - ar ôl i Aelodau'r Cynulliad a Phrif Weinidog Cymru fynegi eu cefnogaeth dros yr ymgyrch Cael Gwared ar Ddigartrefedd Ieuenctid Cymru (EYHC) ym mis Mehefin 2017 ( a gynhaliwyd gan Llamau yng Nghymru, gyda chymorth eu partneriaid). Ers mis Mai 2018 mae'r grŵp EYHC yn ceisio dulliau cyllido torfol yn bennaf i ariannu llinell gymorth ddigartrefedd ieuenctid. Bwriedir i fframwaith LlC, Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth: Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion 2016, gael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol a'u partneriaid i gynnig ymagwedd gynlluniedig at atal digartrefedd ac opsiynau tai ar gyfer pobl ifanc. Pum thema'r fframwaith yw gwybodaeth a chyngor ar gyfer pob person ifanc a'i deulu; ymyrraeth gynnar benodol; ymateb integredig ('hyb' neu 'hyb rhithwir'); porth i lety a chymorth a gomisiynir; a bod â dewis o opsiynau tai. Hefyd, i gyd-fynd â'r fframwaith, ceir Fframwaith Llety a Chymorth ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru 2016. Mae themâu sy'n ymwneud â lleihau digartrefedd ymhlith pobl ifanc a chynorthwyo pobl sy'n gadael gofal yn gydrannau hanfodol o'r strategaeth newydd. |
| **1.1.27 Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl/Caethwasiaeth Fodern** | Mae cael gwared ar gam-drin a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant a phobl ifanc a chefnogi diogelu hefyd yn flaenoriaeth hynod bwysig (e.e. gweler Fframwaith y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Fynd i'r Afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol 2016), fel sy'n wir am gael gwared ar y perygl o fasnachwyr pobl a throseddau cysylltiedig sy'n gysylltiedig â phob math o gaethwasiaeth fodern. Dros y blynyddoedd diwethaf gellir dadlau bod y cyhoedd wedi dod yn fwy ymwybodol o'r fath droseddau ledled y DU; mae adroddiadau yn y cyfryngau am droseddau erchyll yn cael eu cyflawni gan gangiau sy'n meithrin perthnasau amhriodol ar-lein â phobl ifanc, neu am berchnogion eiddo yn ysglyfaethu ar bobl ddiobaith trwy hysbysebu llety yn gyfnewid am gam-fanteisio rhywiol, yn enghreifftiau allweddol. Yn yr arolwg defnyddwyr gwasanaeth a gynhaliwyd ar gyfer yr adolygiadau, nododd un ymatebydd 16-24 oed mai cam-drin rhywiol a/neu gorfforol a achosodd ei digartrefedd. Dechreuodd yr ymgyrch yn 2016 i gael gwared ar roi llety gwely a brecwast i bobl ifanc agored i niwed yng Nghymru gan yr EYHC, mewn ymateb i'r peryglon diogelu cynyddol sy'n wynebu pobl ifanc. Mae Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 hefyd yn cefnogi gweithredu yn erbyn masnachwyr pobl a throseddau sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth yn y DU. Yn aml mae staff mewn gwasanaethau digartrefedd cynghorau'n gweithio gydag oedolion sy'n agored i gam-drin ac mae'n ddyletswydd ar staff i weithredu os ydynt yn amau bod rhywun yn oedolyn mewn perygl. Soniwyd sawl gwaith am gaethwasiaeth fodern yn ystod y Digwyddiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar 28.02.18. Mae'n bwysig nodi bod tystiolaeth gynyddol yn awgrymu bod pobl sy'n cysgu ar y stryd yn y DU yn cael eu targedu'n gynyddol gan fasnachwyr pobl a'u bod mewn perygl o gamfanteisio at ddiben llafur a mathau eraill o gam-drin |

| | |
|---|---|
| | (gweler adroddiad Homeless Link - Masnachu Pobl a Llafur Gorfodol 2017).<br>Gall plant ac oedolion agored i niwed fod mewn perygl ac mae'n rhesymegol credu y gall y peryglon hyn droi'n fwy difrifol pan fo person yn agored i niwed ac yn wynebu neu'n profi digartrefedd. Mae'r strategaeth newydd yn ymdrin â diogelu oedolion agored i niwed a chaethwasiaeth fodern yn ogystal â diogelu plant a phobl ifanc hefyd. Mae pwysigrwydd uchel gwaith partneriaeth (er enghraifft rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu ac awdurdodau lleol) yn cael ei adlewyrchu'n llwyr o ran diogelu plant ac oedolion mewn perygl a chaethwasiaeth fodern. |
| **1.1.28 Gadael y Lluoedd Arfog** | Mae Dogfen Ganllaw Llywodraeth y DU – The Armed Forces Covenant: Today and Tomorrow 2013 – yn amlinellu bwriad cyffredinol i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog. Yng Nghymru, mae'r Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog 2016 hefyd yn rhoi cymorth i aelodau cyn ac ar ôl gadael y lluoedd arfog. Mae'n bosib y gall y rhai sy'n gadael y lluoedd arfog fod mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref a dioddef problemau cymdeithasol cysylltiedig. Yn sicr mae Tabl 5.17.1 yn Adran 5 yn rhoi peth tystiolaeth y gallai gadael y lluoedd arfog fod yn ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol at gysgu ar y stryd yng Ngwent. Mae'r strategaeth newydd yn cysylltu â goblygiadau rhywun yn gadael y lluoedd arfog. |
| **1.1.29 Rhyddhau o Remand neu'r Ddalfa** | Mae Adroddiad Cyfrif Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd 2017 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (gweler Tabl 5.18.1 eto) yn awgrymu bod rhyddhau o remand/y ddalfa yn un o'r ffactorau mwyaf sy'n cyfrannu at gysgu ar y stryd yng Nghymru. Mae'r Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel 2015 yn rhoi canllawiau i helpu pobl yn y ddalfa sydd naill ai wedi'u nodi'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Fel y crynhoir yn y canllawiau, mae'n "*tynnu sylw at anghenion unigolion cyn iddynt adael y ddalfa. Pwysleisir y nod o atal rhywun rhag mynd yn ddigartref a gwella'r broses ailsefydlu i unigolion, gan fod hynny'n helpu i leihau'r perygl o aildroseddu".* Yn benodol, soniwyd sawl gwaith yn ystod yr ymgynghoriad am yr anhawster sydd gan awdurdodau lleol fel arfer wrth ailgartrefu achosion risg uchel a reolir trwy Drefniadau Amddiffyn Amlasiantaeth. Soniwyd hefyd am ddileu'r flaenoriaeth ddigartrefedd i gyn-garcharorion o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Pwysleisir y cyswllt rhwng y thema hon a digartrefedd gan yr argymhellion diweddar yn adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Bywyd ar y strydoedd: Atal a Mynd i'r Afael â Chysgu ar y Stryd yng Nghymru 2018. Yn benodol mae'n argymell ailsefydlu'r Gweithgor Llety ac Ailsefydlu Carcharorion a hefyd y posibilrwydd o ailosod angen blaenoriaethol i bobl sy'n gadael y carchar (os na weithredir un o'r argymhellion eraill i gael gwared ar anghenion blaenoriaeth yn gyfan gwbl). Mae rhyddhau o remand a'r ddalfa wedi'i integreiddio yn y strategaeth newydd. |

| | |
|---|---|
| **1.1.30 Troseddu/Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** | Yn ogystal â chaethwasiaeth fodern, y soniwyd amdani eisoes, gellir gwneud cysylltiadau pwysig eraill â throseddu/ymddygiad gwrthgymdeithasol a digartrefedd. O safbwynt rhywun sy'n profi troseddu/ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol – gall dioddef aflonyddu neu gamdriniaeth o'r tu allan i'r cartref (e.e. trosedd casineb) achosi digartrefedd, ac fel mae tablau 5.3.1, 5.4.1 a 5.5.1 yn ei ddangos, ceir achosion o hyn yn digwydd yng Ngwent. Yn ogystal gall troseddwyr gael eu troi allan o denantiaethau cymdeithasol a phreifat eu hunain oherwydd troseddu/ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n werth nodi Adran 35 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 y gellir ei defnyddio i orchymyn rhywun sy'n cysgu ar y stryd i adael ardal benodol am 48 awr (o bosib gyda'r bwriad o atal troseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol). Fodd bynnag, awgryma ymchwil mai'r rhai sy'n cysgu ar y stryd eu hunain sy'n llawer mwy tebygol o fod yn destun troseddu, gan gynnwys ymosodiad treisgar, difrïo a brawychu – o'u cymharu ag aelodau cyffredinol y cyhoedd (gweler adroddiad Crisis, It's No Life At All 2016). Mae troseddu/ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â'r strategaeth newydd o ran atal troi pobl allan a chysgu ar y stryd. |
| **1.1.31 Cydraddoldeb, Tegwch a Mynediad i Wasanaethau** | Mae LlC yn gefnogol iawn o roi defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pawb mewn angen yn cael y math priodol o gymorth (e.e. gweler Cod Canllawiau 2016). Mae hyn yn golygu bod angen i ddarparwyr gwasanaeth ystyried yr anghenion sydd gan bobl o ganlyniad i nodwedd a ddiogelir (h.y. yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010). I wneud hyn, fel y nodir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei hadroddiad *'How Local Government manages demand – Homelessness 2018',* mae angen i awdurdodau lleol gasglu data cywir a phriodol i ddangos cydraddoldeb o ran mynediad. Mae'n hanfodol i wasanaethau digartrefedd/atebion tai fod yn sensitif i amrywiaeth eang o nodweddion, megis pobl hen ac ifanc; pobl anabl, fel rhywun ag anhawster dysgu neu rywun sydd â nam ar y golwg neu'r clyw neu salwch cronig; rhywun sydd ag anhwylder sbectrwm awtistig; teuluoedd a rhieni sy'n disgwyl baban, cyplau a rhieni sengl; rhywioldeb; pobl drawsryweddol a rhywun sydd yng nghanol y broses; hil a diwylliant; ffoaduriaid a cheiswyr lloches; a Sipsiwn/Teithwyr. Mae hyn yn bwysig, er enghraifft gan fod rhai grwpiau yn gallu bod mewn mwy o berygl o ran eu hiechyd a'u lles e.e. pobl sy'n dioddef effaith anffurfio organau cenhedlu benywod a thrais seiliedig ar "anrhydedd". Mae Sipsiwn/Teithwyr, ymfudwyr o'r UE, ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n agored i niwed yn gallu bod mewn mwy o berygl o ddigartrefedd (gweler Safonau Gwella Iechyd a Lles Pobl Ddigartref a Grwpiau Agored i Niwed Penodol, 2013). Fel y nodir yn adroddiad Health Matters 2017 Cymorth Cymru, gall anghenion iechyd corfforol a meddyliol pobl ddigartref hefyd amrywio ar draws agweddau megis rhywedd neu oedran. Gellir cysylltu'r themâu uchod â dogfennau amrywiol y llywodraeth megis Safonau Gwella Iechyd a Lles Pobl Ddigartref a Grwpiau |

| | |
|---|---|
| | Agored i Niwed Penodol, 2015; Cynllun Gweithredu Strategol Cymru dros Anhwylder Sbectrwm Awtistig 2016-20; Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-23; neu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches 2016-19. Mae cydraddoldeb, tegwch a mynediad i wasanaethau'n elfennau hanfodol, wedi'u hymwreiddio yn y strategaeth newydd a'r rhain oedd y prif resymau dros gynnal yr arolwg ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth. |
| **1.1.32 Gwasanaeth Cwsmeriaid** | Yn ei hadroddiad '*Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw – Digartrefedd 2018'*, mae Swyddfa Archwilio Cymru'n cefnogi awdurdodau lleol sy'n cyhoeddi safonau gwasanaeth penodol i esbonio eu cyfrifoldebau a rhai'r defnyddwyr gwasanaeth. Sylwer bod Equal Ground Standard Shelter Cymru 2015 hefyd yn amlinellu addewid dwyffordd rhwng defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid i ddisgrifio i'w gilydd yr hyn y mae ei angen i sicrhau perthynas waith lwyddiannus. Mae darparu gwasanaeth cwsmeriaid o safon yr un mor berthnasol i ddarparu gwasanaethau digartrefedd ag y mae gydag unrhyw wasanaeth arall sy'n ymwneud wyneb yn wyneb â'r cyhoedd. |

| **1.2 Pwyntiau Allweddol:** |
|---|
| • Bwriad Adran 1 yw rhoi cyd-destun ehangach yr amgylchedd y mae gwasanaeth digartrefedd a gwasanaethau cysylltiedig yn gweithredu ynddo.<br>• Mae pob un o'r themâu wedi cael ei defnyddio i fframio a datblygu'r adolygiadau a'r strategaeth ac i roi ffocws i'r ymarferion ymgynghori.<br>• Mae'n bwysig deall cymhlethdod digartrefedd a'r holl faterion sydd ynghlwm wrtho er mwyn datblygu'r strategaeth digartrefedd, sy'n esbonio'r dulliau ymchwil amrywiol a'r symiau sylweddol o ddata a ddefnyddir i lunio'r adolygiadau. Mae ystyried y themâu ehangach sy'n ymwneud â digartrefedd yn |

hanfodol ar gyfer cynllunio strategol. Y mwyaf rydym yn deall y ffactorau sy'n achosi digartrefedd ynghyd â'r cyd-destun ehangach, y gorau bydd gallu cynghorau Gwent a'u partneriaid i wella canlyniadau i bobl sydd mewn perygl o ddigartrefedd neu sy'n dioddef o'i herwydd.

- Fel mae Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru yn ei grynhoi yn ei adroddiad Tackling Homelessness: A Rapid Evidence Review 2015: *"The evidence shows that homelessness is a complex problem. It often has multiple causes that interact with one another in ways that vary at the individual level and require engagement with multiple policy areas".* Mae'n annhebygol y bydd ymagwedd unffurf at fynd i'r afael â digartrefedd fyth yn llwyddiannus.
- Mae llawer (os nad pob un) o'r themâu uchod yn gysylltiedig â'i gilydd, felly trwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd, gellid lleihau amrywiaeth eang o broblemau'r gymdeithas. Mae hyn yn esbonio pam mae LlC yn hyrwyddo atal digartrefedd mor ddiflino a pham bydd atal wrth wraidd strategaeth digartrefedd newydd Gwent.
- Bydd darparu llety priodol, gyda'r math iawn o gymorth ac wrth ddarparu'r gwasanaethau gorau posib a nodi'r bobl sydd yn y perygl mwyaf o fod yn ddigartref, i gyd yn egwyddorion craidd strategaeth digartrefedd Gwent – yn unol â Chod Canllawiau 2016.
- I gefnogi'r egwyddorion hyn, bydd yn hanfodol cydlynu gwasanaethau, gwaith partneriaeth, cydgynllunio a chomisiynu a darparu gwasanaethau (gan adrannau mewnol awdurdodau lleol a phartneriaid allanol).
- Mae'r materion trosgynnol, trawsbynciol a pharhaus a nodwyd yn Adran 1 yn pwysleisio manteision datblygu strategaeth ranbarthol a pham dylai awdurdodau lleol a'u partneriaid weithio gyda'i gilydd a rhannu arfer gorau er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd.
- Cafodd pob un o'r themâu uchod eu hadlewyrchu yn yr ymarferion ymgynghori. Yn ddiddorol, nododd 79% o ymatebwyr i'r arolwg ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth fod mwy nag un rheswm pam roeddent mewn perygl o ddigartrefedd neu'n ei brofi.
- Yn olaf, pwysleisiodd y themâu uchod hefyd bwysigrwydd polisi LlC a San Steffan i lunio a dylanwadu'n ofalus ar bolisi mewn meysydd megis yr economi, diwygio lles, cyllid cyhoeddus, tlodi, cydraddoldeb, iechyd, Cefnogi Pobl, profiadau plentyndod andwyol a thai. Os effeithir ar y fath elfennau'n gadarnhaol neu os cânt eu gwella, mae'n debygol iawn y byddai goblygiadau cyfochrog o ran tai a darparu gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru. Fel y crynhoir gan yr un sylw yng nghyfarfod Grŵp Ffocws Staff Cyngor Caerffili a gynhaliwyd ar 24.01.18, "*gall newid arweinyddiaeth - yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol - naill ai weithio dros neu yn erbyn digartrefedd. Gall newidiadau sydyn/troadau pedol mewn gwleidyddiaeth arwain at newidiadau anferthol i ddarparu gwasanaethau lleol".*

## 2. Y Cyd-destun Ehangach Cysylltiadau Strategol Allweddol

2.1 Mae sawl polisi, gweithdrefn, cynllun, partneriaeth a strategaeth sy'n cysylltu â'r strategaeth digartrefedd ac i'r gwrthwyneb. Mae rhai o'r rhain ar waith ledled Gwent, mae rhai'n berthnasol i rannau o Went ond nid y rhanbarth cyfan, mae rhai eraill yn benodol i'r awdurdod lleol ac mae eraill yn fersiynau drafft neu'n aros i'w diweddaru. Unwaith eto, mae maint yr wybodaeth yn rhy helaeth i restru popeth yma. Serch hynny, gellir crynhoi elfennau allweddol i ddangos cysylltiadau strategol lleol ac mae'r rhain hefyd wedi cael eu defnyddio i fframio'r strategaeth newydd ymhellach. Dyma restr o'r rhain:

| | |
|---|---|
| **2.1.1 Cynlluniau Corfforaethol** | Maent yn cynnwys blaenoriaethau lefel uchel ac yn amlinellu sut mae cynghorau Gwent yn gweithredu. Mae themâu ym mhum cynllun Gwent yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth; buddsoddi mewn tai; cefnogi lles, diogelu a datblygu gallu ymhlith dinasyddion agored i niwed; a chefnogi cymunedau, yr economi a'r amgylchedd. Maen nhw i gyd yn cyd-fynd â strategaeth digartrefedd newydd Gwent. |
| **2.1.2 Asesiadau/Cynlluniau Lles Lleol** | Mae'r rhain yn disodli cynlluniau integredig unigol ac yn cynnwys amcanion i gyflawni'r nod lles ar gyfer Cymru, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae themâu ym mhum cynllun Gwent yn canolbwyntio ar gefnogi plant a phobl sy'n gadael gofal; cefnogi cyflogaeth a'r economi; atal aelwydydd rhag mynd yn ddigartref; iechyd; diogelwch cymunedol; cefnogi cymunedau cydlynol a gwydnwch; a grymuso preswylwyr. Mae pob un yn berthnasol i'r strategaeth newydd. |
| **2.1.3 Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)** | Mae angen byrddau gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu cynlluniau lles lleol. Mae Cod Canllawiau 2016 LlC yn argymell defnyddio BGC i gydlynu ac amlinellu sut bydd partneriaid yn cyfrannu at y strategaeth digartrefedd a'r cynlluniau sy'n deillio ohoni. Byddai hyn hefyd yn cefnogi rhagor o gydlynu/feddwl cydlynol o ran cyflwyno cynlluniau lles lleol. (Gweler hefyd ddogfen LlC, Rhannu Pwrpas, Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol 2016.) Mae'r defnydd o BGCau i ganolbwyntio ar '*flaenoriaethau a rennir trwy gydweithio ac integreiddio gwasanaethau*' yn cael ei argymell hefyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei hadroddiad Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw – Digartrefedd 2018. |
| **2.1.4 Asesiadau/Cynllun Ardal Anghenion Poblogaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent** | Mae'n ofyniad o dan Adran 14 Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gynghorau a byrddau iechyd lleol gynnal asesiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth pobl. Dylid datblygu'r asesiadau ar yr un pryd â llunio'r cynlluniau lles lleol uchod ac i'r gwrthwyneb. Mae'n ofyniad o dan Ddeddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (2014) i Fwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a lles Gwent oruchwylio'r asesiad anghenion a chytuno ar Gynllun Ardal Lles Gwent 2018/19. Mae'r themâu a drafodir yn y cynllun yn cynnwys tai, |

| | |
|---|---|
| | cefnogi pobl, helpu pobl oedrannus i aros yn eu cartrefi a chael y gofal y mae ei angen arnynt, plant a phobl ifanc, iechyd ac iechyd meddwl, materion camddefnyddio sylweddau, anabledd corfforol, anabledd dysgu ac awtistiaeth, colled a nam synhwyraidd, gofalwyr, cam-drin domestig a diogelu. Mae pob un o'r rhain yn berthnasol i'r strategaeth digartrefedd newydd. |
| **2.1.5 Cynllun Strategol Rhanbarthol Cefnogi Pobl (Gwent) a Strategaethau/Cynlluniau a Fframweithiau Comisiynu Cefnogi Pobl Lleol** | Mae'r cynllun rhanbarthol yn adolygu'r anghenion tai a chymorth yng Ngwent ac yn rhoi trosolwg o flaenoriaethau Cefnogi Pobl (sy'n gysylltiedig mewn sawl ffordd ag atal a lliniaru digartrefedd). Ers mis Ebrill 2018, mae 18 grŵp Cefnogi Pobl. Yna mae cynlluniau lleol yn rhoi darlun clir o'r sefyllfa leol i helpu i nodi bylchau a chefnogi gwasanaethau sy'n gynaliadwy ac yn canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr gwasanaeth ym mhob un o bum awdurdod Gwent. Mae'r strategaeth newydd a'r camau gweithredu sy'n deillio ohoni yn parhau i fod â chysylltiadau helaeth â Chefnogi Pobl a'i ddarparwyr. |
| **2.1.6 Sefydliadau Gwirfoddol/Statudol Eraill a Gwasanaethau a Ariennir trwy Grant y Cynllun Braenaru** | Yng Nghod Canllawiau 2016, noda LIC, "*mae'n hanfodol bod y cynlluniau digartrefedd yn adlewyrchu'r cyfraniadau i'w gwneud gan sefydliadau gwirfoddol a statudol eraill wrth ddarparu cymorth i bobl ddigartref, gan gynnwys y rhai nad ariennir trwy Cefnogi Pobl*". Mae enghreifftiau'n cynnwys gwasanaethau cymorth tenantiaid, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, gwasanaethau cyflogaeth, gwasanaethau addysg ac ieuenctid a chynlluniau prawf a chyfiawnder troseddol. Bydd gan y strategaeth newydd gysylltiadau strategol hanfodol â gwasanaethau gwirfoddol ac eraill. |
| **2.1.7 Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) a Strategaethau Tai Lleol** | Mae'r rhain yn nodi lefelau'r angen am dai ym mhob ardal awdurdod ac yn rhagfynegi galw posib y dyfodol am dai. Mae'r asesiadau anghenion yn creu sylfaen dystiolaeth i'r strategaeth tai a chynlluniau datblygu lleol. Mae Cod Canllawiau 2016 hefyd yn nodi y disgwylir i AFDLau asesu nifer y tai lleol sydd ar gael i bobl ifanc a grwpiau agored i niwed eraill. Yn ogystal â rhagfynegi'r angen am ragor o dai fforddiadwy, maent hefyd yn nodi'r math a'r maint y mae eu hangen. Maent yn pwysleisio pam mae partneriaethau da a dibynadwy awdurdodau lleol â sefydliadau'r sectorau preifat a chymdeithasol yn hanfodol wrth liniaru digartrefedd. |
| **2.1.8 Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a Chanllawiau Cynllunio** | Mae CDLlau yn nodi'r cynigion a'r polisïau i reoli datblygu'r ardal leol, gan gynnwys gwybodaeth am y tir a ddyrennir at ddiben tai, cyflogaeth a manwerthu. Yn ddiweddar rhoes LlC wahoddiad i Flaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd yn 2018 (gweler Deddf Cynllunio (Cymru) 2015). Cafodd hyn ei drafod yn benodol yng nghyfarfod Grŵp Ffocws Staff Cyngor Blaenau Gwent ar 21.02.18. Mae'r CDLl a'r canllawiau cynllunio yn bwysig iawn o ran lleihau digartrefedd oherwydd eu bod yn rheoleiddio darparu tai |

| | |
|---|---|
| | newydd. |
| **2.1.9 Polisïau Dyrannu Tai Cymdeithasol/Polisi Dyraniadau Gwledig** | Mae Polisïau Dyraniadau Cyffredin ar waith ar draws pob un o bum awdurdod lleol Gwent ac yn rheoli canran y tai cymdeithasol sydd ar osod i bobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Fel y pwysleisiwyd yng Nghynllun Digartrefedd 10 Mlynedd LlC 2009, dylai'r polisïau gynnal cydbwysedd rhwng diwallu anghenion pobl sy'n ddigartref yn ogystal ag anghenion eraill y mae angen dybryd am dai arnynt. Oherwydd ei bod yn sir wledig mae gan Sir Fynwy Bolisi Dyraniadau Gwledig hefyd, sy'n helpu i sicrhau bod cartrefi sydd wedi'u datblygu ar gyfer pobl leol yn cael eu dyrannu yn ôl y bwriad gwreiddiol yn Sir Fynwy. Mae pwysigrwydd galluogwyr tai gwledig yn ymgorffori digartrefedd yn eu gwaith o asesu a nodi'r angen am dai lleol wedi'i gynnwys yng Nghod Canllawiau 2016. Mewn cam nodedig, datblygodd Tai Cymunedol Cymru fframwaith i lywodraethu cyfarfodydd adolygu blynyddol am gydweithredu ynglŷn â digartrefedd rhwng ffigyrau uwch mewn cymdeithasau tai yng Nghymru ac awdurdodau lleol yn 2016/17. Er enghraifft, mae Torfaen wedi defnyddio'r fframwaith hwn yn y gorffennol i helpu i lunio trafodaethau. |
| **2.1.10 Polisïau Rheoli Ôl-ddyledion Rhent Tai Cymdeithasol, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Rheoli Tenantiaethau Eraill** | Mae'r polisïau (a'r gweithdrefnau) sy'n gysylltiedig â rheoli tai cymdeithasol yng Ngwent yn arwain staff ac yn dylanwadu o ran uwchgyfeirio i achos llys – a all arwain at droi tenant allan. Gwaith ataliol i atal problemau rhag cael eu huwchgyfeirio yw'r prif ffocws fel arfer, fel yn achos digartrefedd (yn fras i wella canlyniadau a sicrhau gwerth gwell am arian). Mae gan y rhain gysylltiadau strategol pwysig â'r strategaeth newydd. Hefyd gweler Adran 2.1.26 isod. |
| **2.1.11 Strategaethau a Chynlluniau'r Sector Preifat/Partneriaethau Landlordiaid y Sector Preifat** | Mae strategaethau/cynlluniau adnewyddu tai, y sector rhent preifat ac eiddo gwag yn amlinellu polisïau a chamau gweithredu i wella safon stoc tai sector preifat y pum cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd megis adfer tai gwag i'w hailddefnyddio, addasu tai i bobl llai abl, gwella safonau yn y sector rhent preifat, cynyddu'r cyflenwad a'r dewis, gwella'r stoc tai presennol a lleihau tai afiach, cefnogi cymunedau cynaliadwy, lleihau tlodi tanwydd a chynyddu ynni-effeithlonrwydd. Mae'r rhain i gyd yn gysylltiedig â lleihau digartrefedd. Mae'r fforymau landlordiaid preifat a gynhelir gan gynghorau yn eu hardaloedd hefyd yn bartneriaethau hanfodol, felly hefyd y perthnasoedd unigol â landlordiaid, yn benodol mewn perthynas â datrys ôl-ddyledion rhent/problemau Credyd Cynhwysol i osgoi troi tenantiaid allan neu helpu pobl agored i niwed/ddigartref a rhywun â hanes credyd gwael i gael tai. |

| | |
|---|---|
| **2.1.12 Cynllun Bond** | Ariennir y Cynllun Bond gan LlC i roi gwarantau bond i landlordiaid preifat sector (yn unig) fel sicrwydd, yn lle bod angen i denant roi bond ei hun. Yna bydd tenant yng Ngwent yn cynilo ei swm cyfwerth o'r bond dros flwyddyn i'w dalu i landlord i'w roi yn y Gwasanaeth Diogelu Blaendaliadau (GDB). Cyfeiriwyd at y cynllun bond sawl gwaith yn ystod yr ymgynghoriad. Mae swyddogion sy'n gweinyddu'r Cynllun Bond yn asesu fforddiadwyedd cleientiaid, yn helpu i sefydlu eu budd-daliadau, gwaith papur a rhestri eiddo yn ogystal â thasgau eraill. Yn bwysig iawn, gallant gyd-drafod â landlordiaid hefyd am lefelau rhent neu faterion rheoli tenantiaeth yn ystod tenantiaeth i atal colli llety (adborth o gyfarfod am Gynllun Bond Sir Fynwy a gynhaliwyd ar 12.12.17). Nodwyd yng nghyfarfod Rhwydwaith Digartrefedd yr Awdurdodau Lleol a gynhaliwyd ar 17.04.18 bod LlC yn bwriadu comisiynu darn o waith yn 2018 i adolygu'r Cynllun Bond a'r meini prawf cymhwyso er mwyn sicrhau cynigion mwy cyson ledled y sir. O ystyried pwysigrwydd y sector rhent preifat wrth helpu i fynd i'r afael â digartrefedd, bydd angen i'r Cynllun Bond ac unrhyw ddatblygiadau posib yn y dyfodol gael eu hintegreiddio yn strategaeth newydd Gwent a'r cynlluniau gweithredu. |
| **2.1.13 Strategaethau/Cynlluniau Adfywio** | Mae'r rhain yn gosod fframwaith ar gyfer adfywio sydd, yn fras, yn cynnwys gwelliannau cymdeithasol, economaidd a ffisegol. Mae cynlluniau strategaeth adfywio ddrafft Caerffili a ddiweddarwyd yn canolbwyntio ar: Cefnogi Pobl, iechyd a mynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb, cefnogi busnesau a'r economi, gwella ansawdd bywyd a chysylltu pobl a lleoedd. Mae strategaeth ddiweddaraf Blaenau Gwent a Strategaeth Economi a Menter Torfaen, yn eu hanfod, yn canolbwyntio ar yr economi, cyflogaeth, dysgu a buddsoddi mewn pobl a chymunedau. Ceir strwythur tebyg yn fframwaith "Dinas ar Gynnydd" Cyngor Casnewydd ac fe'i hadlewyrchir yng ngwaith Cyngor Sir Fynwy.<br>Mae gan adfywio gysylltiadau sylweddol â'r strategaeth digartrefedd newydd ac i'r gwrthwyneb. |
| **2.1.14 Cynlluniau ar gyfer Tywydd Eithafol** | Mae'r cynlluniau'n amlinellu sut bydd awdurdodau lleol yn cymryd camau gweithredu cadarnhaol yn ystod tywydd eithafol a darparu cysgod i bobl sy'n cysgu ar y stryd. Mae rhai rhannau o Went yn wledig (yn enwedig Sir Fynwy). Gall tywydd gwael ynghyd â phrinder cysgod waethygu amodau i rywun sy'n cysgu allan mewn ardaloedd gwledig (e.e. gweler Yr Hawl i Gartref? Ailystyried Digartrefedd mewn Cymunedau Gwledig: Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus 2017). Er mwyn lleihau effeithiau gwaethaf cysgu ar y stryd mae'n rhaid bod gan bob Awdurdod Lleol gynlluniau tywydd eithafol ysgrifenedig. |
| **2.1.15 Cynllun Gweithredu** | Mae CGIGDAN Gwent yn amlinellu sut dylid cynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion iechyd pobl |

| | |
|---|---|
| **Iechyd Grwpiau Digartref ac Agored i Niwed (CGIGDAN) Gwent** | ddigartref a'r rhai sydd mewn perygl o ddigartrefedd, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r ffactorau cymdeithasol sy'n gyfrifol am iechyd, anghydraddoldeb iechyd a chylchoedd iechyd gwael a digartrefedd. (Gweler hefyd Y Protocol Rhyddhau o Ysbytai ar gyfer Pobl Ddigartref yng Nghymru a Fframwaith Rhyddhau o Ysbytai Cyngor Torfaen). |
| **2.1.16 Strategaeth Iechyd Meddwl Integredig Gwent 2012-17** | Wedi'i datblygu gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol a sefydliadau iechyd a'r trydydd sector yng Ngwent, roedd y blaenoriaethau strategol yn cynnwys gwaith cydlynol a chyfathrebu i ddatblygu a darparu gwasanaethau iechyd meddwl, datblygu amrywiaeth eang o wasanaethau, galluogi dewisiadau llety gwahanol, cymorth yn y gymuned, gwasanaethau arbenigol lle bo angen, ymateb i anghenion pobl â demensia, sicrhau'r defnydd gorau ar adnoddau iechyd meddwl a hybu gwaith partneriaeth. (Gweler hefyd Bwrdd Partneriaeth Lleol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Gwent.) |
| **2.1.17 Camddefnyddio Sylweddau ac Alcohol** | Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau Gwent yn fforwm sy'n cyfuno pob asiantaeth sy'n ymwneud â chynllunio, comisiynu a gweithredu ar faterion camddefnyddio sylweddau yn rhanbarthol. (Gweler Strategaeth RCC CP.) |
| **2.1.18 Cam-drin Domestig** | Mae Bwrdd Partneriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (TEMCDRh) De-ddwyrain Cymru yn helpu i drefnu gwasanaethau sy'n ymwneud â lleihau cam-drin domestig a chefnogi rhywun sy'n dioddef cam-drin domestig yng Ngwent. (Gweler Strategaeth RCC CP a hefyd adrannau 2.1.10 a 2.1.26.) |
| **2.1.19 Plant, Pobl Ifanc, Pobl sy'n Gadael Gofal ac Oedolion mewn Perygl** | Mae'r Bwrdd Partneriaeth TEMCDRh hefyd yn cyd-fynd â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Fwrdd Plant Diogelu De-ddwyrain Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent. (Gweler Strategaeth RCC CP.) |
| **2.1.20 Tlodi – Incwm a Chyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant** | ffordd mae'r Cynlluniau Lles Lleol bellach yn symud i flaen y cyfeiriad strategol ar gyfer sut bydd awdurdodau lleol yn ymdrin â thlodi. Gellir gwneud llu o gysylltiadau eraill o hyd o ran tlodi. Dyma rai enghreifftiau: Project Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Blaenau Gwent, sy'n annog partneriaid o bob rhan o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol i weithio gyda'i gilydd i drechu tlodi. Nod Strategaeth Gwrthdlodi Cyngor Caerffili yw cefnogi cyfleoedd cyflogaeth, cynyddu incwm aelwydydd a datblygu sgiliau a gwybodaeth i liniaru tlodi. Nod Rhaglen Fwriad Trechu Tlodi Cyngor Sir Fynwy yw helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i rywun, gwella hyfforddiant a chyflogaeth a darparu cymorth. Mae Cyngor Casnewydd yn arwain y project Ysbrydoli i Gyflawni – project teirblwydd a ddechreuwyd ym mis Ebrill 2016 gyda'r nod o leihau'r perygl na fydd pobl ifanc rhwng 11 a 24 oed yn symud ymlaen i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn ne- |

| | |
|---|---|
| | ddwyrain Cymru. Pwyslais Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cyngor Torfaen 2016-21 yw helpu rhywun i dderbyn cyngor a chymorth a gwella sgiliau ariannol a rheoli arian trwy nodi'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod mewn perygl. Gellir cysylltu'r fath strategaethau/gynlluniau/brojectau'n strategol â'r strategaeth digartrefedd newydd. |
| **2.1.21 Partneriaeth Diwygio Lles Gwent** | Ffurfiwyd Partneriaeth Diwygio Lles Gwent i leihau effaith diwygiadau lles ar bobl sy'n byw yng Ngwent. Ei nod yw cynyddu ymwybyddiaeth o'r diwygiadau lles ymhlith cydweithwyr proffesiynol, LlC, ASau a chynghorwyr lleol i dynnu eu sylw at oblygiadau diwygiadau lles. (Gweler Strategaeth RCC CP.) Fe'i defnyddir hefyd i rannu arfer gorau a helpu pobl i ymdopi'n well â'r newidiadau i'w budd-daliadau. |
| **2.1.22 Polisïau Taliad Tai yn ôl Disgresiwn (TTD)** | Os oes rhywun yn derbyn Budd-dal Tai, Lwfans Tai Lleol neu elfen tai Credyd Cynhwysol, gallai fod modd iddo dderbyn cyllid ychwanegol i'w helpu i gynnal ei denantiaeth dai ar ffurf TTD. Mae gan hyn oblygiadau pwysig o ran atal digartrefedd. Fel arfer caiff y cyllid hwn ei dalu am gyfnod cyfyngedig a bydd yn destun meini prawf cymhwyso. Mae Torfaen a'r Cyngor yn rhannu eu Polisi TTD â Chyngor Sir Fynwy. Mae gan y tri chyngor arall yng Ngwent weithdrefnau TTD ar wahân. |
| **2.1.23 Gweithdrefnau Taliadau Grant Atal Tai Awdurdodau Lleol** | Mae cyllid gan dimau atebion tai pob awdurdod lleol a ddefnyddir ganddynt i atal digartrefedd. Gellir rhoi taliad i rywun i'w helpu i gynnal neu sicrhau tenantiaeth (yn amodol ar feini prawf cymhwyso). Mae taliadau atal digartrefedd hefyd yn gysylltiedig â TTD (ac o bosib feysydd eraill e.e. y Cynllun Bond). |
| **2.1.24 Gadael y Lluoedd Arfog** | Ymrwymodd pob un o awdurdodau Gwent i Gyfamod Cymuned y Lluoedd Arfog – addewid gwirfoddol i annog elusennau, awdurdodau lleol, busnesau, cymunedau ac unigolion i gydweithio â'r lluoedd arfog i gynnig cymorth i bersonél a'u teuluoedd, yn ogystal ag aelodau wrth gefn a chyn-aelodau. Ceir goblygiadau pwysig ynghlwm wrth atal digartrefedd. |
| **2.1.25 Rhyddhau o Remand a'r Ddalfa** | Cyflwynodd y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion sy'n Gadael Sefydliadau Diogel broses atgyfeirio i awdurdodau lleol a sefydlwyd rhwng y Swyddogion Ailsefydlu yn y carcharau a thimau digartrefedd yr awdurdodau lleol. Mae'n hanfodol bod cyswllt cryf rhwng y gwasanaeth carcharau, y gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid a'r awdurdodau lleol. (Gweler hefyd Rhaglen Ailsefydlu Cymunedol Cymru.) Mae cyfarfodydd MAPPA Gwent (sy'n cael eu cadeirio gan yr heddlu neu'r gwasanaeth prawf) yn dwyn partneriaid ynghyd i asesu risgiau cysylltiedig i unigolyn a chymuned. Ymgymerir â monitro gyda'r asiantaethau angenrheidiol, yn amodol ar gofrestru a |

| | |
|---|---|
| | gorchmynion goruchwylio. Mae'n ddyletswydd ar adrannau tai i gydweithredu yn y broses hon. |
| **2.1.26 Troseddu/Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** | Mae Cynllun Plismona a Throseddu Gwent yn canolbwyntio ar atal troseddu, cymorth dioddefwyr, cydlyniant cymunedol, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Mae gan y themâu hyn gysylltiadau strategol amlwg â digartrefedd. Er enghraifft, mae gweithio mewn partneriaeth i drechu caethwasiaeth fodern, troseddau casineb, aflonyddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a cham-drin domestig oll yn rhannu cysylltiadau â digartrefedd. Gweler hefyd Partneriaeth Gwent Fwy Diogel a sefydlwyd er mwyn gweithio gyda phartneriaid diogelwch cymunedol allweddol a rhoi cyfeiriad a strwythur strategol i ddiogelwch cymunedol ar draws Gwent. |
| **2.1.27 Cydraddoldeb, Tegwch a Mynediad i Wasanaethau** | Mae cydraddoldeb a mynediad teg i wasanaethau'n gydrannau hanfodol o'r strategaeth digartrefedd newydd. Mae gan bob un o awdurdodau lleol Gwent ddyletswyddau statudol a geir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. (Gweler Cynlluniau/Polisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol pob un o awdurdodau lleol Gwent i gael mwy o wybodaeth). Ceir nifer o ddogfennau polisi sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a mynediad tecach i wasanaethau sydd â chysylltiadau strategol â digartrefedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cwblhau Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr i nodi anghenion tai ymhlith Sipsiwn a Theithwyr; strategaethau a chynlluniau ar gyfer pobl hŷn; strategaethau a chynlluniau CP; strategaethau a chynlluniau ar gyfer pobl ifanc; polisïau a gweithdrefnau addasu tai a grantiau ar gyfer cyfleusterau i'r anabl; a chynlluniau sy'n ymwneud â ffoaduriaid a cheiswyr lloches (nid rhestr hollgynhwysfawr yw hon). |
| **2.1.28 Gwasanaeth Cwsmeriaid** | Mae pob un o gynghorau Gwent yn gweithredu strategaethau a chynlluniau ar gyfer gwella gwasanaeth cwsmeriaid (e.e. Strategaeth Trawsnewid Gwasanaeth Cwsmeriaid Cyngor Blaenau Gwent) sydd â chysylltiadau cryf ag Adran 2.1.27. Mae'n hanfodol y caiff gwasanaeth cwsmeriaid ei gynnwys yn y strategaeth newydd. |
| **2.1.29 Protocolau Rhannu Gwybodaeth** | Mae protocolau effeithiol a chyfredol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid allweddol (h.y. yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018) hefyd yn bwysig iawn. Mae hyn i'w weld yn yr ymdrech gan awdurdodau lleol i alluogi darparwyr gwasanaethau CP i rannu gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth yn haws (soniwyd sawl gwaith am fantais datblygu pyrth CP ar-lein yn ystod yr ymgynghoriad). Gweler hefyd gwaith y Rhwydwaith Gwybodaeth am Ddigartrefedd Stryd a'i ymdrech i rannu |

| | |
|---|---|
| | gwybodaeth, fel sy'n briodol, am bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru. Soniwyd sawl gwaith yn ystod yr ymgynghoriad am y perygl o beidio â chydymffurfio â safonau llymach y GDPR a'r effaith ar rannu protocolau a rheoli data. |
| **2.1.30 Timau Iechyd y Cyhoedd a'r Amgylchedd/System Graddio Tai, Iechyd a Diogelwch** | O ran safonau tai a rheoli tenantiaethau (yn benodol yn y sector rhentu preifat), mae awdurdodau lleol yn cyfrannu at atal digartrefedd e.e. yn achos gorboblogi posib neu os yw tŷ mewn cyflwr gwael. (Gweler hefyd y System Graddio Tai, Iechyd a Diogelwch a Deddf Rhentu Tai (Cymru) 2014.) O'r 165 ymatebwr yn yr arolwg ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth, nododd 5 fod iechyd yr amgylchedd neu gyflwr yr eiddo yn gysylltiedig â'u digartrefedd. Dylid nodi bod safonau a rheolaeth ffisegol tai amlfeddiannaeth yn cael eu trwyddedu gan awdurdodau lleol, a bod tai amlfeddiannaeth yn gyswllt pwysig â digartrefedd - a allai fod yn gynyddol bwysig yn ystod cyfnod y strategaeth digartrefedd newydd ar gyfer Gwent o ystyried nifer yr aelwydydd sengl sy'n gofyn i gynghorau am gymorth gyda'u sefyllfa ddigartrefedd (a nodir yn Nhabl 5.18.1 yn Adran 5 isod). |
| **2.1.31 Cynlluniau Hyfforddi Staff** | Mae hyfforddi staff a'r angen am ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn gysylltiedig â swm sylweddol yr adborth o'r ymgynghoriad. Er enghraifft, cafodd sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid, rheoli disgwyliadau, rheoli anghydfodau, gweithio gyda landlordiaid preifat, gwybodaeth gyfreithiol, profion hyfedredd, arfer a gyfeirir yn seicolegol, sicrhau hyfforddiant gloywi a hyfforddiant da i staff newydd a chynlluniau prentisiaeth oll eu trafod yng nghyfarfod Rhwydwaith Digartrefedd Cymru ar 16.01.18. Yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw – Digartrefedd 2018, mae argymhelliad 1 yn cefnogi'r syniad bod "*staff yn ddigon medrus i ymdrin â gofynion cyfryngu, datrys problemau, cyd-drafod a dylanwadu*". Soniwyd sawl gwaith yn ystod yr ymgynghoriad am hyfforddiant (e.e. Cyfarfod Rhwydwaith Digartrefedd Cymru ar 16.01.18 a chyfarfod Grŵp Ffocws Staff Cyngor Caerffili ar 24.01.18), ynghyd â phryder y gallai hyfforddiant prinhau'n gynyddol oherwydd costau/diffyg adnoddau mewn cynghorau (e.e. Cyfarfod Grŵp Ffocws Staff Awdurdod Lleol Cyngor Sir Fynwy ar 13.02.18). |

## 2.2 Pwyntiau Allweddol:

- Mae ystyried y cysylltiadau strategol uchod wedi helpu ymhellach i fframio peth o'r cyd-destun ehangach ynglŷn â'r adolygiadau.
- Mae'r llwybrau uchod yn tynnu mwy o sylw at y cymhlethdod sydd ynghlwm wrth gydlynu datblygu cynlluniau a gwasanaethau digartrefedd. I fod yn llwyddiannus, mae angen i bartneriaid ymateb ac ymrwymo i'r strategaeth digartrefedd

newydd a'i chamau gweithredu ar y cyd. Dyna pam roedd ymgynghoriad helaeth (penodol) mor bwysig wrth lunio'r adolygiadau h.y. gosod y gwaith sylfaen ar gyfer momentwm ac ymrwymiad parhaus gan lu o bartneriaid yn y dyfodol.

- Dengys adrannau 1 a 2 fod sawl thema a rennir y gellir eu defnyddio i feithrin gwaith partneriaeth a chanlyniadau sy'n gydfuddiol i randdeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth gwahanol (ar draws Gwent ac mewn awdurdodau lleol).
- Byddai adran 2 yn awgrymu bod mwy o gyfle i gynghorau Gwent leihau nifer y strategaethau ac efallai cydlynu rhai ar lefel fwy rhanbarthol. Soniwyd hefyd am ddatblygu protocolau a strategaethau ar y cyd ymhellach rhwng asiantaethau statudol ac anstatudol yng nghyfarfod Grŵp Ffocws Staff Cyngor Caerffili ar 24.01.18.
- Bydd datblygu strategaeth digartrefedd ar gyfer Gwent yn helpu i gyfuno'r themâu yn adrannau 1 a 2 gyda'r bwriad o feithrin cysylltadwyedd, cydweithredu a chyd-gynhyrchu. Yn benodol, mae argymhelliad 6 yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw – Digartrefedd 2018, yn cefnogi'r syniad o awdurdodau lleol yn amlinellu ac yn cytuno ar eu disgwyliadau i bartneriaid ac yn nodi sut byddant yn gweithio gyda'i gilydd i liniaru digartrefedd, gyda chytundebau a pherfformiad yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae hyn yn ystyriaeth bwysig ar gyfer Gwent (er byddai angen adnoddau i'w gyflawni wrth gwrs).
- Gallai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn ddulliau delfrydol o hybu integreiddio'r strategaeth digartrefedd newydd ar gyfer Gwent a gwaith partneriaeth i gyflwyno'r cynlluniau gweithredu digartrefedd.
- O ystyried y pwysau cyson ar gyllidebau a gwasanaethau a'r setiau sgiliau amrywiol y mae eu hangen i helpu pobl ddigartref, ni ddylai awdurdodau lleol anwybyddu pwysigrwydd hyfforddiant i staff. Dyma faes penodol a allai elwa o waith rhanbarthol a chydweithredu.
- Yn olaf, maes pwysig arall i'w ystyried yw'r cyllidebau digartrefedd a CP yn awdurdodau lleol Gwent, a geir yn Adran 7 y ddogfen hon.

## 3. Dadansoddiad Ehangach: Poblogaeth, Iechyd, Tlodi ac Incwm

3.1 Mae Adran 3 yn rhoi darlun bras o'r amodau cymdeithasol ac economaidd ym mhob un o bum awdurdod lleol Gwent. Ceir gwybodaeth fanylach mewn sawl


dogfen ymchwil arall, y mae rhai ohonynt wedi'u crybwyll uchod, yn ogystal â sawl adnodd sydd ar gael yn gyhoeddus. Bwriedir i'r ymdriniaeth o'r meysydd dan sylw yn yr adran hon roi trosolwg yn unig o'r amgylchedd y mae gwasanaethau digartrefedd yn gweithredu ynddo yng Ngwent.

3.2 Mae Tabl 3.2.1 yn nodi nifer y bobl y cilometr sgwâr, sy'n dangos mai Sir Fynwy yw'r ardal fwyaf gwledig o bell ffordd yng Ngwent.

| Nifer y bobl y cilometr sgwâr | Canol blwyddyn 2011 | Canol blwyddyn 2012 | Canol blwyddyn 2013 | Canol blwyddyn 2014 | Canol blwyddyn 2015 | Canol blwyddyn 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 642.1 | 642.2 | 641.9 | 640.8 | 639.6 | 640.4 |
| Caerffili | 644.5 | 645.4 | 646.2 | 648.7 | 649.5 | 650.6 |
| Sir Fynwy | 107.8 | 107.9 | 108.5 | 108.7 | 108.9 | 109.3 |
| Casnewydd | 765.2 | 766.9 | 769.2 | 770.7 | 775.6 | 782.8 |
| Torfaen | 725.5 | 726.9 | 727.2 | 728.8 | 730.6 | 732.3 |
| Cymru | 98.3 | 98.5 | 98.5 | 98.6 | 98.4 | 98 |

Tabl 3.2.1: Ystadegau Cenedlaethol – Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru 2014

3.3 Yn ôl amcanestyniadau twf poblogaeth yn Ngraff 3.3.1*, y twf poblogaeth canrannol mwyaf dros yr ugain mlynedd nesaf fydd yng Nghasnewydd. Gellir tybio bod Casnewydd yn debygol o brofi mwy o gynnydd cyfatebol yn y galw cyffredinol am wasanaethau cyhoeddus, o'i chymharu ag awdurdodau lleol eraill Gwent. I'r gwrthwyneb gallai poblogaeth Blaenau Gwent leihau wrth i boblogaeth Torfaen a Sir Fynwy leihau ond ychydig.




Graff 3.3.1: Ystadegau Cenedlaethol – Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru 2014. *Mae rhagdybiaethau am enedigaethau, marwolaethau ac ymfudo hefyd wedi'u hymgorffori yn y ffigurau gan Lywodraeth Cymru

3.4 Dengys Tabl 3.4.1 y lefel amrywiaeth ar draws Gwent. Gellir gweld bod poblogaeth Sir Fynwy yn debygol o fod yn hŷn a bod poblogaeth Casnewydd yn gyffredinol iau. Gallai fod mwy o bobl anabl yn byw yn ardaloedd awdurdodau Blaenau Gwent a Chaerffili. Casnewydd yw'r awdurdod lleol â'r amrywiaeth ethnig mwyaf o bell ffordd ac mae'n fwy tebygol o gynnwys aelwydydd lle nad Saesneg na Chymraeg yw'r iaith gyntaf. Mae gan Dorfaen y boblogaeth uchaf o Sipsiwn a Theithwyr. Yn ganrannol mae Sir Fynwy wedi rhoi cartref i'r nifer mwyaf o ffoaduriaid ac mae Casnewydd wedi rhoi cartref i'r nifer mwyaf o geiswyr lloches. Yn fras, mae rhywioldeb yn dueddol o fod yn debyg iawn ar draws Gwent. Mae'n bosib bod gan Flaenau Gwent nifer ychydig yn uwch o aelwydydd sengl. Mae'n nodedig bod gan Sir Fynwy lai o aelwydydd rhieni sengl, llai o ferched beichiog yn eu harddegau a mwy o aelwydydd Cristnogol (sy'n debygol o fod yn ymwneud â'r ffaith fod gan Sir Fynwy boblogaeth hŷn). Hefyd, yn ganrannol, mae llai o blant Sir Fynwy yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae amrywiaeth crefyddol yn fwy tebygol yng Nghasnewydd. Awgryma'r data ystadegol yn Nhabl 3.4.1 fod amrywiaeth ledled Gwent yn fach iawn yn gyffredinol (safbwynt lefel uchel bras). Ni ddisgwylir i'r cymarebau yn y tabl newid yn sylweddol yn ystod cyfnod y strategaeth digartrefedd.

| Canrannau'r Boblogaeth | Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 16-24 oed* | 10.8 | 10.4 | 9.2 | 11.1 | 10.6 | 11.6 |
| 25-44 oed* | 24.6 | 25.1 | 19.9 | 25.9 | 23.9 | 23.8 |
| 65+ oed* | 19.8 | 18.8 | 24.1 | 17.4 | 20.1 | 20.4 |
| Oedolion oedran gweithio sy'n anabl** | 25.4 | 26 | 21.4 | 23.7 | 23.3 | 22.5 |
| Gwryw* | 49.3 | 49.0 | 49.4 | 49.1 | 48.7 | 49.3 |
| Menyw* | 50.7 | 51.0 | 50.6 | 50.9 | 51.3 | 50.7 |
| Ymuniaethu â rhywedd arall *** | Mae bwlch a gydnabyddir yn eang yn y data ystadegol am hunaniaeth rhywedd yn y DU, y disgwylir i gyfrifiad 2021 ei lenwi. | | | | | |
| O Gefndir nad yw'n Wyn*** | 2 | 2 | 1.4 | 8 | 2.5 | 4.7 |
| O Gefndir Gwyn**** | 98 | 98 | 98.6 | 92 | 97.5 | 95.3 |
| Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig***** | 0.1 | 0.02 | 0.01 | 0.06 | 0.2 | 0.1 |
| Ceiswyr Lloches****** | 0 | 0 | 0 | 18.32 | 0 | - |
| Ffoaduriaid****** | 1.7 | 3.7 | 4.0 | 2.5 | 3.0 | - |
| Iaith yr Aelwyd******* | 0.7 | 0.5 | 0.6 | 2.9 | 0.5 | 1.7 |
| Heterorywiol******** | - | 96.4 | 98.7 | 95.4 | 97.7 | 95 |
| Ymuniaethu â Hoyw neu Ddeurywiol********* | - | 1 | 0.7 | 1.9 | 1 | 1.5 |
| Aelwyd 1 Person********* | 33 | 28 | 28 | 32 | 30 | 32 |
| 1 Oedolyn â Phlentyn/Phlant********* | 7.8 | 8.0 | 4.6 | 8.1 | 7.1 | 6.8 |
| 2 Oedolyn neu Fwy a | 19.8 | 22.3 | 21.3 | 22.2 | 22.1 | 20.3 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Phlentyn/Phlant*** ****** | | | | | | |
| **2 Oedolyn neu Fwy a Dim Plant********* | 39.8 | 41.9 | 45.8 | 37.8 | 41.0 | 41.3 |
| **Dim Crefydd********** | 41.1 | 40.9 | 28.5 | 29.7 | 35.8 | 32.1 |
| **Cristion********** | 49.9 | 50.7 | 62.5 | 56.9 | 55.4 | 57.6 |
| **Bwdhydd********** | 0.2 | 0.2 | 0.3 | 0.2 | 0.2 | 0.3 |
| **Hindŵ********** | 0.1 | 0.1 | 0.2 | 0.5 | 0.3 | 0.3 |
| **Iddew********** | 0.01 | 0.04 | 0.1 | 0.1 | 0.02 | 0.1 |
| **Mwslim********** | 0.3 | 0.2 | 0.3 | 4.7 | 0.3 | 1.5 |
| **Sîc********** | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| **Crefydd Arall********** | 0.4 | 0.4 | 0.4 | 0.3 | 0.3 | 0.4 |
| **Beichiog (19 oed ac iau) *********** | 11.8 | 11.7 | 7.9 | 9.6 | 11.7 | 11.9 |
| **Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdod Lleol (0-15 oed) ************** | 17.3 | 18.9 | 16.5 | 20.2 | 18.4 | 17.9 |

Tabl 3.4.1:

* Amcanestyniadau Poblogaeth Canol Blwyddyn 2016 y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

** Arolwg Poblogaeth Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol Mawrth 2013

*** Ymchwil Testunau Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol Rhagfyr 2017

**** Arolwg Poblogaeth Blynyddol Rhagfyr 2017 y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

***** Cyfrifiad 2011– Grwpiau Ethnig y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

****** Ystadegau Ymfudo'r Swyddfa Gartref: Ceiswyr Lloches sy'n Derbyn Cymorth Adran 95 ar Ddiwedd y Chwarter yng Nghymru Hydref i Ragfyr 2017. Ffoaduriaid (ac Eraill) a Ailsefydlwyd o dan y Cynllun Ailsefydlu Pobl sy'n Agored i Niwed, gan gynnwys Dibynyddion yng Nghymru 2016 a 2017

******* Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol: Cyfrifiad 2011 – Nifer y Bobl mewn Aelwydydd lle mai'r Saesneg neu'r Gymraeg yw Prif Iaith

******** Amcangyfrifon Hunaniaeth Rhywiol Isgenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol 2013-15


********* Amcangyfrifon Aelwydydd Cymru 2016 Llywodraeth Cymru

********** Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol: Cyfrifiad 2011 – Preswylwyr Cymru yn ôl Crefydd

*********** Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol: Cofrestriadau Genedigaethau Ebrill 2017


************ Llywodraeth Cymru – Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Data a Gasglwyd am Blant sy'n Derbyn Gofal (SSDA903) Rhagfyr 2017. Amcanestyniadau Poblogaeth Canol Blwyddyn 2016 y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

3.5 Dengys Graff 3.5.1 fod amrywiad 3-4 blynedd rhwng poblogaethau o ran disgwyliad oes ar draws Gwent. Er na chyfrifir marwolaethau pobl sy'n cysgu ar y stryd yn lleol nac yn genedlaethol, mae peth ymchwil yn awgrymu bod pobl ddigartref yn gallu marw tua 30 mlynedd yn iau na'r boblogaeth gyffredinol ar gyfartaledd (gweler adroddiad Crisis, Homeslessness Kills 2012). Er bod Graff 3.5.1 yn awgrymu y gall y bwlch rhwng Blaenau Gwent a Sir Fynwy fod yn culhau ychydig dros amser.




Graff 3.5.1: Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol: Disgwyliad Oes fesul Awdurdod Lleol


3.6 Dengys Graff 3.6.1 y symudodd cyfradd marwolaethau y gellir eu hosgoi Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (sy'n gyfrifol am Went) yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2014-15. Ym mwletin y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol - Measuring Socio-Economic Inequalities in Avoidable Mortality in England and Wales 2015 – nodwyd bod mwy na dwywaith y nifer o farwolaethau y gellid eu hosgoi yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn 2015 nag yng ngweddill y wlad. Mae perthynas gref rhwng marwolaethau y gellir eu hosgoi ac amddifadedd a digartrefedd fel y nodwyd yn Adran 3.5 uchod. Er y dengys Graff 3.6.1 y bu tuedd ostyngol gyffredinol dros gyfnod estynedig, gall cyfraddau marwolaethau y gellir eu hatal gynyddu a gostwng o flwyddyn i flwyddyn, sy'n awgrymu y bydd y patrwm hwn yn parhau yn ystod cyfnod y strategaeth digartrefedd.



Graff 3.6.1: Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol – Marwolaethau Atebol a'r Rhai y Gellir eu Hosgoi a'u Hatal fesul Bwrdd Iechyd Lleol, Cymru


3.7 Yn y cyhoeddiad ymchwil, Ystadegau Iechyd Cymru: Crynodeb o Ganlyniadau 2016 gan LlC, gellir gweld bod mwy o broblem gyffredinol gyda gordewdra yng Ngwent nag mewn rhannau eraill o Gymru. Wrth adolygu data proffil y byrddau iechyd lleol ar gyfer Gwent yn 2015, gwelir bod 28% o'r boblogaeth yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol ar 5+ diwrnod yr wythnos, ond cyfartaledd Cymru yw 31%, a bod 61% o'r boblogaeth yn ordew neu dros bwysau, ond cyfartaledd Cymru yw 59%.

3.8 Yn aml mae problemau iechyd meddwl yn broblem sylweddol dros ben i bobl ddigartref (GCIGDANau). Dengys Graff 3.8.1 nifer y bobl sydd wedi'u derbyn neu eu cadw mewn sefydliadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl fesul bwrdd iechyd. Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan nifer sylweddol uwch o dderbyniadau na bron pob bwrdd iechyd arall.




Graff 3.8.1: Llywodraeth Cymru – Derbyniadau, Newidiadau o ran Statws ac Achosion Cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

3.9 Fel yn achos problemau iechyd meddwl, gall problemau camddefnyddio sylweddau hefyd fod yn ddifrifol iawn i bobl ddigartref (gall y ddau fath ddigwydd gyda'i gilydd – GCIGDANau). Mae Graff 3.9.1 yn awgrymu bod mwy o broblem gyda chyffuriau yng Ngwent na bron pob bwrdd iechyd arall.




Graff 3.9.1: Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol: Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Amcanestyniad Canol Blwyddyn 2016 o'r Gyfradd Asesu fesul 100,000 o'r Boblogaeth

3.10 Yn Nhabl 3.10.1, mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MMALIC) – dull swyddogol LIC o fesur amddifadedd cymharol yn ardaloedd bach yng Nghymru – yn dangos bod yr amddifadedd gwaethaf yn debygol o fod yn fwy amlwg mewn rhai o awdurdodau lleol Gwent. I roi cyd-destun i hyn, mae gan Flaenau Gwent 47 ardal yn y mynegai, y mae 85% ohonynt ymhlith y 50% uchaf o bob ardal ym MALIC. Mae gan Sir Fynwy fwy o ardaloedd yn y mynegai, sef 56, ond 21% yn unig o'r rhain sydd ymhlith y 50% uchaf o ardaloedd difreintiedig yn nata MALIC.

Fodd bynnag, ni ddylai hynny dynnu sylw o'r ffaith bod gan Sir Fynwy ardaloedd lle mae amddifadedd a thlodi ynghyd â'i hanfanteision ei hun. Er enghraifft, gallai ei lleoliad gwledig a'i mynediad gwael (y soniwyd amdanynt yn ystod yr ymgynghoriad) gyfyngu ymhellach ar gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer aelwydydd incwm is yn Sir Fynwy a allai, mae modd dadlau, ei roi dan anfantais i'r boblogaeth incwm is o'i chymharu ag ardaloedd eraill Gwent.

| **Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau)** | **Blaenau Gwent** | **Caerffili** | **Sir Fynwy** | **Casnewydd** | **Torfaen** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig (1-191) ym MALIC** | 23 | 13 | 0 | 15 | 5 |
| **Ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig (1-328) ym Malc** | 47 | 28 | 0 | 31 | 25 |
| **Ymhlith y 50% mwyaf difreintiedig (1-955) ym Malc** | 85 | 67 | 21 | 57 | 57 |

Tabl 3.10.1: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014


3.11 Yng Nghasnewydd rhwng dechrau mis Ebrill a diwedd mis Medi 2017, rhoddwyd 1,439 o nwyddau brys i bobl mewn angen – cynnydd o 1,242 yn yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Roedd y ffigur yn uwch yn Nhorfaen lle dosbarthwyd 2883 o nwyddau brys – cynnydd o 2862 y flwyddyn flaenorol. O ran y defnydd ar fanciau bwyd yn 2017, Torfaen oedd y pedwerydd awdurdod lleol uchaf yng Nghymru gyfan – ar ôl Caerdydd, Sir Gâr ac Abertawe yn unig. Y rheswm tebycaf am hyn yw cyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2017 yn Nhorfaen (gweler erthygl y South Wales Argus – Foodbank expects surge in demand when Universal Credit is fully rolled out 07.11.17).

Os dyma'r achos, gall Blaenau Gwent, Caerffili a Sir Fynwy ill tri ddisgwyl cynnydd yn y defnydd ar fanciau bwyd wrth i'r broses i gyflwyno Credyd Cynhwysol ddechrau yn ystod 2018. Yn sicr, barn Ymddiriedolaeth Trussell yw bod y defnydd cynyddol ar fanciau bwyd ar draws Cymru yn ganlyniad i'r "*lefelau incwm annigonol a phroblemau gyda thaliadau budd-dal*" (erthygl gan Free Press.- Foodbank Usage in Torfaen on the Rise amid Concerns over Universal Credit Roll-out 17.11.17).

| Nifer y Bobl a Gynorthwywyd gan Fanciau Bwyd | Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen |
|---|---|---|---|---|---|
| **2017-18** | 4275 | 5626 | 2509 | 3041 | 6320 |
| **2016-17** | 4405 | 5895 | 2358 | 2896 | 6527 |


Table 3.11.1: Ffigurau Diwedd Blwyddyn Banc Bwyd Ymddiriedolaeth Trussell

3.12 Dengys Graff 3.12.1 fod lefelau cyflogaeth wedi cynyddu'n gyffredinol ar draws Gwent a Chymru dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n anodd iawn asesu sut bydd lefelau cyflogaeth dros y pum mlynedd nesaf yng Ngwent. Oni bai y bydd newidiadau sylweddol i'r economi (e.e. goblygiadau Brexit), gallai'r duedd gynyddol barhau.





Graff 3.12.1: Arolwg Poblogaeth Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol/Arolwg o'r Gweithlu Lleol: Crynodeb o Weithgaredd Economaidd, Arolwg Poblogaeth Blynyddol

3.13 Dengys Graff 3.13.1 duedd gynyddol debyg o ran enillion wythnosol cyfartalog. Fodd bynnag, dylid nodi bod enillion amser llawn cyfartalog yng Nghymru yn 12 y cant yn is nag yn y DU gyfan, ac yn is nag yn yr Alban a holl ranbarthau Lloegr (gweler The Homelessness Monitor Wales 2017 gan Crisis).





Graff 3.13.1: Swyddfa Ystadegau Gwladol - Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion

3.14 Hyd yn oed os bydd lefelau cyflogaeth yn parhau'n gyson dros y 4 i 5 mlynedd nesaf, dengys Graff 3.14.1 fod nifer sylweddol o bobl yn gweithio mewn swyddi sy'n talu'n is na'r cyflog byw yng Ngwent – gyda'r ganran uchaf ym Mlaenau Gwent sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r amrywio sylweddol o flwyddyn i flwyddyn yn Nhorfaen a Gwent, yn benodol, yn debygol o adlewyrchu'r farchnad swyddi leol. Fel enghraifft, dengys Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2017 y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod gan Flaenau Gwent ganran uwch o'i boblogaeth mewn "gwaith unedau prosesu a gweithredu peiriannau" a "gwaith lefel sylfaenol": 26.7% ym Mlaenau Gwent o'i gymharu â 19.6% yn Sir Fynwy. Mae'r fath swyddi'n talu'n llai (gweler Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2017). Er y bydd nifer o resymau eraill am y tueddiadau yng Ngraff 3.14.1, mae'r graff yn arddangos pa mor gyflym cymarebau tâl is newid ar lefel awdurdod lleol.





Graff 3.14.1: Swyddfa Ystadegau Gwladol – Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion

3.15 Dengys Graff 3.15.1* hefyd fod gan Flaenau Gwent y ganran uchaf o awdurdodau lleol sydd ag aelwydydd heb waith, o'i gymharu â gweddill Gwent a Chymru. Mae'n debygol y gellir cysylltu gostyngiadau cyffredinol mewn aelwydydd heb waith o 2012 tan 2016 â hynt diwygiadau lles yn y DU.




Graff 3.15.1: Arolwg Blynyddol y Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Aelwydydd yn ôl statws gweithgarwch economaidd *Yn cynnwys dim ond yr aelwydydd hynny sydd ag o leiaf un person rhwng 16 a 64 oed

3.16 Dengys Graff 3.16.1* fod canran y boblogaeth y talwyd *budd-daliadau allan o'r gwaith* iddi wedi gostwng yn gyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf yng Ngwent a Chymru. Mae'r gostyngiadau eang hyn yn gyson â'r cynnydd yn 3.12.1 a'r gostyngiad yn 3.15.1. Wrth i'r gwasanaeth Credyd Gynhwysol llawn gael ei gyflwyno yng Nghymru, mae'n debygol y bydd y canrannau yng Ngraff 13.16.1 yn codi yn y blynyddoedd a ddaw. O dan Gredyd Cynhwysol, mae'n rhaid i fwy o hawlwyr chwilio am waith nag o dan Lwfans Ceisio Gwaith. Gellir gweld hyn yn digwydd eisoes yn Nhorfaen (lle cyflwynwyd y gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn yn haf 2017).




Graff 3.16.1: Cyfrif hawlwyr y SYG *Y ganran yw nifer yr hawlwyr fel canran o boblogaeth breswyl ardal sydd rhwng 16 a 64 oed

| **3.17 Pwyntiau Allweddol:** |
| --- |
| • Yn Asesiad Anghenion y Boblogaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent, cafodd Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen eu categoreiddio'n ardaloedd difreintiedig â lefelau uchel o dlodi plant, iechyd gwael a diweithdra; cafodd Sir Fynwy ei chategoreiddio'n ardal gefnog, wledig iawn â phoblogaeth oedrannus iawn a oedd yn cynyddu; a chafodd Casnewydd yn ardal â mannau difreintiedig, nifer uchel o ddinasyddion amlddiwylliannol a galw uchel ar wasanaethau cyhoeddus (er bod yr uchod hefyd yn awgrymu y bu gan Dorfaen lefelau diweithdra uwch na Chasnewydd yn y blynyddoedd diwethaf<br>• Mae Adran 3 yn atgyfnerthu'r crynodebau cyffredinol.<br>• Yn fras, mae'r gwahaniaeth o ran demograffeg poblogaeth ar draws Gwent yn sylweddol mewn rhai ardaloedd, ond yn weddol gyson yn gyffredinol – gweler Tabl 3.4.1 am fwy o fanylder.<br>• Dylai gwasanaethau digartrefedd barhau i weithredu yn yr amgylchedd cyffredinol a amlinellir yn adrannau 1 i 3 dros gyfnod y strategaeth. Mae'r prif beryglon a allai effeithio ar ddigartrefedd yn ymwneud ag ansefydlogrwydd economaidd posib ac ansicrwydd ynglŷn â sefyllfa fasnachu'r DU yn y dyfodol (h.y. BREXIT), toriadau cyllid cyhoeddus, diwygiadau lles, costau byw cynyddol, cynnydd yn anghydraddoldeb incwm aelwydydd, tlodi, iechyd a diffyg digon o dai fforddiadwy. Soniwyd am yr holl bryderon hyn sawl gwaith yn ystod yr ymgynghoriad. |

# 4. Dadansoddiad Lleol: Llety

4.1 Mae tai'n hynod bwysig wrth atal a mynd i'r afael â digartrefedd, rhywbeth sy'n cael ei adlewyrchu efallai gan gymorth LIC ar gyfer Tai yn Gyntaf. Felly, mae rhaglenni sy'n cynyddu lefel y tai fforddiadwy yng Ngwent yn gydrannau hanfodol i atal a mynd i'r afael â digartrefedd.

4.2 Dengys 4.2.1 y galw net (blynyddol) rhagamcanol ar gyfer perchentyaeth gymdeithasol cost isel a rentir ac unedau llety a rentir ar gyfer y farchnad drosiannol (dros bum mlynedd). Er enghraifft, gellir priodoli'r angen cynyddol yn Nhorfaen i sawl ffactor megis y twf yn nifer yr aelwydydd, mwy o bobl yn gwneud cais i ymuno â chofrestrau tai cyffredin, y cynnydd ym mhrisiau tai, prisiau rhentu a digartrefedd, y mae pob un o'r rhain wedi creu mwy o alw am dai fforddiadwy. Er y gellir priodoli'r gostyngiad mawr o ran tai fforddiadwy y mae eu hangen gan Gyngor Caerffili i sawl ffactor hefyd, megis datblygu Cofrestr Tai Cyffredin Caerffili, rhaid pwysleisio bod y data yn yr AFDLau (Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol) hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig yw ystyried tai fforddiadwy ar lefel leol iawn. Yn Nhorfaen, er enghraifft, mae'r angen am dai cymdeithasol yn llawer mwy yn ne'r fwrdeistref nag yn y gogledd. Bydd y galw am dai fforddiadwy yn parhau i fod yn llawer trymach mewn gwahanol leoliadau/wardiau ym mhob awdurdod lleol nag mewn eraill. (Gweler pob un o'r pum AFDL ar gyfer mwy o wybodaeth fanwl am Went.) Er nad targedau cyflawni yw'r ffigurau yn Nhabl 4.2.1 (ac nid yw codi adeiladau newydd yr unig fodd i gynyddu cyflenwad tai fforddiadwy), mae Tabl 4.2.1 a Thabl 4.3.1 yn rhoi syniad o'r anhawster wrth ddarparu digon o dai fforddiadwy i ateb y galw yng Ngwent.

| Y Galw Net Blynyddol am Dai Fforddiadwy a Amcangyfrifwyd yn yr AFDLau | Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen |
|---|---|---|---|---|---|
| **2013-15** | 140 | 526 | 474 | 593 | 177 |
| **2017-18** | 70 | 222 | 475 | - | 223 |

Tabl 4.2.1: Data Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol: Cyfanswm rhagamcanol yr angen net am dai fforddiadwy bob blwyddyn. *Defnyddir cysylltnodau yn lle data gan mai rhai yn unig o'r AFDLau a oedd wedi'u diweddaru pan luniwyd yr adolygiadau.

4.3 Dengys Tabl 4.3.1 brif feintiau'r eiddo y mae eu hangen ym mhob un o'r pum awdurdod lleol. Dylid pwysleisio eto fod y ffigurau hyn yn rhoi amlinelliad bras ond byddant yn amrywio'n sylweddol ar lefel fwy lleol a fesul ward. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu mai am gartrefi bach (1 neu 2 ystafell wely) y mae'r angen pennaf ar draws Gwent. Gall hyn fod yn ymwneud â gofynion cynllunwyr/datblygwyr ond mae hefyd yn debygol iawn o gael ei achosi gan faint aelwydydd a diwygiadau lles h.y. y dreth ystafell wely ar dai cymdeithasol. (Gweler y pum AFDL am fwy o wybodaeth fanwl.)

| Cyflenwad y Tai | Blaenau | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen |
|---|---|---|---|---|---|

| Fforddiadwy Newydd* yr Ymrwymwyd i'w Hadeiladu dros 5 Mlynedd | Gwent | (2018-Drafft) | (2015) | (2013) | (Diweddariad 2017) |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 Ystafell Wely | 100 | 235 | 259 | - | 127 |
| 2 Ystafell Wely | 150 | 238 | 447 | - | 111 |
| 3 Ystafell Wely | 100 | 104 | 154 | - | 63 |
| 4 Ystafell Wely | - | 8 | 23 | - | 16 |

Tabl 4.3.1: Data Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol: Cyflenwad Tai Fforddiadwy Newydd yr Ymrwymwyd i'w Hadeiladu *Diffinnir tai fforddiadwy fel perchentyaeth gymdeithasol cost isel a rentir ac unedau llety a rentir ar gyfer y farchnad drosiannol. Defnyddir cysylltnodau yn lle data na roddwyd neu nad yw ar gael pan luniwyd yr adolygiadau.

4.4 Mae'r tabl isod yn awgrymu bod gan Sir Fynwy y nifer uchaf o aelwydydd lluosogi yn byw gyda'i gilydd (y gellir priodoli hyn o bosib i gostau uwch rhentu a pherchentyaeth yr ardal). Er na fydd pawb sy'n byw yn y sefyllfaoedd a amlinellir yn Nhabl 4.4.1 yn ddigartref, mae'r data hwn yn ategu'r dybiaeth bod nifer sylweddol o aelwydydd 'cudd' yn byw gydag aelwydydd eraill ledled Gwent. Mae Tabl 5.3.1 hefyd yn dangos bod teuluoedd a ffrindiau nad ydynt yn fodlon rhoi llety mwyach yn ffactor pwysig sy'n cyfrannu at lefelau aelwydydd digartref y mae dyletswyddau adrannau 66, 73 a 75 yn ddyledus iddynt yng Ngwent a gallai hyn fod yn arwydd arall o'r broblem gyda 'digartrefedd cudd'.


Yn ogystal, roedd yr arolwg ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a gynhaliwyd ar gyfer yr adolygiadau'n dangos bod 5.2% o ymatebwyr Caerffili wedi nodi bod oedolyn yn byw gyda nhw oherwydd nad oeddent yn gallu fforddio i fyw ar eu pennau eu hunain. Y ffigur ar gyfer Sir Fynwy oedd 14.3%, ac roedd yn 17.1% yng Nghasnewydd ac yn 9.7% yn Nhorfaen. Er bod y samplau a ddefnyddiwyd yn yr arolwg defnyddwyr gwasanaeth yn llai ac felly'n debygol o fod yn llai cywir na'r cyfrifiad, mae'r arolwg yn ategu'r syniad bod 'digartrefedd cudd' yn broblem sylweddol yng Ngwent. Mae'r arolwg hefyd yn dangos bod gan ychydig dan 10% o'r aelwydydd a nododd eu bod naill ai mewn perygl o fod yn ddigartref eu hunain neu eu bod eisoes yn ddigartref o leiaf un oedolyn arall na allai fforddio byw ar ei ben ei hun (aelwyd arall i bob pwrpas) a oedd yn byw gyda nhw hefyd.

| Canran y Teuluoedd Cudd mewn Aelwydydd | Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelwydydd Cudd yng Nghyfrifiad 2011 | 29.8 | 30.3 | 30.6 | 28.6 | 30.1 | 29.2 |

Tabl 4.4.1: Cyfrifiad 2011 – Teuluoedd Cudd, Plant Dibynnol, Teuluoedd, PCT (Person Cyfeirio Teulu) *Teulu cudd yw un nad yw'n cynnwys Person Cyfeirio'r Teulu (y penteulu) h.y. fe'i hystyrir yn aelwydydd ar wahân posib sydd efallai am ffurfio petaent yn cael y cyfle. (Gweler hefyd The Homelessness Monitor Wales 2017 gan Crisis.)


4.5 Dengys Graff 4.5.1 ddarpariaeth y tai fforddiadwy a gyflawnwyd trwy rwymedigaethau cynllunio (cytundebau Adran 106). Mae'r amrywio eang yn debygol o amlygu'r amser y gellid ei gymryd i ddatblygu cartrefi newydd, sy'n gallu bod yn hir iawn. Mae'r graff yn awgrymu mai Cyngor Casnewydd yw'r un mwyaf cyson o ran darparu, sydd fwy na thebyg yn adlewyrchu'r ffaith bod

Casnewydd yn ddinas a'i bod wedi ymgymryd â gwaith adfywio dros y blynyddoedd diwethaf.





Graff 4.5.1: Llywodraeth Cymru – Casglu Data am Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy *Hepgorwyd Blaenau Gwent gan na chofnodwyd dim data gan Lywodraeth Cymru


4.6 Dengys Graff 4.6.1-3 nifer yr unedau ychwanegol a ddarperir bob blwyddyn gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Ngwent (DS: Dengys data LlC mai dim ond cynghorau Sir y Fflint a Bro Morgannwg sydd wedi adeiladu unrhyw dai cymdeithasol yn uniongyrchol eu hunain dros y blynyddoedd diwethaf). Unwaith eto ceir yr amrywio eang sy'n debygol o amlygu'r amser a gymerir i ddatblygu cartrefi newydd a hefyd sy'n atgyfnerthu pa mor anodd yw darparu tai fforddiadwy newydd yn gyson.




Graff 4.6.1: Llywodraeth Cymru – Casglu Data am Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy *Ac eithrio datblygiadau gan yr awdurdodau lleol a datblygwyr sector preifat a gwirfoddol eraill





Graff 4.6.2: Llywodraeth Cymru – Casglu Data am Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy *Ac eithrio datblygiadau gan yr awdurdodau lleol a datblygwyr sector preifat a gwirfoddol eraill




Graff 4.6.3: Llywodraeth Cymru – Casglu Data am Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy. *Ac eithrio datblygiadau gan yr awdurdodau lleol a datblygwyr sector preifat a gwirfoddol eraill

4.7 Dengys Graff 4.7.1 denantiaethau tai cymdeithasol sydd wedi bod yn wag ers chwe mis neu fwy ac sydd ar gael i'w gosod. Yn fras, gallai fod mwy o gyfle i denantiaid gael tai cymdeithasol mewn rhai awdurdodau lleol nag mewn eraill (er enghraifft Blaenau Gwent neu Gaerffili). Yn wahanol i Flaenau Gwent, bu cynnydd yn nifer y tenantiaethau tai cymdeithasol yng Nghaerffili sydd wedi bod yn wag am fwy o amser dros y blynyddoedd diwethaf. Ceir sawl ffactor, wrth gwrs, a fyddai'n dylanwadu ar hyn yn lleol, megis gofynion maint yr aelwyd, rhwydweithiau cymdeithasol, dewisiadau eiddo ac ardal, dyledion aelwydydd neu fforddiadwyedd eiddo mwy.




Graff 4.7.1: Llywodraeth Cymru – Casglu Data am Dai Cymdeithasol Gwag

4.8 Mae'r galw am dai cymdeithasol yn uchel o hyd yng Ngwent a dengys AFDLau mai ar gyfer tai cymdeithasol y mae'r rhan fwyaf o'r tai fforddiadwy net angenrheidiol, er bod hyblygrwydd trwy Adran 106 a grantiau tai fforddiadwy LlC er mwyn bodloni ystod o anghenion tai fforddiadwy a newidiadau i daliadaethau. Hefyd nododd 77% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth mai tai cymdeithasol oedd eu dewis tai parhaol yn eu barn nhw. Yn gyffredinol, dengys Tabl 4.8.1 duedd o angen cynyddol am dai i ymgeiswyr ar y gofrestr tai cyffredin.

| **Blaenau Gwent** | **Cyfanswm y Ceisiadau ar y Rhestr Aros** | **Cyfanswm y Ceisiadau yn y Band Isaf** | **Cyfanswm y Ceisiadau yn y Band Digartrefedd** |
|---|---|---|---|
| **Diwedd Mawrth 2018** | 1652 | 973 | 241 |
| **Diwedd Mawrth 2017** | 2500 | - | - |
| **Diwedd Mawrth 2016** | 2400 | - | - |
| **Caerffili** | **Cyfanswm y Ceisiadau ar y Rhestr Aros** | **Cyfanswm y Ceisiadau yn y Band Isaf** | **Cyfanswm y Ceisiadau yn y Band Digartrefedd** |
| **Diwedd Mawrth 2018** | 4773 | 2827 | 101 |
| **Diwedd Mawrth 2017** | 3877 | 2319 | 130 |
| **Diwedd Mawrth 2016** | 4369 | - | - |
| **Sir Fynwy** | **Cyfanswm y Ceisiadau ar y Rhestr Aros** | **Cyfanswm y Ceisiadau yn y Band Isaf** | **Cyfanswm y Ceisiadau yn y Band Digartrefedd** |
| **Diwedd Mawrth 2018** | 3,019 | - | 54 |
| **Diwedd Mawrth 2017** | 3,253 | - | 56 |
| **Diwedd Mawrth 2016** | 2,619 | - | 34 |
| **Casnewydd** | **Cyfanswm y** | **Cyfanswm y** | **Cyfanswm y** |

| | Ceisiadau ar y Rhestr Aros | Ceisiadau yn y Band Isaf | Ceisiadau yn y Band Digartrefedd |
|---|---|---|---|
| Diwedd Mawrth 2018 | 8235 | - | - |
| Diwedd Mawrth 2017 | 6838 | 2849 | - |
| Diwedd Mawrth 2016 | 5494 | 1958 | - |
| Torfaen | Cyfanswm y Ceisiadau ar y Rhestr Aros | Cyfanswm y Ceisiadau yn y Band Isaf | Cyfanswm y Ceisiadau yn y Band Digartrefedd |
| Diwedd Mawrth 2018 | 2513 | 1603 | 97 |
| Diwedd Mawrth 2017 | 2626 | 1756 | 44 |
| Diwedd Mawrth 2016 | 2559 | 1961 | 22 |

Tabl 4.8.1: Data o'r Cofrestrau Tai Cyffredin a Weithredir gan yr Awdurdodau Lleol. Defnyddir cysylltnodau yn lle data na roddwyd neu nad yw ar gael pan luniwyd yr adolygiadau.

4.9 Dengys Tabl 4.9.1 y defnydd ar y sector cymdeithasol/rhent preifat i roi cartref i aelwyd y mae dyletswydd Adran 75 yn ddyledus iddi ym mhob un o awdurdodau lleol Gwent*. Noda The Homelessness Monitor Wales 2017 gan Crisis, o ran tai cymdeithasol, y "bu gostyngiad sylweddol yng nghanran y tai ar osod sydd wedi'u dyrannu i aelwydydd digartref ers *2012/13* – gan ostwng i oddeutu 18 y cant o bob gosodiad i denantiaid newydd yn y *tair blynedd* diwethaf, o'i chymharu â'r ffigur arferol diweddar, sef chwarter o hynny (a 22% yn y ffigurau diweddaraf yn Lloegr, 37% yn yr Alban)". The Homelessness Monitor Wales 2017, Crisis. Yng Ngwent mae'n debyg y ceir amrywio sylweddol o flwyddyn i flwyddyn o ran canran yr aelwydydd digartref sy'n cael eu hailgartrefu mewn tai cymdeithasol. Mae adborth ymgynghorol o'r adolygiadau hefyd yn awgrymu y ceir rhai pryderon yng Ngwent bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yn mynd yn fwyfwy petrus ynglŷn â risgiau a bod materion megis fforddiadwyedd a dyled yn lleihau'r cyfle i rywun sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref gael ei ailgartrefu mewn tai cymdeithasol. Mae'n awgrymu hefyd bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ymrwymo i Adran 95 yn Neddf Tai (Cymru) 2014.

| 2017-18 | Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob Tŷ Cymdeithasol sydd ar Osod | 506 | 731** | 306 | 767 | 746 |
| <u>Canran</u> yr aelwydydd a ail-gartrefwyd mewn tai cymdeithasol (ar sail blaenoriaeth oherwydd digartrefedd) | 25.8 | 21.4 | 27.5 | 43.4 | 17 |
| 2016-17 | Blaenau | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen |

| | Gwent | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pob Tŷ Cymdeithasol sydd ar Osod** | 581 | 906 | 335 | 897 | 657 |
| **Canran yr aelwydydd a ail-gartrefwyd mewn tai cymdeithasol (ar sail blaenoriaeth oherwydd digartrefedd)** | 1.4 | 26.2 | 13.1 | 37.4 | 7.5 |
| **2015-16** | **Blaenau Gwent** | **Caerffili** | **Sir Fynwy** | **Casnewydd** | **Torfaen** |
| **Pob gosodiad tai cymdeithasol** | 607 | 1037 | 332 | 1144 | 620 |
| **Canran yr aelwydydd a ail-gartrefwyd mewn tai cymdeithasol (ar sail blaenoriaeth oherwydd digartrefedd)** | 1 | 15.6 | 16 | 24 | 10.2 |

Tabl 4.9.1: Llywodraeth Cymru – Casglu Data am Osodiadau Tai Cymdeithasol (ffigurau 2017-18 a gafwyd yn uniongyrchol o bob corff sy'n gweithredu Cofrestrau Tai Cyffredin yr awdurdodau lleol). *Mae'r cyfanswm yn eithrio tenantiaethau a grëwyd trwy drosglwyddiadau neu gyfnewid. **Oherwydd cofnodi mewnol, gall peth o'r cyfanswm gynnwys tenantiaethau trosglwyddo, er prin y dylai hyn effeithio ar y ganran ddilynol

4.10 Dengys Tabl 4.10.1 gartrefi gwag sydd wedi'u hadfer i'w hailddefnyddio gan bob awdurdod lleol. Mewn perthynas ag Adran 4.6, mae'r tabl yn pwysleisio'r anhawster ynghlwm wrth adfer cartrefi i'w hailddefnyddio yn gyson bob blwyddyn (ac eithrio o bosib ym Mlaenau Gwent). Maes yw hwn a allai elwa o fwy o waith rhanbarthol yng Ngwent yn y dyfodol.

| **2017-18** | **Blaenau Gwent** | **Caerffili** | **Sir Fynwy** | **Casnewydd** | **Torfaen** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y cartrefi gwag ar 1 Ebrill 2017** | 1294 | 980 | 728 | 1199 | 244 |
| **Cyfanswm y cartrefi a adferwyd i'w hailddefnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol** | 24 | 46 (drafft)* | 26 | 15 | 22 (drafft)* |
| **2016-17** | **Blaenau Gwent** | **Caerffili** | **Sir Fynwy** | **Casnewydd** | **Torfaen** |
| **Cyfanswm y cartrefi gwag ar 1 Ebrill 2016** | 550 | 1014 | 696 | 1293 | 325 |
| **Cyfanswm y cartrefi a adferwyd i'w hailddefnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol** | 24 | 65 | 27 | 50 | 108 |
| **2015-16** | **Blaenau Gwent** | **Caerffili** | **Sir Fynwy** | **Casnewydd** | **Torfaen** |
| **Cyfanswm y cartrefi gwag ar 1 Ebrill 2015** | 551 | 958 | 663 | 1314 | 417 |
| **Cyfanswm y cartrefi a** | 24 | 37 | 94 | 84 | 178 |

| adferwyd i'w hailddefnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|

Tabl 4.10.1 – Data am gartrefi gwag a gasglwyd gan yr awdurdodau lleol *Y rheswm am y gostyngiad sylweddol ar gyfer Torfaen yn 2017-18 yw y newidiwyd y dull cofnodi. Ffigurau drafft oedd y rhain ar adeg cwblhau'r adolygiadau.

4.11 Mae Tabl 4.11.1 yn rhoi syniad bras o ba mor fforddiadwy yw tai rhent sector preifat yng Ngwent. Mae'r bwlch ar gyfer eiddo mwy o faint yn llai amlwg ym Mlaenau Gwent a Chaerffili. Mae hyn yn rhoi awgrym cyffredinol y gallai fod yn rhatach rhentu ym Mlaenau Gwent ac yng Nghaerffili o'u cymharu ag awdurdodau eraill Gwent. Fodd bynnag, dylid pwysleisio eto y bydd hyn yn amrywio'n sylweddol fesul ardal. Er enghraifft, yng Ngogledd Torfaen, byddai'r rhan fwyaf o rent y rheiny sy'n derbyn uchafswm y Lwfans Tai Lleol, neu'r cyfan ohoni, yn cael ei thalu gan y Lwfans Tai Lleol. Yn Ne Torfaen gallai fod angen o hyd i aelwyd sy'n derbyn uchafswm y Lwfans Tai Lleol ddod o hyd i o leiaf £100 ychwanegol bob mis er mwyn talu eu rhent. (Gweler y pum AFDL i gael mwy o fanylion.) Mae Tabl 4.11.1 yn dangos sut mae fforddiadwyedd yn cyfyngu'n fras ar allu'r sector rhent preifat i ddarparu cartrefi i aelwydydd digartref ar incwm isel (yn benodol lle mae rhywun yn derbyn y gyfradd rhannu ystafell dan 35 oed). Gallai'r sefyllfa hon ddod yn fwyfwy i'r amlwg yn ystod cyfnod y strategaeth wrth i nifer y bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol gynyddu ar draws Gwent ac oherwydd y tebygolrwydd y bydd cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn parhau'n ddigyfnewid tan o leiaf 2020. Mae hyn yn pwysleisio pam y soniwyd am waith partneriaeth gyda landlordiaid preifat sawl gwaith yn ystod yr ymgynghoriad gan staff yr awdurdodau lleol.

| | Diffyg Lwfans Tai Lleol Wythnosol Cyfartalog Rhagamcanol (Punnoedd)* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | **Cyfradd Rhannu Ystafell** | **1 Gwely** | **2 Wely** | **3 Gwely** | **4 Gwely** |
| 2016 | - | 10.46 | 9.30 | 12.68 | 7.85 |
| 2015 | - | 8.50 | 9.66 | 13.66 | - |
| 2014 | - | 9.13 | 8.71 | 13.66 | 9.77 |
| **Caerffili** | **Cyfradd Rhannu Ystafell** | **1 Gwely** | **2 Wely** | **3 Gwely** | **4 Gwely** |
| 2016 | 8.28 | 10.64 | 10.90 | 10.36 | 12.09 |
| 2015 | - | 7.04 | 8.15 | 11.00 | 14.66 |
| 2014 | - | 8.28 | 7.85 | 10.14 | 15.28 |
| **Sir Fynwy** | **Cyfradd Rhannu Ystafell** | **1 Gwely** | **2 Wely** | **3 Gwely** | **4 Gwely** |
| 2016 | - | 9.86 | 11.08 | 14.28 | 29.53 |
| 2015 | - | 8.73 | 12.93 | 17.57 | 39.78 |
| 2014 | - | 10.10 | 9.86 | 13.69 | 26.01 |

| Casnewydd | Cyfradd Rhannu Ystafell | 1 Gwely | 2 Wely | 3 Gwely | 4 Gwely |
|---|---|---|---|---|---|
| 2016 | 19.11 | 9.59 | 12.42 | 15.29 | 29.68 |
| 2015 | 23.51 | 8.48 | 11.61 | 14.38 | 26.36 |
| 2014 | 21.35 | 9.40 | 9.89 | 12.41 | 24.70 |
| **Torfaen** | **Cyfradd Rhannu Ystafell** | **1 Gwely** | **2 Wely** | **3 Gwely** | **4 Gwely** |
| 2016 | 31.25 | 11.50 | 11.07 | 12.87 | 22.38 |
| 2015 | 30.00 | 13.10 | 11.81 | 15.90 | 29.94 |
| 2014 | - | 5.55 | 10.30 | 12.44 | 40.03 |


Tabl 4.11.1: Cronfeydd data gosodiadau Gwasanaeth y Swyddogion Rhentu a chyfraddau Lwfans Tai Lleol Llywodraeth Cymru. Ystyr y cysylltnod yw y bu llai na 10 cofnod, felly mae'r ffigurau wedi'u hatal gan Wasanaeth y Swyddogion Rhentu.. *Mae'r Lwfans Tai Lleol wythnosol cyfartalog a dalwyd yn cynnwys y 3 mis o lwfans a dalwyd ar gyfradd Lwfans Tai Lleol y llynedd er mwyn cyfrifo ffigur cywir

4.12 Dengys Tabl 4.12.1 daliadau tai yn ôl disgresiwn a wnaed ym mhob awdurdod lleol dros flynyddoedd ariannol.

| Blwyddyn Ariannol | Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb 2017-18** | - | £610,525 | £190,346 | £562,196 | £379,554 |
| **Swm a Dalwyd 2017-18** | - | £613,301 | £240,337 | £563,952.46 | £464,192 |
| **Cyllideb 2016-17** | - | £462,330 | £125,435 | £444,910 | £268,980 |
| **Swm a Dalwyd 2016-17** | - | £463,909 | £183,371 | £437,394.98 | £379,889 |
| **Cyllideb 2015-16** | - | £381,973 | £116,197 | £378,485 | £225,956 |
| **Swm a Dalwyd 2015-16** | - | £384,088 | £171,315 | £372,059.64 | £368,987 |

Tabl 4.12.1: Data am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan yr Awdurdodau Lleol. Defnyddir cysylltnodau yn lle data na roddwyd neu nad yw ar gael pan luniwyd yr adolygiadau.

4.13 Mae Graff 4.13.1 yn rhoi syniad o ôl-ddyledion yn y sector tai cymdeithasol ar draws Gwent – y maent yn debygol o gael eu priodoli i'r diwygiadau lles a gyflwynwyd dros y pum mlynedd diwethaf yn y DU. Dros y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd sydyn ym Mlaenau Gwent a Chasnewydd. Mae'r ffigurau hyn yn pwysleisio pam mae'n hanfodol bod polisïau a gweithdrefnau rheoli ôl-ddyledion rhent ar waith i atal digartrefedd. Gall landlordiaid cymdeithasol ddisgwyl pwysau parhaus wrth i Gredyd Cynhwysol barhau i gael ei gyflwyno'n llawn ar draws Gwent (er y bydd pob landlord cymdeithasol yn y rhanbarth yn gweithio'n barhaus i liniaru'r effaith).




Graff 4.13.1 Casglu data am stoc a rhenti landlordiaid cymdeithasol, Llywodraeth Cymru DS: Wrth gwblhau'r adolygiadau ym mis Mai 2018, rhoddwyd hysbysiad gan StatsCymru ar eu gwefan i roi gwybod y gallai peth data fod yn anghyson a'u bod yn adolygu'r data am ôl-ddyledion rhent a gyflwynwyd gan rai landlordiaid cymdeithasol (sy'n golygu y gallai fod angen diwygio'r graff yn y dyfodol).

4.14 Mae Tabl 4.14.1 yn rhoi syniad o fforddiadwyedd perchen ar eiddo ar draws Gwent (DS: bydd prisiau'n amrywio'n sylweddol ar lefel leol iawn hefyd). Er enghraifft, yn Nhorfaen amcangyfrifwyd y bydd tua 100 aelwyd yn cael eu hatal yn ariannol rhag prynu trwy'r farchnad bob blwyddyn o 2017 tan 2022. (Gweler y pum AFDL i gael mwy o fanylion.) Mewn rhai ardaloedd (yn bennaf y rheiny sydd wedi dioddef o ddirywiad eu diwydiannau traddodiadol) mae'r costau prynu tai yn tueddu i fod yn llawer llai yng Nghymru (The Homelessness Monitor Wales 2017, Crisis) a gellir gweld hyn yn glir ym Mlaenau Gwent ac yng Nghaerffili.

| Blwyddyn Ariannol | Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Fflatiau** | £48,704 | £77,889 | £125,233 | £91,770 | £69,788 |
| **Tai Teras** | £74,130 | £100,804 | £156,429 | £119,107 | £102,847 |
| **Tai Pâr** | £91,136 | £121,213 | £190,604 | £161,195 | £128,814 |
| **Tai ar Wahân** | £137,485 | £199,308 | £329,571 | £263,479 | £218,915 |
| **Cyfartaledd Cyffredinol** | £81,646 | £122,661 | £230,601 | £155,523 | £128,172 |

Tabl 4.14.1 Mynegai Prisiau Tai Cymru: Mis Hydref 2016 tan fis Medi 2017

4.15 Mae Tabl 4.15.1 yn rhoi dadansoddiad o'r defnydd ar lety dros dro ym mhum cyngor Gwent. Gallai fod angen y fath lety, er enghraifft, i roi cartref i bobl sy'n wynebu argyfwng wrth chwilio am lety mwy addas. Mae'r tabl yn pwysleisio'r pwysigrwydd unwaith eto bod pob un o'r pum awdurdod lleol yn cydweithio â phartneriaid y sector rhent preifat – oherwydd y dibynnir ar y sector preifat i ddarparu unedau llety dros dro yng Ngwent. Gellir gweld y cyfyngir yn gyffredinol ar ddefnydd ar lety gwely a brecwast cymaint â phosib (gweler hefyd Dabl 5.15.1 yn Adran 5) ac mae hyn yn bwysig gan fod aelwydydd mewn llety dros dro yn dioddef o broblemau mwy sylweddol e.e. cael

anhawster dod o hyd i gyflogaeth a gwasanaethau lleol hanfodol, megis ysgolion a meddygfeydd teulu (Cynllun Digartrefedd 10 Mlynedd LIC 2009). Mae'r awgrym bod gan Sir Fynwy lefelau uwch o bobl ddigartref gartref yn Nhabl 4.15.1 hefyd, o bosib, yn adlewyrchu'r data yn Nhabl 4.4.1 sy'n awgrymu bod gan Sir Fynwy nifer uwch o aelwydydd cudd. Yn ogystal mae Tabl 4.15.1 yn pwysleisio pam mae gweithio gyda'r trydydd sector mor bwysig (e.e. gweler y niferoedd ar gyfer hosteli a llochesi i fenywod).

| **Blaenau Gwent 2017-18** | **Llai na 2 wythnos** | **2-6 wythnos** | **6 wythnos i lai na 6 mis** | **Llai na 6 mis** | **6 i 12 mis** | **Dros flwyddyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yn Uniongyrchol gyda Landlord Preifat** | - | - | - | - | - | - | - |
| **Sector Preifat a Brydlesir gan y Cyngor** | - | - | - | - | - | - | - |
| **Sector Preifat a Brydlesir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig** | - | - | - | 12 | 1 | - | 13 |
| **Hosteli** | - | - | - | 10 | - | - | 10 |
| **Lloches i Fenywod** | - | - | - | - | - | - | - |
| **Gwely a Brecwast** | - | - | - | - | - | - | - |
| **Digartref Gartref** | - | - | - | - | - | - | - |
| **Caerffili 2017-18** | **Llai na 2 wythnos** | **2-6 wythnos** | **6 wythnos i lai na 6 mis** | **Llai na 6 mis** | **6 i 12 mis** | **Dros flwyddyn** | **Cyfanswm** |
| **Yn Uniongyrchol gyda Landlord Preifat** | - | - | - | - | - | - | - |
| **Sector Preifat a Brydlesir gan y Cyngor** | - | - | - | - | - | - | - |
| **Sector Preifat a Brydlesir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig** | - | - | - | 23 | 13 | 5 | 41 |
| **Hosteli** | - | - | - | 46 | 10 | 1 | 57 |
| **Lloches i Fenywod** | - | - | - | 10 | 7 | 1 | 18 |
| **Gwely a Brecwast** | - | 5 | 6 | - | - | - | 11 |
| **Digartref Gartref** | - | - | - | 2 | 2 | - | 4 |
| **Sir Fynwy 2017-18** | **Llai na 2 wythnos** | **2-6 wythnos** | **6 wythnos i lai na 6 mis** | **Llai na 6 mis** | **6 i 12 mis** | **Dros flwyddyn** | **Cyfanswm** |
| **Yn Uniongyrchol gyda Landlord Preifat** | - | - | - | - | - | - | - |
| **Sector Preifat a Brydlesir gan y Cyngor** | - | - | - | 2 | - | - | 2 |
| **Sector Preifat a Brydlesir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig** | - | - | - | 5 | 5 | 4 | 14 |
| **Hosteli** | - | - | - | 5 | - | - | 5 |
| **Lloches i Fenywod** | - | - | - | 1 | - | - | 1 |
| **Gwely a Brecwast** | 2 | - | 1 | - | - | - | 3 |
| **Digartref Gartref** | - | - | - | 11 | 2 | - | 13 |
| **Casnewydd 2017-18** | **Llai na 2 wythnos** | **2-6 wythnos** | **6 wythnos i lai na 6 mis** | **Llai na 6 mis** | **6 i 12 mis** | **Dros flwyddyn** | **Cyfanswm** |
| **Yn Uniongyrchol gyda Landlord Preifat** | - | - | - | 10 | 1 | 4 | 15 |
| **Sector Preifat a Brydlesir gan y Cyngor** | - | - | - | 61 | 31 | 7 | 99 |
| **Sector Preifat a Brydlesir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig** | - | - | - | - | - | - | - |
| **Hosteli** | - | - | - | 17 | 7 | 2 | 26 |
| **Lloches i Fenywod** | - | - | - | 1 | | 1 | 2 |
| **Gwely a Brecwast** | 2 | 4 | 4 | - | 1 | - | 11 |
| **Digartref Gartref** | - | - | - | 2 | - | - | - |

| Torfaen 2017-18 | Llai na 2 wythnos | 2-6 wythnos | 6 wythnos i lai na 6 mis | Llai na 6 mis | 6 i 12 mis | Dros flwyddyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn Uniongyrchol gyda Landlord Preifat | - | - | - | - | - | - | - |
| Sector Preifat a Brydlesir gan y Cyngor | - | - | - | 34 | 9 | 4 | 47 |
| Sector Preifat a Brydlesir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | - | - | - | - | - | - | - |
| Hosteli | - | - | - | 7 | | 2 | 9 |
| Lloches i Fenywod | - | - | - | - | - | - | - |
| Gwely a Brecwast | - | - | - | - | - | - | - |
| Digartref Gartref | - | - | - | - | - | - | - |

Tabl 4.15.1 Data WHO12 a gasglwyd gan yr awdurdodau lleol Mae cysylltnodau'n golygu na chyflwynwyd dim i Lywodraeth Cymru.

Mae Tabl 4.15.2 yn rhoi data am faint mae awdurdodau Gwent wedi'i dreulio ar lety dros dro yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf.

| Gwariant ar Lety Dros Dro (£) | Blaenau Gwent | Caerffili* | Sir Fynwy** | Casnewydd* | Torfaen* |
|---|---|---|---|---|---|
| **2017 - 18** | £61,789 | £557,812 | £62,353 | £1,357,434 (gros)<br>£82,987 (net) | 362,601.23 |
| **2016 - 17** | £57,687 | £540,435 | £29,150 | £1,309,891 (gros)<br>£73,930 (net) | 399,678.25 |

Tabl 4.15.2 Data a gasglwyd gan yr awdurdodau lleol Defnyddir cysylltnodau yn lle data na roddwyd neu nad yw ar gael pan luniwyd yr adolygiadau.

*Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys pob math o lety dros dro h.y. Eiddo gwely a brecwast, prydlesu sector preifat a sector rhent preifat

**Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys lleoliadau mewn eiddo gwely a brecwast a hosteli

4.16 Mae tablau 4.16.1-2 yn dangos bod landlordiaid sector preifat, yn gyffredinol, yn dwyn llai o achosion eiddo i'r llys sirol, o'u cymharu â landlordiaid cymdeithasol. Gallai hyn fod oherwydd nad yw landlordiaid preifat yn rhwym i'r un rheolau â landlordiaid cymdeithasol, felly mae ganddynt hyblygrwydd i wneud trefniadau eraill gyda thenantiaid (gwelwer The Homelessness Monitor Wales 2017 gan Crisis). Hefyd, mae'n bosib bod cyflwyno hysbysiadau Adran 21 yn hybu nifer o denantiaid i adael a chwilio am lety arall cyn i achos fynd gerbron y llys. Fodd bynnag, mae Tabl 4.16.2 yn awgrymu bod landlordiaid sector preifat yng Nghymru, yn gyffredinol, yn gallu bod yn fwy parod i sicrhau troi tenant allan trwy ddwyn achos i'r llys.

Roedd y data mwyaf diweddar sydd ar gael yn Nhabl 4.16.1 yn nodi y gallai landlordiaid cymdeithasol ym Mlaenau Gwent, Torfaen a Chasnewydd fod yn fwy tebygol o droi tenantiaid allan (er nad yw'r data wedi'i ddiweddaru'n ddiweddar). Mae'n bosib y gallai hyn fod yn gysylltiedig â phoblogaeth hŷn Sir Fynwy ac effaith lai diwygiadau lles ar bobl nad ydynt o oedran gweithio. (Mae Tabl 4.13.1 yn cefnogi hyn gan mai ôl –ddyledion Sir Fynwy yw'r rhai isaf.) Yn ogystal mae'n bosib bod Caerffili wedi osgoi troi mwy o denantiaid allan o ystyried y cyfle i weithio'n agosach rhwng timau tai a thimau refeniw a budd-daliadau oherwydd bod Caerffili wedi cadw ei stoc o dai. Soniwyd am hyn yn ystod yr ymgynghoriad, ynghyd â phryder bod costau llys cynyddol dros y blynyddoedd diwethaf yn cynyddu dyledion tenantiaid cymdeithasol yn

sylweddol (cyfarfod Grŵp Ffocws Staff Cyngor Caerffili 24.01.18). Yn amlwg mae'n rhaid i bob landlord cymdeithasol yr awdurdodau lleol wneud popeth yn ei allu i leihau cyfraddau troi allan. Gall helpu tenantiaid i reoli eu tenantiaethau gael effaith sylweddol ar ddigartrefedd tymor hir ymhlith pobl sy'n agored i niwed (gweler Cynllun Digartrefedd 10 Mlynedd 2009 11c).

| Adfeddiannu Tai Cymdeithasol fesul 10,000 Aelwyd | Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen |
|---|---|---|---|---|---|
| Mis Ionawr i fis Mawrth 2015-16 | 8.1-14 | 2.6-5.0 | 2.6-5.0 | 5.1-8.0 | 8.1-14 |

Tabl 4.16.1 Ystadegau Morgeisi ac Eiddo Landlordiaid y Weinyddiaeth Gyfiawnder

| Adfeddiannu'r Sector Rhent Preifat fesul 10,000 Aelwyd | Cymru |
|---|---|
| 2017 | 16 |
| 2016 | 16 |
| 2015 | 14 |
| 2014 | 12 |

Tabl 4.16.2 Ystadegau Morgeisi ac Eiddo Landlordiaid y Weinyddiaeth Gyfiawnder

4.17 Dengys Tabl 4.17.1 fod lefelau ôl-ddyledion morgeisi ac adfeddiannu wedi gostwng yn gyson ers 2009 ac yn ffactor mân iawn o ran achosion digartrefedd. Gallai newidiadau i'r economi, megis cyfraddau llog uwch neu lai o gymorth i berchnogion tai o dan y cynlluniau Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais a Chredyd Cynhwysol (gweler The Homelessness monitor Wales 2017 gan Crisis) wrthdroi'r duedd honno dros gyfnod strategaeth digartrefedd newydd Gwent.

| Adfeddiannu Morgeisi | Cymru |
|---|---|
| 2017 | 419 |
| 2016 | 410 |
| 2015 | 489 |
| 2014 | 955 |

Tabl 4.17.1 Ystadegau Morgeisi ac Eiddo Landlordiaid y Weinyddiaeth Gyfiawnder

**4.18 Pwyntiau Allweddol:**

- Mae'r angen am dai yn fythol newid ac oni bai bod mwy o dai fforddiadwy'n cael eu datblygu/hadfer i'w hailddefnyddio yn gyflymach, ni fydd modd ateb y galw am dai fforddiadwy dros gyfnod y strategaeth digartrefedd. Mae'r broblem hon ar ei hamlycaf yn Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen, ond bydd yn amrywio'n sylweddol fesul ardal ac ward. Fodd bynnag, mae canran yr eiddo anodd eu rhoi ar osod yng Ngraff 4.7.1 yn awgrymu y bydd cyflenwad yn fwy na'r galw yn lleol iawn, sydd efallai'n fwy tebygol o fod yn wir ym Mlaenau Gwent ac yng Nghaerffili (gweler yr AFDLau).
- Mae'r data'n adlewyrchu pam mae gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol a phreifat yn hollbwysig, yn benodol i atal tenantiaethau rhag dod i ben yn y lle cyntaf.
- Am gartrefi bach (1 neu 2 ystafell wely) mae'r angen ar draws Gwent gan mwyaf. Disgwylir i'r duedd hon barhau dros gyfnod y strategaeth fel y nodir gan yr Asesiadau o Farchnad Dai Leol Gwent.
- Mae nifer posib yr aelwydydd cudd ac, efallai, 'digartrefedd cudd' yn sylweddol a gall y problemau hyn fod yn fwy amlwg yn Sir Fynwy o'i chymharu ag awdurdodau lleol eraill Gwent.
- O ystyried diffyg posib tai fforddiadwy ar draws Gwent, byddai mesurau sy'n gwneud defnydd o dai cymdeithasol gwag hirdymor ac yn lleihau eu nifer yn llwyddiannus, yn benodol ym Mlaenau Gwent ac yng Nghaerffili, yn cael eu croesawu.
- Dengys y data pa mor anodd yw darparu tai fforddiadwy newydd yn gyson yn ogystal â nifer cyfyngedig y tai gwag a adferir i'w hailddefnyddio bob blwyddyn.
- Yn y sector rhent preifat ar draws Gwent, mae eiddo mwy o faint yn rhatach i'w rhentu fel arfer ym Mlaenau Gwent ac yng Nghaerffili. Mae'n debygol y byddai unrhyw fesurau sy'n gallu manteisio'n llwyddiannus ar hyn o fudd i denantiaid, landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau lleol.
- Mae'r gwahaniaeth rhentu mewn rhai awdurdodau rhwng y gyfradd rhannu ystafell a rhenti marchnad yn benodol yn dangos pam mae angen i dai fforddiadwy i bobl dan 35 oed fod yn ffocws allweddol.
- Dengys data Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn a gyflwynwyd gan Gasnewydd fod y cyfanswm taliadau'n gyson agos at swm y gyllideb a bennwyd i Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn bob blwyddyn a dylid rhannu'r dulliau a'r arferion hyn.

- Mae ôl-ddyledion rhent yn parhau'n broblem sylweddol i denantiaid tai cymdeithasol, gan bwysleisio pam mae cymorth effeithiol o ran dyled a chyngor ar arian i atal tenantiaid rhag cael eu troi allan yn hanfodol. Mae'r un pryderon yn berthnasol i denantiaid sector rhent preifat ar incwm isel, o ystyried yr anghysondeb o ran taliadau cyfartalog y Lwfans Tai Lleol a rhenti marchnad cyfartalog. Mae Tabl 5.3.1 yn Adran 5 isod yn ategu'r haeriad hwn.
- Mae gan Sir Fynwy y tai preifat drutaf o'i chymharu â gweddill Gwent, sy'n awgrymu y bydd cynlluniau perchentyaeth rad yn arbennig o bwysig yn Sir Fynwy.
- Dibynnir ar y sector preifat a'r trydydd sector (heblaw am lety dros dro'r awdurdodau lleol eu hunain) ledled Gwent mewn perthynas â digartrefedd, fel sy'n wir o ran y rhwydweithiau cymorth cymdeithasol sydd gan bobl (sy'n gysylltiedig â'r rhai sy'n 'ddigartref gartref'.
- Er bydd yr angen am lety dros dro yn parhau, mae Tabl 4.15.1 yn awgrymu bod cynghorau Gwent yn gweithio i leihau'r amser y mae aelwydydd yn ei dreulio mewn llety dros dro cymaint â phosib. Fodd bynnag, gallai unrhyw newidiadau yn y dyfodol i statws angen blaenoriaethol yng Nghymru wneud hynny'n llawer mwy anodd ei gyflawni (gweler adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - *Byw ar y Stryd: Atal a Mynd i Afael â Chysgu ar y Stryd yng Nghymru, Ebrill 2018 a sylwer ar y cynnydd yn nyletswyddau Adran 73 sydd wedi'u dadansoddi yn Adran 5 isod).*

# 5. Dadansoddiad Lleol: Y Defnydd ar Wasanaethau Digartrefedd Statudol – Achosion a Grwpiau Cleientiaid

5.1 Mae Adran 5 yn ystyried proffil digartrefedd ar draws Gwent. Mae'n ymchwilio i nodweddion aelwydydd, grwpiau defnyddwyr gwasanaeth, achosion digartrefedd, ei themâu ailadroddus a thueddiadau presennol a'r rhai posib yn y dyfodol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i grwpiau â blaenoriaeth (gweler Adran 70 Deddf Tai (Cymru) 2014) a grwpiau heb flaenoriaeth sydd mewn perygl uwch (e.e. pobl sy'n cysgu ar y stryd a phobl sy'n gadael y carchar). Daw rhan fawr o'r data a ddefnyddir yn yr adran hon o'r casgliadau data statudol gan wasanaethau digartrefedd yr awdurdodau lleol. Mae'r data ymgysylltu a gasglwyd ar gyfer yr adolygiadau hefyd wedi'i ymgorffori fel sy'n briodol, er mwyn helpu i ategu'r data. Ceir mwy o ddata ymgynghori yn Adran 6.

5.2 Dengys Tabl 5.2.1 nifer yr aelwydydd sy'n dod i sylw gwasanaethau digartrefedd yr awdurdodau lleol trwy gydol tair blynedd ariannol, o'i gymharu â'r dyletswyddau sy'n ddyledus:

| Nifer yr Aelwydydd (h.y. Nid Canrannau) | Blaenau Gwent | | | Caerffili | | | Sir Fynwy | | | Casnewydd | | | Torfaen | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
| Cyfanswm Nifer yr Aelwydydd (Cyfanswm Canlyniadau yn Unig) | 552 | 651 | 668 | 672 | 1581 | 1972 | 591 | 744 | 584 | 2154 | 2532 | 2142 | 780 | 1053 | 1116 |
| Ceisiadau am Asesiad Digartrefedd Anghymwys | - | 3 | - | - | 36 | 18 | - | 60 | 31 | 39 | 33 | 26 | - | 72 | 80 |
| Yn Gymwys ond Nid yn Ddigartref nac mewn Perygl o Fod yn Ddigartref | 129 | 108 | 48 | 21 | 249 | 816 | 195 | 240 | 7 | 858 | 339 | 107 | 186 | 150 | 23 |
| Yn Gymwys a Darperir Cymorth Atal (Adran 66) | 267 | 303 | 289 | 249 | 609 | 571 | 249 | 183 | 255 | 393 | 537 | 461 | 333 | 432 | 427 |
| Yn Gymwys ac mae Dyletswydd i Helpu i Sicrhau (Adran 73) | 132 | 198 | 263 | 288 | 525 | 410 | 96 | 216 | 228 | 537 | 1107 | 968 | 147 | 315 | 395 |
| Yn Gymwys, yn Ddigartref ond Nid mewn Angen blaenoriaethol | 9 | 18 | 32 | 45 | 54 | 19 | 6 | 9 | 19 | 114 | 321 | 294 | 24 | 6 | 129 |
| Yn Gymwys, yn Ddigartref ac mewn Angen blaenoriaethol, ond yn Fwriadol Felly | - | - | - | 18 | 24 | 4 | 9 | - | 12 | 15 | 15 | 8 | 21 | 12 | 23 |
| Yn Gymwys, yn Ddigartref yn Anfwriadol ac mewn Angen | 12 | 21 | 36 | 54 | 81 | 134 | 39 | 36 | 32 | 204 | 180 | 278 | 69 | 66 | 39 |

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **blaenoriaethol (Adran 75)** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Dyletswyddau Adrannau 66, 73 a 75** | 411 | 522 | 588 | 591 | 1215 | 1115 | 384 | 435 | 515 | 1134 | 1824 | 1707 | 549 | 813 | 861 |

Tabl 5.2.1 Data WHO12 a gasglwyd gan yr Awdurdodau Lleol Nifer yr achosion o ddigartrefedd a ddaeth i sylw a'r math o gymorth a roddwyd. Ystyr y cysylltnodau yw na chyflwynwyd dim ffigur i Lywodraeth Cymru

DS: Nid yw'r data digartrefedd statudol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn gwahanu pob aelwyd **unigryw** (er mwyn cael union nifer yr aelwydydd sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd y cynghorau bob blwyddyn). Bydd rhai aelwydydd wedi derbyn mwy nag un incwm digartref e.e. gallai dyletswydd Adran 66, Adran 73 yna Adran 75 fod yn ddyledus i rywun, gan lansio pob un o'r tri chanlyniad. Ond gallai aelwyd arall lansio dim ond un neu ddau ganlyniad. Serch hynny, mae Tabl 5.2.1 yn cynnig mewnwelediadau defnyddiol.

- Ar gyfer 'cyfanswm nifer yr aelwydydd': Ym Mlaenau Gwent cafwyd cynnydd 17.9% o fis Ebrill 2016 tan ddiwedd mis Mawrth 2017 ac yna cynnydd 5.7% y flwyddyn ariannol ganlynol. Yng Nghaerffili cafwyd y cynnydd canrannol uchaf, sef 135.3%, o fis Ebrill 2016 tan ddiwedd mis Mawrth 2017, yna 19.8% y flwyddyn ganlynol. Yn Sir Fynwy, gan ddefnyddio'r un cyfnod amser, cafwyd cynnydd o 25.9% ac yna gostyngiad o 21.5%. Yng Nghasnewydd cafwyd cynnydd o 17.6% ac yna gostyngiad o 15.4%. O fis Ebrill 2016 tan ddiwedd mis Mawrth 2018, mae nifer y canlyniadau digartrefedd wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn yn Nhorfaen – sef gan 35% ac yna 6%. Wrth ddadansoddi'r data hwn ymhellach – pan nodir cyfanswm canlyniadau adrannau 66, 73 a 75 ym mhob awdurdod lleol (ac eithrio pob canlyniad arall) ar gyfer 2017-18, Casnewydd yw'r un â'r galw mwyaf am ei wasanaethau digartrefedd (1707 aelwyd), wedyn Caerffili (1115), Torfaen (861), Blaenau Gwent (588) a Sir Fynwy (515). O ystyried bod y data'n dangos mai dyma'r sefyllfa ers y tair blynedd diwethaf, mae'n annhebygol o newid yn ystod cyfnod y strategaeth.
- Mae pob un o'r pum awdurdod yn dangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn dros y tair blynedd diwethaf, yn gyfanswm dyletswyddau adrannau 66, 73 a 75 (ac eithrio Casnewydd a Chaerffili, y cyrhaeddodd y ddau eu hanterth yn 2016-17 gan ostwng y flwyddyn wedyn). Yn achos Casnewydd a Chaerffili, cafwyd llai o ganlyniadau Adran 66 ac Adran 73 yn 2017-18, ond mwy o ganlyniadau Adran 75. Yng nghyfarfod Rhwydwaith Digartrefedd Cymru ar 16.01.18, nodwyd bod cynghorau yng Nghymru'n gweld cynnydd mawr yn y galw am wasanaethau yn gyffredinol, gyda diwygio lles a chyflwyniad Credyd Cynhwysol yn helpu i hybu'r duedd hon. O ystyried canlyniadau'r data am ddigartrefedd a gyflwynwyd i LlC ar gyfer y tair blynedd diwethaf (a'r holl ffactorau a geir yn adrannau 1-4, yn ogystal â'r adborth ymgynghori), gall y galw am wasanaethau digartrefedd statudol ostwng yn unrhyw un o awdurdodau Gwent o flwyddyn i flwyddyn, ond os digwydd hyn, mae'r gostyngiad yn debygol o fod yn fach iawn a mwy na thebyg ni fyddai'n duedd barhaol. Mae holl awdurdodau Gwent yn fwy tebygol o ddangos cynnydd cyfartalog yn y galw am wasanaethau dros

gyfnodau amser hwy h.y. y pedair neu'r pum mlynedd nesaf (fel y digwyddodd dros y tair blynedd ariannol), gyda'r tebygolrwydd y byddai'n effeithio fwyaf ar Gasnewydd, Caerffili a Thorfaen. Mae'n hollbwysig bod awdurdodau Gwent yn gwneud popeth yn eu gallu i weithredu systemau brysbennu wrth ddarparu gwasanaethau digartrefedd a hefyd sicrhau cynifer o ganlyniadau Adran 66 llwyddiannus â phosib i atal uwchgyfeirio i ddyletswyddau Adran 73 a 75. Yn yr un modd, nododd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei adroddiad 'Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd 2018' fod "*awdurdodau sy'n perfformio'n well yn trefnu gwasanaethau digartrefedd mewn ffyrdd sy'n helpu pobl i ddatrys eu problemau ar y cam rhyngweithio cyntaf*".

- Yn gyffredinol mae nifer yr aelwydydd â 'cheisiadau anghymwys' neu 'yn gymwys ond nid yn ddigartref nac mewn perygl o fod yn ddigartref' wedi gostwng ar draws Gwent dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, neu mae unrhyw gynnydd wedi aros yn gymharol isel, fel yn Nhorfaen (ond nid yng Nghaerffili). Er enghraifft, mae gostyngiad mawr yn Sir Fynwy o ganlyniadau 'yn gymwys ond nid yn ddigartref nac mewn perygl o fod yn ddigartref' dros flwyddyn – gostyngiad o 240 i 7 yn 2017-18. Bu gostyngiad hefyd yng Nghasnewydd yn y maes hwn o 339 o ganlyniadau i 107. Yng Nghaerffili bu cynnydd o 249 i 816 (227.7%). Gallai hyn fod oherwydd sawl ffactor megis mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn Sir Fynwy a Chasnewydd o ran gwasanaethau digartrefedd, neu ddull gwell o gasglu data yng Nghaerffili. Byddai gweithio i atal y canlyniadau hyn rhag digwydd yn y lle cyntaf yn arbed adnoddau. Soniwyd sawl gwaith yn ystod yr ymgynghoriad â staff yr awdurdodau lleol am gynyddu ymwybyddiaeth i wrthdroi rhagdybiaethau a disgwyliadau o ran sut gall awdurdodau lleol a'u partneriaid helpu rhywun sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, yn ogystal â gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar wefannau cynghorau a'i diweddaru'n gyson. Gallai'r fath weithgareddau hefyd helpu i leihau nifer yr aelwydydd yng Ngwent sy'n gymwys ond sy'n ddigartref yn fwriadol (er bod Tabl 5.2.1 yn awgrymu bod y nifer yn gyffredinol fach).
- Yng Nghasnewydd mae nifer y dyletswyddau Adran 73 wedi bod yn gyson uwch bob blwyddyn o'i gymharu â nifer y dyletswyddau Adran 66 yn Nhabl 5.2.1. Ni welir y duedd hon yn yr awdurdodau lleol eraill sy'n awgrymu bod defnyddwyr gwasanaeth sy'n mynd at Gasnewydd yn fwy tebygol o fod mewn angen mwy brys, gan osgoi'r ddyletswydd Adran 66 o ganlyniad. Mae'r duedd hon wedi parhau dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf ac felly gellir disgwyl iddi barhau dros gyfnod strategaeth digartrefedd newydd Gwent.
- Ceir nifer sylweddol o aelwydydd sydd 'yn gymwys ond nid mewn angen blaenoriaethol' ar draws Gwent (sy'n debygol iawn ar draws Cymru hefyd) y mae angen llety arnynt ar ôl i'r ddyletswydd Adran 73 ddod i ben ond ni allant symud ymlaen i Adran 75 oherwydd nad oes blaenoriaeth ganddynt o dan Adran 70 Deddf Tai (Cymru). Mae'r niferoedd hyn

yn fwy sylweddol yng Nghasnewydd ac i raddau llai yn Nhorfaen a Chaerffili. Gellid ystyried datblygu’r gwasanaeth i gynorthwyo’r aelwydydd hyn yn gam gweithredu o dan y strategaeth digartrefedd newydd.

- O ystyried nifer y canlyniadau Adran 73, mae’r angen am lety a geir trwy wasanaethau digartrefedd wedi cynyddu’n aruthrol ym mhob awdurdod lleol, o gymharu 2015 â 2018. I aelwydydd yr ystyrir bod ganddynt angen blaenoriaethol, byddai hyn hefyd yn lansio’r ddyletswydd Adran 68 (dyletswydd llety dros dro cyfamserol) – gan esbonio pam soniwyd am yr angen cynyddol am lety dros dro cynifer o weithiau yn ystod yr ymgynghoriad. Mae’r angen am lety dros dro’n parhau’n gryf ar draws Gwent a bydd yn parhau fel hyn yn ystod cyfnod strategaeth digartrefedd Gwent. Ar sail y cynnydd mewn dyletswyddau Adran 73, gallai’r galw am lety dros dro droi’n hawdd yn fwyfwy difrifol dros gyfnod y strategaeth (oni bai bod dulliau atal yn dod yn fwyfwy effeithiol neu y sicrheir mwy o fynediad i lety dros dro).
- Casnewydd sydd â’r nifer mwyaf o aelwydydd Adran 75, yna Caerffili, Torfaen, Sir Fynwy a Blaenau Gwent sydd, ar wahân i leoliad Sir Fynwy a Blaenau Gwent, yn adlewyrchu’n dda y galw am wasanaethau a amlinellwyd yn y pwynt uchod. Mae Sir Fynwy a Thorfaen yn dangos gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn mewn dyletswyddau Adran 75 y gellid ei briodoli i sawl ffactor. Er enghraifft, mae’n bosib bod Sir Fynwy a Thorfaen yn benodol yn cael mwy o effaith wrth atal uwchgyfeirio i’r ddyletswydd Adran 75. Ar yr un pryd mae adolygu canrannau’r ‘aelwydydd mewn angen blaenoriaethol ond sy’n ddigartref yn fwriadol’ ar gyfer 2017/18 yn dangos y canlynol: Canran Blaenau Gwent yw 0.0%, canran Caerffili yw 0.2%, canran Sir Fynwy yw 2.1%, canran Casnewydd yw 0.4% a chanran Torfaen yw 2.1%, sy’n awgrymu y bu canran fwy o aelwydydd a oedd yn ddigartref yn fwriadol yn defnyddio gwasanaethau Sir Fynwy a Thorfaen, gan atal symud ymlaen i’r ddyletswydd Adran 75 yn awtomataidd.
- O dan y strategaeth newydd gallai cynghorau Gwent elwa hefyd o gydweithio cynyddol i sicrhau y caiff ystadegau digartrefedd eu cofnodi mewn ffordd mor gyson â phosib.

5.3 Mae Tabl 5.3.1 yn ystyried y prif faterion sy’n esbonio pam mae aelwydydd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref (mewn perthynas â chanrannau’r dyletswyddau adrannau 66, 73 a 75 sy’n ddyledus):

| Canrannau | Blaenau Gwent | | | | | | Caerffili | | | | | | Sir Fynwy | | | | | | Casnewydd | | | | | | Torfaen | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A66 | | A73 | | A75 | | A66 | | A73 | | A75 | | A66 | | A73 | | A75 | | A66 | | A73 | | A75 | | A66 | | A73 | | A75 | |
| | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 |
| Nid yw’r rhiant yn fodlon neu’n gallu rhoi llety mwyach | 28.7 | 19.7 | 45.5 | 24.7 | 57.1 | 33.3 | 13.8 | 14.9 | 16.0 | 12.2 | 11.1 | 27.6 | 11.5 | 12.2 | 22.2 | 19.3 | 16.2 | 21.9 | 22.9 | 14.5 | 18.7 | 20.0 | 20.0 | 18.7 | 25.0 | 16.9 | 19.0 | 20.5 | 27.3 | 15.4 |
| Nid yw perthnasau | 4.0 | 12.8 | - | 16.3 | - | 8.3 | 3.4 | 6.5 | 10.3 | 8.2 | 14.8 | 13.4 | 4.9 | 8.2 | 12.5 | 10.5 | - | 6.3 | 13.4 | 10.4 | 13.0 | 14.7 | 8.3 | 12.2 | 9.7 | 9.6 | 19.0 | 10.4 | 13.6 | 10.3 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **eraill neu ffrindiau'n fodlon neu'n gallu rhoi llety mwyach** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Dadansoddiad o'r berthynas â'r partner, Dim trais** | 13.9 | 11.4 | 25.8 | 11.8 | 14.3 | 8.3 | 3.4 | 2.6 | 9.7 | 4.7 | 3.7 | 6.0 | 3.3 | 4.7 | 18.1 | 6.6 | 10.8 | - | 3.9 | 2.6 | 7.0 | 7.7 | 5.0 | 2.9 | 5.6 | 7.5 | 15.2 | 18.5 | 9.1 | 10.3 |
| **Dadansoddiad o'r berthynas â'r partner, Treisgar** | - | 3.5 | - | 4.6 | - | 11.1 | 9.9 | 5.1 | 13.1 | 1.2 | 18.5 | 16.4 | 3.3 | 1.2 | 13.9 | 13.6 | 13.5 | 40.6 | 1.1 | 3.0 | 8.7 | 11.0 | 20.0 | 20.1 | 4.2 | 5.2 | 7.6 | 11.6 | 13.6 | 23.1 |
| **Trais neu aflonyddu a sbardunir trwy hiliaeth** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 0.3 | - | - |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd crefydd/cred** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 0.1 | - | 0.4 | - | - | - | - | - | - |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd ailbennu rhywedd (hunaniaeth rhywedd)** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd hunaniaeth/tueddfryd rhywiol** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 0.4 | - | - | - | - | - | - |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd anabledd** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 0.1 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd rheswm arall** | - | 1.4 | - | 0.8 | - | - | - | 0.5 | - | 0.4 | - | - | - | 0.4 | - | 1.3 | 2.7 | 3.1 | - | 1.5 | 4.1 | 2.5 | 3.3 | 3.6 | 0.7 | 0.9 | 1.9 | 1.8 | 4.5 | 2.6 |
| **Ôl-ddyledion morgeisi (adfeddiannu neu golli cartref mewn ffordd arall)** | - | 0.7 | - | - | - | - | 3.9 | 3.0 | - | 2.4 | - | 2.2 | - | 2.4 | - | 0.9 | - | - | 2.8 | 2.6 | 1.4 | 1.1 | - | 1.1 | 3.5 | 2.6 | - | 0.8 | - | 5.1 |
| **Ôl-ddyledion rhent ar anheddau sector cymdeithasol** | 6.9 | 4.8 | 3.0 | 3.0 | - | 5.6 | 9.9 | 17.7 | - | 18.8 | - | - | 4.9 | 18.8 | 4.2 | 2.6 | - | - | 6.7 | 6.7 | 1.6 | 1.8 | - | - | 8.3 | 13.1 | 3.8 | 3.0 | - | - |
| **Ôl-ddyledion rhent ar anheddau sector preifat** | 11.9 | 5.2 | 6.1 | 6.5 | - | 8.3 | 3.9 | 6.5 | 1.1 | 10.6 | - | 0.7 | 3.3 | 10.6 | - | 2.6 | 5.4 | - | 6.1 | 4.6 | 2.4 | 1.2 | - | 2.5 | 4.2 | 8.4 | - | 2.3 | - | 2.6 |
| **Colli llety rhent neu glwm** | 16.8 | 16.6 | 10.6 | 14.1 | 28.6 | 2.8 | 36.0 | 37.0 | 24.0 | 35.7 | 33.3 | 11.9 | 29.5 | 35.7 | 15.3 | 27.6 | 27.0 | 25.0 | 31.8 | 46.4 | 20.1 | 16.8 | 26.7 | 20.5 | 27.8 | 24.6 | 10.5 | 12.2 | 13.6 | 23.1 |
| **Wedi gadael y carchar** | 4.0 | 3.8 | 7.6 | - | - | 11.1 | 2.5 | 0.4 | 7.4 | 1.2 | 7.4 | 15.7 | - | 1.2 | 4.2 | 3.5 | - | - | - | 0.9 | 10.3 | 10.0 | 5.0 | 7.6 | 1.4 | - | 7.6 | 8.6 | - | 2.6 |
| **Mewn sefydliad neu ofal (e.e. ysbyty, cartref preswyl, byddin)** | 3.0 | 11.4 | - | 0.4 | - | 11.1 | 1.0 | 0.2 | 12.6 | - | 7.4 | 0.7 | 1.6 | - | 5.6 | 4.8 | 13.9 | 3.1 | 3.9 | 1.7 | 3.8 | 3.9 | 3.3 | 3.6 | 1.4 | 1.6 | 4.8 | 2.0 | 4.5 | - |
| **Nid yw'r eiddo presennol yn fforddiadwy** | 7.9 | 3.5 | 3.0 | 6.5 | - | - | 2.0 | 3.5 | - | 2.4 | - | 0.7 | 3.3 | 2.4 | - | - | - | - | 2.2 | 1.5 | - | 0.2 | - | 0.4 | - | 3.3 | - | 0.5 | - | - |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nid yw'r eiddo presennol yn addas** | 2.0 | 4.8 | - | 8.4 | - | - | 1.0 | 0.7 | - | 2.0 | - | 0.7 | 1.6 | 2.0 | 1.4 | 1.8 | 2.7 | - | 3.4 | 1.3 | 1.4 | 1.5 | 3.3 | 4.7 | 3.5 | 3.7 | 1.0 | 0.8 | - | 2.6 |
| **Arall (gan gynnwys digartref mewn argyfwng, wedi dychwelyd o dramor, a chysgu ar y stryd neu mewn hostel)** | - | - | - | 3.0 | - | - | 9.4 | 1.6 | 5.7 | 0.4 | 3.7 | 3.7 | 32.8 | 0.4 | 2.8 | 4.8 | 8.1 | - | 1.1 | 2.0 | 7.0 | 7.2 | 5.0 | 1.4 | 4.2 | 2.6 | 9.5 | 6.8 | 9.1 | 2.6 |

Tabl 5.3.1 Data WHO12 a gasglwyd gan yr awdurdodau lleol Y prif reswm pam mae'r aelwyd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae cysylltnodau'n golygu na chyflwynwyd dim i Lywodraeth Cymru.

- Gellir priodoli'r prif achosion ym mhob un o'r pum awdurdod lleol i berthnasoedd ar chwâl, ôl-ddyledion a cholli llety rhent neu glwm. Ymddengys mai colli llety rhent neu glwm yw prif achos sylfaenol digartrefedd ar draws Gwent (a welir yn yr hysbysiadau Adran 21 sy'n cael eu cyflwyno i ddod â thenantiaethau i ben). Yn wir, wrth ystyried yr arolwg ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth, o'r 36 aelwyd oedd yn byw ar y pryd mewn llety preifat, gwnaeth 50% gysylltu eu digartrefedd o leiaf yn rhannol â'r ffaith bod eu landlord wedi dod â'u tenantiaeth i ben. Nid yw natur cyffredin y tueddiadau hyn yn debygol o newid dros y pedair neu'r pum mlynedd nesaf, sy'n golygu y dylai strategaeth digartrefedd Gwent ganolbwyntio ar atal y materion hyn.
- Mae'r data yn nodi bod digartrefedd a achosir gan 'berthnasoedd sy'n chwalu'n dreisgar' wedi cynyddu ym Mlaenau Gwent, Casnewydd a Thorfaen dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Ar yr un pryd, mae 'perthnasoedd sy'n chwalu'n dreisgar' wedi gostwng yng Nghaerffili o flwyddyn i flwyddyn ar draws pob un o'r tair dyletswydd. Gallai hyn nodi bod gwaith ataliol Caerffili'n gryfach ac y gallai cynghorau eraill Gwent elwa o staff Caerffili'n rhannu eu gwybodaeth ac arbenigedd yn y maes hwn. Yn achos dyletswyddau Adran 75 a 'pherthnasoedd sy'n chwalu'n dreisgar', bu cynnydd yn y dyletswyddau Adran 75 a oedd yn ddyledus yn 2017-18 yn Sir Fynwy yn benodol, ac yn Nhorfaen bu cynnydd sylweddol mewn dyletswyddau Adran 75 yn 2017-18 hefyd. Ond gan fod nifer yr aelwydydd y mae dyletswyddau Adran 75 yn ddyledus iddynt yn is o'i gymharu â'r rhai y mae dyletswyddau Adran 66 ac Adran 73 yn ddyledus iddynt ym mhob awdurdod lleol, gellid priodoli hyn i amrywio naturiol yn y data.
- Yn Nhorfaen ac yng Nghasnewydd cafwyd nifer bach o achosion lle mae aflonyddu oherwydd nodwedd a ddiogelir (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wedi cyfrannu at ddigartrefedd. Mae lefelau amrywiaeth ar gyfer Gwent a ddangosir yn Nhabl 3.4.1 uchod yn awgrymu pam mae gan Gasnewydd ragor o achosion o'i gymharu â Thorfaen. Mae'n bosib y gallai fod mwy na'r data yn ei awgrymu sy'n gudd ac/neu na roddir gwybod amdanynt e.e. oherwydd problemau ynglŷn â chael mynediad i wasanaethau, amharodrwydd i fynd at asiantaethau statudol neu ddibyniaeth ar gymorth

cymunedol. Ar yr un pryd mae'n werth nodi bod canlyniadau data LIC am ddigartrefedd yn caniatáu dewis un achos digartrefedd yn unig. Mae nifer mwy o enghreifftiau o drais neu aflonyddu sy'n cael eu hachosi gan 'broblemau eraill' (e.e. ymddygiad gwrthgymdeithasol), felly mae o leiaf yn bosibl y gallai fod rhagor o broblemau cudd nag a awgrymir yn y data, gan ddibynnu ar sut caiff canlyniadau eu cofnodi. Fodd bynnag, mae'r arolwg ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth ar wahân yn awgrymu bod hyn yn fwy o broblem. Roedd yr arolwg defnyddwyr gwasanaeth yn dangos bod 5 o'r 165 o ymatebwyr yn credu bod eu digartrefedd wedi'i achosi o leiaf yn rhannol gan drais neu aflonyddu oherwydd pwy ydynt (e.e. hil, rhywioldeb), gyda'r pum ymatebydd yn byw ym mhob rhan o Went, ac eithrio Blaenau Gwent. Mae'n debyg yn rhesymol credu y gall y broblem hon, er bod 'trais ac aflonyddu oherwydd nodwedd a ddiogelir' yn cael effaith fach mewn perthynas â chanlyniadau data digartrefedd statudol yng Ngwent (wrth gwrs, nid yr aelwydydd unigol dan sylw y mae'n debygol bod yr effaith arnynt yn ddifrifol), fod yn cael mwy o effaith yng Ngwent nag a awgrymir yn y canlyniadau data.

- Fel y amlinellir yn Adran 4, nid yw ôl-ddyledion morgeisi'n debygol o fod yn ffactor sylweddol sy'n cyfrannu at ddigartrefedd yng Ngwent ac ni ddylid disgwyl i'r duedd hon newid yn sylweddol dros y pedair neu'r pum mlynedd nesaf. Fodd bynnag, ni ddylai hyn dynnu sylw o'r goblygiadau gwirioneddol ac, o bosib, ddifrifol i'r unigolyn. Er enghraifft, bu un ymatebydd i holiadur Cyfrif Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd Cenedlaethol 2017 a oedd yn cysgu ar y stryd yn priodoli'r ffaith ei fod yn ddigartref i adfeddiannu morgais. (Gweler hefyd Tabl 5.17.1 a 5.18.1 isod.)
- Dengys y data fod pobl sy'n gadael y carchar mewn perygl cyson o fod yn ddigartref fel y mae pobl sy'n gadael sefydliadau neu ofal, sy'n golygu y dylai strategaeth digartrefedd newydd Gwent barhau i ganolbwyntio ar y meysydd hyn. (Gweler Tabl 5.17.1 a 5.18.1 isod eto – mae pobl sy'n gadael y carchar yn garfan sydd mewn perygl penodol o gysgu ar y stryd.)
- Yn gyffredinol nid yw diffyg addasrwydd eiddo yn cael fawr o effaith o ran cyfrannu at ddigartrefedd yng Ngwent (ond unwaith eto, mwy na thebyg nid i'r aelwydydd dan sylw).
- Mae nifer y rhai sy'n nodi 'Nid yw'r eiddo'n fforddiadwy' yn isel o hyd, er y gallai hyn eto fod yn fwy o broblem nag a awgrymir gan y data. Wrth ystyried ôl-ddyledion a cholli llety clwm, gallai fforddiadwyedd fod yn chwarae rhan llawer mwy sylweddol ac yn sicr mae adborth ymgynghori'n awgrymu mai dyma sy'n wir. Dylai fforddiadwyedd eiddo barhau'n faes allweddol i strategaeth digartrefedd Gwent.
- Yn gyffredinol mae achosion eraill digartrefedd (ar waelod Tabl 5.3.1) wedi gostwng neu aros yn isel ar draws Gwent dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf. (DS: Gellir priodoli'r gostyngiad mawr yn Sir Fynwy yn 2017-18 i newidiadau a wnaed i'r dull cofnodi data.) Byddai hyn yn awgrymu y dylai gwasanaethau, yn gyffredinol, barhau i helpu. Er enghraifft,

ni ddylai gwasanaethau i bobl sy'n cysgu ar y stryd anghofio am y prif ffactorau sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o aelwydydd dros y pedair neu'r pum mlynedd nesaf (h.y. dylid parhau i ddyrannu digon o adnoddau ar gyfer prif achosion digartrefedd, neu mae perygl y bydd diffyg cydbwysedd yn y gwasanaethau a ddarperir).

- Dylid disgwyl i'r tueddiadau uchod barhau yn ystod cyfnod y strategaeth a dylai strategaeth digartrefedd newydd Gwent eu lliniaru. Mae posibilrwydd y gallai rhai problemau waethygu'n ddifrifol (e.e. yr angen am lety dros dro yn benodol) yng Ngwent dros y pedair neu'r pum mlynedd nesaf oni chymerir mesurau i atal hyn.

5.4 Mae Tabl 5.4.1 yn ystyried y prif resymau pam byddai aelwyd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref (mewn perthynas â chanrannau dyletswyddau adrannau 66, 73 a 75 sy'n ddyledus), ond dim ond yr aelwydydd hynny lle mae plant dibynnol yn byw gyda nhw sydd wedi'u cynnwys.

| Canrannau | Blaenau Gwent | | | | | | Caerffili | | | | | | Sir Fynwy | | | | | | Casnewydd | | | | | | Torfaen | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A66 | | A73 | | A75 | | A66 | | A73 | | A75 | | A66 | | A73 | | A75 | | A66 | | A73 | | A75 | | A66 | | A73 | | A75 | |
| | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 |
| **Nid yw'r rhiant yn fodlon neu'n gallu rhoi llety mwyach** | 20.5 | 20.2 | 30.4 | 17.1 | 40.0 | 40.0 | 7.3 | 6.8 | 14.8 | 10.4 | 14.8 | 40.9 | 11.1 | 10.4 | 21.6 | 13.0 | 21.7 | 19.0 | 20.2 | 12.8 | 13.8 | 21.7 | 14.8 | 16.9 | 10.7 | 8.7 | 17.1 | 20.0 | 26.7 | 16.7 |
| **Nid yw perthnasau eraill neu ffrindiau'n fodlon neu'n gallu rhoi llety mwyach** | - | 5.1 | - | 20.0 | - | - | 2.4 | 3.7 | 5.4 | 0.9 | 14.8 | 15.9 | - | 0.9 | 2.7 | 1.9 | 13.0 | 9.5 | 10.5 | 7.3 | 9.2 | 9.7 | 3.7 | 9.9 | 5.4 | 5.8 | 14.6 | 8.9 | 10.0 | 8.3 |
| **Dadansoddiad o'r berthynas â'r partner, Dim trais** | 12.8 | 8.1 | 26.1 | 17.1 | 20.0 | 13.3 | 2.4 | 2.7 | 13.4 | 6.1 | - | 4.5 | 7.9 | 6.1 | 8.1 | 1.9 | 8.7 | - | 4.5 | 1.7 | 4.6 | 7.8 | 3.7 | 4.2 | 3.6 | 8.1 | 14.6 | 12.2 | 13.3 | 12.5 |
| **Dadansoddiad o'r berthynas â'r partner, Treisgar** | - | 6.1 | - | 4.3 | - | 6.7 | 12.2 | 6.8 | 22.1 | 1.7 | 22.2 | 25.0 | 6.3 | 1.7 | 35.1 | 31.5 | - | 42.9 | 1.9 | 6.0 | 18.4 | 19.4 | 25.9 | 25.4 | 5.4 | 7.5 | 19.5 | 18.9 | 16.7 | 20.8 |
| **Trais neu aflonyddu a sbardunir trwy hiliaeth** | - | - | - | - | - | - | - | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd crefydd/cred** | - | - | - | - | - | - | - | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd ailbennu** | - | - | - | - | - | - | - | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **rhywedd (hunaniaeth rhywedd)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd hunaniaeth/tueddfryd rhywiol** | - | - | - | - | - | - | - | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd anabledd** | - | - | - | - | - | | - | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd rheswm arall** | - | - | - | 1.4 | - | - | - | 0.7 | - | - | - | - | - | - | - | - | 4.3 | 4.8 | - | 0.9 | 8.0 | 1.9 | 3.7 | 1.4 | - | 1.7 | 2.4 | 1.1 | - | 4.2 |
| **Ôl-ddyledion morgeisi (adfeddiannu neu golli cartref mewn ffordd arall)** | - | 1.0 | - | - | - | | 3.7 | 3.1 | - | 3.5 | - | 4.5 | - | 3.5 | 2.7 | 1.9 | - | - | 0.4 | 1.7 | 1.1 | 0.4 | - | 0.7 | 5.4 | 4.0 | - | - | - | 8.3 |
| **Ôl-ddyledion rhent ar anheddau sector cymdeithasol** | 10.3 | 6.1 | 8.7 | 5.7 | - | 13.3 | 12.2 | 22.0 | - | 26.1 | - | - | 11.1 | 26.1 | 8.1 | 1.9 | - | - | 8.6 | 5.6 | 2.3 | 2.3 | - | - | 10.7 | 13.9 | 4.9 | 3.3 | - | - |
| **Ôl-ddyledion rhent ar anheddau sector preifat** | 17.9 | 7.1 | 13.0 | 8.6 | - | 20.0 | 3.7 | 7.5 | 1.3 | 6.1 | - | - | 6.3 | 6.1 | 2.7 | 5.6 | 8.7 | - | 6.7 | 4.7 | 5.7 | 1.6 | - | 4.2 | 7.1 | 9.8 | 2.4 | 4.4 | 3.3 | 4.2 |
| **Colli llety rhent neu glwm** | 20.5 | 22.2 | 21.7 | 40.0 | 40.0 | 6.7 | 48.8 | 40.7 | 36.9 | 40.0 | 48.1 | 6.8 | 52.4 | 40.0 | 18.9 | 37.0 | 30.4 | 23.8 | 39.3 | 55.1 | 33.3 | 28.3 | 40.7 | 31.0 | 42.9 | 33.5 | 17.1 | 23.3 | 23.3 | 20.8 |
| **Wedi gadael y carchar** | - | - | - | - | - | - | - | - | 0.7 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 0.4 | - | 0.7 | - | - | - | - | 3.3 | - |
| **Mewn sefydliad neu ofal (e.e. ysbyty, cartref preswyl, byddin)** | - | 15.2 | - | - | - | - | 1.2 | 0.3 | 2.0 | - | - | - | - | - | - | - | 4.3 | - | 0.7 | 0.9 | 1.1 | 0.8 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Nid yw'r eiddo presennol yn fforddiadwy** | 7.7 | 4.0 | - | - | - | - | 4.9 | 4.1 | - | 3.5 | - | - | 1.6 | 3.5 | - | - | - | - | 2.6 | 1.7 | - | 0.8 | - | 0.7 | - | 3.5 | - | 1.1 | - | - |
| **Nid yw'r eiddo presennol yn addas** | 5.1 | 5.1 | - | - | - | - | - | 1.4 | - | 1.7 | - | 2.3 | 1.6 | 1.7 | - | 3.7 | 4.3 | - | 2.2 | 1.3 | - | 2.3 | 7.4 | 3.5 | 3.6 | 2.9 | - | 3.3 | - | 4.2 |
| **Arall (gan gynnwys digartref mewn argyfwng, wedi dychwelyd o dramor, a chysgu ar y stryd neu mewn hostel)** | - | - | - | - | - | - | 2.4 | 0.3 | 3.4 | - | - | - | - | - | - | 1.9 | 4.3 | - | 2.2 | 0.4 | 1.1 | 2.7 | - | 1.4 | 3.6 | 0.6 | 7.3 | 3.3 | 3.3 | - |

Tabl 5.4.1 - Data WHO12 a gasglwyd gan yr awdurdodau lleol Y prif reswm pam mae'r aelwyd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae cysylltnodau'n golygu na chyflwynwyd dim i Lywodraeth Cymru.

- Yn gyffredinol dengys y data ei bod yn llai tebygol bod dyletswydd yn ddyledus i aelwydydd â phlant dibynnol oherwydd nad yw rhieni/perthnasau/ffrindiau'n fodlon rhoi llety iddynt mwyach, o'u cymharu â'r aelwydydd yn Nhabl 5.3.1. Mae hyn yn awgrymu y gallai 'digartrefedd cudd' fod yn llai o broblem gyda theuluoedd â phlant dibynnol ar draws Gwent yn gyffredinol.
- Pan gaiff nifer y perthnasoedd a chwalodd yn dreisgar yn 5.3.1 eu cymharu â 5.3.1, ar wahân i Flaenau Gwent dengys y pedwar cyngor arall duedd gyffredinol lle mae digartrefedd aelwydydd â phlant dibynnol fwy tebygol yn gymharol o gael ei achosi gan gam-drin domestig. Dyma rywbeth y dylai cynghorau Gwent geisio ei atal, yn benodol oherwydd y gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gynyddu'r perygl o ddigartrefedd.
- Mae'r data'n awgrymu nad yw aflonyddu oherwydd nodwedd a ddiogelir (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) yn cyfrannu at ddigartrefedd mewn aelwydydd â phlant dibynnol. Ond unwaith eto gallai cofnodi digwyddiadau 'eraill' fod yn cuddio hyn ac yn wir, nododd un ymatebydd i'r arolwg defnyddwyr gwasanaeth sy'n rhiant sengl bod ei digartrefedd wedi cael ei achosi o leiaf yn rhannol oherwydd trais neu aflonyddu oherwydd pwy ydyw (e.e. hil, rhywioldeb).
- Bron yn gyffredinol ar draws Gwent, pan gaiff Tabl 5.3.1 ei gymharu â Thabl 5.4.1, gwelir bod aelwydydd â phlant dibynnol yn llawer mwy tebygol o gronni ôl-ddyledion rhent a hynny yn y sectorau tai preifat a thai cymdeithasol fel ei gilydd. Gellir priodoli hyn yn rhesymegol i'r costau sydd ynghlwm wrth fagu plant a rheoli cartref ar yr un pryd. Hefyd mae aelwydydd â llawer o blant dibynnol yn llawer mwy tebygol o golli eu cartref trwy golli llety rhent neu glwm ar draws pob dyletswydd ddigartrefedd yn Nhabl 5.4.1. Unwaith eto dyma rywbeth y dylai cynghorau Gwent geisio ei atal, yn benodol oherwydd y bydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn effeithio ar ddigartrefedd yn y dyfodol. Bydd gweithio'n effeithiol gyda landlordiaid tai preifat a chymdeithasol yn arbennig o bwysig.
- Mae Tabl 5.4.1 yn awgrymu bod teuluoedd â phlant dibynnol yng Ngwent yn llai tebygol o fod â chysylltiad â'r carchar a/neu rywun sy'n gadael sefydliad arall (mewn perthynas ag achosion digartrefedd). Ni ddylid disgwyl i'r duedd hon newid dros y pedair neu'r pum mlynedd nesaf.
- Ar ben hynny, ac yn ogystal â chanlyniadau data statudol, roedd arolwg defnyddwyr gwasanaeth yr ymgynghoriad yn mai naill ai rhiant sengl neu gwpl â phlant dibynnol oedd 51 o'r 165 o ymatebwyr (35 ohonynt yn rhieni sengl). DS: Roedd 2 aelwyd arall a ychwanegwyd at y 51 hefyd yn rhieni sengl gyda llai o fynediad at eu plant.
- Roedd yr arolwg ymgynghori hefyd yn dangos bod 5 aelwyd yn cynnwys rhywun a oedd yn feichiog ar adeg cwblhau'r arolwg ac mai dim ond un oedd mewn cwpl – roedd y gweddill eisoes yn rhieni sengl. Roedd 3 o'r aelwydydd hyn wedi bod mewn perygl o fod yn ddigartref o leiaf ddwywaith.

- Dylid disgwyl i'r tueddiadau uchod barhau yn ystod cyfnod y strategaeth a dylai strategaeth digartrefedd newydd Gwent eu lliniaru.

5.5 Mae Tabl 5.5.1 yn ystyried y prif resymau pam byddai aelwyd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref (mewn perthynas â chanrannau dyletswyddau adrannau 66, 73 a 75 sy'n ddyledus), ond dim ond yr aelwydydd hynny lle mae plant dibynnol yn byw gyda nhw sydd wedi'u cynnwys.

| Canrannau | Blaenau Gwent | | | | | | Caerffili | | | | | | Sir Fynwy | | | | | | Casnewydd | | | | | | Torfaen | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A66 | | A73 | | A75 | | A66 | | A73 | | A75 | | A66 | | A73 | | A75 | | A66 | | A73 | | A75 | | A66 | | A73 | | A75 | |
| | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 |
| **Nid yw'r rhiant yn fodlon neu'n gallu rhoi llety mwyach** | 33.9 | 19.3 | 53.5 | 27.5 | 100.0 | 28.6 | 17.8 | 25.9 | 14.9 | 15.5 | 6.0 | 19.0 | 26.7 | 15.5 | 21.1 | 19.6 | - | 27.3 | 28.6 | 18.1 | 20.0 | 19.4 | 25.8 | 23.9 | 35.5 | 22.5 | 18.6 | 20.3 | 22.9 | 15.4 |
| **Nid yw perthnasau eraill neu ffrindiau'n fodlon neu'n gallu rhoi llety mwyach** | 4.8 | 16.5 | - | 15.2 | - | 14.3 | 5.0 | 11.1 | 10.5 | 13.6 | 10.0 | 13.1 | 20.0 | 13.6 | 14.0 | 13.9 | - | - | 15.7 | 15.4 | 14.2 | 16.6 | 12.9 | 12.8 | 13.2 | 24.4 | 20.9 | 10.5 | 14.3 | 7.7 |
| **Dadansoddiad o'r berthynas â'r partner, Dim trais** | 14.5 | 14.8 | 27.9 | 11.1 | - | 4.8 | 4.0 | 3.2 | 8.8 | 4.5 | 4.0 | 7.1 | - | 4.5 | 21.1 | 8.2 | 22.2 | - | 4.3 | 4.4 | 8.5 | 8.2 | 6.5 | 1.7 | 7.9 | 13.8 | 16.3 | 21.0 | 8.6 | - |
| **Dadansoddiad o'r berthynas â'r partner, Treisgar** | - | 2.3 | - | 5.3 | - | 14.3 | 9.9 | 3.7 | 10.5 | 0.9 | 20.0 | 13.1 | 6.7 | 0.9 | 10.5 | 8.9 | 11.1 | 36.4 | - | - | 6.2 | 8.4 | 16.1 | 17.1 | 3.9 | 7.1 | 5.8 | 9.5 | 8.6 | 30.8 |
| **Trais neu aflonyddu a sbardunir trwy hiliaeth** | - | - | - | - | - | - | - | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 0.2 | - | - | - | 3.6 | - | 0.3 | - | - |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd crefydd/cred** | - | - | - | - | - | - | - | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 0.9 | - | - | - | - | - | - |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd ailbennu** | - | - | - | - | - | - | - | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **rhywedd (hunaniaeth rhywedd)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd hunaniaeth/tueddfryd rhywiol** | - | - | - | - | - | - | - | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 0.9 | - | - | - | - | 2.9 | - |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd anabledd** | - | - | - | - | - | | - | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 0.2 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd rheswm arall** | - | 2.3 | - | 0.6 | - | - | - | 0.5 | - | 0.9 | - | - | - | - | - | 1.3 | - | - | - | 2.2 | 2.7 | 2.7 | - | 6.8 | - | - | 2.3 | 2.0 | 5.7 | - |
| **Ôl-ddyledion morgeisi (adfeddiannu neu golli cartref mewn ffordd arall)** | - | - | - | - | - | - | 4.0 | 2.3 | - | 1.8 | - | - | - | 1.8 | - | 0.6 | - | - | 1.4 | 1.1 | 0.8 | 1.5 | - | 0.9 | 1.3 | 0.4 | - | 1.0 | - | - |
| **Ôl-ddyledion rhent ar anheddau sector cymdeithasol** | 4.8 | 4.0 | 1.2 | 1.8 | - | - | 8.9 | 11.6 | - | 10.9 | - | - | - | 10.9 | 3.5 | 3.2 | - | - | 2.9 | 7.1 | 1.5 | 1.2 | - | - | 5.3 | 1.3 | 2.3 | 2.7 | - | - |
| **Ôl-ddyledion rhent ar anheddau sector preifat** | 8.1 | 2.8 | 1.2 | 4.1 | - | - | 5.0 | 4.6 | 0.9 | 17.3 | - | - | - | 17.3 | - | 1.3 | - | - | 5.7 | 3.8 | 1.2 | 0.9 | - | - | 1.3 | 11.6 | - | 1.7 | - | - |
| **Colli llety rhent neu glwm** | 14.5 | 14.2 | 2.3 | 7.6 | - | - | 24.8 | 29.6 | 18.4 | 30.0 | 28.0 | 14.3 | 26.7 | 30.0 | 14.0 | 24.1 | 22.2 | 27.3 | 21.4 | 35.2 | 15.0 | 11.9 | 12.9 | 6.8 | 17.1 | 6.7 | 9.3 | 8.8 | 5.7 | 30.8 |
| **Wedi gadael y carchar** | 6.5 | 6.3 | 11.6 | 9.9 | - | 19.0 | 5.0 | 0.5 | 11.4 | 2.7 | 12.0 | 25.0 | - | 2.7 | 5.3 | 4.4 | - | - | - | 2.2 | 14.6 | 14.3 | 9.7 | 16.2 | 2.6 | 16.9 | 9.3 | 11.5 | 2.9 | 7.7 |
| **Mewn sefydliad neu ofal (e.e. ysbyty, cartref preswyl, byddin)** | 4.8 | 9.7 | - | 11.7 | - | 19.0 | 1.0 | - | 17.5 | - | 14.0 | 1.2 | 6.7 | - | 7.0 | 7.0 | 33.3 | 9.1 | 10.0 | 3.3 | 4.6 | 4.9 | 6.5 | 6.0 | 1.3 | - | 5.8 | 2.7 | 11.4 | - |
| **Nid yw'r eiddo presennol yn fforddiadwy** | 8.1 | 3.4 | 2.3 | - | - | - | - | 3.2 | - | - | - | 1.2 | - | - | - | - | - | - | 1.4 | 1.1 | - | - | - | - | - | 2.7 | - | 0.3 | - | - |
| **Nid yw'r eiddo presennol yn addas** | - | 4.5 | - | 0.6 | - | - | 2.0 | - | - | 1.8 | - | - | - | 1.8 | - | 1.3 | - | - | 4.3 | 1.6 | 1.2 | 1.1 | - | 4.3 | 3.9 | 3.1 | 1.2 | - | - | - |
| **Arall (gan gynnwys digartref mewn argyfwng, wedi dychwelyd o dramor, a chysgu ar y stryd neu mewn hostel)** | - | - | - | 4.7 | - | - | 13.9 | 3.7 | 6.1 | 0.9 | 6.0 | 6.0 | - | 1.0 | 3.5 | 6.3 | 11.1 | - | 2.9 | 4.4 | 9.2 | 8.5 | 9.7 | 1.7 | 5.3 | 4.4 | 8.1 | 7.5 | 17.1 | 7.7 |

Tabl 5.5.1 Data WHO12 a gasglwyd gan yr awdurdodau lleol Y prif reswm pam mae'r aelwyd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae cysylltnodau'n golygu na chyflwynwyd dim i Lywodraeth Cymru.

- Gellir priodoli'r prif achosion ym mhob un o'r pum awdurdod lleol i berthnasoedd ar chwâl, ôl-ddyledion a cholli llety rhent neu glwm.
- Bron yn gyffredinol ar draws Gwent rhwng 2016 a 2018, roedd 'Nid yw rhieni'n fodlon rhoi llety mwyach' yn fwy tebygol o lansio'r ddyletswydd Adran 66 i aelwydydd sengl o'i gymharu â thablau 5.3.1 a 5.4.1. Gallai hyn fod oherwydd perthnasoedd ar chwâl. Gallai hefyd fod yn gysylltiedig â pheth adborth ymgynghori gan staff o ran camsyniadau a disgwyliadau afrealistig gan y cyhoedd ynglŷn â chynghorau'n gallu darparu cartrefi i bobl sy'n mynd at eu gwasanaethau digartrefedd. Mae chwaliad mewn perthnasoedd eraill hefyd yn cyfrannu'n sylweddol hefyd at ddigartrefedd ar draws Gwent i aelwydydd sengl. Mae hyn yn cyfeirio at y rheswm pam soniwyd sawl gwaith am ragor o lety fforddiadwy i bobl sengl yng Ngwent yn ystod yr ymgynghoriad, yn benodol yn ystod y digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd y maes hwn yn ffocws allweddol i'r strategaeth newydd.
- Ar draws Gwent, ymddengys fod aelwydydd pobl sengl mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref, oherwydd perthnasoedd yn chwalu heb drais a pherthnasoedd yn chwalu'n dreisgar, o'u cymharu â'r rhai yn Nhabl 5.3.1.
- Ymddengys aelwydydd pobl sengl hefyd i fod yn fwy tebygol yn gymharol o ddioddef aflonyddu oherwydd bod nodwedd a ddiogelir (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wedi achosi eu digartrefedd. Mae'r arolwg defnyddwyr gwasanaeth yn ategu'r haeriad hwn oherwydd, o'r 5 ymatebydd a deimlai fod eu digartrefedd wedi'i achosi o leiaf yn rhannol gan drais neu aflonyddu oherwydd pwy ydynt (e.e. hil, rhywioldeb), roedd pob un yn sengl, gydag un yn rhiant sengl. Gallai hyn fod yn ymwneud â phobl sengl yn teimlo'n fwy ynysig ac felly yn fwy tebygol o gael eu targedu.
- Mae aelwydydd sengl hefyd yn fwy tebygol o gynnwys cyn-garcharorion a'r rhai sydd wedi gadael sefydliad a/neu ofal (sydd hefyd, o ystyried Tabl 5.18.1, yn fwy tebygol o'u rhoi mewn perygl o gysgu ar y stryd). Yn yr un modd mae Tabl 5.5.1 yn dangos tuedd gyffredinol arall ar draws Gwent, sef digartrefedd sydd wedi'i achosi gan 'resymau eraill' e.e. mae cysgu ar y stryd yn fwy o broblem i aelwydydd sengl.
- Roedd 95 o'r 165 o ymatebwyr i arolwg defnyddwyr gwasanaeth yr ymgynghoriad yn sengl.
- Dylid disgwyl i'r tueddiadau uchod barhau yn ystod cyfnod y strategaeth a dylai strategaeth digartrefedd newydd Gwent eu lliniaru.

- Yn ogystal mae Tabl 5.5.2 yn rhoi ymatebion a roddwyd gan y rhai a gwblhaodd yr arolwg defnyddwyr gwasanaeth, yn benodol o ran yr hyn a oedd yn cyfrannu, yn eu barn nhw, at eu digartrefedd neu'r perygl o fod yn ddigartref.

| Rhesymau | Nifer |
|---|---|
| **Perthynas yn chwalu** | 73 |
| **Materion iechyd meddwl** | 53 |
| **Nid yw'r rhiant yn fodlon neu'n gallu rhoi llety mwyach** | 50 |
| **Diffyg tai cymdeithasol** | 47 |
| **Diweithdra/incwm isel** | 36 |
| **Landlord yn terfynu fy nhenantiaeth** | 35 |
| **Diffyg tai rhent preifat** | 31 |
| **Cam-drin domestig** | 30 |
| **Nid yw'r llety presennol yn fforddiadwy** | 25 |
| **Nid yw perthnasau eraill neu ffrindiau'n fodlon neu'n gallu rhoi llety mwyach** | 25 |
| **Diffyg tai fforddiadwy i'w prynu** | 23 |
| **Dyledion eraill** | 20 |
| **Camddefnyddio cyffuriau** | 18 |
| **Arall (nodwch** | 14 |
| **Ôl-ddyledion rhent neu daliadau gwasanaeth** | 14 |
| **Problem(au) gyda budd-daliadau lles** | 13 |
| **Camddefnyddio alcohol** | 11 |
| **Hanes troseddu** | 11 |
| **Diffyg cyfeiriad post** | 6 |
| **Sgiliau hunanofal/bywyd** | 6 |
| **Cam-drin rhywiol a/neu gorfforol** | 6 |
| **Salwch cronig gan gynnwys HIV/AIDS** | 5 |
| **Allgáu o'r ysgol/addysg** | 5 |
| **Gadael gofal** | 5 |
| **Mynediad gwael i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (e.e. meddyg teulu, deintydd)** | 5 |
| **Trais neu aflonyddu oherwydd pwy ydych (e.e. hil, rhywioldeb)** | 5 |
| **Byw mewn llety anaddas oherwydd nam corfforol neu synhwyraidd** | 4 |
| **Ôl-ddyledion morgais** | 4 |
| **Rhyddhau o remand neu'r ddalfa** | 2 |
| **Gadael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (e.e. ysbyty neu ofal preswyl)** | 1 |
| **Gadael y lluoedd arfog** | 1 |

Tabl 5.5.2 Atebion a roddwyd gan yr 165 o ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg defnyddwyr gwasanaeth: rhesymau a gyfrannodd, ym marn unigolion, at eu digartrefedd neu'r perygl o fod yn ddigartref

5.6 Dengys Tabl 5.6.1 ganran yr aelwydydd a dderbyniodd gymorth trwy wasanaethau digartrefedd statudol a'r mathau o gamau gweithredu a gymerwyd i'w galluogi i **aros** yn eu cartrefi, gan atal digartrefedd o ganlyniad.

| Canrannau | Blaenau Gwent | | Caerffili | | Sir Fynwy | | Casnewydd | | Torfaen | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 |
| Cyfryngu a chymodi | 15.2 | 40.0 | 11.4 | 21.3 | 17 | 5.5 | 15.4 | 15.8 | - | 7.6 |
| Cyfryngu a chymodi (person ifanc) | 9.1 | - | 9.1 | 4.4 | - | 5.5 | 13.5 | 12.3 | - | - |
| Taliadau ariannol | 27.3 | 10.0 | 2.3 | 7.1 | - | 1.8 | 30.8 | 42.1 | - | 3.0 |
| Cyngor ar ddyled a materion ariannol | 24.2 | 25.0 | 11.4 | 8.7 | 5.9 | 89.1 | 3.8 | 10.5 | - | 10.6 |
| Datrys problemau tai/budd-daliadau lles | 21.2 | 10.0 | 22.7 | 16.4 | 41.2 | - | 7.7 | 10.5 | - | 1.5 |
| Datrys ôl-ddyledion rhent/taliadau gwasanaeth | 3.0 | 10.0 | 13.6 | 30.6 | 11.8 | - | 26.9 | 8.8 | 31.6 | 28.8 |
| Mesur i atal cam-drin domestig | - | - | 27.3 | 2.2 | 17.6 | - | 3.8 | 3.5 | 3.8 | - |
| Cyd-drafod neu eiriolaeth gyfreithiol i sicrhau bod rhywun yn gallu aros mewn llety yn y sector rhent preifat | 3.0 | - | - | 4.4 | - | 3.6 | 5.8 | 1.8 | 5.1 | - |
| Ymyriadau ôl-ddyledion morgais neu achub morgais | - | - | 4.5 | 2.2 | 5.9 | - | 5.8 | 3.5 | 5.1 | 3.0 |
| Cynnig cymorth arall neu gymorth arbenigol ar gyfer problemau | - | 5.0 | 4.5 | 7.1 | - | - | - | 3.5 | 54.4 | 45.5 |

Tabl 5.6.1 Data WHO12 a gasglwyd gan yr Awdurdodau Lleol Mae digartrefedd wedi'i atal trwy aros gartref. Ystyr y cysylltnod yw na chyflwynwyd unrhyw ffigur i Lywodraeth Cymru

- Mae cyngor ar ddyled, taliadau ariannol, datrys problemau gyda budd-daliadau a datrys ôl-ddyledion rhent a thaliadau gwasanaeth wedi cael yr effaith fwyaf ar helpu aelwydydd i aros yn eu cartrefi, gan atal digartrefedd yng Ngwent o ganlyniad.
- Mae Tabl 5.6.1 yn awgrymu bod cynghorau Gwent, ar wahân i Sir Fynwy, yn gwneud defnydd cynyddol o gyfryngu a chymodi i atal dyletswyddau digartrefedd rhag dwysáu.
- Ymddengys fod cyngor ar ddyled a materion ariannol yn arbennig o effeithiol ym Mlaenau Gwent a Sir Fynwy (er yr ymddengys fod cynnydd mawr yn Sir Fynwy o fewn blwyddyn yn debygol o adlewyrchu newid yn y dull cofnodi, gan fod gostyngiad mawr a dim cofnod o ddatrys problemau tai/budd-daliadau lles yn 2017-18). Gall y cynghorau eraill elwa o rannu gwybodaeth yn y maes hwn i weld a ellir cynnwys arfer gwell.

- Ymddengys fod datrys problemau tai/budd-daliadau lles ym Mlaenau Gwent a Chaerffili (ac o bosib yn Sir Fynwy) yn dod yn llai o bryder – er bod adborth o'r ymgynghoriad yn awgrymu y dylid disgwyl i'r duedd hon newid yn ôl ac yn dod yn fwy o broblem pan gaiff y gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn ei roi ar waith yn y tair ardal hyn yn 2018. Ym Mlaenau Gwent a Chaerffili, mae help gyda datrys ôl-ddyledion rhent/costau gwasanaeth yn cynyddu, sy'n cyfeirio at y casgliad mai fforddiadwyedd, yn hytrach na materion budd-dal lles/tai, sydd wedi o dod yn fwy o broblem yn y dau ranbarth hyn. Mae Tabl 5.3.1 yn ategu'r syniad hwn, gan fod y canrannau o 'Nid yw'r eiddo'n fforddiadwy' yn fwy ym Mlaenau Gwent a Chaerffili o ran dyletswyddau Adran 66 ac Adran 73 gyda'i gilydd ar gyfer 2017-18, o'u cymharu â'r tri chyngor arall.
- Mae Tabl 5.3.1 yn awgrymu bod cam-drin domestig wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ym Mlaenau Gwent, Casnewydd a Thorfaen – heb unrhyw gynnydd cyfatebol i'w weld mewn canrannau cam-drin domestig y gellir ei atal yn Nhabl 5.6.1. Yng Nghaerffili a Sir Fynwy cafwyd gostyngiad cyffredinol mewn achosion perthnasoedd ar chwâl yn Nhabl 5.3.1 (ac eithrio cynnydd mawr mewn dyletswyddau Adran 75 yn Sir Fynwy, a allai fod oherwydd niferoedd isel y sampl). Ond gallai'r duedd hon ddechrau newid yn ôl yng Nghaerffili a Sir Fynwy yn 2018/19 os bydd y ddau gyngor hyn yn lleihau buddsoddiad mewn gwasanaethau sy'n ceisio atal cam-drin domestig. Yn benodol mae canrannau Caerffili a Sir Fynwy wedi lleihau'n sylweddol yn 2017-18, er yr ymddengys fod y fath fesurau'n effeithiol/yn cael eu defnyddio'n llawer mwy yn 2016-17.

5.7 Dengys Tabl 5.7.1 ganran yr aelwydydd a dderbyniodd gymorth trwy wasanaethau digartrefedd statudol y Cyngor a'r mathau o gamau gweithredu a gymerwyd i helpu aelwydydd i **ddod o hyd** i dai eraill, gan atal digartrefedd o ganlyniad.

| **Canrannau** | **Blaenau Gwent** | | **Caerffili** | | **Sir Fynwy** | | **Casnewydd** | | **Torfaen** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** |
| **Llety sector rhent preifat gyda'r Cynllun Cymhelliant Landlordiaid (e.e. bond heb arian, ffi'r darganfyddwr, blaendal, rhent ymlaen llaw, taliad yswiriant landlordiaid)** | 50.0 | 13.6 | 29.5 | 13.7 | 16.7 | 22.0 | 25.8 | 28.7 | 5.9 | 6.9 |
| **Llety sector rhent preifat heb y Cynllun Cymhelliant Landlordiaid** | 25.0 | 22.4 | 20.0 | 25.7 | 16.7 | 26.0 | 17.4 | 13.3 | 21.3 | 18.3 |
| **Llety wedi'i drefnu gyda ffrindiau neu berthnasau, neu ddychwelyd** | - | 2.4 | - | 1.6 | 10.0 | 3.0 | 3.3 | 2.7 | 13.2 | 8.0 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **adref** | | | | | | | | | | |
| **Tai Cymdeithasol – Awdurdod Lleol** | - | - | 32.4 | 48.6 | - | 1.0 | 1.9 | - | - | 13.7 |
| **Tai Cymdeithasol - Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig** | 25.0 | 60.0 | 14.3 | 9.2 | 26.7 | 38.0 | 47.9 | 46.8 | 41.2 | 41.7 |
| **Unrhyw ffurf ar lety â chymorth nad yw'n hunangynhwysol** | - | 0.8 | - | 0.8 | 10.0 | 8.0 | 2.3 | 3.7 | 14.0 | - |
| **Llety â chymorth sy'n hunangynhwysol** | - | 0.8 | 3.8 | 0.4 | 16.7 | 2.0 | 0.9 | 3.2 | 4.4 | 10.9 |
| **Cynllun perchentyaeth cost isel, tai rhad ar y farchnad agored** | - | - | - | - | - | - | 0.5 | 0.5 | - | 0.6 |
| **Cymorth arall** | - | - | - | - | 2.2 | - | - | - | - | - |

Tabl 5.7.1 Data WHO12 a gasglwyd gan yr Awdurdodau Lleol Mae digartrefedd wedi'i atal trwy ddod o hyd i lety arall Ystyr y cysylltnod yw na chyflwynwyd unrhyw ffigur i Lywodraeth Cymru

- Mae'n glir bod Tabl 5.7.1 yn adlewyrchu pwysigrwydd yr holl ranbarth yn cydweithio â'r sector tai cymdeithasol a'r sector rhent preifat ar draws Gwent a'r fantais barhaus sydd ynghlwm wrth fuddsoddi adnoddau gyda'r pwyslais ar gydgysylltu/gydweithio â landlordiaid cymdeithasol a phreifat.
- Mae cymhellion ar gyfer landlordiaid preifat wedi lleihau'n sylweddol ym Mlaenau Gwent a Chaerffili ac wedi cynyddu yn y tri chyngor arall. Mae'n ddiddorol nodi nad yw'r defnydd o lety sector preifat heb gymhelliant wedi lleihau ond ychydig ym Mlaenau Gwent a'i fod wedi cynyddu yng Nghaerffili. Mae hyn yn awgrymu y gallai tenantiaethau sector preifat fod yn haws cael mynediad iddynt ym Mlaenau Gwent a Chaerffili, sy'n golygu nad oes angen cymell landlordiaid cymaint ag mewn mannau eraill. Yn groes i hyn, gall y cynnydd mewn cymhellion sector preifat yng Nghasnewydd a Thorfaen a'r gostyngiad cyfatebol yn y defnydd o lety sector preifat heb gymhellion awgrymu fod tenantiaethau sector preifat yn dod yn fwy anodd dod o hyd iddynt yng Nghasnewydd a Thorfaen. Yn Sir Fynwy ymddengys fod peth gwahaniaeth i Gasnewydd a Thorfaen. Wrth ystyried y data o 2016-18, gwelir bod y defnydd o gymhellion yn cael effaith gadarnhaol, ond yn llai cadarnhaol o'u cymharu â'r sector preifat heb gymhellion. Gallai hyn awgrymu y gallai cymhellion i landlordiaid preifat yn Sir Fynwy fod yn llai effeithiol a bod y berthynas/cysylltiadau a grëir gan y cyngor â landlordiaid preifat yn fwy pwysig, sy'n gasgliad a ategir gan adborth o'r ymgynghoriad hefyd. Mae'r data yn nodi bod pob awdurdod lleol yn teilwra ei waith i fodloni disgwyliadau landlordiaid preifat ym mhob ardal yn ystyriaeth bwysig o dan y strategaeth digartrefedd newydd.

- Mae'r defnydd o'r sector rhent preifat wedi lleihau'n sylweddol ym Mlaenau Gwent. Mae'n debyg bod hyn yn gysylltiedig â'r cynnydd cyfatebol yn y defnydd o stoc tai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn yr ardal. Gallai hyn fod oherwydd gwaith partneriaeth gwell gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig neu oherwydd bod tai cymdeithasol yn dod yn haws cael mynediad iddynt ym Mlaenau Gwent (gweler hefyd Graff 4.7.1). Yn sicr mae'r newid yn awgrymu pam bu llai o ddefnydd ar gymhellion i landlordiaid preifat ym Mlaenau Gwent os gellid defnyddio mwyfwy o stoc tai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.
- Ceir patrwm tebyg yng Nghaerffili, oni bai y cafwyd cynnydd yno yn y defnydd o dai cymdeithasol yr awdurdod lleol a gostyngiad cyfatebol yn y defnydd o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Gallai hyn atgyfnerthu pwyntiau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad â staff yr awdurdodau lleol bod Caerffili'n elwa o gadw ei stoc o dai cymdeithasol gan ei fod yn rheoli'r mwyafrif o'r stoc tai cymdeithasol yn ei ardal.
- Dengys Tabl 5.7.1 fod trefnu llety gyda ffrindiau a pherthnasau neu ddychwelyd adref yn llai o ddewis erbyn hyn yn Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.
- Prin y defnyddir cynlluniau perchentyaeth cost isel yng Ngwent i atal digartrefedd – dim ond yng Nghasnewydd ac yn Nhorfaen yn y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Gallai fod cyfle i'r awdurdodau lleol ystyried y maes hwn, yn benodol Sir Fynwy (gweler hefyd Tabl 4.14.1) oherwydd, fel yr esboniwyd yng Nghynllun Digartrefedd Deng Mlynedd 2009 LIC, bod "*cymarebau fforddiadwyedd perchentyaeth mewn ardaloedd gwledig yn arbennig o anodd gan nad yw prisiau tai yn cymesur ag incymau*". Er ei bod yn debyg y bydd yr amser a'r adnoddau y mae eu hangen i brynu eiddo'n gyffredinol yn golygu na fydd perchentyaeth cost isel yn cael ond effaith fach pan fydd aelwyd yn cyrraedd y cam lle mae'n rhaid iddo gysylltu â gwasanaethau digartrefedd statudol. Mae perchentyaeth cost isel yn debygol o fod yn effeithiol wrth gael gwared ar y perygl o ddigartrefedd yn gyfan gwbl. Gallai hyn olygu nad yw'n debygol y bydd modd gweld unrhyw welliannau mewn mentrau perchentyaeth cost isel dros y pedair neu'r pum mlynedd nesaf yng Ngwent ac unrhyw fantais i ddigartrefedd trwy edrych ar y data digartrefedd statudol yn unig. Dylid ystyried hyn yn ystod yr adolygiad digartrefedd nesaf. Mae hyn yn pwysleisio'r rheswm pam roedd mor bwysig defnyddio nifer o ddulliau casglu data i gyfeirio'r adolygiadau digartrefedd a galluogi gwell dealltwriaeth. Mae angen i awdurdodau lleol Gwent ganolbwyntio ar sut maent yn cofnodi ac yn rhoi tystiolaeth o waith a wneir mewn gwasanaethau digartrefedd (a gwasanaethau cysylltiedig, megis gwasanaethau a ariennir trwy Gefnogi Pobl).

5.8 Dengys Tabl 5.8.1 ganran yr aelwydydd a dderbyniodd gymorth trwy wasanaethau digartrefedd statudol y Cyngor a'r mathau o gamau gweithredu a gymerwyd i helpu aelwydydd i ddod o hyd i dai eraill er mwyn **lleihau** digartrefedd.

| Canrannau | Blaenau Gwent | | Caerffili | | Sir Fynwy | | Casnewydd | | Torfaen | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 |
| **Llety sector rhent preifat gyda'r Cynllun Cymhelliant Landlordiaid (e.e. bond heb arian, ffi'r darganfyddwr, blaendal, rhent ymlaen llaw, taliad yswiriant landlordiaid)** | 45.9 | 19.0 | 21.4 | 21.3 | 12.0 | 2.7 | 22.9 | 28.6 | 9.1 | 5.3 |
| **Llety sector rhent preifat heb y Cynllun Cymhelliant Landlordiaid** | 21.6 | 26.2 | 0.4 | 14.0 | 51.9 | 42.5 | 11.9 | 12.1 | 18.2 | 25.3 |
| **Llety wedi'i drefnu gyda ffrindiau neu berthnasau, neu ddychwelyd adref** | 13.5 | 14.3 | 7.0 | 2.9 | - | 5.3 | 8.3 | 4.0 | 10.2 | 13.3 |
| **Unrhyw ffurf ar lety â chymorth nad yw'n hunangynhwysol** | - | 2.4 | - | 2.2 | 3.7 | 22.1 | 9.2 | 5.5 | 2.3 | - |
| **Llety â chymorth sy'n hunangynhwysol** | - | 1.6 | 3.7 | 3.7 | 6.5 | 10.6 | 4.6 | 15.0 | 20.5 | 10.7 |
| **Tai Cymdeithasol – Awdurdod Lleol** | - | - | 55.1 | 38.2 | - | - | 0.9 | 2.2 | - | 18.7 |
| **Tai Cymdeithasol - Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig** | 18.9 | 36.5 | 11.5 | 14.7 | 25.9 | 15.9 | 37.6 | 26.4 | 30.7 | 22.7 |
| **Cynllun perchentyaeth cost isel, tai rhad ar y farchnad agored** | - | - | - | 0.7 | - | - | - | - | 1.1 | - |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymorth arall** | - | - | 0.8 | 2.2 | - | 0.9 | 4.6 | 6.2 | 8.0 | 4.0 |

Tabl 5.8.1 - Data WHO12 a gasglwyd gan yr Awdurdodau Lleol Mae digartrefedd wedi'i leihau trwy ddod o hyd i lety arall. Ystyr y cysylltnod yw na chyflwynwyd unrhyw ffigur i Lywodraeth Cymru

- Dengys Tabl 5.8.1 fod cynlluniau cymell wedi cael eu defnyddio'n llai aml yn ddiweddar, ac eithrio yng Nghasnewydd, i helpu cynghorau Gwent i gyflawni eu dyletswyddau Adran 73. Gallai fod llai o angen i gymell landlordiaid cymaint ym Mlaenau Gwent ac yng Nghaerffili fel y nodwyd uchod o'u cymharu â Chasnewydd, er bod y gostyngiad o ran cymhellion yn Nhorfaen a'r cynnydd o ran 'cael mynediad i lety sector rhent preifat heb gymhellion' yn gwrth-ddweud yr hyn sydd i'w weld yn digwydd yn Nhabl 5.7.1 uchod. Fodd bynnag, gallai fod modd i Dorfaen ddibynnu ar berthynas â Blaenau Gwent i gael mynediad i'w llety dros dro os oes angen, rhywbeth y soniwyd amdano yn ystod yr ymgynghoriad â staff yr awdurdodau lleol. Felly hefyd y berthynas rhwng staff gwasanaethau tai a digartrefedd Torfaen a chraidd dibynadwy o landlordiaid sector preifat. Mae hyn yn golygu bod perthnasoedd Torfaen yn galluogi llai o ddibyniaeth ar y sector preifat i ddod o hyd i dai dros dro ar gyfer aelwydydd y mae hawl ganddynt i ddyletswydd ddigartrefedd Adran 68 a hefyd llai o ddibyniaeth ar gymell landlordiaid sector preifat i roi llety i aelwydydd y mae'r ddyletswydd Adran 73 yn ddyledus iddynt.
- Yn Sir Fynwy mae gostyngiad yn y defnydd o gymhellion yn cyfateb i ostyngiad yn y defnydd o lety sector rhent preifat heb y cynllun cymell. Yn ôl pob golwg, gallai hyn olygu bod cymhellion i landlordiaid yn fwy pwysig yn Sir Fynwy wrth sicrhau llety preifat, o gymharu â'i gadw. Fodd bynnag, o ystyried y cynnydd yn y defnydd o lety â chymorth yn Sir Fynwy yn 2017-18, mae'n ymddangos yn fwy rhesymegol y gallai'r gostyngiad yn y defnydd o'r sector rhent preifat heb y cynllun cymell fod yn bennaf oherwydd y cynnydd yn y llety â chymorth sy'n cael ei ddefnyddio, gan olygu llai o ddibyniaeth ar y sector preifat a thalu cymhellion.
- Ar wahân i Sir Fynwy, cafwyd cynnydd ym mhob un o awdurdodau lleol Gwent yn nifer y rhai sy'n cael mynediad i lety sector preifat heb ddefnyddio cymhellion yn Nhabl 5.8.1, sydd unwaith eto'n cadarnhau bod ymdrechion cynghorau i greu perthnasoedd/cysylltiadau â landlordiaid preifat yn bwysig iawn. Dim ond yn Sir Fynwy y cafwyd gostyngiad yn llety sector preifat wedi'i sicrhau trwy gynlluniau cymhellion landlordiaid a heb gymhellion, ond, fel y nodwyd uchod, gellid priodoli hyn yn bennaf i'r cynnydd yn swm y llety â chymorth sy'n cael ei ddefnyddio yn Sir Fynwy yn 2017-18. Os nad yw hyn yn wir, gallai hefyd awgrymu bod angen i Gyngor Sir Fynwy, yn benodol, chwilio am ffyrdd i ymgysylltu'n fwy â landlordiaid sector preifat yn ei ardal; gellid dadlau y byddai hyn yn fwy anodd ei wneud yn Sir

Fynwy nag yng ngweddill Gwent oherwydd nifer y tai sector rhent preifat fforddiadwy o'r maint priodol sydd ar gael (y soniwyd amdano yn ystod yr ymgynghoriad).

- Hefyd gallai'r defnydd cynyddol o lety â chymorth nad yw'n hunangynhwysol yn 2017-18 yn Sir Fynwy awgrymu cynnydd yn nifer yr aelwydydd ag anghenion uwch yn mynd at wasanaethau digartrefedd. Mae'r aelwydydd enghreifftiol yn gymharol isel ar gyfer 2016-17 a 2017-18 (sef 4 a 25) ond maent yn dangos cynnydd yn y data. Lle ceir newidiadau yn awdurdodau eraill Gwent lle mae lefelau llety hunangynhwysol/nad yw'n hunangynhwysol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, mae'r samplau unwaith eto yn isel e.e. mewn llety hunangynhwysol yn Nhorfaen, mae'r aelwydydd enghreifftiol sy'n cyfeirio'r canrannau ar gyfer 2016-17 a 2017-18 yn 18 ac yn 8.
- Mae cymharu Tabl 5.7.1 a 5.8.1 (ar gyfer 2017-18) yn awgrymu bod 'trefnu llety gyda ffrindiau neu berthnasau neu ddychwelyd adref' yn fwy tebygol pan fo dyletswydd Adran 73 yn ddyledus i aelwydydd ar dras pob un o gynghorau Gwent (yn wahanol i ddyletswydd Adran 66). Gallai hyn awgrymu bod cynghorau Gwent, lle mae nifer y dyletswyddau Adran 73 wedi cynyddu dros y tair blynedd ariannol diwethaf, yn achub ar gyfleoedd am lety addas sydd ar gael neu'n lleihau'r cyfleoedd hyn, gan orfodi mwyfwy o aelwydydd i drefnu llety gyda ffrindiau neu berthnasau neu ddychwelyd adref
- Dengys Tabl 5.8.1 fod Caerffili wedi lleihau ei ddefnydd o dai awdurdod lleol o 2016-17 gan ddibynnu, mae'n debyg, ar y sector preifat. Mae gan y cynghorau eraill ganrannau bach iawn yn y maes hwn o ganlyniad i ymgymryd â throsglwyddiadau stoc sylweddol (er bydd y cynghorau hyn wedi cadw nifer bach o dai er mwyn darparu llety dros dro). Mae'r cynnydd canrannol yn Nhorfaen yn sylweddol (0 i 18.7% yn ystod 2016-18) er y gellid priodoli hyn i amrywiaeth yn y dulliau o gasglu data.
- Dengys y data bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu defnyddio'n gynyddol ym Mlaenau Gwent a Chaerffili ond bod y defnydd ohonynt wedi lleihau'n ddiweddar yn Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'n mynd yn fwy anodd cael cynnig tai cymdeithasol yn Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen, sy'n arwain at ddibyniaeth gynyddol ar fathau eraill o dai, megis y sector rhent preifat. Mae hyn yn awgrymu y dylai'r tri chyngor hyn yn benodol geisio datblygu perthnasoedd agosach a chydfuddiol â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.
- Unwaith eto prin y defnyddir cynlluniau perchentyaeth cost isel yng Ngwent er mwyn lleihau digartrefedd.
- Gallai amrywiadau mewn 'cymorth arall' awgrymu eto y gallai cynghorau fod yn defnyddio atebion anarferol/pwrpasol; nid yw'r canlyniadau statudol yn cynnwys rhagor o wybodaeth. Os yw hyn yn wir, mae'n pwysleisio eto pam y dylai cynghorau Gwent rannu arfer gorau a chydweithio'n fwy.

5.9 Dengys Tabl 5.9.1 ganrannau'r aelwydydd y mae tair prif ddyletswydd ddigartrefedd yn ddyledus iddynt ac yn cymharu'r rheiny yn erbyn canlyniadau llwyddiannus:

| Canrannau | Blaenau Gwent | | | Caerffili | | | Sir Fynwy | | | Casnewydd | | | Torfaen | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
| **Adran 66 (wedi'i atal yn llwyddiannus)** | 58.4 | 51.5 | 50.2 | 78.3 | 73.4 | 75.7 | 73.5 | 59.0 | 60.8 | 62.6 | 49.1 | 53.1 | 63.7 | 50.0 | 56.4 |
| **Adran 73 (wedi'i leihau'n llwyddiannus)** | 63.3 | 57.6 | 47.9 | 62.5 | 46.3 | 28.3 | 40.6 | 50.0 | 49.6 | 48.0 | 29.5 | 28.2 | 32.7 | 27.6 | 19 |
| **Adran 75 (wedi'i gyflawni'n llwyddiannus)** | 100 | 100 | 66.7 | 77.8 | 81.5 | 69.6 | 69.2 | 100 | 87.5 | 69.1 | 68.3 | 68 | 69.6 | 59.1 | 71.8 |

Tabl 5.9.1 Data WHO12 a gasglwyd gan yr awdurdodau lleol Y brif ddyletswydd ddigartrefedd wedi'i chymharu â chanlyniad llwyddiannus

- Gellir priodoli sawl ffactori'r canlyniadau aflwyddiannus a'r rhai a ystyrir yn Nhabl 5.10.1 isod.
- Ymddengys fod nifer yr achosion o atal digartrefedd (Adran 66) ar draws Gwent wedi lleihau dros y tair blynedd ariannol diwethaf yn gyffredinol, sy'n duedd y dylai cynghorau Gwent geisio ei gwrthdroi yn ddiau o dan strategaeth digartrefedd newydd Gwent. Fodd bynnag, dengys Tabl 5.9.1 y dechreuodd cynghorau Gwent gynyddu canlyniadau llwyddiannus ychydig ym mhob awdurdod lleol dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, o'i chymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, sef 2017-18 (ac eithrio Blaenau Gwent – ond gyda chanran fach yn unig). Mae canlyniadau Adran 73 llwyddiannus wedi lleihau bron bob blwyddyn ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent ond, o ystyried Tabl 5.10.1 isod, gellir priodoli hyn yn bennaf i'r anawsterau a gafwyd wrth ddod o hyd i lety priodol a fforddiadwy. Gan y cafwyd y gostyngiadau ar wahân ar draws pob awdurdod lleol yng Ngwent, nid yw'n debygol o fod oherwydd gwahaniaethau/effeithiolrwydd ynglŷn â sut mae awdurdodau lleol unigol yn gweithredu eu gwasanaethau. Mae canlyniadau llwyddiannus dyletswyddau Adran 75 yn amrywio'n sylweddol ym mhob un o'r awdurdodau lleol, er y gellid priodoli hynny i nifer cymharol isel o aelwydydd enghreifftiol a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r canrannau Adran 75. Ar sail y data yn unig, efallai bod rhai awdurdodau lleol yn cael mwy o lwyddiant wrth gyflawni eu dyletswyddau Adran 75 mewn rhai rhannau o Went nag eraill, sy'n pwysleisio pam mae mor bwysig i'r awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd a rhannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd.

- Mae'n werth ailadrodd mai atal llwyddiannus yw sylfaen strategaeth digartrefedd Gwent – wrth reswm, bydd gwella yn y maes hwn yn lleihau'r adnoddau y mae eu hangen ar gynghorau i fuddsoddi mewn dyletswyddau Adran 73 ac Adran 75 (oherwydd y dylai fod llai o aelwydydd erbyn hynny). Bydd hyn yn galluogi canolbwyntio mwy o adnoddau ar sicrhau canlyniadau llwyddiannus i'r aelwydydd hynny sy'n cael eu gadael ar gam y dyletswyddau Adran 73 ac Adran 75.
- Mae canrannau Adran 73, yn benodol, hefyd yn pwysleisio pam mae'n hanfodol i'r cynghorau greu cysylltiadau mwy effeithiol â landlordiaid cymdeithasol a'r sector rhent preifat, fel y gall aelwydydd digartref gael mynediad i lety dros dro a pharhaol.

5.10 Mae Tabl 5.10.1 yn amlinellu'r rhesymau am y canlyniadau aflwyddiannus i bob aelwyd ac aelwyd person sengl (h.y. mae'r tabl yn hepgor yr amcanion llwyddiannus a nodwyd yn 5.9.1. DS: wrth ddefnyddio'r data statudol a ddychwelwyd i LIC, nid oes modd gwneud yr un peth gydag aelwydydd â phlant dibynnol):

| Cymorth atal (Adran 66) a roddwyd - canrannau | Blaenau Gwent | | | | Caerffili | | | | Sir Fynwy | | | | Casnewydd | | | | Torfaen | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pob Aelwyd | | Aelwyd Person Sengl | | Pob Aelwyd | | Aelwyd Person Sengl | | Pob Aelwyd | | Aelwyd Person Sengl | | Pob Aelwyd | | Aelwyd Person Sengl | | Pob Aelwyd | | Aelwyd Person Sengl | |
| | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 |
| **Atal wedi methu** | 25.7 | 12.1 | 24.2 | 14.2 | 4.9 | 6.8 | 4.3 | 7.0 | 16.4 | 15.3 | 14.8 | 12.4 | 51.3 | 25.2 | 35.7 | 30.8 | 20.1 | 15.9 | 19.7 | 12.9 |
| **Cymorth wedi'i wrthod** | 9.9 | 2.1 | 11.3 | 2.3 | 3.9 | 2.1 | 4.9 | 1.1 | 4.9 | 5.1 | 7.4 | 4.4 | 1.6 | - | 2.9 | - | 1.4 | - | 1.3 | - |
| **Diffyg cydweithredu** | 6.9 | 7.6 | 9.7 | 6.3 | 13.3 | 6.7 | 14.2 | 6.0 | 4.9 | 7.5 | 7.4 | 7.1 | 7.3 | 3.9 | 10.0 | 4.9 | 8.3 | 14.1 | 9.2 | 15.6 |
| **Cais wedi'i ddileu** | - | 2.8 | - | 4.0 | 1.0 | 3.0 | 1.2 | 3.2 | - | 3.9 | - | 3.5 | - | 0.9 | - | 0.5 | 2.8 | 2.1 | 3.9 | 1.3 |
| **Cais wedi'i ddileu oherwydd colli contract** | 5.9 | 25.3 | 8.1 | 32.4 | 0.5 | 4.4 | 0.6 | 4.2 | 6.6 | 4.3 | 7.4 | 8.0 | 2.6 | 5.0 | 4.3 | 7.7 | 11.1 | 8.9 | 10.5 | 10.2 |
| **Rhesymau eraill** | - | - | - | - | 3.0 | 1.4 | 2.5 | 1.8 | 6.6 | 0.4 | 7.4 | 0.9 | 0.5 | 1.1 | - | 0.5 | 27.0 | 2.6 | 6.6 | 2.2 |
| **Help i gael cymorth (Adran 73) a roddwyd - canrannau** | Blaenau Gwent | | | | Caerffili | | | | Sir Fynwy | | | | Casnewydd | | | | Torfaen | | | |
| | Pob Aelwyd | | Aelwyd Person Sengl | | Pob Aelwyd | | Aelwyd Person Sengl | | Pob Aelwyd | | Aelwyd Person Sengl | | Pob Aelwyd | | Aelwyd Person Sengl | | Pob Aelwyd | | Aelwyd Person Sengl | |
| | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Methu ei leihau** | 19.7 | 24.3 | 20.9 | 32.2 | 28.0 | 42.7 | 28.7 | 45.7 | 8.3 | 28.1 | 6.9 | 20.3 | 58.8 | 56.4 | 60.2 | 56.2 | 30.5 | 60.0 | 34.9 | 60.0 |
| **Cymorth wedi'i wrthod** | 10.6 | 2.7 | 11.6 | 1.8 | 1.7 | 2.4 | 1.3 | 2.8 | 11.1 | 9.6 | 12.1 | 12.0 | 2.2 | 0.4 | 1.9 | 0.3 | 2.9 | 2.3 | 2.3 | 2.4 |
| **Diffyg cydweithredu** | 9.1 | 10.3 | 11.6 | 12.3 | 8.0 | 4.9 | 8.3 | 6.7 | 9.7 | 5.3 | 12.1 | 7.0 | 6.2 | 7.1 | 6.9 | 7.8 | 9.5 | 3.5 | 9.3 | 3.7 |
| **Cais wedi'i ddileu** | - | 4.6 | - | 4.7 | 2.9 | 6.8 | 2.5 | 7.4 | - | 3.5 | - | 2.5 | 0.5 | 2.9 | - | 3.0 | 2.9 | 3.5 | 1.0 | 3.7 |
| **Cais wedi'i ddileu oherwydd colli contract** | 3.0 | 10.3 | 2.3 | 7.0 | 2.9 | 7.8 | 3.2 | 9.9 | 1.4 | 3.9 | - | 3.8 | 0.8 | 3.3 | 0.8 | 3.8 | 21.9 | 7.6 | 19.0 | 8.5 |
| **Rhesymau eraill** | - | - | - | - | 10.3 | 2.2 | 11.5 | 2.8 | 18.1 | - | 20.7 | - | 1.9 | 1.7 | 1.5 | 2.0 | 4.8 | 4.1 | 3.8 | 5.1 |
| **Help i gael cymorth (Adran 75) a roddwyd - canrannau** | **Blaenau Gwent** | | | | **Caerffili** | | | | **Sir Fynwy** | | | | **Casnewydd** | | | | **Torfaen** | | | |
| | **Pob Aelwyd** | | **Aelwyd Person Sengl** | | **Pob Aelwyd** | | **Aelwyd Person Sengl** | | **Pob Aelwyd** | | **Pob Aelwyd** | | **Aelwyd Person Sengl** | | **Pob Aelwyd** | | **Aelwyd Person Sengl** | | **Pob Aelwyd** | |
| | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** |
| **Cymorth wedi'i wrthod** | - | 16.7 | - | 9.5 | 7.4 | 5.2 | 4.0 | 4.9 | - | 6.3 | - | 10.0 | 23.3 | 10.4 | 25.8 | 10.2 | 18.2 | 17.9 | 19.7 | 6.7 |
| **Diffyg cydweithredu** | - | 16.7 | - | 14.3 | - | 2.2 | - | 3.7 | - | - | - | - | 6.7 | 2.2 | 9.7 | 1.7 | 13.6 | - | 15.2 | - |
| **Cais wedi'i ddileu** | - | - | - | - | 3.7 | 7.5 | - | 9.8 | - | - | - | - | - | 5.4 | - | 8.5 | - | - | - | - |
| **Cais wedi'i ddileu oherwydd colli contract** | - | - | - | - | - | 2.2 | - | 2.4 | - | - | - | - | - | 2.2 | - | 3.4 | - | - | - | - |
| **Rhesymau eraill** | - | - | - | - | 3.0 | 11.9 | 4.0 | 18.3 | - | 6.3 | - | 20.0 | - | 11.9 | - | 19.5 | 4.5 | 10.3 | 4.5 | 13.3 |

- Mae nifer yr achosion o atal 'aflwyddiannus' (Adran 66) wedi lleihau ym mhob awdurdod lleol ac wedi cynyddu ond ychydig yng Nghaerffili. Ceir patrwm tebyg i bob aelwyd. Mae hyn yn awgrymu bod awdurdodau Gwent yn gweld cynnydd bras yn y canlyniadau Adran 66 aflwyddiannus sy'n cael eu hachosi'n fwyfwy gan y ffactorau eraill a nodir yn Nhabl 5.10.1. Mae hefyd yn batrwm tebyg iawn yn achos 'cymorth wedi'i wrthod'; gallai gostyngiad yn nifer y rhai'n nodi 'cymorth wedi'i wrthod' fod yn gysylltiedig â'r perygl o ddigartrefedd yn dod yn fwy difrifol i aelwydydd, gan annog defnyddwyr gwasanaeth i ymgysylltu'n fwy.
- Mae'n debyg bod 'diffyg gweithredu' (Adran 66) yn dod yn fwy o broblem i Flaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen. Yn achos aelwydydd person sengl, ymddengys fod 'diffyg cydweithredu' wedi dod yn llai tebygol ym mhob awdurdod lleol ac eithrio Torfaen (Adran 66). O ran 'cais wedi'i ddileu', gwelir bod gostyngiad yn Nhorfaen ar gyfer pob aelwyd a phob aelwyd person sengl er bod cynnydd (Adran 66) ym mhedwar cyngor arall Gwent.
- Ymddengys fod 'cais wedi'i ddileu oherwydd colli contract' yn dod yn fwy cyffredin i bob aelwyd ac aelwyd person sengl ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Chasnewydd – yn benodol ym Mlaenau Gwent. Gallai ddod ychydig yn fwy o broblem yn Sir Fynwy i aelwydydd person sengl. Efallai bod y cyhoedd yn llai ymwybodol o ba wasanaeth y gall yr awdurdod lleol ei gynnig cyn cysylltu, neu efallai nad yw disgwyliadau'n cael eu bodloni ar ôl cysylltu, gan beri i aelwydydd golli diddordeb. Er nad yw'n debygol bod disgwyliadau a chanfyddiadau cyffredinol y cyhoedd wedi newid llawer yn ystod 2016-18, ym Mlaenau

Gwent gallai fod rhagor o ddewisiadau tai ar gael i aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, gan olygu bod llai o angen ar aelwydydd i barhau i ymgysylltu. Dylai cynghorau weithio i leihau canlyniadau aflwyddiannus oherwydd diffyg ymgysylltu er mwyn sicrhau nad yw aelwydydd yn colli cysylltiad â gwasanaethau digartrefedd yn rhy fuan.

- Gallai amrywiadau mewn 'rhesymau eraill (Adran 66) (ac Adran 73, lle mae 'rhesymau eraill' yn fwy amlwg) awgrymu'r posibilrwydd bod cynghorau'n wynebu problemau anarferol. Nid yw'r data statudol yn cynnwys rhagor o wybodaeth. Gallai gwahaniaethau mewn dulliau cofnodi data ar draws pob awdurdod lleol hefyd effeithio ar 'resymau eraill' (e.e. Mae Torfaen yn gostwng o 27% i 2.6% o 2016 i 2018). Efallai bod angen dadansoddi'r opsiwn ymhellach yn y dyfodol i weld a oes unrhyw feysydd arfer gorau y gallai cynghorau Gwent ei rannu. Fel y nodir yn Adran 5.2.1 uchod, petai cynghorau Gwent yn cydweithio'n fwyfwy â'i gilydd i sicrhau bod ystadegau digartrefedd yn cael eu cofnodi mor gyson â phosib, byddai hyn hefyd yn helpu i daflu goleuni ar y maes hwn a gwella dealltwriaeth ohono.
- Cafwyd cynnydd yn nifer yr achosion o atal 'aflwyddiannus' (Adran 73) yn sylweddol ym mhob awdurdod lleol, ac eithrio Casnewydd lle cafwyd mân ostyngiad. Dyma'r achos i bob aelwyd ac aelwyd person sengl. Mae hyn yn debygol o ymwneud â'r anawsterau wrth ddod o hyd i lety i gyflawni'r ddyletswydd Adran 73 yn llwyddiannus. Ym Mlaenau Gwent a Chaerffili, mae achosion o atal aflwyddiannus yn fwy tebygol gydag aelwydydd sengl o'u cymharu â phob aelwyd.
- Ac eithrio Caerffili, ceir llai o ganrannau 'cymorth wedi'i wrthod' (Adran 73) i bob aelwyd (er y cafwyd cynnydd bach iawn yng nghanran yr aelwydydd person sengl).
- I bob aelwyd, ymddengys fod 'diffyg cydweithredu' (Adran 73) yn dod yn fwyfwy o broblem i Flaenau Gwent a Chasnewydd ac yn llai o broblem i'r tri awdurdod lleol eraill.
- Cafwyd cynnydd yn nifer y rhai yn nodi 'cais wedi'i ddileu' (adran 73) i bob aelwyd yn holl awdurdodau lleol Gwent, gan awgrymu y gallai defnyddwyr gwasanaeth ddod o hyd i'w hateb eu hunain ac yn peidio â chysylltu â'r gwasanaethau mwyach. Ac eithrio Torfaen, ceir yr un patrwm ar gyfer 'cais wedi'i ddileu oherwydd colli contract' ar draws y pedwar cyngor arall (Adran 73) a allai awgrymu eto bod aelwydydd yn dod o hyd i'w hatebion eu hunain ac yn peidio'n awtomatig â chysylltu â'r gwasanaethau heb roi gwybod i'r cyngor. Gellid priodoli gostyngiad Torfaen (o ran 'cais wedi'i ddileu oherwydd colli contract' ar gyfer Adran 73) i'r posibilrwydd y bu ganddo ganran anarferol o uchel yn 2016-17, neu wahaniaeth yn y dull o gofnodi'r data dros y ddwy flynedd nesaf. Gallai fod oherwydd mwy o lwyddiant o ran cadw mewn cysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth. Serch hynny, mae'n bosib y gallai awdurdodau lleol wneud mwy i gadw mewn cysylltiad gyda'r fath achosion er mwyn eu cau fel achosion llwyddiannus neu hyd yn oed atal uwchgyfeirio problem ddigartrefedd lle mae aelwyd yn peidio â chysylltu mwyach er bod angen cymorth arni o hyd.

- Ym Mlaenau Gwent mae 'cymorth wedi'i wrthod' a 'diffyg cydweithredu' wedi cynyddu'n sylweddol, gan gyfrannu at ganlyniadau Adran 75 aflwyddiannus yn 2017-18. Er bod nifer y sampl yn isel (dim ond chwe aelwyd), gallai hyn fod yn adlewyrchu aelwydydd yn peidio â chysylltu â gwasanaethau digartrefedd ym Mlaenau Gwent ar ôl datrys eu problemau digartrefedd eu hunain. Neu, ac yn llai tebygol, efallai nad oes rhai wedi datrys eu problem sydd wedi arwain at broblemau eraill yn gwaethygu e.e. cysgu ar y stryd. Yng Nghaerffili mae 'cymorth wedi'i wrthod', 'diffyg cydweithredu', 'cais wedi'i ddileu', a 'chais wedi'i ddileu oherwydd diffyg cysylltu' oll yn cyfrannu at ganlyniadau aflwyddiannus a cheir patrwm tebyg yng Nghasnewydd (Adran 75). Yng Nghasnewydd a Thorfaen, mae 'cymorth wedi'i wrthod' wedi dod yn llai o broblem ac mae hynny hyd yn oed yn fwy perthnasol yn Sir Fynwy. Gallai'r gostyngiad sylweddol o ran 'diffyg cydweithredu' yn Nhorfaen yn 2016-17 fod oherwydd samplau isel neu wahaniaeth o ran sut cafodd y data ei gofnodi dros y ddwy flynedd.
- Unwaith eto, gallai fod angen dadansoddi'r opsiwn 'rhesymau eraill' (Adran 75) ymhellach yn y dyfodol i weld a oes unrhyw feysydd arfer gorau y gallai cynghorau Gwent eu rhannu.

5.11 Mae Tabl 5.11.1 yn dadansoddi'r rhesymau dros gyflawni'r ddyletswydd Adran 75 ar gyfer pob awdurdod lleol:

| Y Rheswm dros Gyflawni (Adran 75) – Niferoedd Aelwydydd (h.y. Nid Canrannau) | Blaenau Gwent | | Caerffili | | Sir Fynwy | | Casnewydd | | Torfaen | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 |
| Wedi peidio â bod yn gymwys | - | - | - | 1 | 36 | - | 180 | 1 | 3 | 1 |
| Cais wedi'i ddileu | - | - | 3 | 10 | - | - | - | 20 | - | - |
| Camgymryd ffaith | - | - | - | - | - | - | - | 1 | - | - |
| Digartref yn fwriadol o lety a ddarparwyd yn unol ag Adran 75 | - | - | - | 11 | - | 1 | 9 | 19 | 9 | 1 |
| Wedi derbyn cynnig llety | 12 | 16 | 57 | 83 | 33 | 24 | 102 | 167 | 36 | 28 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **trwy'r cynllun dyrannu (rhan vi Deddf Tai 1996)** | | | | | | | | | | |
| **Wedi derbyn cynnig sector preifat** | 9 | 8 | 9 | 11 | - | 4 | 21 | 23 | 3 | - |
| **Wedi peidio'n wirfoddol i feddiannu llety a ddarparwyd yn unol ag Adran 75** | - | - | 3 | 5 | - | 1 | 24 | 12 | 9 | 2 |
| **Wedi gwrthod cynnig llety trwy'r cynllun dyrannu (rhan vi Deddf Tai 1996)** | - | 6 | 3 | 7 | - | - | 18 | 28 | 3 | 6 |
| **Wedi gwrthod cynnig llety addas yn y sector rhent preifat** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 |
| **Wedi gwrthod cynnig llety addas dros dro yn unol ag Adran 75** | - | - | - | 3 | - | 2 | - | 1 | - | - |
| **Wedi gwrthod cydweithredu** | - | 6 | - | 3 | - | - | 3 | 6 | - | - |

Tabl 5.11.1 Data WHO12 Ystyr y cysylltnod yw na chyflwynwyd unrhyw ffigur i Lywodraeth Cymru

- Mae'r data eto'n pwysleisio pa mor bwysig yw'r sector tai cymdeithasol a'r sector rhent preifat wrth alluogi cynghorau Gwent i gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd Adran 75 llawn – hyd yn oed yn fwy perthnasol yn y sector tai cymdeithasol.

5.12 Dengys Tabl 5.12.1 yr aelwydydd y mae dyletswydd Adran 75 yn ddyledus iddynt, ar sail categorïau anghenion blaenoriaeth:

| **Categorïau o Fathau o Aelwydydd (Adran 75) – Niferoedd Aelwydydd (h.y. Nid Canrannau)** | **Blaenau Gwent** | | **Caerffili** | | **Sir Fynwy** | | **Casnewydd** | | **Torfaen** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** |
| **Aelwydydd gyda phlant dibynnol** | 15 | 15 | 21 | 37 | 24 | 16 | 84 | 125 | 27 | 25 |
| **Aelwydydd lle mae aelod yn feichiog ac nad oes plant dibynnol eraill** | - | - | - | 6 | - | 2 | 6 | 15 | 6 | - |
| **Aelwydydd lle mae aelod yn agored i niwed oherwydd: Henaint** | - | - | - | 3 | - | - | 3 | 5 | - | - |
| **Aelwydydd lle mae aelod yn agored i niwed oherwydd:** | - | 4 | 9 | 13 | - | 1 | 21 | 23 | - | 2 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anabledd corfforol** | | | | | | | | | | |
| **Aelwydydd lle mae aelod yn agored i niwed oherwydd: Salwch meddwl/anabledd dysgu/anawsterau dysgu** | - | 6 | 27 | 33 | 9 | 4 | 21 | 22 | 15 | 8 |
| **Aelwydydd lle mae aelod yn agored i niwed oherwydd: Arall** | - | - | - | 5 | - | - | - | 8 | - | - |
| **Rhywun sy'n gadael gofal neu sydd mewn perygl penodol o gamfanteisio rhywiol neu ariannol, sy'n 18 oed neu'n hŷn ond dan 21 oed** | - | 1 | - | 8 | - | - | 9 | 7 | - | - |
| **Rhywun 16-17 oed** | 6 | 3 | - | 3 | - | - | 12 | 15 | - | - |
| **Rhywun sy'n dianc rhag trais domestig neu drais sydd wedi'i fygwth** | - | 3 | 15 | 18 | 3 | 9 | 18 | 45 | 12 | 3 |
| **Rhywun sy'n gadael y lluoedd arfog** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Cyn-garcharor sy'n agored i niwed o ganlyniad i gael ei ddal yn y ddalfa** | - | 4 | - | 8 | - | - | - | 13 | - | 1 |
| **Aelwydydd sy'n ddigartref mewn argyfwng** | - | - | - | - | - | - | 3 | - | - | - |

Tabl 5.12.1 Data WHO12 Ystyr y cysylltnod yw na chyflwynwyd unrhyw ffigur i Lywodraeth Cymru

Mae'r data yn awgrymu mai aelwydydd ar draws Gwent sydd â phlant dibynnol sydd fwyaf tebygol o fod ag angen y ddyletswydd Adran 75. Mae hyn hefyd yn berthnasol i rai categorïau agored i niwed ac unigolion sy'n dianc rhag trais domestig.

5.13 Mae nifer yr adolygiadau o achosion digartrefedd ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent yn awgrymu na ofynnir am adolygiadau'n aml ac mai prin y caiff penderfyniadau eu gwrthdroi. Mae hyn yn awgrymu gwasanaeth cyson, er ei bod yn werth chweil o hyd i'r awdurdodau lleol adolygu sampl o achosion (o dro i dro) er mwyn archwilio penderfyniadau a gwirio bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael digon o gyfleoedd cynhwysol i wneud cais am adolygiad. Er enghraifft, mae gan system TG Casnewydd broses archwilio fewnol ar gyfer achosion a ddefnyddir i fonitro gwaith achos o ddydd i ddydd.

| **Timau Atebion Tai – Adolygiadau Achosion** | **Blaenau Gwent** | | **Caerffili** | | **Sir Fynwy** | | **Casnewydd** | | **Torfaen** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** |
| **Addasrwydd y cynnig** | 0 | 0 | 1 | 6 | 4 | 1 | 7 | 8 | 1 | 3 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nid yw'n angen blaenoriaethol** | 0 | 0 | - | - | - | - | 3 | 3 | - | - |
| **Bwriadol** | 0 | 0 | - | 2 | - | 3 | 3 | 2 | - | - |
| **Diwedd y ddyletswydd** | 0 | 0 | - | 1 | - | 4 | | 5 | - | 1 |
| **Camau rhesymol** | 0 | 0 | - | - | - | - | | | 1 | - |
| **Arall** | 0 | 0 | | | 2 | - | | | 15 | 12 |
| **Penderfyniadau wedi'u gwrthdroi** | 0 | 0 | - | 1 | 1 | 1 | | | 1 | 3 |

Tabl 5.13.1 Penderfyniadau adolygiadau o achosion digartrefedd. Defnyddir cysylltnodau yn lle data na roddwyd neu nad yw ar gael pan luniwyd yr adolygiadau.

5.14 Mae Tabl 5.14.1 yn defnyddio adroddiadau data statudol LlC i gymharu aelwydydd â nodweddion gwahanol:

| **Niferoedd Aelwydydd (h.y. Nid Canrannau) y mae Dyletswyddau A66, A73 ac A75 yn Ddyledus iddynt** | **Blaenau Gwent** | | | | | | **Caerffili** | | | | | | **Sir Fynwy** | | | | | | **Casnewydd** | | | | | | **Torfaen** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **A66** | | **A73** | | **A75** | | **A66** | | **A73** | | **A75** | | **A66** | | **A73** | | **A75** | | **A66** | | **A73** | | **A75** | | **A66** | | **A73** | | **A75** | |
| | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** | **2016-17** | **2017-18** |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm canlyniadau yn ôl dyletswydd** | 303 | 289 | 198 | 263 | 21 | 36 | 609 | 571 | 525 | 410 | 81 | 134 | 183 | 255 | 216 | 228 | 36 | 32 | 537 | 461 | 1107 | 968 | 180 | 278 | 432 | 427 | 315 | 395 | 66 | 39 |
| **16-17 oed** | - | 3 | 9 | 5 | 6 | 3 | 24 | 30 | 6 | 6 | - | 4 | - | 1 | 6 | 4 | 6 | - | 15 | 6 | 45 | 43 | 12 | 16 | 15 | 14 | 3 | - | - | 1 |
| **18-24 oed** | 111 | 85 | 87 | 94 | 9 | 7 | 108 | 106 | 102 | 113 | 18 | 49 | 24 | 44 | 54 | 75 | 3 | 12 | 144 | 101 | 276 | 236 | 36 | 63 | 138 | 132 | 93 | 99 | 21 | 6 |
| **25 oed a hŷn** | 189 | 201 | 102 | 164 | 9 | 26 | 477 | 435 | 414 | 291 | 66 | 81 | 102 | 210 | 156 | 149 | 27 | 20 | 378 | 354 | 786 | 689 | 132 | 199 | 279 | 281 | 219 | 296 | 45 | 32 |
| **Aelwyd Person Sengl** | 186 | 176 | 129 | 171 | 9 | 21 | 486 | 285 | 471 | 282 | 75 | 82 | 81 | 113 | 174 | 158 | 12 | 10 | 210 | 182 | 777 | 664 | 93 | 118 | 228 | 225 | 258 | 295 | 33 | 15 |
| **Aelwyd fenywaidd** | 87 | 160 | 75 | 106 | 15 | 20 | 360 | 398 | 207 | 172 | 42 | 68 | 90 | 180 | 84 | 108 | 21 | 28 | 318 | 301 | 528 | 434 | 111 | 183 | 273 | 281 | 114 | 173 | 42 | 27 |
| **Aelwyd wrywaidd** | 216 | 129 | 123 | 157 | 9 | 16 | 249 | 173 | 315 | 238 | 42 | 66 | 36 | 75 | 135 | 120 | 18 | 4 | 219 | 160 | 579 | 513 | 69 | 95 | 156 | 146 | 201 | 222 | 24 | 12 |
| **Gwyn** | 303 | 289 | 195 | 261 | 21 | 36 | 372 | 320 | 258 | 253 | 42 | 77 | 111 | 247 | 189 | 227 | 33 | 31 | 465 | 410 | 945 | 826 | 150 | 230 | 408 | 414 | 300 | 385 | 66 | 38 |
| **Grwpiau Cymysg/ Aml-ethnig** | - | - | - | - | - | - | - | 2 | - | 1 | - | 1 | - | - | - | - | - | - | 9 | 9 | 30 | 20 | 6 | 4 | - | - | - | 3 | - | - |
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** | - | - | - | 1 | - | - | - | - | - | 1 | - | - | - | 2 | - | - | - | - | 18 | 12 | 39 | 35 | 6 | 11 | - | 3 | - | - | - | - |
| **Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig** | - | - | 3 | 1 | - | - | - | 1 | - | 3 | - | - | - | 1 | - | 1 | - | 1 | 24 | 22 | 60 | 50 | 3 | 17 | - | 3 | - | 2 | - | - |
| **Grŵp Ethnig Arall** | - | - | - | - | - | - | 6 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 18 | 8 | 33 | 35 | 15 | 14 | 6 | 1 | - | 1 | - | 1 |
| **Tarddiad Ethnig Anhysbys** | - | - | - | - | - | - | 231 | 248 | 267 | 152 | 39 | 56 | 72 | 5 | 27 | - | 3 | - | 3 | - | - | 2 | - | 2 | 12 | 6 | 12 | 4 | - | - |

Tabl 5.14.1 Data WHO12 Ystyr y cysylltnod yw na chyflwynwyd unrhyw ffigur i Lywodraeth Cymru

- Dengys croesgyfeirio'r ystadegau hyn â Thabl 3.4.1 fod cymharol fwy o bobl 16-24 oed yn defnyddio gwasanaethau digartrefedd o'u cymharu â phoblogaeth gyffredinol 16-24 oed ym mhob un o awdurdodau lleol Gwent.
- Mae mwy o aelwydydd person sengl a gwrywod hefyd wrth gymharu'r data yn Nhabl 3.4.1.
- Fel y gwelir yn Nhabl 3.4.1, mae'r poblogaethau gwrywod a menywod yn agos at fod yn 50/50. Fodd bynnag, mae nifer yr aelwydydd gwrywod yn uwch na nifer yr aelwydydd menywod o ran dyletswyddau Adran 66 ac Adran 73 yn

Nhabl 5.14.1, ond nid pan gyrhaeddir dyletswydd Adran 75, sy'n awgrymu bod gwrywod yn llai tebygol o dderbyn y ddyletswydd ddigartrefedd Adran 75 lawn o'u cymharu â menywod.

- Mae amrywiaeth ethnig ar ei amlycaf yng Nghasnewydd sy'n adlewyrchu'r canrannau poblogaeth yn Nhabl 3.4.1.

5.15 Mae Tabl 5.15.1 yn defnyddio adroddiadau data statudol LIC i gymharu aelwydydd â nodweddion gwahanol ac yn ystyried canran canlyniadau adrannau 66, 73 a 75 llwyddiannus ar gyfer pob grŵp. Mae colofn â chyfartaleddau tair blynedd wedi'i chynnwys ynghyd â rhes gyfartalog o bob canran grŵp ar waelod 5.15.1 er mwyn cynorthwyo cymharu ac ystyried tueddiadau:

| Cyfanswm canran canlyniadau atal, lleihau a chyflawni llwyddiannus (A66, A73 ac A75) | Blaenau Gwent | | | | Caerffili | | | | Sir Fynwy | | | | Casnewydd | | | | Torfaen | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfartaledd 3 Blynedd | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfartaledd 3 Blynedd | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfartaledd 3 Blynedd | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfartaledd 3 Blynedd | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfartaledd 3 Blynedd |
| Pob Aelwyd | 61.3 | 55.7 | 50.2 | 55.7 | 70.6 | 62.2 | 59.5 | 64.1 | 64.8 | 57.9 | 57.5 | 60.1 | 56.9 | 39.1 | 41.4 | 45.8 | 56.3 | 42.1 | 40.0 | 46.1 |
| 16-17 oed | 66.6 | 40.0 | 63.3 | 56.6 | 83.3 | 80.0 | 77.5 | 80.3 | 0.0 | 75.0 | 100.0 | 58.3 | 52.4 | 58.3 | 43.1 | 51.3 | 77.8 | 66.7 | 93.3 | 79.3 |
| 18-24 oed | 51.4 | 43.5 | 46.2 | 47.0 | 66.7 | 52.6 | 52.6 | 57.3 | 67.3 | 55.6 | 60.3 | 61.1 | 56.8 | 40.1 | 38.0 | 45.0 | 58.0 | 48.8 | 46.0 | 50.9 |
| 25 oed a hŷn | 73.0 | 66.4 | 51.1 | 63.5 | 73.0 | 63.9 | 60.8 | 65.9 | 62.1 | 57.9 | 56.2 | 58.7 | 56.3 | 38.0 | 42.4 | 45.6 | 53.3 | 37.0 | 36.3 | 42.2 |
| Aelwyd Person Sengl | 48.7 | 50.9 | 43.5 | 47.7 | 67.2 | 60.5 | 52.1 | 59.9 | 57.1 | 50.6 | 58.7 | 55.5 | 52.9 | 34.2 | 34.2 | 40.4 | 60.0 | 37.0 | 35.7 | 44.2 |
| Gwryw | 57.3 | 52.6 | 43.0 | 51.0 | 69.1 | 56.4 | 49.3 | 58.3 | 58.2 | 54.0 | 56.3 | 56.2 | 55.8 | 35.3 | 36.8 | 42.6 | 50.0 | 36.2 | 34.2 | 40.1 |
| Benyw | 66.7 | 62.7 | 57.7 | 62.4 | 84.9 | 68.5 | 67.1 | 73.5 | 71.4 | 63.1 | 58.2 | 64.2 | 57.4 | 42.9 | 45.4 | 48.6 | 61.0 | 47.6 | 44.5 | 51.0 |
| Gwyn | 61.3 | 55.5 | 50.0 | 55.6 | 63.9 | 65.6 | 61.1 | 62.1 | 60.6 | 61.0 | 57.0 | 59.5 | 57.1 | 39.6 | 41.7 | 46.1 | 55.6 | 42.8 | 39.9 | 46.1 |
| Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig | - | - | - | - | - | - | 75.0 | 75.0 | - | - | - | - | 60.0 | 41.9 | 36.4 | 46.1 | 66.7 | 33.3 | 0.0 | 33.3 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | - | - | 100.0 | 100.0 | - | 100.0 | 0.0 | 50.0 | 66.7 | 100.0 | 100.0 | 88.9 | 56.3 | 38.5 | 34.5 | 43.1 | 100.0 | 0.0 | 66.7 | 55.6 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/ Du Prydeinig | - | 100.0 | 100.0 | 100.0 | - | 100.0 | 25.0 | 62.5 | - | 33.3 | 66.7 | 50.0 | 61.9 | 36.4 | 46.1 | 48.1 | 100.0 | 0.0 | 20.0 | 40.0 |
| Grŵp Ethnig Arall | - | - | - | - | - | 50.0 | - | 50.0 | - | - | - | - | 42.2 | 37.5 | 36.8 | 38.8 | 66.7 | 42.9 | 66.7 | 58.8 |
| Tarddiad Ethnig Anhysbys | - | - | - | - | 79.7 | 65.9 | 57.5 | 67.7 | 57.0 | 44.4 | 80.0 | 50.7 | - | 20.0 | 50.0 | 35.0 | 51.6 | 31.8 | 50.0 | 44.5 |
| Cyfartaledd Pob Grŵp (DS: Mae'r cyfartaledd ar gyfer pob colofn, nid rhes) | 60.8 | 58.6 | 56.1 | 54.9* | 73.2 | 68.8 | 53.1 | 63.7 | 56.5 | 59.3 | 67.1 | 60.3 | 55.4 | 40.1 | 40.5 | 44.3 | 65.9 | 35.9 | 44.1 | 48.6 |

Tabl 5.15.1 - Data WHO12 Mae cysylltnodau'n golygu na chyflwynwyd dim i Lywodraeth Cymru. *Mae cyfartaledd Blaenau Gwent yn dileu'r ffigurau 100% o'r hafaliad, gan fod eu niferoedd aelwydydd isel yn sgiwio cyfartaledd cyffredinol Blaenau Gwent. Pe Baech yn cynnwys y dau ffigur 100% a daeth y cyfartaledd yn 64%, sy'n golygu mai dim ond grwpiau Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig neu Ddu/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig wedyn sy'n mynd i tu hwnt i'r cyfartaledd o 64%.

- Ym Mlaenau Gwent mae pobl ifanc 18-24 oed, aelwydydd person sengl ac aelwydydd gwrywod yn debygol o fod ag angen cymorth ychwanegol gan yr awdurdod lleol yn y dyfodol. Roedd un aelwyd Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig ac un aelwyd Ddu/Affricanaidd/aribïaidd/Ddu Prydeinig yn derbyn cymorth yn 2017-18, a thair aelwyd Ddu/Affricanaidd/Caribïaidd/Ddu Prydeinig yn 2016-17. Gan fod pob un 100% yn llwyddiannus, maent yn effeithio ar y ganran gyfartalog gyffredinol ar gyfer pob grŵp (64.0%) dros y tair blynedd ariannol. Pan gaiff yr achosion hyn ei hepgor dros dro o'r hafaliad, y cyfartaledd tair blynedd yw 54.9%, sy'n debygol o fod yn llawer mwy cywir. Yn fras, mae Blaenau Gwent yn dangos tuedd gyffredinol ar i lawr mewn canlyniadau llwyddiannus o 2015-18.
- Ceir patrwm tebyg iawn yng Nghaerffili – pobl ifanc 18-24 oed, aelwydydd person sengl ac aelwydydd gwrywod yn debygol o fod ag angen ymyrraeth ychwanegol yn y dyfodol. Fel ym Mlaenau Gwent, mae'r duedd gyffredinol o ran canlyniadau llwyddiannus ar i lawr o 2015-18, er ei bod yn werth nodi bod gan Gaerffili o hyd y nifer uchaf o ganlyniadau cadarnhaol cyfartalog cyffredinol o dros tair blynedd ariannol o'i gymharu â phedwar cyngor arall Gwent. Mae'n debyg y gellir priodoli'r amrywio o ran canlyniadau llwyddiannus i aelwydydd ethnig gwahanol i nifer isel y sampl h.y. roedd naw canlyniad yn gyffredinol ar gyfer 2017/18 i aelwydydd ethnig gwahanol heblaw am rai gwyn. Ond gallai fod yn werth adolygu'r achosion hynny ymhellach i weld a oes modd dysgu rhywbeth er mwyn helpu i wella gwasanaethau yn y dyfodol a'i ymgorffori yn y cynlluniau gweithredu sy'n deillio o strategaeth digartrefedd newydd Gwent.
- Yn Sir Fynwy, er yr ymddengys fod y llwyddiannau sy'n ymwneud â phobl ifanc 16-17 oed wedi gwella'n gyflym, dylid nodi mai nifer yr aelwydydd yn y sampl oedd chwech yn 2015-16 a phump yn 2017-18. Serch hyn mae'n debyg bod gwelliant i'w weld yn y maes hwn, yn benodol yn Sir Fynwy. Mae aelwydydd person sengl, aelwydydd gwrywod ac, i raddau llai, bobl ifanc dros 25 oed yn feysydd y dylid Sir Fynwy ganolbwyntio arnynt dros y blynyddoedd nesaf. Unwaith eto mae'n debyg y gellir priodoli'r amrywio o ran canlyniadau llwyddiannus i aelwydydd ethnig gwahanol i nifer isel y sampl a gallai fod yn werth adolygu'r achosion ymhellach i weld a ellir dysgu unrhyw beth i helpu i wella gwasanaethau yn y dyfodol i'w hymgorffori yn y cynllun gweithredu. Hefyd mae'n debygol bod nifer y canlyniadau llwyddiannus anhysbys i'r rhai o darddiad ethnig wedi codi yn 2017-18 oherwydd bod cyfanswm canlyniadau'r aelwydydd yn sampl isel o bum canlyniad. Mae'n nodedig bod Sir Fynwy hefyd yn dangos y cynnydd cyfartalog ail fwyaf o ran canlyniadau llwyddiannus ar gyfer 2017-18 (7.8%) o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, o blith y pum cyngor.
- Cafwyd cynnydd sylweddol yng Nghasnewydd yn 2016-17 o ran canlyniadau llwyddiannus i bob grŵp heblaw am bobl ifanc 16-17 oed. Nid yw'n glir pam y gallai hyn fod wedi digwydd ond roedd aelwydydd y sampl yn fawr. Gallai fod oherwydd y cynnydd mewn canlyniadau cyffredinol y flwyddyn ariannol honno fel y nodwyd yn Nhabl 5.2.1 uchod, sy'n rhoi mwy o

bwysau ar adnoddau yng Nghasnewydd o'i gymharu â chynghorau eraill Gwent. Hefyd, oherwydd niferoedd uwch y canlyniadau adrannau 66, 73 a 75 y mae angen i Gasnewydd ymdrin â nhw, mae angen gwario ar fwy o adnoddau o'i gymharu â phedwar cyngor arall Gwent. Mae gostyngiadau yn 2017-18 yn awgrymu y dylai Casnewydd ganolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc 16-24 oed ac y gallai geisio gwella canlyniadau ar gyfer rhai grwpiau ethnig hefyd, sy'n ymddangos ychydig yn is nag eraill. Ym Mlaenau Gwent mae pobl ifanc 18-24 oed, aelwydydd person sengl ac aelwydydd gwrywod yn debygol o fod ag angen cymorth ychwanegol gan yr awdurdod lleol yn y dyfodol. Awgrymir hefyd y gallai pobl Asiaidd/Asiaidd Prydeinig a'r rhai sydd wedi'u categoreiddio fel 'ethnigrwydd arall' yn Nhabl 5.15.1 elwa o ragor o gymorth. Mae Casnewydd hefyd yn dangos mân gynnydd yng nghyfartaledd cyffredinol y canlyniadau llwyddiannus yn 2017-18, o'i gymharu â 2016-17, sy'n nodi gwelliant.

- Mae Torfaen yn dangos y cynnydd cyfartalog mwyaf o ran canlyniadau llwyddiannus ar gyfer 2017-18 (8.2%) o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, o blith y pum cyngor. Yn gyffredinol, wrth ystyried y tair blynedd ariannol ddiwethaf, mae aelwydydd 25 oed a hŷn, aelwydydd person sengl ac aelwydydd gwrywod yn debygol o fod ag angen cymorth ychwanegol gan yr awdurdod lleol yn y dyfodol. Ceir cwymp mawr ym mhob canran ar gyfer 2016-17, o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, a allai wyro'r data ar gyfer Torfaen. Fodd bynnag, os diystyrir y data ar gyfer 2015-16, deuir i'r un casgliad (ac eithrio'r ganran 'pob aelwyd' sy'n symud yn uwch y ganran gyfartalog ar gyfer 'pob grŵp', yn ôl y disgwyl. Unwaith eto mae'n debyg y gellir priodoli'r amrywio o ran canlyniadau llwyddiannus ar gyfer aelwydydd 'ethnigrwydd arall' i nifer isel y sampl. Byddai'n werth adolygu'r achosion hyn ymhellach i weld a oes modd dysgu rhywbeth er mwyn helpu i wella gwasanaethau yn y dyfodol a'i ymgorffori yn y cynlluniau gweithredu.

5.16 Mae Tabl 5.16.1 yn ystyried oedran a'r defnydd o lety gwely a brecwast. Yn ddelfrydol ni ddylid defnyddio llety gwely a brecwast fel cartref dros dro i bobl ifanc dan 18 oed, ond gallai hyn fod yn anochel oherwydd y galw am wasanaethau. Bu cynnydd yn Nhorfaen o wasanaethau cymdeithasol yn defnyddio llety gwely a brecwast yn 2016-17 ond gostyngodd hyn yn sylweddol y flwyddyn ganlynol ac felly mae'n dangos tuedd gadarnhaol. Ar y cyfan ymddengys fod awdurdodau Gwent yn ceisio lleihau'r defnydd o lety gwely a brecwast cymaint â phosib. Mae Casnewydd yn debygol o ddefnyddio llety gwely a brecwast yn fwy aml i gyflawni ei ddyletswyddau digartrefedd gan fod mwy o bwysau ar ei adnoddau o'i gymharu â phedwar cyngor arall Gwent. Byddai'n ddelfrydol, petai modd, i gynghorau Gwent a'u partneriaid gydweithio i geisio lleihau pob achos yn gyfan gwbl yn y dyfodol (er y cydnabyddir y byddai'n anodd iawn cyflawni hyn yn gyson yn ymarferol ar draws Gwent oherwydd amgylchiadau achosion ac argaeledd adnoddau ar adegau penodol sydd y tu hwnt i reolaeth y cynghorau):

| Wedi'u Lleoli mewn Llety Gwely a Brecwast – Nifer yr Aelwydydd (h.y. Nid Canrannau) | Blaenau Gwent | | Caerffili | | Sir Fynwy | | Casnewydd | | Torfaen | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 |
| 16-17 oed (person sengl) a roddir mewn llety yn unol â deddfwriaeth ddigartrefedd gyfredol | - | - | - | - | - | - | 7 | 8 | - | - |
| 16-17 oed (person sengl) a roddir mewn llety gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | - | - | 1 | - | 2 | - | 4 | 9 | 23 | 1 |
| 18-21 oed (pobl sy'n gadael gofal yn unig) a roddir mewn llety yn unol â deddfwriaeth ddigartrefedd gyfredol | - | - | 3 | - | - | - | 2 | - | 1 | 1 |

Tabl 5.16.1 Data WHO12 Mae cysylltnodau'n golygu na chyflwynwyd dim i Lywodraeth Cymru.

5.17 Mae Tabl 5.17.1 yn ystyried pobl sy'n cysgu ar y stryd – gan ddefnyddio holiaduron Cyfrif Cenedlaethol o Gysgu Allan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar gyfer 2017. DS: Ni chyflwynodd Blaenau Gwent unrhyw holiaduron wedi'u cwblhau; cyflwynodd Caerffili 18, Sir Fynwy 6, Casnewydd 22 a Thorfaen 1. Nid yw dyletswydd ddigartrefedd yn ddyledus o anghenraid o dan ddeddfwriaeth ddigartrefedd Cymru i bobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Fel y nodir yn Nhabl 5.2.1 uchod, ceir aelwydydd sy'n 'gymwys ond nid mewn angen blaenoriaethol' ar draws Gwent sy'n debygol o fod ag angen llety ar ôl i'r ddyletswydd Adran 73 ddod i ben ond ni allant symud ymlaen i Adran 75 gan nad ystyrir bod ganddynt flaenoriaeth o dan Adran 70 Deddf Tai (Cymru).

| Ystadegau Cysgu ar y Stryd 2018 - Canrannau | Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfnod cysgu allan – canran: Diwrnodau | - | 33.0 | - | 20.0 | 100.0 |
| Cyfnod cysgu allan – canran: Wythnosau | - | 28.0 | - | 30.0 | - |
| Cyfnod cysgu allan – canran: Misoedd | - | 28.0 | 100.0 | 30.0 | - |
| Cyfnod cysgu allan – canran: Blynyddoedd | - | 11.1 | - | 20.0 | - |
| Gwryw | - | 100.0 | 100.0 | 86.4 | 100.0 |
| Menyw | - | - | - | 13.6 | - |
| Gwyn | - | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| 19-24 oed | - | 11.8 | 50.0 | - | - |
| 25-34 oed | - | 41.2 | - | 30.0 | 100.0 |
| 35-44 oed | - | 23.5 | - | 40.0 | - |
| 45 oed neu'n hŷn | - | 23.5 | 50.0 | 30.0 | - |
| Wedi cysgu allan ar ei ben/ei phen ei hun neithiwr | - | 94.4 | 83.3 | 77.3 | 100.0 |
| Wedi cysgu allan neithiwr gyda phartner/aelod o'r teulu/arall | - | 5.6 | 16.7 | 22.7 | - |
| Y rheswm dros ddigartrefedd: Perthnasoedd teulu/partner wedi chwalu/profedigaeth/dim lle i fynd/dim cyfeiriad anfon ymlaen | - | 55.5 | 33.3 | 89.5 | - |
| Y rheswm dros ddigartrefedd: Colli cartref neu symud i leoliad arall | - | 27.8 | 50.0 | 5.3 | 100.0 |
| Y rheswm dros ddigartrefedd: Iechyd meddwl | - | 5.6 | - | - | - |
| Y rheswm dros ddigartrefedd: Camddefnyddio sylweddau | - | 5.6 | - | - | - |
| Y rheswm dros ddigartrefedd: Rhyddhau o'r ddalfa | - | 5.6 | - | - | - |
| Y rheswm dros ddigartrefedd: Gadael gofal | - | - | 16.7 | - | - |
| Wedi cysgu allan o leiaf unwaith o'r blaen | - | 66.7 | 33.3 | 95.5 | 100.0 |
| Wedi cytuno i dderbyn cymorth | - | 100.0 | 100.0 | 85.0 | 100.0 |
| Wedi bod yn y ddalfa o'r blaen | - | 22.2 | 16.7 | 52.6 | - |
| Wedi bod yn y lluoedd arfog o'r blaen | - | - | 16.7 | 5.3 | - |
| Diagnosis iechyd meddwl wedi'i gadarnhau | - | 61.1 | 50.0 | 25.0 | - |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Meddyginiaeth/cymorth ar gyfer iechyd meddwl ar hyn o bryd** | - | 44.4 | 33.3 | 20.0 | - |
| **Problem iechyd corfforol bresennol neu iechyd gorfforol anhysbys** | - | 33.3 | 50.0 | 70.0 | - |
| **Meddyginiaeth ar gyfer iechyd corfforol ar hyn o bryd** | - | 22.2 | 16.7 | 25.0 | - |

Tabl 5.17.1 Adroddiad Holiaduron Cyfrif Cenedlaethol o Gysgu Allan pythefnos CLILC – 2017. Ystyr y cysylltnod yw na chyflynwyd unrhyw ffigurau.

- Mae’r data yn rhoi peth tystiolaeth bod pobl sy’n tueddu i gysgu ar y stryd am y cyfnodau hwyaf yn fwy tebygol o fod yng Nghasnewydd ac, i raddau llai, yng Nghaerffili. Ymddengys fod pobl sy’n cysgu ar y stryd trwy’r amser yn fwyaf cyffredin yng Nghasnewydd gan mai dinas ydyw, er yr ymddengys fod pobl sy’n cysgu ar y stryd yn Sir Fynwy yn llai tebygol o gysgu ar y stryd am gyfnodau byrrach, o’i gymharu â thri awdurdod arall Gwent.
- Mae pobl sy’n cysgu ar y stryd yn tueddu i fod yn wrywod yng Ngwent, ond nodir y ceir menywod yn cysgu ar y stryd yng Nghasnewydd.
- Mae’n debyg bod pobl sy’n cysgu ar y stryd yng Ngwent yn dod o gefndir ethnig gwyn a’u bod naill ai’n Gymry neu’n Saeson, er nad yw hyn yn debygol o fod yn gwbl wir o’r sefyllfa. (DS: Ni nododd tri o ymatebwyr yr arolwg yng Nghaerffili a Chasnewydd eu cefndir ethnig.) Yn ogystal, fel y nodir yn The Homelessness Monitor Wales 2017 gan Crisis, mae’n bosib y gellir priodoli rhan o’r cynnydd yn nifer y bobl sy’n cysgu ar y stryd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf i gynnydd mewn dinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd sy’n anghymwys i dderbyn budd-daliadau lles prif ffrwd.
- Nid yw pobl sy’n cysgu ar y stryd yn tueddu i fod yn 15-24 oed ym mhedwar o gynghorau Gwent, er nad ymddengys fod hyn yn wir yn Sir Fynwy (roedd tri o chwe arolwg sampl yn yr ystod oedran hon yn Sir Fynwy). Dim ond un person a ymatebodd yn Nhorfaen ac roedd y person hwnnw yn 25-34 oed. Yng Nghaerffili mae’n debyg bod pobl sy’n cysgu ar y stryd yn tueddu i fod rhwng 25 a 34 oed ac yng Nghasnewydd mae pobl sy’n cysgu ar y stryd yn fwy tebygol o fod rhwng 45 a 54 oed. Ymddengys fod pobl hŷn sy’n cysgu ar y stryd yn fwy tebygol o gysgu allan yn Sir Fynwy.
- Mae pobl yn llai tebygol o gysgu ar y stryd ar eu pennau eu hunain yng Nghasnewydd, mwy na thebyg oherwydd y peryglon, ac maent yn fwy tebygol o gysgu allan gyda phartner neu aelod o’r teulu.
- Noda data Gwent y gellir cysylltu cysgu ar y stryd â pherthnasoedd yn chwalu, colli rhwydwaith cefnogi a cholli cartref. Mae ffactorau eraill megis iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a gadael gofal hefyd yn berthnasol (DS: rhoddwyd pob un o’r opsiynau hyn gan ymatebydd). Gall bod yn y ddalfa ac, i raddau llai, adael y lluoedd arfog fod yn ffactorau sy’n arwain hefyd at gysgu ar y stryd yng Ngwent. Mae hyn i gyd yn atgyfnerthu’r hyn sydd eisoes wedi’i drafod yn y ddogfen hon.

- Mae'r data'n nodi'n gryf bod cysgu ar y stryd yn broblem barhaus yng Ngwent – mae 76% o bob ymatebydd wedi cysgu allan sawl gwaith yn y gorffennol ac mae'n debygol bod cysgu ar y stryd yn fwyaf problemus yng Nghasnewydd ac yng Nghaerffili.
- Mae pobl sy'n cysgu ar y stryd yng Nghasnewydd yn fwy tebygol o fod wedi cysgu allan o'r blaen o'u cymharu â rhywun yng Nghaerffili. (Sylwer bod Torfaen yn 100% ond y rheswm am hynny yw oherwydd mai un ymatebydd yn unig ydoedd.) Mae hyn yn ategu'r haeriad bod pobl sy'n cysgu ar y stryd yn barhaus yn fwy tebygol o fod yng Nghasnewydd ac yna yng Nghaerffili y gellir ei briodoli i statws Casnewydd a'r ffaith bod gan y ddinas ragor o gyfleoedd i dderbyn cymorth a gwasanaethau.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cysgu ar y stryd yn fodlon derbyn cymorth, yn ôl eu hymatebion i'r arolwg. Er bod adborth o'r ymgynghoriad ac ymchwil arall a gynhaliwyd ar gyfer yr adolygiadau'n awgrymu mai prin roedd ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau'n hawdd mewn gwirionedd.
- Ymddengys fod problemau iechyd meddwl yn fwy cyffredin yng Nghaerffili a phroblemau iechyd corfforol yng Nghasnewydd. Mae adroddiad Health Matters 2017 Cymorth Cymru hefyd yn rhoi tystiolaeth bod pobl ddigartref sy'n byw mewn ardal drefol yn fwy tebygol o fod ag anghenion iechyd corfforol na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod anghenion iechyd corfforol pobl ddigartref yn amrywio o ran rhywedd, oedran a lleoliad – gyda mwy o angen gofal iechyd corfforol ar bobl hŷn na'r grŵp ieuengaf. Gallai hyn esbonio pam mae gan bobl sy'n cysgu ar y stryd yn Sir Fynwy anghenion iechyd corfforol uwch gan fod yr arolwg yn nodi eu bod yn debygol o fod yn hŷn.

5.18 Gofynnwyd i unigolion nodi'r hyn a oedd, yn eu tyb nhw, y rheswm cychwynnol am fynd yn ddigartref ar adeg ymateb i'r arolwg. (DS: Mae'r niferoedd yn Nhabl 5.18.1 yn adlewyrchu pob ymateb i'r arolwg.) Yn ogystal â'r uchod, mae Tabl 5.18.1 yn awgrymu bod perthnasoedd ar chwâl a cholli cartref yn sbardunau sy'n gallu arwain at gysgu ar y stryd yng Nghymru, sy'n adlewyrchu prif achosion digartrefedd yn nata WHO12 uchod. Mae camddefnyddio sylweddau hefyd yn ffactor allweddol; felly hefyd y posibilrwydd o golli rhwydweithiau cymorth/cymdeithasol. Mae mynd i'r ddalfa neu ei gadael hefyd yn sbardun ac yn The Homelessness Monitor Wales 2017 gan Crisis, tybiwyd y gallai fod cyswllt â cholli angen blaenoriaethol i gyn-garcharorion o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a thwf pobl sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru. Yn sicr mae'r arolygon yn rhoi cryn dystiolaeth bod pobl sy'n gadael y ddalfa mewn mwy o berygl o gysgu ar y stryd.

| Rhesymau | Nifer |
|---|---|
| **Perthynas yn chwalu** | 59 |
| **Wedi'i droi allan (sawl rheswm)** | 57 |

| | |
|---|---|
| **Mynd i'r ddalfa neu ei gadael** | 43 |
| **Perthnasoedd teulu'n chwalu** | 43 |
| **Colli tenantiaeth** | 20 |
| **Camddefnyddio sylweddau** | 19 |
| **Dim wedi'i nodi** | 17 |
| **Wedi gadael yr ardal leol** | 11 |
| **Marwolaeth aelod o'r teulu (gan gynnwys plentyn)** | 9 |
| **Dim cyfeiriad anfon ymlaen** | 9 |
| **Wedi gadael llety** | 7 |
| **Rhesymau ariannol** | 7 |
| **Dim cyfle i gael arian cyhoeddus** | 6 |
| [illegible] | [illegible] |
| **Cam-drin Domestig** | 4 |
| **Bygythiadau y tu allan i'r cartref** | 4 |
| **Wedi gadael gofal** | 3 |
| **Materion iechyd meddwl** | 3 |
| **Wedi'i rhyddhau o uned iechyd meddwl/ysbyty/gofal cymdeithasol** | 3 |
| **Adfeddiannu** | 1 |

Tabl 5.18.1 Adroddiad Holiaduron Cyfrif Cenedlaethol o Gysgu Allan pythefnos CLILC – 2017. *Ystyr y cysylltnod yw na chyflynwyd unrhyw ffigurau.

5.19 Cydnabyddir bod mwy o waith yn cael ei wneud i gasglu data am bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwent i helpu i ddatblygu ymyriadau effeithiol. Nododd ymateb Cyngor y Ffoaduriaid i ymchwil Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gysgu ar y stryd ym mis Ionawr 2018 y gall fod yn arbennig o anodd amcangyfrif nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd ymhlith y ceiswyr lloches a'r ffoaduriaid yng Nghymru. Dylai gwelliannau parhaus i'r ap cyswllt digartrefedd Street Link (yng Ngwent ac yng Nghymru) helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwent yn y dyfodol. (Gweler hefyd y Rhwydwaith Gwybodaeth am Ddigartrefedd ar y Stryd.)

5.20 Nod yr ymarferion ymgynghori hefyd oedd cynnwys grwpiau allweddol eraill nad ydynt yn cael statws blaenoriaeth yn awtomataidd o dan adran 70 Deddf Tai (Cymru) 2014 ond sydd weithiau mewn perygl cynyddol o fod yn ddigartref. Mae hyn yn cynnwys: Pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol sydd wedi colli rhwydweithiau cymdeithasol neu sydd mewn perygl cynyddol o broblemau iechyd meddwl neu golli cyflogaeth, ffoaduriaid, ceiswyr lloches y mae eu ceisiadau wedi methu a hefyd Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig. Mae hefyd yn werth ailadrodd bod Tabl 3.4.4 yn dangos bod gan Dorfaen

gymuned fawr o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ac mai Casnewydd yw'r unig ardal yng Ngwent lle mae ceiswyr lloches yn cael eu lleoli (mae Casnewydd yn un o'r pedair ardal ddosbarthu benodedig yng Nghymru). Fel y nodir yng Nghod Canllawiau 2016 LlC, "dylai gwasanaethau ddiwallu anghenion diwylliannol ac ieithyddol y gwahanol gymunedau a gweithio'n rhagweithiol i fynd i'r afael â digartrefedd mewn grwpiau lle gallai fod yn gudd fel arfer". Mae'r agwedd hon wedi cael ei hystyried ymhellach yn Adran 6 isod.

5.21 Mae unigolion sy'n mynd dro ar ôl tro at wasanaethau sy'n ymwneud â digartrefedd hefyd wedi cael eu hystyried trwy arolwg y defnyddwyr gwasanaeth. Yn yr arolwg, nododd 13 aelwyd o 165 (o Gaerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen) y buont naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref deirgwaith neu fwy. Roedd dim ond 1 o'r 13 mewn perthynas ac yn byw gyda phlant dibynnol (aelwyd 3-4 person); pobl sengl oedd y gweddill. O'r 13, roedd 6 yn byw mewn llety dros dro, roedd 2 yn cysgu ar soffa ffrindiau/perthnasau, roedd 2 yn cysgu ar ystryd, roedd 1 yn y carchar, roedd 1 mewn eiddo cymeradwy ac roedd 1 mewn llety rhent preifat. Mae hyn yn rhoi argraff gref bod pobl sy'n ddigartref dro ar ôl tro yn llawer llai tebygol o fod yn byw mewn llety hirdymor sefydlog.

Nododd yr arolwg defnyddwyr gwasanaeth nifer o achosion sy'n gysylltiedig â digartrefedd: camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, iechyd meddwl, hanes o droseddu, rhyddhau o'r ddalfa, perthnasoedd yn chwalu, dyled a diffyg tai fforddiadwy, diwedd tenantiaeth, gwahardd o'r ysgol, diweithdra, cam-drin domestig, mynediad gwael i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gadael gofal a cham-drin rhywiol a/neu gorfforol, byw mewn tai anaddas oherwydd nam corfforol neu synhwyraidd. Byddai hyn yn atgyfnerthu'r hyn a ddywedwyd gan staff yr awdurdodau lleol yn ystod yr ymgynghoriad; hynny yw bod cymorth dwys pwrpasol ar y cyd â Housing First yn hanfodol. Mae hyn hefyd yn awgrymu bod pobl sy'n mynd at wasanaethau digartrefedd dro ar ôl y tro, yn gyffredinol, yn debygol iawn o feddu ar anghenion cymorth cymhleth. Fel y esboniwyd yn yr adroddiad diweddar gan Nicholas Pleace, Using Housing First in Integrated Homeless Strategies: A Review of the Evidence 2018: "*Mae Tai yn Gyntaf yn effeithiol iawn wrth gael gwared ar ddigartrefedd ymhlith pobl ag anghenion uchel a chymhleth, ond nid yw'n datrys digartrefedd sengl neu gysgu ar y stryd ynddo'i hun. Dengys y dystiolaeth ryngwladol fod angen i wasanaethau Tai yn Gyntaf fod yn rhan o strategaeth digartrefedd integredig er mwyn bod yn wirioneddol effeithiol.*"

Yn ogystal, roedd 12 o'r 13 yn wrywod, nid oedd yr un ohonynt wedi cael triniaeth i ailbennu rhywedd a nododd 10 fod ganddynt ryw anabledd corfforol. O'r 13 ymatebydd, nododd 12 fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl a nododd 7 fod ganddynt anableddau eraill megis anhawster dysgu, anabledd corfforol neu fath arall o anabledd. Gwnaeth y rhan fwyaf ohonynt

ddisgrifio eu hunain yn wyn gydag un person yn nodi ei fod o hil gymysg a’r person olaf yn dewis peidio â dweud. Dim ond un person a nododd ei bod yn lesbiaidd/ei fod yn hoyw.

Yr hyn mae’r arolwg yn ei ddangos yw bod rhai nodweddion yn llawer mwy cyffredin nag eraill mewn perthynas â phobl sy’n mynd at wasanaethau digartrefedd dro ar ôl tro. Maent yn debygol iawn o fod yn sengl ac yn wryw ac o feddu ar broblemau cymdeithasol a meddygol cronig a/neu anabledd sy’n cyd-fynd yn amlwg â’r wybodaeth am bobl sy’n cysgu ar y stryd a nodwyd yn adrannau 5.17 a 5.18 uchod.

| 5.22 Pwyntiau Allweddol: |
| --- |
| • Mae'r data uchod wedi rhoi llawer o wybodaeth am ddigartrefedd yng Ngwent sy'n ein helpu i grynhoi'r prif themâu, tueddiadau a grwpiau risg uwch yn y dyfodol, ynghyd â pha fath o alw fydd ar wasanaethau digartrefedd dros y pedair neu'r pum mlynedd nesaf. Mae'r prif bwyntiau'n cynnwys:<br>• Y cyngor lle mae'r galw mwyaf am ei wasanaeth digartrefedd yw Casnewydd, yna Caerffili, Torfaen, Blaenau Gwent a Sir Fynwy, yn y drefn honno. Ni ddisgwylir i'r duedd honno newid dros gyfnod y strategaeth.<br>• Ymddengys fod nifer yr achosion llwyddiannus o atal digartrefedd (Adran 66) ar draws Gwent wedi lleihau'n gyffredinol dros y tair blynedd ariannol diwethaf. Mae canlyniadau Adran 73 llwyddiannus wedi lleihau bron bob blwyddyn ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent. Ar sail y data yn unig, gallai rhai awdurdodau lleol gael mwy o lwyddiant wrth gyflawni eu dyletswyddau Adran 75 mewn rhai rhannau o Went nag eraill.<br>• Bydd gweithredu systemau 'brysbennu' effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau digartrefedd a sicrhau cynifer o ganlyniadau Adran 66 llwyddiannus â phosib i atal uwchgyfeirio i ddyletswyddau adrannau 73 a 75 yn fwyfwy hanfodol yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o wir yng Nghasnewydd lle mae mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth mewn mwy o angen. Bydd yn bwysig ymdrin â disgwyliadau cleientiaid ac annog pobl i'w helpu eu hunain cymaint â phosib.<br>• Bydd yn hanfodol i awdurdodau lleol Gwent ganolbwyntio ar gydlynu mynediad i fwy o lety dros dro yn y rhanbarth. Mae angen dybryd am lety dros dro priodol yng Ngwent a llety fforddiadwy i bobl sengl. Bydd hyn yn fwy dybryd byth pan na ddefnyddir y prawf bwriad mwyach i asesu aelwydydd gyda phlant erbyn 2019.<br>• Dylai gwella systemau a chymorth i aelwydydd sy'n symud o lety dros dro a thai cymorth fod yn ffocws allweddol.<br>• Dylai'r cynghorau gydweithio er mwyn sicrhau y caiff ystadegau digartrefedd eu cofnodi mor gyson â phosib.<br>• Dylai pob cyngor ganolbwyntio ar weithgareddau effeithiol sy'n ymateb i berthnasoedd sy'n chwalu, ôl-ddyledion rhent a cholli llety rhent neu glwm, ac sydd, yn ddelfrydol, yn atal y rhain rhag digwydd. Mae'r fath ffactorau hefyd yn achosion o broblemau digartrefedd sy'n gwaethygu e.e. cysgu ar y stryd. Dylid parhau i ddyrannu digon o adnoddau ar gyfer atal prif achosion digartrefedd.<br>• Yn ganrannol, mae gormod o bobl ifanc 16-24 oed yn defnyddio gwasanaethau digartrefedd; felly hefyd aelwydydd person sengl a gwrywod. Mae'r carfanau hyn yn debygol o fod ag angen cymorth ychwanegol gan awdurdodau lleol Gwent yn y blynyddoedd i ddod. Wrth wneud hynny, mae'n bosib y byddai canlyniadau ataliol llwyddiannus gyda'r grwpiau hyn yn arbed adnoddau y gellid eu defnyddio ar gyfer grwpiau eraill. Gallai Sir Fynwy a Thorfaen roi mwy o sylw i'r rhai dros 25 oed, a gallai Casnewydd ganolbwyntio ar bobl Asiaidd/Asiaidd Prydeinig a phobl sydd wedi'u categoreiddio fel 'ethnigrwydd arall'.<br>• Dylai cynghorau Gwent a'u partneriaid gydweithio i leihau pob defnydd o lety gwely a brecwast yn y dyfodol.<br>• Dylai gweithgareddau sy'n lliniaru cam-drin domestig fod yn ffocws allweddol – yn benodol mewn aelwydydd lle mae plant dibynnol.<br>• Mae pobl sy'n gadael y carchar a'r rhai sy'n gadael sefydliadau neu ofal yn garfanau sydd mewn perygl cyson o fod yn ddigartref a dylid canolbwyntio arnynt. Mae pobl sy'n gadael y carchar yn benodol mewn perygl o gysgu ar y stryd. Mae |

aelwydydd sengl yn fwy tebygol o fod yn gyn-garcharorion a phobl sy’n gadael sefydliad a/neu ofal ac maent hefyd yn fwy tueddol i gysgu ar y stryd e.e. mae rhaglenni adfer ac adsefydlu arbenigol, gwaith di-dâl fel rhan o gynllun gwneud iawn â’r gymuned, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, mentora a gweithio gyda theuluoedd troseddwyr ac ati yn gallu bod yn effeithiol.

- Mae aelwydydd sengl yn fwy tebygol o brofi aflonyddu oherwydd nodwedd a ddiogelir yn achosi problem digartrefedd (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Dylai cynghorau Gwent geisio gweithio’n fwy ar rwystro hyn.
- Mae fforddiadwyedd tai yn parhau’n broblem allweddol – mae aelwydydd gyda phlant dibynnol yn fwy tebygol o gronni ôl-ddyledion rhent yn y sectorau tai preifat a chymdeithasol.
- Mae cyngor ar ddyled, taliadau ariannol, datrys problemau gyda budd-daliadau a mynd i’r afael ag ôl-ddyledion rhent a thaliadau gwasanaeth yn cael yr effaith fwyaf wrth helpu aelwydydd i aros yn eu cartrefi, gan atal digartrefedd yng Ngwent o ganlyniad. Dylid ehangu’r ffocws yn y meysydd hyn os bo modd.
- Gallai cyfryngu fod yn llai effeithiol gyda phobl ifanc a dylid ystyried dewisiadau eraill yn y dyfodol.
- Mae gwaith partneriaeth a rhannu arfer gorau yn debygol o fod yn fwy pwysig. Byddai unrhyw ostyngiadau yn y maes hwn (yn wir, bydd angen cynyddiadau) yn golygu y byddai cynghorau Gwent yn debygol o fod dan anfantais gynyddol, gan ymdrechu’n fwyfwy i ymdopi â’r galw cynyddol am wasanaethau digartrefedd (yn benodol Casnewydd). Mae cyfle go iawn y byddai cryfder ac effeithiolrwydd cydlynol yn y maes hwn yn ategu gwaith ataliol, gan ysgafnhau’r pwysau ar wasanaethau digartrefedd y cyngor o bosib dros y pedair neu’r pum mlynedd nesaf.
- Rhaid i bob awdurdod lleol ymgysylltu â landlordiaid preifat a gweithio gyda nhw i fodloni eu disgwyliadau. Bydd amrywio ym mhob awdurdod lleol oherwydd bod pob un o’r marchnadoedd yn wahanol; mae’n amlwg nad rhoi cymhellion yw’r unig ffactorau ar waith wrth ymgysylltu’n llwyddiannus â’r sector preifat yn unrhyw un o awdurdodau Gwent. Mae angen i ddarganfod ffyrdd newydd o ddatblygu perthnasoedd cydfuddiol rhwng cynghorau a landlordiaid preifat fod yn ffocws allweddol (yn benodol yn Sir Fynwy).
- Mae’n mynd yn fwy anodd cael cynnig tai cymdeithasol yn Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen, sy’n arwain at ddibyniaeth gynyddol ar fathau eraill o dai, megis y sector rhent preifat. Dylai cynghorau weithio gyda landlordiaid cymdeithasol i wrthdroi’r duedd hon.
- Mae hyn yn rhoi argraff gref bod pobl sy’n ddigartref dro ar ôl tro yn llawer llai tebygol o fod yn byw mewn llety hirdymor sefydlog.
- Bydd angen i gynghorau greu mwyfwy o gysylltiadau rhyngddynt eu hunain a landlordiaid cymdeithasol a’r sector preifat dros gyfnod y strategaeth newydd gyda’r nod o gael mynediad i dai mwy fforddiadwy er mwyn cyflawni dyletswyddau digartrefedd.
- Gallai fod cyfle i’r awdurdodau lleol ddatblygu rhagor o gynlluniau perchentyaeth cost isel. Mae Tabl 6.2.1 isod a nifer y bobl sy’n gofyn am rhagor o dai fforddiadwy i’w prynu yn awgrymu y byddai canran sylweddol o ddefnyddwyr

gwasanaeth yn cefnogi hyn.

- Dylai cynghorau ystyried sut gallant gofnodi a rhoi tystiolaeth o’r gwaith ataliol a wneir i atal digartrefedd (gan gynnwys mewn perthynas â gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau cysylltiedig, megis gwasanaethau a ariennir trwy Cefnogi Pobl. Byddai adborth gan staff y cynghorau’n awgrymu eu bod fel arfer yn cynnig o leiaf peth cyngor pan fo rhywun yn dod atynt ac nad yw ei aelwyd mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod. Cydnabyddir hefyd y gall llawer o aelwydydd eu cael eu hunain mewn perygl o fod yn ddigartref heb fod ar fai am y sefyllfa eu hunain e.e. trwy hysbysiad Adran 21 ‘dim bai’ yn y sector rhent preifat. Yn aml nid oes anghenion cymorth arnynt a chyda pheth cyngor sylfaenol, maent yn datrys y perygl eu hunain.
- Gweithio i ddeall pam mae defnyddwyr gwasanaeth yn peidio ag ymwneud â gwasanaethau ar ôl dechrau’r broses statudol.
- Mae sawl tuedd wahanol mewn perthynas â chysgwyr ar y stryd yn awdurdodau Gwent e.e. mae cysgwyr ar y stryd yn fwy cyffredin yng Nghasnewydd, mwy na thebyg oherwydd ei bod yn ddinas. Mae cysgu ar y stryd hefyd yn broblem enbyd ar draws Gwent – mae 76% o bob ymatebydd i’r arolwg wedi cysgu allan yn y gorffennol. Ymddengys hefyd fod cysgu ar y stryd yn fwy o broblem yng Nghaerffili, o’i gymharu â thri awdurdod arall Gwent. Yn Sir Fynwy ymddengys fod pobl sy’n cysgu ar y stryd yn llai tebygol o gysgu ar y stryd am gyfnodau byrrach, o’i gymharu â thri awdurdod arall Gwent. Mae pobl sy’n cysgu ar y stryd yn tueddu i fod yn wrywod yng Ngwent, ond nodir y ceir menywod yn cysgu ar y stryd yng Nghasnewydd. Ymddengys fod pobl yn llai tebygol o gysgu ar y stryd ar eu pennau eu hunain yng Nghasnewydd ac unwaith eto gallai hyn fod oherwydd ei bod yn ddinas; canfyddir bod perygl i gysgu ar y stryd ar eich pen eich hun neu ei bod yn fwy tebygol bod perygl go iawn ynghlwm wrth wneud hynny.
- Nododd yr arolwg defnyddwyr gwasanaeth nifer o achosion sy’n gysylltiedig â digartrefedd: camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, iechyd meddwl, hanes o droseddu, rhyddhau o’r ddalfa, perthnasoedd yn chwalu, dyled a diffyg tai fforddiadwy, diwedd tenantiaeth, gwahardd o’r ysgol, diweithdra, cam-drin domestig, mynediad gwael i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gadael gofal a cham-drin rhywiol a/neu gorfforol, byw mewn tai anaddas oherwydd nam corfforol neu synhwyraidd. Byddai hyn yn atgyfnerthu’r hyn a nodwyd gan staff yr awdurdodau lleol yn ystod yr ymgynghoriad; hynny yw bod cymorth dwys pwrpasol ar y cyd â Tai yn Gyntaf yn hanfodol. Mae hyn yn dangos pam mae’n rhaid i gynghorau gael gwybod am y datblygiadau diweddaraf trwy’r amser am y gwasanaethau a weithredir gan bartneriaid a pham mae angen darparu dewis eang o gymorth (sy’n seiliedig ar y person) i fynd i’r afael â digartrefedd.
- Roedd yr arolwg defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn awgrymu bod nodweddion rhai defnyddwyr gwasanaeth yn llawer mwy cyffredin nag eraill o ran y rhai sy’n troi dro ar ôl tro at wasanaethau digartrefedd h.y. maent yn debygol iawn o fod yn sengl ac yn wryw ac o feddu ar broblemau cymdeithasol neu feddygol cronig a/neu anabledd.
- Maes arall i’w ystyried ymhellach yw sut mae aelwydydd sy’n ‘gymwys ond nad oes angen blaenoriaethol arnynt’ yn cael eu cynorthwyo a sut rhoddir tystiolaeth o hyn.

## 6. Dadansoddiad Lleol: Adnoddau a Gwelliannau

6.1 Un o elfennau sylfaenol yr adolygiadau ers y dechrau yw deall patrymau digartrefedd yng Ngwent, i ddefnyddio'r wybodaeth honno i nodi dulliau i atal neu ymyrryd yn y patrymau hyn i leihau lefelau digartrefedd hirdymor. Mae Adran 6 yn parhau â'r ymagwedd hon ac yn adolygu'r adnoddau sydd ar waith ar hyn o bryd i atal digartrefedd a chefnogi'r rhai sy'n ddigartref (mewn awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol ac eraill). Mae'r holl adborth o'r ymgynghoriad helaeth a gynhaliwyd wedi cael ei grynhoi a'i ymgorffori, gan gynnwys meysydd posib i'w gwella a gaiff eu hystyried wrth ddatblygu'r cynlluniau gweithredu sy'n deillio o strategaeth digartrefedd newydd Gwent – a fydd ar waith o ddiwedd Rhagfyr 2018. Cydnabyddir bod y sylwadau'n seiliedig ar safbwyntiau a gallai rhai ohonynt fod yn ysgubol, efallai'n anymarferol, ond mae pob sylw wedi'i gynnwys. Yr hyn mae'r adborth o'r ymgynghoriad wedi'i roi yw darlun cliriach o'r problemau sy'n wynebu darparu gwasanaethau digartrefedd, diffygion ymarferol ac atebion posib, ond mae angen trafod y rhain ymhellach rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid i sbarduno gweithredu. Mae'r adborth hefyd wedi helpu i roi mewnweledau i broblemau penodol mewn lleoliadau gwahanol ym mhob un o awdurdodau lleol Gwent.

6.2 O'r arolwg defnyddwyr gwasanaeth, amlinellodd y 165 ymatebydd yr hyn a oedd, yn eu tyb nhw, y blaenoriaethau pwysicaf i ganolbwyntio arnynt er mwyn atal a datrys digartrefedd. Y pump uchaf oedd tai cymdeithasol, tai rhent preifat, mynediad ar unwaith i dai i bobl sy'n ddigartref, llety dros dro/brys a llety sy'n cynnwys cymorth i bobl sy'n agored i niwed.

| Blaenoriaethau | Nifer |
|---|---|
| Mynediad i dai cymdeithasol | 113 |
| Tai fforddiadwy i'w rhentu'n breifat | 86 |
| Mynediad ar unwaith i dai i bobl sy'n ddigartref | 57 |
| Llety dros dro/brys | 51 |
| Llety sy'n cynnwys cymorth i bobl sy'n agored i niwed | 44 |
| Diffyg tai fforddiadwy i'w prynu | 37 |
| Cymorth iechyd meddwl | 37 |
| Cyngor a chymorth ymyrraeth gynnar | 32 |
| Cael llety yn agos at ffrindiau/aelodau'r teulu | 25 |
| Cysgu ar y stryd | 24 |
| Lleihau nifer y tenantiaid sy'n cael eu troi allan gan landlordiaid | 19 |
| Cyngor a chymorth perthnasol hawdd mynd atynt gan wasanaethau cynghorau | 17 |

| | |
|---|---|
| **Cymorth gyda chamddefnyddio cyffuriau** | 16 |
| **Chyngor a chymorth i ddatrys dyled** | 14 |
| **Cymorth cam-drin domestig** | 14 |
| **Helpu pobl i wella'u sgiliau hunanofal/bywyd** | 12 |
| **Cyngor a chymorth perthnasol hawdd mynd atynt gan elusen neu sefydliad trydydd sector** | 9 |
| **Cymorth i gael cyflogaeth** | 9 |
| **Cymorth i ddatrys anghydfodau e.e. rhwng teuluoedd** | 9 |
| **Llety ar gyfer pobl anabl** | 6 |
| **Cymorth i gael hyfforddiant** | 5 |
| **Cymorth gyda chamddefnyddio alcohol** | 5 |
| **Cymorth wrth adael y lluoedd arfog** | 4 |
| **Cymorth ar ôl gadael remand neu'r ddalfa** | 4 |
| **Cymorth ar ôl gadael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol** | 4 |
| **Cyngor ar ddiwygio lles** | 3 |
| **Cymorth i bobl sy'n gadael gofal a phobl ifanc eraill** | 3 |
| **Gwella mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol** | 1 |
| **Cymorth i ffoaduriaid/geiswyr lloches*** | 0 |

Tabl 6.2.1 Atebion a roddwyd gan y 165 o ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg defnyddwyr gwasanaeth: rhesymau a gyfrannodd, ym marn unigolion, at eu digartrefedd neu'r perygl o fod yn ddigartref *Sylwer y bydd angen cymorth o hyd ar rai pobl o'r cefndir hyn sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref (fel gyda'r holl themâu eraill uchod). Gweler gwefan Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Thabl 5.18.1 uchod sy'n dangos bod methu cael hyd i gyllid cyhoeddus yn cyfrannu at gysgu ar y stryd.

Roedd yr arolwg defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn gofyn i ymatebwyr am beth arall, yn eu barn nhw, y gellid ei wneud i wella cymorth digartrefedd a'r negeseuon cyson a gafwyd oedd pwysigrwydd gallu staff i gydymdeimlo, peidio â barnu a bod yn wybodus ac wedi'i hyfforddi'n dda, a hyrwyddo gwasanaethau cydlynol. (Gweler hefyd Safon Tir Cyfartal 2015 Shelter Cymru y soniwyd amdani yn Adran 1.31.1.)

6.3 Fel y amlinellwyd yn adrannau 1.1.4 a 2.1.5, mae'r rhaglen CP yn cynorthwyo pobl agored i niwed sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac mae ganddi gysylltiadau cryf iawn â strategaeth digartrefedd newydd Gwent. Ym mis Awst 2017 cynhaliwyd arolwg defnyddwyr gwasanaeth gan Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gwent. Ymatebodd

223 o bobl yn gyffredinol, a ddosberthir fel a ganlyn: Blaenau Gwent 8.5%, Caerffili 29.7%, Sir Fynwy 13%, Casnewydd 41.7% a Thorfaen 7.2%; roedd 62.6% o'r ymatebwyr yn derbyn cymorth fel y bo'r angen; roedd 37.4% yn byw mewn Tai â Chymorth a roedd 92% yn ei chael yn hawdd cael cymorth neu gefnogaeth. Ymhlith gwybodaeth ddefnyddiol arall oedd yn gysylltiedig â'r adolygiadau a'r adborth o'r arolygon oedd:

- **Prif weithgareddau cymorth/cefnogaeth (ar sail 19 thema gymorth CP):** Cyllidebu; rheoli dicter; rheoli arian, cyngor ar ddyled, cynlluniau talu, biliau; cysylltu ag asiantaethau eraill; mynd i apwyntiadau/ddigwyddiadau; tai; cwnsela; cyflogaeth, addysg a hyfforddiant; darllen ac ysgrifennu; cael mynediad i fudd-daliadau; siopa; chwaraeon, cymdeithasu a gwneud ffrindiau; gwasanaeth cyfeillio; meddygon, iechyd meddwl a chorfforol; gohebiaeth/galwadau ffôn; coginio; manteisio ar amrywiaeth o wasanaethau; cerdded; nofio; bathodyn glas; cael dodrefn a nwyddau gwyn; magu hyder/cymorth codi calon; cadw'n sobr; gwirfoddoli; bwyta'n iach; fy helpu i deimlo'n ddiogel gartref; ymaelodi â grwpiau/clybiau cymdeithasol lleol; cymorth adsefydlu; hylendid a glanweithdra personol; diogelwch tân; cael grantiau; gwasanaethau mewnfudo a dehongli.
- **Adborth cadarnhaol (yr hyn sy'n gymorth da):** Mynediad hawdd a rheolaidd i wasanaethau; bod â pherthynas dda â staff; bod yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd ato; cael mynediad i wasanaethau sy'n dangos parch, sy'n barod i helpu ac sy'n gefnogol; helpu i chwilio am lety a/neu ei gadw; cadw teuluoedd ynghyd; cymorth amlasiantaeth; cymorth gyda materion penodol megis iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, gadael partner sy'n cam-drin, addysg, iechyd a lles, addasu tai a chyngor a chymorth ynghylch cyllidebu/dyled.

Mae'r themâu hyn yn adlewyrchu adrannau cynharach yr adolygiadau, gan amlygu pam mae gwasanaethau CP yn hanfodol a pham maent yn cael cymaint o effaith mewn perthynas ag atal a datrys digartrefedd. Hefyd mae'r pwyntiau uchod yn atgyfnerthu'r syniad bod rhaid i drefniadau cynllunio ar gyfer digartrefedd a thai cymorth gael eu hystyried ar y cyd yn gynyddol.
Mae Tabl 6.3.1 yn nodi ei bod yn debygol y bydd angen mwy o waith i gysoni gwasanaethau digartrefedd a CP â'i gilydd. Mae'r adroddiadau data statudol yn y maes hwn i'w gweld yn wan (o bosib yn annibynadwy) a dylai hyn fod yn faes y mae cynghorau Gwent yn canolbwyntio ar ei ddatblygu yn y dyfodol.

| Cefnogi Pobl (canran yr achosion llwyddiannus) | Blaenau Gwent | | Caerffili | | Sir Fynwy | | Casnewydd | | Torfaen | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 |
| Cyfanswm yr achosion llwyddiannus – atal/lleihau digartrefedd | - | - | - | - | 215 | 268 | 593 | 518 | 303 | 316 |
| Pob achos llwyddiannus – atgyfeiriad wedi'i gyflwyno i Cefnogi Pobl | - | - | - | - | 100 | - | 60.0 | 32.6 | - | 10.4 |
| Pob achos llwyddiannus – atgyfeiriad wedi'i dderbyn gan Cefnogi Pobl | - | - | - | - | 100 | - | 43.0 | 21.2 | - | 4.7 |

Tabl 6.3.1 Data WHO12 Mae cysylltnodau'n golygu na chyflwynwyd dim i Lywodraeth Cymru.

6.4 Mae Tabl 6.4.1 yn amlinellu'r adnoddau sydd ar gael yn adrannau digartrefedd a thai pob un o'r awdurdodau lleol. Mae staff yn gweithio i atal a lleihau digartrefedd mewn sawl ffordd, gan ganolbwyntio ar anghenion unigolion a gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol:

| Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen |
|---|---|---|---|---|
| Uwch Swyddog Dewisiadau Tai | Uwch Swyddog Dewisiadau Tai | Rheolwr Tîm Dewisiadau Tai | Rheolwr Cyngor ar Dai | Rheolwr Atebion Tai |
| Swyddog Dewisiadau Tai x 2 | Swyddog Cyngor ar Dai x 4 | Swyddog Dewisiadau Tai x 3 | Dirprwy Reolwr Cyngor ar Dai | Swyddog Atebion Tai (x 3) |
| Swyddog Rhent Preifat (ariennir gan CP) | Swyddog Rhent Preifat (ariennir gan CP) 0.5 | Swyddog Cydgysylltu Rhent Preifat | Swyddog Atebion Tai (x8) | Gweithiwr Cymorth Iechyd Meddwl x 1 (ariennir gan CP) |
| Swyddog Pobl Ifanc/Llety Dros Dro (ariennir gan CP) | Swyddog Atal Digartrefedd x 4 | Swyddog Llety Pobl Ifanc (a ariennir gan CP) | Swyddog Cefnogi Tenantiaid (x 3.5) (ariennir yn 100% gan CP) | Swyddog Tai Pobl Ifanc x 1 (ariennir gan CP) |
| | Dewisiadau Tai (dadansoddiad o'r data) | Swyddog Cynhwysiant Ariannol | | Swyddog Llety Dros Dro (ariennir gan CP) |
| | Swyddog Pobl Ifanc/Llety Dros Dro (ariennir gan CP) | Cynorthwy-ydd Llety | | |
| | Swyddog Atal Cam-drin Domestig a Digartrefedd (ariennir gan CP) | Cynorthwy-ydd Llety Dros Dro | | |
| | Croesawu dau swyddog o'r Cynllun Bond am un diwrnod/wythnos (ariennir trwy Adran 180) | Croesawu Gweithiwr Cyfryngu Teulu Llamau (ariennir trwy Adran 180) | | |
| | Gweithiwr Cymdeithasol 16+ | Swyddog Prydlesu Preifat x | | |



Table 6.4.1 Staffing structures at the Gwent local authorities as of May 2018. Hyphens mean no further data supplied at the point the reviews were constructed

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | am un diwrnod/wythnos (ariennir gan y Gwasanaethau Plant) | 1.6 | | |

6.5 Mae'r tabl isod yn integreiddio'r holl adborth o'r ymgynghoriad a gafwyd yn ystod y digwyddiad ymgynghori â rhanddeiliaid. Cafodd ei strwythuro a'i grynhoi yn 25 adran i'w wneud yn haws ei ddarllen er mwyn llywio'r strategaeth digartrefedd newydd a'r camau gweithredu strategol).

| **6.5.1 Sector Tai Cymdeithasol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Beth sy'n Gweithio'n Dda?** | | | | | |
| **Blaenau Gwent** | **Caerffili** | **Sir Fynwy** | **Casnewydd** | **Torfaen** | **Rhanbarthol** |
| • Cymorth da mewn rhai cymdeithasau tai<br>• Gweithwyr cymorth rhagweithiol<br>• Safonau/cynnal a chadw eiddo<br>• Dewis arall lle nad yw'r sector preifat yn addas<br>• Llety ar y cyd, llety i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau | • Gwaith partneriaeth a'r gofrestr dai gyffredin (x 2)<br>• Perthynas a gwaith partneriaeth cryf rhwng y gwasanaethau tai a Cefnogi Pobl<br>• Cydweithredu staff oherwydd bod gan y cyngor ei stoc tai ei hun<br>• Mynediad cyflym i gymorth Cefnogi Pobl<br>• Hawdd cael mynediad iddo<br>• Digon o ddatblygiadau newydd mewn ardaloedd deniadol<br>• Cyfathrebu da rhwng asiantaethau partner | • Perthynas dda â landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n gweithio yn y sir<br>• Gwaith partneriaeth a chyfathrebu'n dda<br>• Rheoli ansawdd y stoc tai/asedau<br>• Cartrefi mwy diweddar yn cael eu hadeiladu i safonau uwch<br>• Monitro'n ofalus gwotâu digartrefedd a nifer y cartrefi sy'n cael eu rhentu i aelwydydd digartref wedi'u bandio<br>• Deddfwriaeth newydd – dod o hyd i lety ar gyfer pobl ddigartref yn gynt o lawer | • Panel Symud Ymlaen Mae'r broses symud ymlaen yn gweithio'n dda (x5)<br>• Gwaith partneriaeth gwell ynghylch lleihau perygl i denantiaid sy'n agored i niwed Ymagweddau partneriaeth cryf (landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r trydydd sector).<br>• Gwaith partneriaeth da rhwng darparwyr cymorth a landlordiaid. Mae'r partneriaethau'n gweithio'n dda i ddod o hyd i atebion o ystyried y prinder tai<br>• Cofrestr dai gyffredin (x8)<br>• Mae'r Tîm Atebion Tai yn gweithio'n dda (x2)<br>• Defnydd da o atal trwy'r Gofrestr Dai Gyffredin a hefyd achub tenantiaethau cymdeithasol sy'n methu lle bo modd (x2)<br>• Mae'r cyngor yn manteisio ar brofiad amrywiaeth o asiantaethau mewn prosesau penderfynu (x2) | • Cofrestr Dai Gyffredin Mynediad hawdd a syml i bobl ei defnyddio. Tîm Ceiswyr Tai (x7)<br>• Tîm Atebion Tai gwych sy'n rhannu gwybodaeth<br>• Mae swyddogion digartrefedd yn barod i helpu gyda chyngor ynglŷn â deddfwriaeth am dai a'r hyn y gallant ei wneud neu na allant ei wneud os nad oes dyletswydd<br>• Cyflwr eiddo<br>• Gwaith partneriaeth<br>• Gall landlordiaid fod yn barod i helpu, yn gynorthwyol ac yn effeithlon | • Trosglwyddiadau mawr o stoc i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig<br>• Mae llawer o gleientiaid wedi cael eu helpu ac wedi cael cynnig llety<br>• Cydweithio da, yn benodol gyda'r Wallich |
| **Beth nad yw'n Gweithio'n Dda? Ble mae'r Diffygion?** | | | | | |
| **Blaenau Gwent** | **Caerffili** | **Sir Fynwy** | **Casnewydd** | **Torfaen** | **Rhanbarthol** |
| • Landlordiaid yn dethol y tenantiaid gorau | • Diffyg eiddo (x5)<br>• Agweddau 'NIMBY' at dai | • Diffyg tai fforddiadwy i'w prynu (x11) | • Rhestri aros/amserau dyrannu yn rhy hir (x6) | • Gwella'r broses wirio<br>• System fandio (x5) e.e. | • Ers tynnu "statws blaenoriaeth" ar gyfer pobl sy'n gadael y carchar, |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| • Landlordiaid yn mynnu ar daliad rhent ymlaen llaw<br>• Diffyg tai ar gael<br>• Mwy o waith i sicrhau tenantiaethau cynaliadwy<br>• Proses/system geisiadau (x2)<br>• Diffyg gwybodaeth am y rhestr aros gyffredin i sicrhau darlun llawn<br>• Diffyg eiddo addas<br>• Disgwyliadau afrealistig gan ymgeiswyr (x2)<br>• Dim digon o dai gan yr awdurdod lleol<br>• Cartrefi sy'n addas i bobl anabl | cymdeithasol mawr eu hangen<br>• Polisi allgau Caerffili – peidio â defnyddio'r gronfa atal digartrefedd i dalu am ddyledion<br>• Cyswllt â'r ardal leol – prosesau a gwahaniaeth barn<br>• Lleoli pobl sy'n agored i niwed mewn llety anaddas<br>• Landlordiaid yn mynnu ar daliad rhent ymlaen llaw<br>• Nifer yr eiddo sy'n anodd eu rhentu<br>• Lefel yr wybodaeth ar y wefan yn wael ac mae angen ei diweddaru<br>• Diffyg eiddo ar gyfer pobl sengl/iau (x3)<br>• Diffyg gwahaniaethu rhwng meysydd gwasanaeth – digartrefedd yn erbyn rheoli tai – yn creu tensiynau<br>• Ni fydd landlordiaid yn adeiladau eiddo un ystafell wely – problemau rheoli canfyddedig (x2)<br>• Llawer o eiddo gwag ar gyfer pobl 60+ oed ar gael (x3)<br>• Proses ymgeisio yn rhy anodd (mae angen cymorth ar rai pobl)<br>• Polisi dyrannu yn rhy gyfyngol<br>• Ychydig iawn o gyfnewidiadau cilyddol<br>• Cartrefi sy'n addas i bobl anabl<br>• Anhawster asesu lle mae ôl-ddyledion rhent o'r gorffennol<br>• Llunio rhestr fer e.e. lle mae rhywun yn gofalu am blentyn am hanner yr wythnos, byddai'n cael ei diystyru wrth ddyrannu llety 2 ystafell wely petai band is gyda phlentyn trwy gydol yr wythnos. | • Mae datblygiadau gwledig yn ddrud iawn ac yn cymryd llawer o amser (x4)<br>• Galw (ymdopi â disgwyliadau h.y. yr hyn sydd ar gael/lleoliad) Disgwyliadau mawr am dai cymdeithasol Ond nid oes digon ar gael.<br>• Adeiladau newydd – diffyg llety un ystafell wely i bobl sengl Mae fflatiau un ystafell wely yn ddrud i'w hadeiladu<br>• Canran uwch o lety teulu<br>• Llety a rennir<br>• Mae angen rhagor o ddatblygiadau yng Nghasgwent, Sir Fynwy, y Fenni a Chil-y-coed.<br>• Cyfyngiadau ar leoliad i ymgeiswyr digartrefedd – yn aml mae'n rhaid iddynt dderbyn y llety cyntaf sydd ar gael. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu lleoli draw o'r lleoliad o'u dewis ac yn gorfod cofrestru i gael eu trosglwyddo<br>• Blaenoriaethau croes e.e. cymunedau cynaliadwy ond llety i denantiaid sy'n agored i niwed<br>• Mae polisi cysylltiadau lleol gwledig yn cyfyngu ar ddyraniadau i aelwydydd digartref<br>• Achosion MAPPA – anodd iawn dod o hyd i dai cymdeithasol addas oherwydd lleoliad y llety<br>• Dim digon o gyfleoedd i gael llety<br>• Mwy o le gan bobl hŷn na'r hyn y mae ei angen arnynt Cynlluniau cymell i'w hannog i symud i lety llai wedi methu<br>• Y system fandio<br>• Gwrthwynebiad cryf i adeiladu tai cymdeithasol | • Mae'r polisi dyrannu'n rhy gyfyngol i ymgeiswyr digartref – gormod o resymau pam nad oes rhaid i'r awdurdod ddod o hyd i lety iddynt<br>• Gofynnir am rent ymlaen llaw ac nid yw ymgeiswyr yn ymwybodol o hyn (x5)<br>• Cymorth a gwybodaeth cyn tenantiaeth (x5)<br>• Proses wirio<br>• Diffyg llety person sengl un ystafell wely (x3). Angen dosbarthu'r rhain yn fwy eang hefyd.<br>• Diffyg tai (x6)<br>• Gosod yn uniongyrchol<br>• Ni chaiff tenantiaid hirdymor nad oes angen tai cymdeithasol arnynt mwyach eu hannog i symud i lety arall<br>• Nid yw'r dull rheoli tenantiaeth yn ddigon cyson<br>• Ni chaiff aelwydydd sy'n wynebu digartrefedd eu cefnogi bob amser gan gymdeithas dai lle mae angen symud oherwydd aflonyddu/ymddygiad gwrthgymdeithasol<br>• Ni chaiff cyllideb Taliad Tai yn ôl Disgresiwn ei rheoli'n deg bob amser (gan yr awdurdod lleol)<br>• Mae angen gwell cyfathrebu â'r heddlu a'r gwasanaeth prawf<br>• Allgáu digidol – ni all rhai pobl ddigartref gael hyd i'r gofrestr dai oherwydd mai ar-lein yn unig yw hi<br>• Diffyg llety mwy o faint (x4)<br>• Diffyg llety addas ar gael i alluogi symud i lety llai<br>• Mae angen ymagwedd fwy penodol at ddyrannu tai sydd wedi'u haddasu<br>• Tai a rennir | blaenoriaeth ddigartrefedd, dim dyletswydd, dylid cadw bandio digartrefedd nid arian<br>• Bandiau blaenoriaeth trwy Homeseeker (x2)<br>• Mae ôl-ddyledion rhent ymgeiswyr yn peri iddynt gael eu diystyru wrth gynnig llety<br>• Gweithredu'n gynt i atal ôl-ddyledion rhent (x3)<br>• Tai fforddiadwy i bobl sengl (x10)<br>• Tai a rennir i bobl dan 35 oed (x2)<br>• Tai fforddiadwy i bobl ifanc (x2)<br>• Diffyg tai cymdeithasol<br>• Anodd dod o hyd i lety ar gyfer gwrywod sengl<br>• Angen mwy o hosteli<br>• Cyfathrebu gwael – cydweithio rhwng y cyngor a'r landlord cymdeithasol mwyaf (x3)<br>• Penderfyniadau anghyson ynglŷn â rhoi llety i gyn-droseddwyr<br>• Llety'n cael ei gynnig i gyn-droseddwyr ond yn methu mewn cyfarfodydd cyn tenantiaeth oherwydd hanes y troseddwr (e.e. wedi'i garcharu am dân bwriadol)<br>• Cyn-droseddwyr sy'n droseddwyr rhywiol, efallai bod tenantiaethau'n fwy tebygol o ddod i ben trwy droi'r tenant allan<br>• Dehongli'r ddeddfwriaeth tai ar gyfer pobl sy'n gadael y carchar/troseddwyr ers tynnu'r statws blaenoriaeth – rhai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn atal troseddwyr yng nghyfarfod y panel<br>• Darparwyr tai cymdeithasol yn anfodlon cynnig llety posib | mae'n fwyfwy anodd rheoli eu rôl/diogelwch cyhoeddus<br>• Dim modd "bod ar y rhestr" (cofrestr dai gyffredin) wrth wasanaethu yn y lluoedd arfog, felly mae'r unigolyn yn gorfod aros bron nes bod yn ddigartref cyn cael cymorth i ddod o hyd i lety<br>• Cyfle prin iawn i symud oherwydd y dreth ystafell wely, yn cael ei gynorthwyo o hyd gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn Beth gallwn ni ei wneud i annog pobl i symud?<br>• Efallai na fydd y tai a gynigir yn addas i deuluoedd penodol, gan beri iddynt fod ar eu colled<br>• Llety 1-2 ystafell wely (x2), yn benodol fflatiau 1 ystafell wely mewn blociau bach<br>• Diffyg llety cymorth arbenigol ar gyfer cleientiaid â phroblemau sy'n cyd-ddigwydd (cyffuriau, alcohol, anawsterau dysgu, iechyd meddwl ac ati)<br>• Nid yw pob landlord cymdeithasol cofrestredig yn cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd MAPPA<br>• Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn troi'n fusnesau – mae'r pwyslais ar elw ac nid ar yr agweddau cymdeithasol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a defnyddio cynlluniau gosod tai lleol i osgoi rhoi llety i denantiaid perygl uwch/dethol y gorau (x2) | mewn cymunedau i ddiwallu'r angen<br>• Cysylltiadau gwael â phobl sydd wedi'u rhyddhau o'r ysbyty<br>• Cysylltiadau â thimau iechyd meddwl, yn benodol o ran galluedd meddyliol<br>• Cartrefi sy'n addas i bobl anabl (x2) | • Cartrefi sy'n addas i bobl anabl (x2) | ar gyfer achos lefel 3 MAPPA<br>• Dylai penderfyniadau landlordiaid o ran achosion MAPPA gael eu herio'n amlach<br>• Llawer o bwyslais ar TG/geisiadau ond yn broblemus i rai<br>• Llety hygyrch i bobl ag anableddau<br>• Gormod o bwyslais ar y broses e.e. gall swyddogion TYPP gael gwybodaeth i ategu prawf adnabod megis gwybodaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol ond ni ellir defnyddio'r wybodaeth hon – mae'n oedi'r broses<br>• | |

## Sut gallwn ni wella?

| Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen | Rhanbarthol |
|---|---|---|---|---|---|
| • Gwneud defnydd gwell o eiddo gwag<br>• Gwneud cartrefi sy'n addas i bobl anabl<br>• Addysg ynglŷn â thai ar oedran iau naill ai yn yr ysgol uwchradd neu yn y coleg<br>• Datblygu'r berthynas weithio rhwng sectorau tai/digartrefedd ac aelodau gweithredol<br>• Wrthi'n datblygu cynllun peilot gyda Gofal – y nod yw efelychu llwyddiant y gwaith partneriaeth gyda The Wallich | • Ystyried trosglwyddo eiddo rhwng awdurdodau lleol<br>• Datblygiadau newydd – sy'n fathau cymysg o eiddo (x2)<br>• Annog teuluoedd i gyfnewid â'i gilydd<br>• Diddymu polisïau gosod cyfyngol i helpu tenantiaid iau<br>• Helpu i roi llety arall lle mae dyled ar aelwyd mewn achosion priodol h.y. ceisio treialu/addasu'r polisi allgau i osgoi'r 13 wythnos lle defnyddir cyllid atal digartrefedd<br>• Adeiladu mwy o dai cyngor (x4)<br>• Datblygu mwy o dai fforddiadwy cadarn gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig<br>• Ailddynodi llety i bobl hŷn<br>• Newid meddylfryd landlordiaid i dderbyn tenantiaid sydd â heriau e.e. | • Ystyried strategaethau i annog tenantiaid i symud i lety llai er mwyn rhyddhau llety teulu mawr ei angen<br>• Angen o hyd am gydweithredu agosach rhwng y 3 phrif landlord<br>• Gweithiwr allweddol (h.y. Swyddog Rhyddhau) – i gydgysylltu â'r tîm dyrannu pan fo rhywun yn gadael y carchar neu'r ysbyty<br>• Rhagor o lety 1 ystafell wely ar gyfer cleientiaid iau (dan 50 oed)<br>• Ystyried dewisiadau eraill i dai cymdeithasol ar gyfer achosion MAPPA<br>• Annog ymgeiswyr digartref i fod yn barod i fod yn denant e.e. sicrhau bod cerdyn adnabod ganddynt a chynilo ar gyfer diffyg mewn taliadau Credyd Cynhwysol. | • Angen mwy o waith cyn tenantiaeth ar y camau ymgeisio (x6)<br>• Rhagor o dai cymdeithasol (x3)<br>• Adolygu angen pobl i rentu tai cymdeithasol a chynnig dewisiadau eraill er mwyn rhyddhau llety (x2)'<br>• Mwy o wasanaethau cymorth i gynnal tenantiaethau (x3)<br>• Ymagwedd asesu risg – cymorth uniongyrchol lle mae ei angen fwyaf<br>• Cymdeithasau tai'n ystyried bod yn fwy gofalus eu dewis nag efallai yn y gorffennol cyn y newidiadau i'r budd-daliadau lles<br>• Annog pobl i gynilo ar gyfer rhent ymlaen llaw a symud<br>• Gwirio pan fydd yn barod i ymgymryd â thenantiaeth (x2)<br>• Gwaith partneriaeth agosach ar gyfer achosion na all gael hyd i arian cyhoeddus | • Gwella cyfathrebu/gwybodaeth am Gredyd Cynhwysol a'r anawsterau ynglŷn â rhentu<br>• Gwella'r broses cyn tenantiaeth h.y. os bydd rhywun yn debygol o fethu yn y cyfarfodydd cyn tenantiaeth, dylid nodi hyn cyn y broses ymgeisio er mwyn cynnig cymorth<br>• Oedi wrth ddechrau'r broses troi allan nes bod yn gwbl ymwybodol o'r amgylchiadau ariannol (x2) – tawelu meddyliau tenantiaid cymaint â phosib<br>• Gwella gwaith partneriaeth gyda gwasanaethau tai, yr heddlu ac ati. Nid yw'r gwasanaethau tai yn mynychu cyfarfodydd yn Nhorfaen – o ran rhyddhau pobl o'r carchar<br>• Angen arweiniad clir ynglŷn | • Mae angen ymagwedd gyson ar gynghorau i gefnogi tenantiaid cymdeithasol y mae diwygiadau lles yn effeithio arnynt e.e. Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, yr heddlu, polisïau adfer rhent ac ati.<br>• Cydweithio ar achosion cymhleth anodd (yn benodol mewn awdurdodau lleol) fel nad oes neb yn cael ei adael yn ddigartref<br>• Cydnabod y gwahaniaethu yn erbyn troseddwyr wrth iddynt geisio cael llety – rhoi adborth i Lywodraeth Cymru<br>• Gwella dewisiadau i bobl sy'n gadael y carchar lle nad oes cyfeiriad anfon |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | problemau iechyd meddwl/geirdaon gwael | | • Monitro'r gyllideb Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn well (gan yr awdurdod lleol)<br>• Datblygu project Tai yn Gyntaf<br>• Mwy o lety a rennir (x2)<br>• Angen mwy o fewnbwn gan asiantaethau allanol o ran diffygion ac anghenion sy'n ymwneud â gwasanaethau digartrefedd<br>• Rhagor o fflatiau i bobl ifanc – pan fyddant dros 18 oed, mae'n broblem fawr<br>• Rhoi pobl mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion<br>• Angen mwy o dai cymdeithasol (x2)<br>• Mwy o gymorth helpu i brynu | â'r meini prawf ar gyfer tai<br>• Rhagor o lety gofal ychwanegol ar osod – gyda staff<br>• Rhagor o dai cymdeithasol<br>• Rhoi mwy o gyfle i landlordiaid cymdeithasol o ran pwy maent yn rhoi llety iddynt<br>• Mae landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau lleol yn gweithio'n agosach gyda'i gilydd<br>• Mae'r cyngor yn dechrau datblygu ei stoc o dai ei hun eto<br>• Cytuno ar ragor o denantiaethau ar sail cynlluniau datblygiad personol (wrth ystyried diogelwch cyhoeddus)<br>• Mwy o gymorth help i brynu<br>• Rhagor o dai cymdeithasol (x3)<br>• Peidio â rhoi pwysau ar rywun i ymgeisio<br>• Gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ddiweddar i weld a allant gynorthwyo gyda'r gwaith o adfer eiddo gwag i'w hailddefnyddio (x2) | ymlaen ac mae'n anodd ymdopi<br>• Rhoi adborth i Lywodraeth Cymru – "rhoi mwy o rym i Adran 95 Deddf Tai Cymru"<br>• Cael gwared ar angen blaenoriaethol<br>• Asiantaeth gosodiadau cymdeithasol - Wrecsam<br>• Sicrhau ymyrraeth ar y cyd cyn gwrandawiadau llys – rhwng cynghorau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig Gweithio i sicrhau bod cymorth dwys ar waith<br>• Cynorthwyo blaenoriaeth i bob grŵp sy'n wynebu digartrefedd (x2)<br>• Cofrestr swyddogion tai gyffredin ranbarthol<br>• Datblygu tai amlfeddiannaeth/tai a rennir rhanbarthol e.e. polisi parhaol o ran tai e.e. anodd rhoi eiddo ar osod ym Mlaenau Gwent? |

## 6.5.2 Sector Rhent Preifat

### Beth sy'n Gweithio'n Dda?

| Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen | Rhanbarthol |
|---|---|---|---|---|---|
| • Mynediad hawdd i gyllid atal digartrefedd (x2)<br>• Bwrdd Bondiau (x3)<br>• Rhentu Doeth Cymru - cofrestru<br>• Perthnasoedd â landlordiaid (x2) e.e. cynhelir fforymau bob chwe mis neu efallai y | • Cynllun bond (x5)<br>• Rhent mewn taliadau ymlaen llaw (x2)<br>• Lleihau'r rhwystrau i gydweithio<br>• Perthnasoedd â landlordiaid<br>• Lefelau rhent yn debyg i lefelau'r Lwfans Tai Lleol | • Cynllun bond (x5)<br>• Mae CSF bellach yn warantwyr, sy'n rhywbeth nad oedd CSF yn ei wneud o'r blaen<br>• Cysylltu â thenantiaid trwy gymorthfeydd – caiff y rhain eu cynnal bob pythefnos ym mhob un o 4 | • Mae swyddogion y cyngor yn rhagweithiol ac yn ddyfeisgar o ran atebion<br>• Portffolio eiddo amrywiol – sector rhent preifat yn gadarn<br>• Perthynas rhwng landlordiaid y sector preifat a'r Adran Tai | • Cynllun bond (x6)<br>• Mynediad i gyllid atal<br>• Tîm atal digartrefedd<br>• Cymorth a ddarperir gan The Wallich<br>• Rhentu Doeth Cymru - cofrestru<br>• Gwaith partneriaeth gyda landlordiaid i ddarparu | • Cynllun bond (x6)<br>• Mae gan y Gweinyddwyr Bond gysylltiadau cryf â landlordiaid preifat "dibynadwy" (x2)<br>• Rhentu Doeth Cymru |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| gellid atal hysbysiadau Adran 21<br>• Cynllun Tai yn Gyntaf<br>• Rhent mewn taliadau ymlaen llaw | • Gwasanaeth cyngor ar atal<br>• Cydgysylltu â landlordiaid/fforwm landlordiaid<br>• Atgyfeiriadau gan landlordiaid ar gyfer cyngor ar ddigartrefedd<br>• Mae hysbysiadau Adran 21 yn tueddu i fod yn thema fawr Mae'r cyngor yn eithaf da wrth helpu rhywun i drosglwyddo i denantiaeth arall cyn i hysbysiad Adran 21 ddod i ben | hyb y sir. Cymorth a chyllidebu tenantiaeth lefel isel Gweithio gyda chleientiaid a'r Tîm Budd-daliadau Tai i wneud yn siŵr bod cais wedi'i gyflwyno. Hawlio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn hefyd lle mae'n briodol<br>• Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn<br>• Rhent ymlaen llaw<br>• Perthynas â'r Tîm Budd-daliadau<br>• Tai a rennir<br>• Amrywiaeth eang o'r mathau o eiddo sydd ar gael i'w rentu, e.e. fflatiau 1 ystafell wely i dai mawr corfforaethol. | • Mae staff yr Adran Tai yn wybodus, yn barod i helpu ac yn greadigol<br>• Defnydd rhagweithiol o gyllid atal i helpu i ddod o hyd i lety<br>• Man Gwybodaeth – yn gadarnhaol ac yn ymatebol wrth brosesu ceisiadau ar gyfer cymorth yn y sector rhent preifat<br>• Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn gymorth mawr ar gyfer ffoaduriaid<br>• Project Goleudy (rheolir gan Gymdeithas Tai Taf)<br>• Rhentu Doeth Cymru - cofrestru<br>• Gofyniad i gofrestru bondiau<br>• Y cymorth argyfwng sydd ar gael – Cymorth a Chefnogaeth ar gyfer Llety Dros Dro (TASA) | cymorth dros dro, gan ei gwneud yn haws<br>• Talu Credyd Cynhwysol yn uniongyrchol i'r landlord<br>• Mae'r cyngor yn cynnal sawl gweithgaredd i geisio adfer eiddo gwag i'w hailddefnyddio | |
| **Beth nad yw'n Gweithio'n Dda? Ble mae'r Diffygion?** | | | | | |
| **Blaenau Gwent** | **Caerffili** | **Sir Fynwy** | **Casnewydd** | **Torfaen** | **Rhanbarthol** |
| • Cymorth i bobl sy'n derbyn budd-daliadau<br>• Rhybudd cyn diwrnodau rhyddhau o'r carchar<br>• Rhenti uchel<br>• Eiddo mewn cyflwr gwael (x2)<br>• Dim digon o landlordiaid lleol<br>• Llety a rennir<br>• Ffioedd gweinyddol asiantaethau gosod (x2)<br>• Troi tenantiaid allan yn anghyfreithlon (x2)<br>• Diffyg eiddo 1 ystafell wely addas<br>• Cartrefi sy'n addas i bobl | • Dim modd fforddio'r rhenti uchel (x3)<br>• Gofynion gwarantwyr/prinder gwarantwyr (x4)<br>• Dim digon o lety sector rhent preifat hygyrch a geirdaon gwael<br>• Ni chaiff ffioedd gweinyddol asiantaethau gosod eu had-dalu<br>• Landlordiaid yn gwrthod tenantiaid sy'n derbyn budd-daliadau (x5)<br>• Diffyg llety fforddiadwy addas (x6)<br>• Diffyg ansawdd | • Diffyg tai fforddiadwy (x9). Nifer gostyngol o lety rhent preifat<br>• Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth/rhanddeiliaid (x2)<br>• Rhenti uchel (x4). Mae prisiau rhent wedi cynyddu'n aruthrol<br>• Fforddiadwyedd llety a rennir<br>• Dim cyfweliadau wyneb yn wyneb (ac eithrio ar gyfer y cynllun bond)<br>• Nid yw'r Lwfans Tai Lleol yn realistig o'i gymharu â rhenti<br>• Landlordiaid yn gwrthod tenantiaid sy'n derbyn budd- | • Cost llety preifat (x5)<br>• Oedi wrth dalu Credyd Cynhwysol<br>• Mae'r cyngor yn derbyn yr hyn y mae landlordiaid preifat yn ei ddweud wrth staff am ôl-ddyledion tenantiaeth blaenorol – dim digon o wirio<br>• Gofynion gwarantwyr<br>• Diffyg eiddo addas (x3)<br>• Diffyg eiddo i bobl dan 35 oed (x3)<br>• Diffyg cysondeb mewn safonau (x20<br>• Prinder landlordiaid preifat sy'n fodlon rhoi cynnig ar | • Diffyg llety a rennir (x3)<br>• Diffyg llety i bobl sengl<br>• Diffyg llety fforddiadwy (x5), yn benodol i bobl sy'n derbyn budd-daliadau neu gyn-droseddwyr<br>• Diffyg llety addas i bobl ifanc 16+ oed<br>• Diffyg llety wedi'i addasu<br>• Oedi wrth dalu Credyd Cynhwysol/taliadau yn uniongyrchol i'r landlord (x2)<br>• Asiantau landlordiaid – dethol y tenantiaid gorau (x2)<br>• Gofynion gwarantwyr (x2). Ni fydd landlordiaid rhent preifat | • Diffyg llety fforddiadwy sy'n derbyn tenantiaid sy'n rhan o gynllun bond neu'n cael Budd-dal Tai<br>• Cynllun bond (x3)<br>• Mae'n gynyddol anodd i'n cleientiaid gael hyd i lety rhent preifat e.e. yr angen am warantwyr (x3)<br>• Ni roddir gwybod am y costau uchel<br>• Landlordiaid preifat yn disgwyl gormod o gymhellion<br>• Prinder tai ar gyfer pobl sengl (x3) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| • Rhoddir cyngor gwych gan y Tîm Atebion Tai<br>• Llety mewn T/O (x2)<br>• Cronfa atal - Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn<br>• Swyddogion ar y safle<br>• Mae The Wallich yn rhagweithiol iawn<br>• Mae adeilad y cyngor yn Heol yr Eglwys, Glynebwy yn rhoi cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth alw heibio i gael cymorth a chyngor Mae asiantaethau partner yn eu defnyddio hefyd<br>• Cynnig cymorth penodol i helpu gwahanol grwpiau a allai fod mewn perygl e.e. Llwybrau Gwent ar gyfer cynlluniau troseddwyr/Sipsiwn/Teithwyr/ pobl hŷn<br>• Gweithiwr cyfryngu a ariennir gan Cefnogi Pobl<br>• Mae'r cyngor yn cynnal fforymau rheolaidd gyda darparwyr Cefnogi Pobl<br>• Timau llai sy'n cydweithio ac | • Cymorth ansawdd da ar gael ar draws y fwrdeistref<br>• Cymorth ansawdd da ar gael cyn argyfwng (x2)<br>• Swyddogion atal GOFAL a ariennir gan Cefnogi Pobl ar waith – enillwyr gwobr arloesedd y Sefydliad Siartredig Tai yn 2017<br>• Tîm Cymorth Tai a Digartrefedd y Cyngor Amrywiaeth da o gymorth<br>• Gwaith amlasiantaeth (x2). Perthnasoedd gweithio cadarnhaol ag asiantaethau partner. Timau aml-asiantaeth e.e. cymorth trais domestig, gwasanaethau plant a gwaith cyfryngu yn y tîm digartrefedd/tîm 16+ oed | • Mae gweithio yn yr ardal leol yn golygu bod staff ar gael i gynghori a chyrraedd yn gynnar<br>• Mae ymyrraeth gynnar â gwasanaethau'n gweithio'n dda<br>• Mae cymorth ar gael ac yn cael ei ariannu<br>• Porth Sir Fynwy – mynediad cyflym i ddefnyddwyr gwasanaeth (x3)<br>• Mae gan ddarparwyr berthnasoedd da ag asiantaethau eraill e.e. yr heddlu, gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.<br>• Gwasanaethau cyfryngu/cyfryngu i deuluoedd – helpu i gadw pobl mewn llety (DS: gall defnyddwyr gwasanaeth barhau i fanteisio ar wasanaethau cyfryngu mewn hosteli)<br>• Mae darparwyr yn hysbysebu eu | • Mae gwybodaeth a ddarperir yn gadarnhaol ac yn rhwydd cael hyd iddi<br>• Mae cymorth i garcharorion yn gweithio'n dda<br>• Mae'r gronfa atal digartrefedd yn effeithiol ac yn hyblyg (x5)<br>• Defnyddir Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn gadarnhaol gan y Tîm Tai (x3)<br>• Mae'r gwaith atal digartrefedd yn gadarnhaol iawn (x5)<br>• Cyfryngu Llamau<br>• Cysylltiadau cadarnhaol ar draws asiantaethau<br>• Partneriaeth dda rhwng Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chynghorau ag asiantaethau cymorth (x2)<br>• Mae gweithwyr cynhwysiant ariannol yn gadarnhaol (x2)<br>• Project y Goleudy<br>• Cymorth ar gyfer celcio - Mind<br>• Cysylltiadau agos â busnesau'r trydydd sector – Llamau/Pobl/Solas ac ati trwy gymorth tai Gateway | • Cymorthfeydd cyngor galw heibio<br>• Gweithio ar y safle yn rhoi ymyrraeth yn y fan a'r lle. Cyfle i ofyn am gymorth digartrefedd ac asesu ymateb<br>• Cynhelir cyfarfodydd rhwng darparwyr gwasanaeth ar gyfer cynllunio wrth gefn<br>• Gwasanaethau cyswllt cyntaf – Cymorth mewn argyfwng<br>• Defnyddio ymagwedd ar sail lleoliad – yn well i ddefnyddwyr gwasanaeth ac i ddarparwyr gydlynu/gydweithredu<br>• Gweithiwr Cymorth Tai Cefnogi Pobl yn Nhorfaen – yn cyd-fynd â rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf – wedi tynnu sylw at ddigartrefedd<br>• Mae darparwyr arbenigol yn gweithio yn Nhorfaen i ddiwallu anghenion penodol cleientiaid; darpariaeth fywiog y trydydd sector | • Deddf Tai Cymru – cefnogi atal cynnar<br>• Yn rhanbarthol, cynllun Cefnogi Pobl<br>• Sawl asiantaeth yn gweithio gyda'i gilydd – yn cefnogi gwasanaethau arbenigol, yn ogystal â rhai sy'n darparu gwasanaethau mwy cyffredinol<br>• Mae rhwydweithiau a fforymau CP yn gyfleoedd gwych ar gyfer rhannu gwybodaeth/rhwydweithio<br>• Cyfannol – mae'n darparu cymorth/ymyrraeth mewn argyfwng i helpu menywod i aros yn eu cartrefi eu hunain<br>• Mae darparwyr yn defnyddio ymagwedd ar sail lleoliad |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| sy'n gwybod beth yw eu cryfderau – timau sy'n gweithio'n agos gyda'i gilydd<br>• The Wallich – yn helpu i gyfeirio at gymorth/cofrestru a chefnogi rhywun sy'n ddigartref, gweithiwyr cymorth, gweithiwr paratoi ar gyfer cyn-droseddwyr<br>• Mae darparwyr Cefnogi Pobl wedi ymrwymo i Abritas – sy'n hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth | | gwasanaethau'n gynyddol e.e. helpu gydag ôl-ddyledion – felly rhoddir mwy o anogaeth i gael help cyn cyflwyno hysbysiad adran 21 i droi tenant allan<br>• Gall y Tîm Digartrefedd gael hyd i nodiadau Sprint i weld y cymorth a roddwyd yn y gorffennol | Casnewydd<br>• Mynediad i fwy o wasanaethau cymorth trwy un llwybr<br>• Mae Casnewydd yn lleoliad canolog – gwasanaeth hygyrch<br>• Gwaith partneriaeth – gorsaf gwybodaeth Project y Goleudy Cynllun bond Ymagwedd atal | • Mae Torfaen wedi datblygu/yn cynnal perthnasoedd da â thimau/darparwyr eraill (Tîm Atebion Tai a Chefnogi Pobl) Cydgadeirio Fforwm CP a Darparwyr Torfaen<br>• Torfaen – dyrannu cyllid CP – ar sail data/ymchwil cadarn Wedi'i gynllunio'n dda a'r hyn sy'n dod i'r amlwg yw'r comisiynu ar gyfer y flwyddyn sy'n dod<br>• Pobl yn llawer agosach at y cymunedau lle maen nhw'n gweithio e.e. ymagwedd ar sail lleoliad | |

## Beth nad yw'n Gweithio'n Dda? Ble mae'r Diffygion?

| Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen | Rhanbarthol |
|---|---|---|---|---|---|
| • Ymagwedd anffurfiol<br>• Diffyg llythyrau hysbysu ysgrifenedig<br>• Diffyg addysg<br>• Diffyg cymorth gyda chyllidebu<br>• Diffyg ymyrraeth â sgiliau ymdopi | • Diffyg gwybodaeth am atgyfeiriadau ac asesiadau anghyflawn neu nad ydynt yn drylwyr (x2)<br>• Asiantaethau'n codi disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth o'r hyn mae gwasanaethau tai'n gallu eu cyflawni<br>• Diffyg dealltwriaeth o ran pa gymorth sydd ar gael<br>• Diffyg cyfathrebu/negeseuon i annog pobl i geisio cyngor yn gynt fel y gellir gweithredu'n gynt<br>• Angen gwaith cyn argyfwng<br>• Dim digon o ganolfannau galw heibio ar gyfer cyngor<br>• Parhad o ran cyllid er mwyn cynllunio a chynnal gwasanaethau cymorth<br>• Gall fod yn fwy anodd mewn ardaloedd gwledig i ddarparu gwasanaethau<br>• Dim digon o ddarpariaeth gymorth gadarn ar gyfer anghenion uchel | • Gwasanaethau sy'n ymwneud â pharatoadau carchar<br>• Gwybodaeth gyson gan y Tîm Atebion Tai<br>• Diffyg gwybodaeth am atgyfeiriadau a gwybodaeth wallus<br>• Diffyg gwybodaeth am asesiadau risg<br>• Mwy o gymorth ar sail lefel y galw<br>• Diffyg gwasanaethau<br>• Diffyg mynediad i wasanaethau digidol - band eang/derbyniad gwael<br>• Llai o amser yn cael ei dreulio ar y broses atgyfeirio a rhestri aros<br>• Dim digon o wasanaethau yn yr ardal leol<br>• Sut caiff gwasanaethau yn yr ardal leol eu darparu?<br>• Amser rhwng asesiadau a dyrannu cymorth<br>• Llawer o gymorth mewn argyfwng ond dim digon o gymorth atal | • Mae cymorth i garcharorion yn gweithio'n dda<br>• Mae'r ddeddf newydd yn gwneud troseddwyr yn fwy agored i niwed<br>• Llwyth achosion sylweddol a chynyddol i swyddogion (x2)<br>• Gweithredu Deddf Tai Cymru – lefel biwrocratiaeth y broses – rhy gymhleth ar gyfer staff a chleientiaid (x2)<br>• Mae'r broses lofnodi'n rhy gyflym ar adegau – nid yw ymgeiswyr bob amser yn ymwybodol o'r hyn sy'n ofynnol<br>• Nid yw'r diffyg adnoddau a'r pwysau croes ynghylch sefydliadau yn ddefnyddiol (x2)<br>• Nid yw'r neges am rent ymlaen llaw i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cyrraedd pob asiantaeth a chleient yn llwyddiannus (x3)<br>• Mae'r cyngor yn aros 56 diwrnod ac yn gwneud penderfyniad bwriadol | • Cleientiaid heb eu hatgyfeirio i wasanaethau dyledion yn ddigon cyflym<br>• Caiff 'drws troi' ei greu pan fo cyfathrebu ar goll a chymorth yn gyfyngedig<br>• Pan fo gormod o asiantaethau'n ymwneud ag un cleient oherwydd problemau gwahanol, gall y defnyddiwr gwasanaeth fynd ar goll a drysu<br>• Mae'r gwasanaethau cydlynol yn dda, ond gelid eu gwella<br>• Diffyg gwybodaeth i'r rhai nad ydynt yn deall effaith diwygio lles e.e. Credyd Cynhwysol ar eu budd-daliadau<br>• Cyfeirio at yr asiantaeth ymyrryd briodol<br>• Gwasanaethau digartrefedd – cysylltir â defnyddwyr gwasanaeth dros y we neu'r ffôn gan mwyaf<br>• Efallai y byddai'n well gan ddefnyddwyr gwasanaeth | • Ymgysylltu gwael – dim ateb gwyrthiol<br>• Gall y cyngor/cymorth atal a gynigir gan y Tîm Atebion Tai amrywio'n fawr rhwng cynghorau Gwent<br>• Rydym yn dal i weld achosion lle mae'r cyngor i bob pwrpas yn 'hidlo' gwybodaeth<br>• Mwy o gymorth ataliol yn y gymuned i'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig – nid yn unig pan fyddwn yn gwybod am broblem ynglŷn â thai Gallai hyn gynorthwyo gyda ffordd allan sy'n fwy diogel a chynlluniedig<br>• Nid yw gweithwyr Shelter Cymru'n cydlynu'n dda ag asiantaethau eraill ar draws pob sector<br>• Gweithio ar y cyd/gweithio gyda rhai darparwyr CP – e.e. lle mae tenantiaeth ar y cyd a dau wasanaeth cymorth gwahanol ar waith<br>• Diffyg gwybodaeth sefydliadau partner am CP a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Sir Fynwy – yn ei gwneud yn fwy anodd atal digartrefedd – cysylltiadau teithio (x2) – mae cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli weithiau'n anodd i gleientiaid fanteisio arnynt oherwydd cysylltiadau trafnidiaeth gwael<br>• Gall fod yn anodd cyrraedd pawb ar draws yr awdurdod gwledig<br>• Prinder dewisiadau o ran llety symud ymlaen<br>• Caiff mynediad i wasanaethau cymorth tai Cyngor Sir Fynwy ei gynnig dros y ffôn – yn hytrach na bod yn yr ardal leol (x2)<br>• Dim digon o ymagwedd gydlynol rhwng darparwyr ac asiantaethau statudol eraill e.e. iechyd, addysg<br>• Nid yw darparwyr o anghenraid yn ymwybodol o wasanaethau ei gilydd neu'n gwybod am y datblygiadau diweddaraf yn y gwasanaethau hyn i gynnal ymagwedd fwy cydlynol<br>• Asesiadau risg – weithiau gall darparwyr gwasanaethau geisio trosglwyddo cyfrifoldeb i ddarparwyr eraill trwy fod yn rhy bwyllog yn yr wybodaeth a ddarperir<br>• Bwlch wrth ddarparu llety â chymorth dwys/lefel uwch (e.e. iechyd meddwl, cyffuriau, pobl ifanc)<br>• Nid yw gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cydweddu'n dda â gwasanaethau digartrefedd<br>• Mae gormod o flaenoriaethau gan Cefnogi Pobl nad ydynt yn ymwneud â thai | • Dealltwriaeth glir o'r rheolau presennol a sut i gael cymorth (x2)<br>• Diffyg cyllid ar gyfer projectau sy'n gwneud gwaith (x3)<br>• Dylai cyngor a chymorth fod yn fwy cyson (x5)<br>• Dealltwriaeth o gymorth ac asesiadau risg<br>• Diffyg cyfathrebu a chydweithio (x4)<br>• Diffyg gwaith cyn tenantiaeth ac addysg am gynilo ar gyfer tenantiaeth (x7)<br>• Lleihau'r meini prawf ar gyfer pobl ddigartref, angen mwy o oddefgarwch/ymagwedd amlasiantaeth/rhagor o weithwyr allgymorth<br>• Gwella hysbysebu'r cymorth sydd ar gael<br>• Sicrhau bod cyngor ar gael gan y cyngor dros y penwythnos<br>• Yn aml gall tai fod yn addas ond mae teuluoedd yn eu colli trwy fethu ag ymgysylltu â gwasanaethau a chynnal rhenti<br>• Problem gyda phobl y mae angen cymorth arnynt heb lawer o rybudd e.e. amrywiaeth o achosion – ceisio anwybyddu'r hyn sy'n digwydd, trais domestig, rhyddhau o'r ysbyty<br>• Mwy o weithio cydlynol – gwaith partneriaeth (e.e. pobl ar goll/risg uchel/camfanteisio'n rhywiol ar blant) a diogelwch cymunedol<br>• Ariannol/staffio (llwythi achosion)/amser cymorth y person<br>• Rheoli disgwyliadau – mae'r llwybr wedi newid<br>• Diffyg addysg/dealltwriaeth o | weithio gydag un person er mwyn osgoi gorfod ailadrodd pethau<br>• Rhaid i'r cymunedau wneud yn iawn am ddiffygion e.e. ymateb trwy sefydlu banciau bwyd<br>• Mae Swyddogion Digartrefedd yn cynorthwyo rhywun sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref dros y ffôn – efallai na fyddwn yn cael cymaint o wybodaeth dros y ffôn ar gyfer asesiad ag a geir wyneb yn wyneb<br>• Mae'n gyffredin i'r un bobl barhau i ddod atom. Mae pobl yn tueddu i ddod yn ôl trwy'r system, oherwydd bywydau anhrefnus a chan nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth i ddatrys problemau y tro cyntaf.<br>• Yn Nhorfaen, pan gaiff rhywun ei atgyfeirio i Gynghrair Gwirfoddol Torfaen (CGT) – mae'n cymryd 2-3 mis o aros i gael cymorth iddynt (er y bydd CGT yn rhoi cyngor safonol dros y ffôn)<br>• Cefnogi Pobl – osgoi cyllid dwbl – os yw rhywun yn cael cymorth mewn llety dros dro ar gyfer iechyd meddwl a bydd yn colli'r hen gymorth a ariennid gan CP a dechreuir derbyn cymorth newydd, gall fod yn fwy anodd i'r unigolyn – bydd yn colli'r berthynas/chymorth a oedd ganddo(er na chredir bod hyn yn cael effaith fawr yn Nhorfaen)<br>• Camau rhesymol – mae'n dibynnu ar y rhan a | manteisio ar wasanaethau digartrefedd<br>• Cymorth sydd ar gael i bobl nad ydynt yn flaenoriaeth ond sy'n ddigartref<br>• Diogelu data/rhannu gwybodaeth rhwng y rhanbarthau<br>• Gwahaniaethau mewn systemau rheoli cleientiaid, gwahaniaethau yn systemau Gateway a gwahanol ymagweddau o ran technolegau cynorthwyol<br>• Ymyrraeth gynnar – ond weithiau nid yw'n ddigon cynnar (x2). Does dim digon o ymyrraeth yn gynt i atal argyfwng e.e. cymorth iechyd meddwl neu gyllidebu<br>• Swyddogion yn gweithio'n rhanbarthol – y brif broblem i'w goresgyn yw'r gwahanol delerau ac amodau sydd gan gyflogwyr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Cyswllt y Tîm Atebion Tai/Gateway Dim un gronfa ddata gyson. Arwain at ddyblygu ar gyfer cwsmeriaid/cleientiaid<br>• Mae rhai pobl yn parhau i ddod yn ôl trwy'r broses. Mae rhai pobl yn rhy sâl/yn byw'n rhy anhrefnus i gael eu helpu'n effeithiol, mae'n debyg<br>• Gall fod yn anodd perswadio pobl y mae angen cymorth arnynt i ddatgelu eu hamgylchiadau llawn<br>• Oni bai bod achos yn frys, gallai fod angen aros yn hir iawn i gael cymorth<br>• Os oes angen cymorth arbenigol ar rywun sydd i bob golwg yn ddigartref, ond nad oes dim ar gael, 'mae popeth yn dod i ben'<br>• Mae'r cyngor a phartneriaid yn defnyddio systemau TG gwahanol gan gynnwys adrannau mewnol yn y cyngor<br>• Hyfforddiant/deall deddfwriaeth tai ymhlith darparwyr | ran helaeth o gymorth ac ati, yna mae rhywun yn troi'n 18 oed<br>• Y siop dan yr unto yng Nghasnewydd yn methu<br>• Diffyg dealltwriaeth o ddigartrefedd, er gwaethaf addysg<br>• Dyheadau hen ffasiwn<br>• Adolygiadau o achosion difrifol oherwydd diffyg adnoddau - yn arwain at achos cyfreithiol<br>• Trothwyon ariannol/cynllunio cyllidebol y Gwasanaethau Cymdeithasol – anodd oherwydd y galw cynyddol<br>• Cyllid – Risgiau i gyllid CP – toriadau i wasanaethau<br>• Awdurdodau lleol eraill yn lleoli achosion risg uchel yng Nghasnewydd heb roi gwybod i'r awdurdod lleol<br>• Darpariaeth arbenigol ar gyfer grwpiau penodol (e.e. masnachu pobl)<br>• Achosion anodd eu cyrraedd (diffyg opsiynau)<br>• Problemau rhannu gwybodaeth<br>• Bwlch rhwng systemau (CCM – Civica)<br>• Gwasanaethau cyfryngu | chwaraeir gan y person sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref h.y. y cyfrifoldeb mae'n ei gymryd dros helpu ei hun Gall fod yn broblem fawr gydag achosion cymhleth – maent yn parhau i ddod yn ôl trwy'r system Gall hynny fod yn broblem ddifrifol o ran dod o hyd i lety newydd lle mae pobl wedi 'llosgi pontydd' gyda landlordiaid yn y gorffennol<br>• Dibynnu'n fwyfwy ar TG, ond gall hynny fod yn broblem i rai defnyddwyr gwasanaeth (x3)<br>• Gwybodaeth am hyfforddiant ac arfer gorau – rhwydwaith darparwyr eang yn Nhorfaen – gall rannu gwybodaeth e.e. hyfforddiant ynglŷn â chyffuriau | |
| **Sut gallwn ni wella?** | | | | | |
| **Blaenau Gwent** | **Caerffili** | **Sir Fynwy** | **Casnewydd** | **Torfaen** | **Rhanbarthol** |
| • Parhau â chyllid CP<br>• Adolygu gwaith papur atgyfeiriadau i lety dros dro<br>• Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â defnyddwyr gwasanaeth a darparu'r wybodaeth gywir<br>• Darparu mwy o gymorth yn ôl yr angen e.e. The Wallich<br>• Mwy o weithio cydlynol<br>• Hyrwyddo Cefnogi Pobl yn fwy – gwefan i ddefnyddwyr | • Mwy o gyhoeddusrwydd i annog pobl i weithredu'n gynt os ydynt mewn perygl o fod yn ddigartref (x3)<br>• Gwella dealltwriaeth o ddiwygio lles/budd-daliadau<br>• Gwell marchnata ar gyfer Shelter Cymru, Mind, cymorth gyda chyffuriau ac alcohol a banciau bwyd<br>• Marchnata eglwysi'n well a'u helpu'n fwy i agor eu drysau i | • Gwell hysbysebu - hyrwyddo<br>• Mwy o waith cydlynol yn y cyngor ac asiantaethau cymorth i lenwi bylchau<br>• Mwy o gyfathrebu a pharhad cyllid Cefnogi Pobl<br>• Angen cymorthfeydd galw heibio<br>• Mwy o gysondeb rhwng Cefnogi Pobl a darparwyr<br>• Hyfforddiant gwell i staff ar Gredyd Cynhwysol (x2) | • Dim ond os oes llinellau cyfathrebu clir ar gael y mae ymyrraeth yn effeithiol Agor llinellau cyfathrebu a lliniaru problemau wrth rannu gwybodaeth<br>• Angen nodi cymorth yn gynt<br>• Cynyddu ymwybyddiaeth o gostau sy'n gysylltiedig â thai (x4)<br>• Angen cyllid parhaus i brojectau | • Addysg mewn ysgolion<br>• Gwaith cydlynol gwell a strategaeth well ar gyfer nodi pobl cyn i sefyllfa droi'n argyfwng<br>• Gwasanaethau hygyrch sy'n delio wyneb yn wyneb â phobl<br>• Mwy o gyllid ar gyfer gwaith ychwanegol<br>• Parhad cyllid Cefnogi Pobl<br>• Cymorth mewn argyfwng | • Addysg am ddigartrefedd – Dilyn esiampl Caerffili – mynd i ysgolion, ymyrraeth gynnar<br>• Comisiynu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddarparu gwasanaethau/cymorth yn yr ardal leol<br>• Cyfle i gael cyngor brys ar dai mewn argyfwng<br>• Landlordiaid i nodi tenantiaid yn gynnar iawn sydd ag |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| gwasanaeth y gall defnyddwyr gwasanaeth eu defnyddio hefyd i roi adborth<br>• Mae annog cynghorwyr i chwarae mwy o rôl yn y gwaith yn allweddol – angen tynnu mwy o sylw at agwedd wleidyddol digartrefedd<br>• Gellid ailstrwythuro timau er mwyn cynnal gweithio gwell e.e. gwaith Cefnogi Pobl yn y Gwasanaethau Cymdeithasol Dewisiadau/Atebion Tai yn Adran yr Amgylchedd – ond mewn Diogelu'r Cyhoedd Strategaeth Tai yn Adran yr Amgylchedd – ond mewn Adfywio Mae Blaenau'n cynnal rhaglen ailstrwythuro rheolaeth ar hyn o bryd a allai newid y sefyllfa | bobl ddigartref<br>• Addysg a mwy o dosturi<br>• Marchnata'r gwasanaethau sydd ar gael yn well<br>• Angen cynorthwyo ymgeiswyr i ddefnyddio technoleg i gael budd-daliadau ac ati<br>• Defnyddio'r data rydym yn ei gasglu i wella sut rydym yn gweithio<br>• Cronfeydd data cyffredin e.e. defnyddir Civica ar draws gwasanaethau a'r awdurdodau lleol<br>• Cyfarfodydd rhithwir, e-bost, cyfweliadau | • Gwella'r cyngor/cymorth ariannol a roddir<br>• Cyngor i'w weld yn y llyfrgell (taflenni megis Turn2Us heb orfod siarad ag ymgynghorydd yn gyntaf)<br>• Blaenoriaethau – atal digartrefedd - mwy – ddulliau cymorth ar gyfer problemau emosiynol, camddefnyddio sylweddau, problemau perthnasoedd, cyngor ariannol, iechyd meddwl, NEETs<br>• Cyflwyno'r cysyniad o Amgylcheddau ar sail Gwybodaeth Seicolegol gyda'i 5 elfen e.e. Solas<br>• Defnyddio technoleg e.e. Skype (x2)<br>• Ailgyflwyno fforwm darparwyr CP yn Sir Fynwy i rannu gwybodaeth/arfer gorau - ystyried gwahanol ddulliau o ddatrys problemau yn y fforwm<br>• Cyfle – Defnyddio'r sector gwirfoddol e.e. Gateway Church, eglwysi Trefynwy a banciau bwyd<br>• Gwella gwefan y cyngor/Homesearch – rhagor o ddewisiadau hunangymorth<br>• CP – cyfle i dreialu cynlluniau lle gallai fod bylchau<br>• Cyfle - Cefnogi Pobl a Grŵp Cynllunio ar gyfer Digartrefedd Mwy o gysondeb â Chefnogi Pobl | • Angen mwy o addysg mewn ysgolion – rhan o'r cwricwlwm (x4)<br>• Gwella cysylltiadau ar draws pob asiantaeth wrth ddarparu cyngor – angen neges fwy eglur<br>• Mwy o waith gyda chleientiaid anhrefnus<br>• Mwy o waith ymyrraeth gynnar (x3)<br>• Mwy o leoedd mewn hosteli/llety dros dro a mwy o ymyrraeth<br>• Rhagor o swyddogion i ganolbwyntio ar waith Cynhwysiant Ariannol<br>• Hyfforddiant gwell ar gyfer staff yr awdurdod lleol<br>• Ymyrraeth gynnar a mwy o wybodaeth gan asiantaethau allanol<br>• Gweithwyr allgymorth yn darparu gwybodaeth am lwybrau a mynediad cyflym i dai cymorth/ymagwedd amlasiantaeth<br>• Rhoi cyngor a chymorth cywir<br>• Mae cyfleusterau MASH newydd yn gweithredu'n gynt<br>• Cynllun rhannu – cyfleoedd i ddatblygu<br>• Cynllun Tai Personol (nid ar gyfer swyddogion tai yn unig)<br>• Gallai landlordiaid preifat ddefnyddio porth atgyfeirio Cefnogi Pobl<br>• Addysg am dai a chyllidebu – rheoli disgwyliadau | • Lle ar gael y gellir mynd iddo yn ystod dyddiau'r wythnos ac ar y penwythnos i gael cymorth wyneb yn wyneb gan y cyngor ynglŷn â digartrefedd<br>• Cymorth gyda dyled a chyngor ar arian (x5)<br>• Civica – yn cael ei gyflwyno o hyd. Galluogi cydlynu, monitro a rhannu gwybodaeth yn well (x2). Bydd CP yn gallu defnyddio'r data fel gwybodaeth fyw yn gynyddol lle ceir galw/bylchau, er mwyn helpu wrth gynllunio gwasanaethau<br>• Cyfle i ddarparwyr ehangu cynlluniau llwyddiannus 2018/19 e.e. Gwalia – CGT ym Mhont-y-pŵl – gwasanaeth galw heibio Ehangu yn y pen draw i leoliadau gwahanol yn Nhorfaen? Cwmbrân ac ati<br>• 'Protocol Shelter' yn Nhorfaen – ar waith ers tair blynedd – rhwydwaith digartrefedd wedi'i hyrwyddo hefyd a dim ond ychydig gyfarfodydd sydd wedi'u cynnal e.e. person o Shelter yn mynd i swyddfeydd CBST unwaith y mis<br>• Bydd CBST yn cynnal cymorthfeydd mewn gwahanol ardaloedd yn Nhorfaen – wedi'u treialu ers dechrau 2018, felly bydd rhaid i Swyddogion Digartrefedd gwrdd wyneb yn wyneb â phobl sy'n dod atynt Cyfle gwell i gael mwy o wybodaeth am achos rhywun – mae pobl yn tueddu i ddatgelu mwy o wybodaeth wyneb yn wyneb, | unrhyw broblemau a chysylltu â'r Tîm Atebion Tai<br>• Sicrhau neges gyson ar draws Gwent o ran pa le i fynd iddo i gael cymorth a chyngor – sicrhau bod cymorth a chyngor ar gael ar bob adeg – parhau i ariannu Cefnogi Pobl<br>• Cydweithio â Shelter Cymru, croesgyfeiriadau a gweithwyr ynghlwm<br>• Gwella cymorth pan nad oes angen blaenoriaethol (x2)<br>• Llai o waith papur i gwblhau (x2)<br>• Lleihau cymaint â phosib o ofn pobl wrth fynd at wasanaethau am gymorth<br>• Sicrhau bod landlordiaid preifat yn gwbl ymwybodol o'r holl gyfleoedd am gymorth sydd ar gael<br>• Hysbysu landlordiaid preifat ymhellach o effaith gadarnhaol ymgysylltu'n gynt<br>• Mwy o ddefnydd ar wefan DEWIS<br>• Symud i sianeli digidol – effaith ar sut mae gwasanaethau'n rhyngweithio â chwsmeriaid – e-gymorthfeydd<br>• Datblygu effeithiolrwydd mesurau ataliol cynnar e.e. llwyddodd y frigâd dân i gyflawni gostyngiad 70% o ran tanau ar ôl defnyddio ymagwedd fwy ataliol<br>• Safoni ymagweddau, arfer, gwybodaeth a chyngor cymaint â phosib<br>• Defnyddio'r Ddeddf Rhentu Tai – hwyluso'r ffordd ar gyfer rhannu/tenantiaethau ar y cyd<br>• Gallai Shelter wneud mwy yn swyddfeydd lleol y cyngor i |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yn ôl pob sôn Os bydd llawer o bobl yn dod i gymorthfeydd gydag ymholiadau cyffredinol am dai, gellid gofyn i Swyddog Homeseeker fod yn bresennol os gallai fod angen cynnig mwy o gyngor<br>• Cynrychiolydd o Shelter i ddod i Bontsychan unwaith yr wythnos i drafod problemau a'u datrys cyn i sefyllfa waethygu?<br>• Does dim trefniad gyda chwmni tacsis i helpu rhywun o ran trafnidiaeth y tu allan i'r ardal ar gyfer llety brys – ydy hynny'n bosibl? A oes angen amdano? | helpu i atal achosion newydd<br>• Gwell dealltwriaeth o effaith gamblo yng Ngwent<br>• Ymgorffori safon 'Tir Cyfartal' Shelter<br>• Rhannu data am deuluoedd/unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau ar draws y rhanbarth – rhesymau dros fethiannau/lwyddiannau Mapio teithiau teuluoedd/unigolion trwy'r system a'r angen am ymyriadau – cronfa ddata canlyniadau a rennir<br>• Cyfle i dderbyn therapïau gwybyddol a chreu gwydnwch<br>• Mae'n bwysig parhau i fanteisio ar ewyllys da gwirfoddolwyr a chymunedau ffydd<br>• Gwneud gwell defnydd o wefannau i helpu i reoli galw a gwella'r amrywiaeth o wybodaeth ar y we, a'i safon a'i chynnwys – rhannu adnoddau<br>• Darparu cymorth tymor hwy a pharhaus h.y. 'mae'r drws bob amser ar agor', i helpu i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu/ailddigwydd |

## 6.5.25 Cronfeydd Atal Digartrefedd/Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn

### Beth sy'n Gweithio'n Dda?

| Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen | Rhanbarthol |
|---|---|---|---|---|---|
| • Cyllid ar gael<br>• Ymatebol iawn<br>• Gwaith partneriaeth da<br>• Llwyddiant yn gweithio gyda chynghorau i helpu pobl | • Defnyddio o ran atal – gweithredu fel offeryn camau rhesymol defnyddiol hefyd<br>• Hawdd derbyn Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn a ffurflenni cais hwylus | • Ymagwedd hyblyg ac arloesol e.e. gwarantau rhent<br>• Mae'r Tîm Atebion Tai yn defnyddio'r grant gwasanaethau digartrefedd yn rheolaidd i dalu ôl-ddyledion rhent dros dro lle | • Atal mwy o achosion o droi tenantiaid allan/mwy o waith atal cadarnhaol<br>• Cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cyngor a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig – canlyniadau da (x2)<br>• Dulliau cyfathrebu da a | • Mae gan CBST (a CSF) Bolisi Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn cadarnhaol – gwariant gorau yng Nghymru; dylid efelychu hyn ar draws Cymru<br>• Mae Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn helpu gydag | • Mae'r gronfa atal yn ddefnyddiol iawn wrth atal digartrefedd a helpu pobl i ddod o hyd i lety diogel. Angen mwy o ffocws<br>• Caiff achosion o droi allan eu hatal trwy dalu ôl-ddyledion<br>• Mae Shelter Cymru yn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | mae oedi wrth dalu Budd-dal Tai/Credyd Cynhwysol<br>• Hyblyg o ran sut mae'r cyngor yn defnyddio'r 'gronfa gwario i arbed' er mwyn cefnogi atal | dealltwriaeth dda – mae'r Tîm Atebion Tai yn ymgysylltu'n dda i geisio osgoi troi pobl allan ar bob cyfrif (x2)<br>• Mae'r gronfa atal yn effeithiol wrth atal troi tenantiaid allan – mae'r cyngor yn ei defnyddio mewn modd hyblyg a chreadigol (x9)<br>• Mae Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn gweithio'n dda pan fo pobl yn cael arweiniad a chymorth (x2) | ôl-ddyledion<br>• Gweinyddu a dyfarniadau<br>• Dealltwriaeth gan dimau ariannol o'r defnydd o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn<br>• Yr amser a gymerir i geisiadau gael eu prosesu<br>• Caiff achosion o droi pobl allan eu hatal trwy ddyfarnu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn<br>• Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn a gwaith atal digartrefedd ardderchog<br>• Proses rwydd i dderbyn Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn | effeithiol iawn wrth herio penderfyniadau cynghorau – oherwydd y ffyrdd amrywiol o ddehongli'r ddeddfwriaeth ynglŷn â thai |
| **Beth nad yw'n Gweithio'n Dda? Ble mae'r Diffygion?** | | | | | |
| **Blaenau Gwent** | **Caerffili** | **Sir Fynwy** | **Casnewydd** | **Torfaen** | **Rhanbarthol** |
| • Penderfyniadau o ran Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn – angen ymateb yn gynt<br>• Cyfyngiadau ar gyllidebau a thoriadau parhaus bob blwyddyn Gorwariant mewn rhai meysydd yn y cyngor e.e. mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gorwario bob blwyddyn ond mae'n anodd cynllunio gan fod nifer y bobl mae angen cymorth arnynt wedi dyblu dros y 18 mis diwethaf | • Mae'r prosesu'n cymryd gormod o amser<br>• Ddim yn gwybod pa mor hir y bydd ar gael | • Ymwybyddiaeth o gyllid<br>• Annog pobl i symud i eiddo llai – diffyg ymgysylltu â'r broses ddyrannu i symud<br>• Diffyg ymwybyddiaeth o ddigartrefedd<br>• Mae'r Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn sy'n cael eu dyrannu yn rhy isel; dim digon o gyllid<br>• Diffyg tai ar hyd a lled Sir Fynwy<br>• Dim digon o lety addas<br>• Fforddiadwyedd llety rhent preifat<br>• Dyblygu rolau mewn timau gwahanol – nid yw'n glir i gleientiaid â phwy maen nhw'n delio. Ymagwedd ddwbl – weithiau mae asiantaethau gwahanol yn cysylltu â'r cleient ar ôl cais digartrefedd<br>• Ardal ddaearyddol fawr – rhaid i weithwyr cymorth | • Gellid gwneud defnydd mwy penodol o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn ac osgoi rhuthro i'w gwario ar ddiwedd y flwyddyn (x2)<br>• Ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael (x3)<br>• Ystyrir Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn ateb ond nid yw'n ateb hirdymor (x4)<br>• Angen mwy o gyllid (x5)<br>• Ymatebion araf ac oedi<br>• Mae'r broses yn rhy gymhleth ar adegau (x2)<br>• Diffyg cymorth o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn i droseddwyr rhywiol cofrestredig<br>• Nid yw gweithwyr cymorth yn ymwybodol o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn rhai achosion (x2)<br>• Ymagwedd anghyson at benderfynu o ran Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yng Nghasnewydd – mae'n debyg | • Diffyg ymwybyddiaeth o'r dewisiadau i helpu<br>• Amser a gymerir i brosesu'r dyfarniadau (x3)<br>• Mae'r diwygiadau lles newydd yn cael effaith uniongyrchol ar allu pobl i dalu rhent, gan arwain at ddigartrefedd<br>• Mae'n cymryd yn rhy hir os oes argyfyngau<br>• Parodrwydd cynghorau i adlenwi/gyfrannu at y gronfa | • Nid yw rhai cynghorau o hyd yn gwario eu cyllidebau TTD cyfan Gallent wneud mwy i gynorthwyo tenantiaid<br>• Oedi<br>• Arfer anghyson ar draws cynghorau wrth ddyrannu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn a chronfeydd atal digartrefedd<br>• Pot sengl ar gael<br>• Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â digartrefedd yn nodi nad yw'r "ddyletswydd i atal" yn ariannu llety mewn rhai achosion. Yn lleihau atal ar gyfer pobl sydd heb gyfeiriad sefydlog?<br>• Cyllid atal digartrefedd 3 blynedd gyson<br>• Diffyg cysondeb wrth ddyrannu cyllid<br>• Ansicrwydd ynghylch cyllid CP – yr uwch-grant a chael gwared ar glustnodi cyllid |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | deithio pellter hir rhwng cleientiaid<br>• Cyllid dan fygythiad – Digartrefedd – nid yn sympathetig i'r grŵp cleientiaid o'i gymharu â meysydd eraill megis y Gwasanaethau Plant<br>• Diffyg adnoddau – ariannol a staffio (x2) | bod hyn yn ddibynnol ar y flwyddyn y gwnaed y cais (x2) | | Cefnogi Pobl A oes modd i arian sydd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau digartrefedd gael ei ddefnyddio yn rhywle arall ar gyfer projectau sy'n fwy poblogaidd yn wleidyddol? |
| **Sut gallwn ni wella?** | | | | | |
| **Blaenau Gwent** | **Caerffili** | **Sir Fynwy** | **Casnewydd** | **Torfaen** | **Rhanbarthol** |
| | • Cymorth ariannol tymor byr dros dro wrth addasu i'r cap budd-daliadau | • Mwy o ymwybyddiaeth o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn; mwy o gyllid<br>• Fforddiadwyedd llety rhent preifat a phrydlesi'r sector preifat | • Angen ymagwedd fanylach gan dîm budd-dal tai'r cyngor (x2)<br>• Gwell dealltwriaeth o gyllideb Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (x2)<br>• Dylid symud y gyllideb TTD i'r Tîm Atebion Tai er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gronfa sydd ar gael a cheisio cynyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn y dyfodol<br>• Symud y gronfa i'r Tîm Tai a chyfuno cyllid ag adnoddau atal – gwneud defnydd gwell o'r cyllid (x5)<br>• Mwy o wybodaeth am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan y cyngor (x4)<br>• Mwy o ymwybyddiaeth o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn i bawb<br>• Dylai gweithwyr cymorth gael mwy o hyfforddiant ynglŷn â Thaliadau Tai yn ôl Disgresiwn a'r defnydd o'r gronfa atal/dewisiadau o ran ei defnydd (x3)<br>• Dylid ychwanegu cyllid o wasanaethau iechyd ac asiantaethau eraill – ystyrir hyn yn fater tai (x3) | • Angen ystyried dyrannu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i gymorthdalu tai 2 ystafell wely galw isel ar gyfer pobl sengl/cyplau y mae'r Dreth Ystafell Wely yn effeithio arnynt<br>• Cynnig Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i atal troi tenantiaid allan<br>• Hyrwyddo ymwybyddiaeth o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn (x2) | • Angen cyllid parhaus ar wasanaethau digartrefedd ar draws Gwent i sicrhau y gall yr holl waith atal da ddod yn wasanaeth parhaol, nid ysbeidiol pan fo cyllid ychwanegol yn digwydd bod ar gael<br>• Codi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael<br>• Gweler adroddiad Shelter Cymru am y gwariant Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn 2017/18 a'r ymgyrch 'Waste Not Want Not' |

| 6.6 Pwyntiau Allweddol: |
| --- |
| • Mae Adran 6, wedi'i hychwanegu at yr adrannau blaenorol, yn rhoi darlun mwy eglur o'r heriau sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau digartrefedd, diffygion ymarferol ac atebion posib yn fwy lleol.<br>• Mae'r holl ymgynghoriad wedi'i grynhoi yn Adran 6 i'w wneud yn haws ei amgyffred ac yn haws i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar flaenoriaethau, er mwyn helpu i ddatblygu camau gweithredu ymarferol dros y blynyddoedd nesaf. |

# 7. Dadansoddiad Lleol: Defnydd Awdurdodau Lleol o Gyllid Statudol

7.1 Mae Adran 7 yn ystyried y defnydd o gyllid ym mhob un o'r awdurdodau lleol a sut mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau digartrefedd statudol Soniwyd am ddiogelu cyllid digartrefedd sawl gwaith yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r arolwg defnyddwyr gwasanaeth yn benodol yn pwysleisio pam mae buddsoddi mewn gwasanaethau digartrefedd statudol mor bwysig – dywedodd 132 o 165 y byddent yn mynd at y cyngor yn gyntaf i geisio cymorth, cyn unrhyw asiantaeth arall.

7.2 Mae Tabl 7.2.1 isod yn rhoi crynodeb o'r ffyrdd mae awdurdodau lleol wedi defnyddio cyllid statudol dros y 2-3 blynedd diwethaf:

| | |
|---|---|
| **Blaenau Gwent** | • **2015-16:** Ymunodd Atebion Tai a Chefnogi Pobl mewn partneriaeth ranbarthol â Thorfaen a Sir Fynwy am gynllun peilot hyd blwyddyn i gynnal project rhanbarthol sy'n gweithio gyda charcharau, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau lleol i helpu i sicrhau proses bontio lwyddiannus o'r carchar i lety ar gyfer carcharorion.<br>• **2015-16:** Caffaelwyd system TGCh newydd a fydd yn rhoi system rheoli achosion i'r Tîm Dewisiadau Tai.<br>• **2015-16:** Wedi cynyddu'r Gronfa Atal Digartrefedd.<br>• **2015-16:** Rhaglen Tai a Rennir/Hyfforddiant – Gwnaeth CP a Gwalia ariannu swyddog ar y cyd i ddatblygu'r Cynllun Tai a Rennir am flwyddyn.<br>• **2015-16:** Sector Rhent Preifat/Swydd CALl Cefnogi Tenantiaid – I ddatblygu perthnasoedd â landlordiaid y sector preifat i ddod o hyd i atebion llety ar gyfer pob aelwyd sy'n ceisio cymorth.<br>• **2015-16:** Hyfforddiant – Deddf Tai 2014<br>• **2015-16:** Costau staffio a rheoli eraill.<br>• **2016-17:** Swyddog Llety Dros Dro – i ariannu swydd llety dros dro trwy Gwalia a fydd yn cael ei hintegreiddio yn y Tîm Atebion Tai.<br>• **2016-17:** Wedi darparu adnoddau ychwanegol at yr agenda atal digartrefedd.<br>• **2016-17:** Swyddog Llety Dros Dro.<br>• **2016-17:** 1 swydd CALl – gweithio gyda charcharau, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau lleol i sicrhau proses bontio lwyddiannus o'r carchar i lety.<br>• **2016-17:** Hyfforddiant System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (SMIDT) – 3 swyddog<br>• **2016-17:** Hyfforddiant – Deddf Tai 2014. Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ofalgar<br>• **2016-17:** Diweddaru'r Polisi a'r Gweithdrefnau Dyrannu |

| | |
|---|---|
| | Tai<br>• **2016-17:** Datblygu modiwl meddalwedd newydd i gynnal y cysylltiadau rhwng y Tîm Atebion Tai a Chefnogi Pobl ac uwchraddio meddalwedd ychwanegol gyda hyfforddiant cysylltiedig.<br>• **2016-17:** Costau staffio a rheoli eraill.<br>• **2017-18:** Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (TTD) er mwyn rhoi taliadau ychwanegol at Fudd-dal Tai i denantiaid y sector rhent preifat y mae diffyg yn eu rhent.<br>• **2017-18:** Y Gronfa Atal i ddarparu adnoddau ychwanegol at yr agenda atal digartrefedd.<br>• **2017-18:** Protocol tywydd oer i sicrhau bod y Cyngor yn cymryd y camau angenrheidiol i osgoi marwolaethau ar y strydoedd trwy weithredu ar unwaith.<br>• **2017-18: Swyddog Ymchwil** 1 swydd CALl – Project rhanbarthol mewn partneriaeth â Thorfaen, Sir Fynwy, Caerffili a Chasnewydd) i ddatblygu strategaeth digartrefedd ar y cyd.<br>• **2017-18:** Hyfforddiant pwrpasol.<br>• **2017-18:** Costau staffio a rheoli eraill. |
| **Caerffili** | **2016-17:** Y cyllid pontio ar gael oedd £184,446 a defnyddiwyd hwn yn bennaf i gynyddu mynediad i'r sector rhent preifat ar gyfer gweithgareddau atal digartrefedd a gweithgareddau atodol eraill – yn debyg i 2017-2018 isod.<br>**2017-18:** Y cyllid pontio oedd £172,200, y defnyddiwyd dros ei hanner i gynorthwyo aelwydydd naill ai i aros neu symud i lety rhent preifat ac felly atal digartrefedd.<br>**2017-18:** Costau staffio.<br>**2017-18:** Hyfforddiant.<br>**2017-18:** Cymorth yn ystod y gaeaf i bobl sy'n cysgu ar y stryd.<br>**2017-18:** Datblygu cynllun tai a rennir.<br>**2017-18:** Mentrau landlordiaid y sector rhent preifat a hyrwyddo'r sector rhent preifat.<br>**2017-18:** Mae cyllid Cefnogi Pobl wedi bod yn hanfodol i barhau i ddarparu cymorth yn y cynlluniau llety brys a thros dro ac roedd cyllideb Cronfa Gyffredinol yr Adran Dai ar gyfer gwasanaethau digartrefedd yn parhau'n ddigyfnewid, yn hytrach na chael ei lleihau oherwydd mesurau cyni.<br>**2018-19:** Mae'r Gwasanaeth Atal Digartrefedd wedi dod yn rhan o drefniadau ariannu craidd yr awdurdod i alluogi Caerffili i barhau i ddatblygu a chynyddu dewisiadau tai ehangach a chanolbwyntio ar yr adnoddau angenrheidiol y mae eu hangen arno i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth llawn ac ymatebol. |
| **Sir Fynwy** | **2015-16 –** Yr arian pontio ar gael oedd £127,873.<br>Ymunodd Atebion Tai a Chefnogi Pobl mewn partneriaeth ranbarthol â Thorfaen a Sir Fynwy am gynllun peilot hyd blwyddyn i gynnal project rhanbarthol sy'n gweithio gyda |

| | |
|---|---|
| | charcharau, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau lleol i helpu i sicrhau proses bontio lwyddiannus o'r carchar i lety ar gyfer carcharorion. (Gweithiwr Paratoi.)<br>Ymunodd â'r un system TGCh â CBST i ddarparu system rheoli achosion i'r Tîm Dewisiadau Tai.<br>Wedi cynyddu'r Gronfa Atal Digartrefedd.<br>Penodwyd Swyddog Cynhwysiant Ariannol.<br>Penodwyd Cynorthwy-ydd Llety.<br>**2016-17** – Yr arian pontio ar gael oedd £73,737**.**<br>Atal digartrefedd trwy ddarparu bondiau a rhent ymlaen llaw i aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, neu i glirio dyledion ac ôl-ddyledion i alluogi aelwydydd i aros yn eu cartrefu eu hunain.<br>Cydariannu gweithiwr PGAC i weithio gyda phobl sy'n gadael y carchar a'u hailsefydlu.<br>Cynorthwy-ydd Llety<br>Swyddog Cynhwysiant Ariannol<br>System TGCh newydd – Model Digartrefedd ac Atal.<br>Sefydlu a hyrwyddo asiantaethau gosod cymdeithasol a chymhellion.<br>Hyfforddiant y Ddeddf Tai.<br>Hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru<br>**2017-18 –** Yr arian pontio ar gael oedd £94,731.<br>Hyrwyddo asiantaethau gosod cymdeithasol.<br>Cynorthwy-ydd Llety<br>Uwchraddio hosteli i deuluoedd.<br>Sefydlu a hyrwyddo rhannu tai.<br>Protocol Brys Tywydd Garw<br>Cymhellion i landlordiaid y sector rhent preifat.<br>Sefydlu a hyrwyddo asiantaethau gosod cymdeithasol a chymhellion.<br>Cyfrif y bobl sy'n cysgu ar y stryd<br>Swyddog Llety Pobl Ifanc |
| **Casnewydd** | **2015/16** –<br>Yr arian pontio ar gael oedd £243,789.<br>**Cynlluniau a Sefydlwyd/Ariannwyd**<br>Gweithio gyda'r sector rhent preifat.<br>Cynnydd yn nifer yr adnoddau ariannol ar gyfer atal digartrefedd.<br>Mwy o gymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau cyfryngu (Llamau)<br>Gwelliannau i TGCh.<br>Gweithiwr Asesu Ychwanegol ar gyfer Project Gateway.<br>Gweithiwr Ymyrryd i Deuluoedd (Solas)<br>Project Grymuso Ailsefydlu Carcharorion (PGAC – The Wallich)<br>**2016-17**<br>Yr arian pontio ar gael oedd £149,400.<br>**Cynlluniau a Sefydlwyd/Ariannwyd**<br>Gweithio gyda'r sector rhent preifat. |

| | |
|---|---|
| | Cynnydd yn nifer yr adnoddau ariannol ar gyfer atal digartrefedd.<br>Mwy o gymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau cyfryngu (Llamau).<br>**2017-18**<br>Yr arian pontio ar gael oedd £139,440.<br>Y cyllid a oedd ar gael yn ystod y flwyddyn - £199,615 (tua £99k o gyllid cyfalaf).<br>**Cynlluniau a Sefydlwyd/Ariannwyd**<br>Gweithio gyda'r sector rhent preifat.<br>Cynnydd yn nifer yr adnoddau ariannol ar gyfer atal digartrefedd.<br>Mwy o gymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau cyfryngu (Llamau).<br>Datblygu llwybr i lety pobl ifanc (partneriaid o blith landlordiaid cymdeithasol cofrestredig)<br>Datblygu Strategaeth Digartrefedd Gwent<br>Ymyriadau ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd (Eden Gate)<br>Project datblygu llety â chymorth (Llamau)<br>Cymorth ychwanegol ar gyfer gwasanaethau allgymorth i bobl sy'n cysgu ar y stryd (Wallich)<br>Menter gymdeithasol (Project Caffi Solas)<br>Datblygu lloches nos sydd ar gael drwy gydol y flwyddyn (Eden Gate) |
| **Torfaen** | **2016-17:** Y cyllid pontio ar gael oedd £91,800 a defnyddiwyd hwn yn bennaf ar gyfer atal digartrefedd trwy ddarparu bondiau a rhent ymlaen llaw i aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, neu i glirio dyledion ac ôl-ddyledion i alluogi aelwydydd i aros yn eu cartrefu eu hunain. Defnyddiwyd arian grant hefyd i gydariannu gweithiwr PGAC i weithio gyda phobl sy'n gadael y carchar a'u hailsefydlu.<br><br>**2017-18:** Y cyllid pontio ar gael oedd £85,680, wedi'i ddilyn gan £94,500 ychwanegol a ddarparwyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Defnyddiwyd cyllid i gynorthwyo aelwydydd i naill ai aros neu symud i lety er mwyn atal digartrefedd, yn ogystal â gwella systemau TG, cynnal hyfforddiant i staff a gwella'r llety dros dro a ddarperir i leihau'r defnydd o lety gwely a brecwast. |

Tabl 7.2.1 Gwybodaeth wedi'i chrynhoi a ddarparwyd gan bob un o'r awdurdodau lleol.

## 7.3 Pwyntiau Allweddol:

- Fel y crynhowyd yng Nghod Canllawiau 2016, "*bydd angen i gyllidebau digartrefedd awdurdodau lleol barhau i gael eu pennu er mwyn sicrhau y gallant gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd statudol, gan ystyried ymrwymiadau gan ddarparwyr gwasanaethau eraill*".
- Mae'n hanfodol i'r pum cyngor gydweithio'n fwyfwy â'u partneriaid i ddarparu

gwasanaethau digartrefedd statudol. Mae pob un yn wynebu cyni parhaus ynghyd ag ansicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer digartrefedd a Chefnogi Pobl. Mae hyn yn elfen allweddol wrth wraidd strategaeth digartrefedd newydd Gwent a chamau gweithredu sy’n deillio ohono.